

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Hywel Dafi • II

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Cyfarwyddwr

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

Golygydd y Gyfres

Ann Parry Owen, BA, PHD

Golygydd Ymgynghorol

† Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, DLITT, FBA

Bwrdd Golygyddol

Gareth A. Bevan, MA

Huw Meirion Edwards, BA, DPHIL

Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Yr Athro Barry J. Lewis, MA, MPHIL, PHD

GWAITH HYWEL DAFI . II

golygwyd gan

A. CYNFAEL LAKE



ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
2015

□ Prifysgol Cymru ©, 2015.
Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 978-1-907029-20-2 cyfrol I
ISBN 978-1-907029-21-9 cyfrol II
ISBN 978-1-907029-22-6 set o ddwy gyfrol

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol Prifysgol Abertawe.

Cysodwyd yng Nghanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

Cynnwys

RHAGAIR	v
BYRFODDAU	
Llyfryddol.....	xi
Termau a geiriau.....	xxv

GWAITH HYWEL DAFI · I

RHAGYMDRODD	1
TESTUN	

1. Moliant Gwilym Dew ap Hywel ap Llywelyn.....	65
2. Moliant Gwilym Dew ap Hywel ap Llywelyn.....	68
3. Moliant Gwilym Dew ap Hywel a Margred ei wraig	70
4. Moliant Hywel Dew ap Gwilym Dew ap Hywel.....	73
5. Marwnad Hywel Dew ap Gwilym Dew ap Hywel	75
6. Marwnad Rhys ap Hywel ap Dafydd.....	77
7. Marwnad Hywel ap Rhys ap Hywel.....	80
8. Moliant Morgan ap Rhys ap Hywel a Lleucu ei wraig.....	82
9. Marwnad tri mab Morgan ap Rhys ap Hywel.....	85
10. Moliant Gwilym ap Morgan ap Rhys a Dafydd ei frawd	87
11. Moliant Gwilym ap Morgan ap Rhys	89
12. Gofyn wyth ych dros Wilym ap Morgan ap Rhys	91
13. Moliant Tomas ap Siancyn Fychan ap Siancyn.....	94
14. Moliant Syr Morgan ap Rhys, ficer Merthyr Cynog.....	96
15. Moliant Hywel ap Morgan ap Dafydd a'i ddau frawd.....	98
16. Moliant Hywel ap Morgan ap Dafydd a Sioned ei wraig	100
17. Moliant Gwilym Fychan ab Ieuan ap Gwilym	102
18. Moliant Siôn Fychan ap Gwilym ap Ffyllib a Marsli ei wraig	104
19. Marwnad Gwladus Gam.....	106
20. Moliant Morgan ap Dafydd Gam ac Ieuan ei fab	109
21. Moliant i bedwar mab Morgan ap Dafydd Gam.....	111
22. Marwnad Ieuan ap Morgan ap Dafydd Gam	113
23. Moliant Dafydd ap Morgan ap Dafydd Gam.....	115
24. Moliant Maredudd ap Morgan ap Dafydd Gam	117
25. Gofyn cymod Maredudd ap Morgan ap Dafydd Gam.....	118
26. Marwnad Maredudd ap Morgan ap Dafydd Gam.....	120
27. Moliant Gwallter wŷr Dafydd Gam.....	123

28. Awdl foliant i Lewys Hafart	125
29. Awdl farwnad Gwenllïan Hafart.....	128
30. Marwnad Gwallter Hafart ap Siancyn Hafart Hen	131
31. Moliant Llywelyn ap Gwilym a Siwan ei wraig	133
32. Marwnad Llywelyn ap Gwilym ap Rhys Llwyd.....	136
33. Marwnad Llywelyn ap Gwilym a Siwan ei wraig	138
34. Moliant Siancyn ap Llywelyn ap Gwilym a Wiliam ei frawd	140
35. Moliant Tomas ap Trahaearn ap Gwilym	142
36. Marwnad Tomas ap Trahaearn ap Gwilym	144
37. Awdl foliant i Forgan ap Tomas Llwyd.....	146
38. Gofyn chwe ych dros Domas ap Siancyn ap Madog	150
39. Diolch i Domas ap Siancyn ap Madog am ŵn a dychan i Hywel Dafi gan Huw Cae Llwyd	153
40. Moliant Tomas ap Siancyn ap Madog ac ateb i Huw Cae Llwyd	155
41. Moliant Tomas ap Siancyn ap Madog (darn)	157
42. Moliant Ffyllib Fychan ap Tomas Fychan ap Ffyllib Fychan.....	158
43. Moliant Tomas Gwnter a Mawd ei wraig.....	160
44. Marwnad Owain ab Ifor ap Rhys.....	162
45. Moliant Gwilym ap Rhys a Syr Siôn ei frawd	164
46. Moliant Rhoser Fychan ap Syr Rhoser Fychan	166
47. Moliant Syr Rhoser Fychan ap Syr Rhoser Fychan.....	168
48. Moliant Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan.....	170
49. Moliant Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan.....	173
50. Moliant Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan.....	175
51. Moliant Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan a dychan i Fedo Brwynllys	177
52. Moliant Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan ac ateb Bedo Brwynllys	180
53. Moliant Syr Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan a dychan i Fedo Brwynllys	183
54. Moliant Syr Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan a diolch am ŵn.....	185
55. Moliant Syr Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan	187
56. Moliant Siôn Fychan ap Syr Rhoser Fychan	190
57. Moliant Siôn Fychan ap Syr Rhoser Fychan	192
58. Marwnad Siôn Fychan ap Syr Rhoser Fychan.....	194
59. Moliant Brycheiniog.....	196
60. Deisyf heddwch rhwng Morgannwg a Brycheiniog	199

NODIADAU

Cerddi 1–60	203
-------------------	-----

GWAITH HYWEL DAFI · II

61. Marwnad Tomas ap Siâms ap Syr Siôn Sgudmor	369
62. Moliant Tomas ap Ffelpod ap Rhys (darn).....	371
63. Dychan i Hywel Dafï gan Siôn ap Ffelpod.....	372
64. Gofyn cymod Harri Ddu.....	374
65. Moliant Harri ap Mil ap Harri a chyngor iddo.....	376
66. Gofyn cymod Syr Wiliam Herbert.....	378
67. Moliant Guto'r Glyn i Syr Wiliam Herbert a cheisio cael gan Hywel Dafï adael Rhaglan	382
68. Ateb Hywel Dafï.....	386
69. Moliant Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro	390
70. Moliant Wiliam Herbert, ail iarll Penfro	393
71. Awdl foliant i Edward IV ac i Wiliam Herbert, ail iarll Penfro.....	395
72. Cyhuddo Guto'r Glyn o ganu celwydd gerbron Morgan ap Rhoser	399
73. Ateb Guto'r Glyn a moliant Morgan ap Rhoser	402
74. Gofyn bydafau gan Lywelyn Goch ab Ieuan	404
75. Moliant Rhys ap Siancyn ap Rhys.....	407
76. Moliant pedwar mab Rhys ap Siancyn ap Rhys	410
77. Moliant Gwilym ap Tomas ap Gwilym.....	413
78. Marwnad Gwilym ap Tomas ap Gwilym	416
79. Moliant Gwilym ap Gwallter a Siwan ei wraig	418
80. Moliant Gruffudd ap Nicolas a'i ddau fab.....	420
81. Gofyn hebog gan Lywelyn Goch ab Ieuan dros Domas ap Gruffudd.....	423
82. Anfon y gleisiad i Ddilyn i annerch Owain Dwnn.....	428
83. Moliant Siôn Pilstwn Hen ap Siôn ap Madog.....	433
84. Awdl foliant i Wiliam Fychan ap Gwilym ap Gruffudd.....	436
85. Awdl foliant i Domas Gwyn ap Siancyn	440
86. Marwnad Ieuan ap Hywel Swrdwal.....	443
87. Moliant gŵr anhysbys o Lyn-nedd (darn)	447
88. Awdl foliant i Domas (darn)	448
89. Moliant Mallt a'i gŵr (darn).....	449
90. Awdl foliant i Siancyn ap Siancyn (darn).....	451
91. Awdl foliant i Ddafydd Llwyd (darn).....	452
92. Dau gwpled cywydd i wrthrych anhysbys.....	452
93. Moliant i'r ugain mil o saint yn Enlli ac i'r Abad Ieuan.....	453

94. Y llong.....	457
95. Moliant Cynog.....	460
96. Cywydd i Fair Forwyn	463
97. Cywydd i Fair Forwyn.....	469
98. Cywydd duwiol.....	473
99. Cywydd duwiol.....	476
100. Cywydd y nychdod.....	478
101. Cywydd i'r byd.....	481
102. I'r Grog yn Aberhonddu	486
103. Cywydd merch.....	492
104. Cywydd i'r olwg.....	495
105. Cywydd i wraig briod	497
106. Cywydd merch.....	499
107. Moliant merch lygadlas	502
108. Y clo	505
109. Gwenonwy.....	508
ATODIAD	
I. Moliant merch lygeitu	512
II. Erchi tarw du gan Ieuan ap Rhys dros Wilym Fychan	516
III. I Rufain a'i rhyfeddodau.....	521
IV. Cywydd i Fair Forwyn.....	525
V. Caru yn y gwely.....	531
VI. Drylliau a ddiogelwyd yn Llst 55	535
NODIADAU	
Cerddi 61–Atodiad VI	539
GEIRFA.....	715
Enwau personau.....	755
Enwau lleoedd	761
LLAWYSGRIFAU.....	765
MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU	777
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF	781

Marwnad Tomas ap Siâms ap Syr Siôn Sgudmor

Llenwid deigr fal Llyn Tegid,
 Llan-gain, mae'r llefain a'r llid.
 Ar ôl y gwin yr wyl gynt
 4 Yr ail oedd arwyl uddynt.
 Hindda fu 'mhob gwanhwynddydd,
 Drycin yng Nghaerfyrddin fydd.
 Gŵn Tomas am gant iemon
 8 A dry lliw y dröell hon.
 Sylfaen fu, Selyf un farn,
 Siâms, un goed Samswn gadarn.
 Ys hir aros yw'r awron:
 12 Aros o'r sir wŷr Syr Siôn.

Dydd rhôm cyn diwedd yr haf
 A luniagem wyl nesaf.
 16 Gŵyl Gain oedd i'm golwg i
 Gwener du gan wŷr Dewi.
 Cynnig henaer cyn canu;
 Colled am felfed ym fu.
 Hael oedd mab o hil Lawdden.
 20 Oes dyn hael a roes Duw'n hen?

Cwyno mae, cwyn am Owain,
 Gaerlleon Gawr garw Llan-gain,
 24 Arglwydd â gorwydd Garwy,
 Y gro o gylch i Graig Wŷ.
 Ai llai udlef gwŷr Llwdlo
 No gwŷr y dref wrth Gaer Dro?
 Swrn a reg y siwrnai'r aeth.
 28 Siwrnai weithion swrn waethwaeth.

Brwydr drom a ddoeth ar Domas
 A'i ewythr Siôn aeth i'r sias.
 Oes gwŷr yn un ysgrîn well,
 32 Esgyrn cedyrn hil Cadell?
 Ucha' gwaed, ardderchog wen,
 Gwedy Iorwerth gwaed Urien.

36 Ba uchaf fo'r pren afall
Mwya' yw'r cwymp am w'r call.

40 Meistr Harri sy'n gweddiaw;
Meistr fydd a llywydd rhag llaw.
Meistr eilwaith, mwstrai alon,
Rhisiart, air Edwart, o Rôn.

44 Anfon a wnaeth Siôn nos Iau
Singned o dynged angau.
Mae'r sis ar wŷr y Mars hwn;
Os garw fydd; nis gorfyddwn.
Ynial y lladd y niwl llwyd;
Ym min Lloegr yma y'n llygrwyd.
Enaid Ysgudmoriaid mawr
48 A wenwynodd yn unawr;
Brathau saethau o saethynt,
Byllt o dân gwyllt Owain gynt;
Cnau yng nghymalau milwyr,
52 Cnotiau o'r sugnau a'r sŷr.

56 Y mae i'r saint am wŷr Siôn
(Ac a noded) gan eidion.
Ni adai Dduw oedi'i ddwyn
Er y canllef a'r cynllwyn.
Ef aeth i wlad baradwys;
Nid âi o'r byd er ei bwys.
Ei gŵyn be bawn byw gannoës
60 Newydd fydd yn niwedd f'oes.

Ffynonellau

A—Pen 67, 43–8 B—Pen 99, 392–4 C—Pen 101, 273–5 D—CM 12, 221–2

Ffynonellau eraill

E—LlGC 670D, 6–7 F—Bangor 7268, 4–6

Amrywiadau

4 B–D ..iddynt 6 A ..ynghaer verin.. 8 D ..ei lliw.. 12 B–D ..os hir.. 17 A kyngic.. 21 A–C ..i mae.. 28 C ..swr.. 29 B–D ..ddaeth.. 34 C gwed.. 37 A meist.. 38 A meist.. 39 A meist.. 40 C ..ail Edwart.. 46 D ..yma n llygrwyd 48 C a wenwynodd.. 55 A ..oedi ddwyn

Moliant Tomas ap Ffelpod ap Rhys

Yr un geirwir angiriol
 A wna i wŷr yn ei ôl,
 Tomas wineulas yn wŷr,
 4 Tras ac urddas i gerddwr.
 Egin Ffelpod ni thlodynt,
 Ap Rhys, Hen Gyrys Siôn gynt.
 Amdanad y mae dynion
 8 Ein gwlad yn siarad fal Siôn.
 Dyrchaf gynhaeaf Hywel;
 Dyn doeth fydd danad a êl.
 Dy un tafod yn tyfu;
 12 Da i bawb o'r do y bu.
 D'un gair sy'n dwyn y gorau;
 Dwyn i'th ôl dy hŷn a'th iau.
 Wedy i'th dafod gyfodi
 16 Aeth olud Io i'th law di.

Bryd y tad fu am adail;
 Bryd Rys a'i briod yw'r ail.
 Mawr fu'r sôn am dŷ Ronwy
 20 O Fôn gynt; mae ar fin Gwy
 Cenglaid o dderw fal conglen,
 Coed llif fal plas Cadell hen ...

Ffynonellau

A—Pen 67, 282 B—Pen 99, 497–8 C—Pen 101, 371–2

Amrywiadau

4 BC ..ei gerddau 6 BC ap Rys.. 8 C in gwlad.., A ..y siariat.. 15 A wedy thdafod.. 20 BC [] gynt.. 21 A [] glaid o dderw.., BC konglaid..

Dychan i Hywel Dafî gan Siôn ap Ffelpod

- Brad fu 'mddiried i brydydd,
 Brad iddo fo o'm bryd fydd.
 Ban ddoeth gyntaf ataf i
 4 Y diefl gan Hywel Dafî,
 Ni ddoeth nos Iau i'm neuadd
 Gwaela' gŵr, er galw a gwadd,
 Nac er cariad, had didwyll,
 8 Arnaf ond er taeraf twyll,
 Ac o chwant gwylmabsant mau
 Ac ariant er berw geiriau.
 Mawr ei gest, cyd bai gwestiwr,
 12 Y bardd tew, led bwrdd y Tŵr,
 Ni châi badriarch, barch byth,
 Gorsedd fwy no'r gŵr garsyth.
- Gan gymhwysed, gweled gwŷdd,
 16 Gwedd ei awdl a'i gywydd,
 Rhois i'r bardd anwaharddol
 Swllt heb y nawswllt yn ôl.
 Llawen fu wên y cenau
 20 Gael tair grod yn ei god gau.
 Gwnaeth fi yn well no'r triael
 Ganwaith ar ei weniath wael.
 Dywad o'i chwedl diledlyth
 24 Na'm gadawai o'i fai fyth.
- Doeth ataf, diwith ytoedd,
 Lawer gŵyl, bardd annwyl oedd,
 28 Nes chwennych cael yn ael nod
 Rodd uwch am ei radd uchod.
 Yno'r aeth, ni bo caeth cas,
 O'm teml at fy mrawd Tomas.
 Da gweddai, hyd y gwyddiwn,
 32 I'r gŵr tew'r bardd â'r gair twn.
 Nid oedd dra chywir hirynt
 Un o'r ddau o'u geiriau gynt.

36 Bei gallwn, da gwyliwn gas,
Ail Lawdden iddo i`w luddias,
Ni châi, be bai yn ei ben,
Bôr ffyrf, y bara fferen,
40 Na cheiniog, annoniog nerth,
Na chain hug, na cheinhegwerth,
Na gair da ond garw a dig
Uwch y lan, na chylennig.

44 Nid hawdd cadw, bradw y brodid,
Brydydd, arth dedwydd, wrth did.
Be câi ganmorc o forcau
Gan arglwydd, neu swydd nos Iau,
48 Ceiniog ragor neu doryn,
Yr âi at was glas o`r Glyn.
Aed efô`n ôl diod fedd
I`r lle annwyl erllynedd,
A thros fod heb glod, heb glêr,
52 Ni fynnaf un o`i faner.
Och am Ieuan Gyfannedd!
Och, Dduw, na bai byw o`r bedd!
Efô gâi, erlynai lid,
56 Le Hywel. Ni leihëid.

Ffynonellau

A—Pen 67, 67–70 B—Pen 99, 400–1 C—Pen 101, 281–3 D—CM 12, 228–9

Ffynhonnell arall

E—LIGC 670D, 51–2

Amrywiadau

3 *D* ban gyntaf., *BC* ..ddaeth.. 5 *B–D* ..ddaeth., *C* ..iau neuadd 8 *B–D* ..o daeraf dwyll 10 *B–D* ..arian.. 11 *D* ..pe bai gwestwr, *BC* ..gwestwr 14 *D* ..gwarsyth 15 *D* ..gymwysed.. 21 *B–D* ..trihael 23 *B–D* dywawd nid chwedl.. 25 *D* daeth., *B–D* ..diwyth.. 28 *D* rodd wych.. 31 *B–D* ..gwyddwn 33 *B–D* ..hirhynt 35 *A* bai gallwn., *B–D* be gallwn.. 36 *AD* ..i lvdias, *BC* ..ei luddias 39 *B* ..anneniog.. 40 *A* ..cheinhagwerth, *BC* ..cheinhiegrwerth 42 *B–D* ..chalennig 45 *B–D* ..forkiau 54 *D* och yw.. 55 *D* ..erlyniai.. 56 *A* ..ni lei haid, *D* ..ni leheid

Gofyn cymod Harri Ddu

- Breuddwydio, 'n bur ydd ydwyf,
 Beunoeth wawd i bennaeth 'dd wyf,
 Wŷr Wilym, rym dan yr allt,
 4 Llwyd, gorwyr llidiau Gerallt.
 Hil Ifor, hael fu'i aras,
 Wyf yn ei blwyf a'i win blas.
- 8 Harri, pam yr wyf herwr
 O'i blas gwyn heb lias gŵr?
 Mi a'i gwn, ni wnafr mwy gêl,
 Mae achos imi ei ochel:
 12 Y ferch a roddaist ar faeth,
 Cawad eiry, i'm cadwriaeth,
 Gwladus, dy fugail ydwyf,
 A gollais i. Gwallus wyf.
 16 Be 'mai, gwen, ni bŵm gynnill,
 Ban oedais Einion Sais hil,
 Anghyfeillach yw f'achwyn
 Iarll du, mae arall i'w dwyn.
 20 Gweniaith a hud y gwnaeth hi;
 Gwnaeth ym hiraeth am Harri,
 Y gŵr du o gaer ei dad
 A'm diwallodd o'm dillad.
- 24 I'w blwyf pan ddoethum o'i blas
 Newydd yn nyffryn Euas.
 Gwladus, drwsiadus ydoedd
 Ac ar ei gost gorwag oedd:
 28 Dwywisg i mi a'm rhiaian,
 Dwywisg oedd i'n deuwag gain;
 Dy arian bychan heb au
 A maen aur i'n omnerau.
 32 Y ferch pan weles efô
 Heb lowdr, a mi'n ymbleidio,
 Dewis a wnaeth, dadmaeth dig,
 Gadw gwyddau gydag eiddig

- 36 Fal y gwnaeth, gwaeth fu ei gwedd,
Gwen a mab Owain Gwynedd.
Dewis gŵr du ysgyryd,
Gilmin hir gal mwy no hyd,
40 Gwladus, chwaer merch y maerwr,
Hon nid gwell er newid gŵr,
A'm gadaw, a'r llaw 'n y llall,
A gorwedd gydag arall.
Rhoi'n waddol fy rhan iddi.
44 A wnaeth hon annoeth yw hi.
Mi mal eiddig yn trigaw;
Yma nid rhydd myned draw.
- 48 Ewch Marged, Eluned lân,
Annes, brydyddes diddan,
Ceisiwch, a maddau'r cyswyn,
Gred i mi gan garw du mwyn.
O chaf, mi a roddafraith,
52 Garennydd y gŵr unwaith,
Na fynnaf yr haf yrhawg
Gadwraeth merch gedorawg.

Ffynonellau

A—LIGC 834B, 239–41 B—Pen 101, 160–1 C—BL Add 14969, 175^r–176^r

Ffynonellau eraill

D—BL Add 31070, 107^v–109^v E—BL Add 31084, 36^v

Amrywiadau

2 A–C boen noeth...bennaeth wyf 4 A ..llidiai., B ..Gorallt 5 C hil i fodd hael fv addas, AB ..fv aras 8 C yw blas.. 9 C ..ni wnn.. 10 B ..i mi ochel 11 C ..roddess.. 12 AB kawod.. 15 A–C be mae.. 17 AB ynghywaethach mwy., C anghowaethach.. 18 AB yr iarll dv arall.. 19 AC gweiniaith.. 20 A–C gwaeth.. 22 AB ym diwallodd.. 23 A–C oi blwyf., AB ..yw blas 28 AB ..yn dav wasg., C ..yn dav was gain 29 A–C y darian.. 30 C a men avr in om nerav, A ..annerav, B ..amnerau 32 C ..a min blodio 35 C ..gwaeth i gwedd 37 C ..esgyryd 38 B Silmin., AB ..na hyd 40 AB gwnn nad gwell.. 43 AB rhown waddol., C Roi'n oddol.. 46 AB ym nid rhydd yw myned.. 47 A ..ael vned., C ..eil lvned.. 49 C ..kyswy[] 50 C ..dv m[] 54 A ..gydorawg

Moliant Harri ap Mil ap Harri, a chyngor iddo

- Harri Mil, hwyr ym weled
 Y rhyw grair yn nhir o Gred.
 Aur y Tŵr a roir i ti
 4 Ar dy hur, wŷr dau Harri.
 Difai oedd gyff Dafydd Gam;
 Dos ar ôl dau Syr Wiliam.
 Â'r wyth osgl aur y'th wisgwyd;
 8 O'r wyth ach eu penrhaith wyd.
 Mil ap Harri, mal peran
 Y cair y gainc arwa' a gân'.
 Mawr yw sôn am wŷr sy iau;
 12 Mil wyn a'm cenmyl innau.
 Ei dad, gariad y goron,
 Yn benrhaith, hyd y bu 'n Rhôn.
- Ba ddrwg i bawb ddarogan
 16 Bod i'r wŷr o'r byd ei ran?
 Uwchaf o hil Addaf lwyd
 Ei wybodau'n fab ydwyd.
 Gwarae'n abl bêl a thabler,
 20 Gwahodd pawb â'i gywydd pêr;
 Chwilio â dwylo'r delyn,
 Chwarae dawns a charu dyn;
 Seigio 'ngwledd gŵr bonheddig,
 24 Saethu pan fo'r ddeulu'n ddig.
 O daw rhyfel wrth drefydd
 Hyd ar y Fâl dy dir fydd;
 Tir Ifor ddeutu'r afon
 28 A thir y swydd a thras hon;
 Breichiau Gwrgan 'Morgannwg,
 Blodau gwinllannau Gwaunllwŷg.
 Llwyn o Gaer Llïon a gaid,
 32 Llawr bordir llu Herberdiaid.
 Euas oll i'th esillydd
 A Dwywent fawr i'th dent fydd.

- 36 A genais i gannos haf,
 I'th hŷn gynt aeth yn gyntaf.
 Ef â weithian a ganwyf
 Yt, Harri Mil. Gŵr trwm wyf.
 40 Pa les o daw Saesnes hir
 I baradwys ein brodir?
 Ni charaf, anaf unoed,
 Gŵys o'r iaith gasa' erioed.
 44 Ai mawr i chwi fod merch wen
 Oedrannus o had Ronwen?
 Na fyn o'th fodd bes rhoddynt.
 Nid gwell ei chymell no chynt.
 48 Cymer ferch Cymro farchawg,
 Aur i gyd ei war a'i gawg.
 Cais ferch addfain ugeinmlwydd
 Ac na chais ferch Sais o'r swydd.

- 52 Os dyfod i'th ystafell
 Nid a' i'm hoes o'th dai 'mhell.
 Hwde y bêl hyd y bych,
 Hwdau finnau pan fynnych.
 Helia herwyr, hil Harri,
 56 Hebog i'r twysog wyt ti.

Ffynonellau

A—Pen 67, 161–4 B—Pen 99, 433–5 C—Pen 101, 310–12 D—CM 12, 258–60 E—BL Add 31070, 44^r–46^r

Ffynonellau eraill

F—LIGC 670D, 71–2 G—Bangor 7268, 75–6

Amrywiadau

1 *E* ..ymweled 2 *A* ..yn hir.. 3 *C* au y twr.. 10 *ABDE* ..arwa gan 12 *E* ..an cenmyl.. *C* ..ceinmyl.. 16 *A* bod yr wyr or byt y ran 17 *B–E* vchaf.. 19 *A–C* gwarev.., *E* gware.. 20 *A–D* gwaodd.., *E* ..ar gywydd.. 21 *B–D* ..dwylaw delyn 22 *A–C* chwaraav.., *E* chware.. 24 *C* ..ddelu.. 25 *A* o dav ryfel.., *D* ..ryfel.. 27 *E* ..deutu.. 30 *C* ..gwinllan.. 32 *B–E* ..brodir.. 35 *E* ..ganoes.. 39 *B–D* ba les.. 43 *A* a mawr.. 50 *DE* ..ir swydd 52 *E* ..ith dai.. 53 *AB* hwdav.. 54 *B–E* ..ban.. 55 *E* ..herwr.. 56 *E* ..i twysog..

Gofyn cymod Syr Wiliam Herbert

Hardd Wiliam, hoyw urddolwaed,
 Herbard, ystiward, nos daed,
 Arglwydd Rhaglan, seithran serch,
 4 Hyd yno hwde annerch.
 Tre'rtŵr yt oll, ŵr, a Llan
 Deilo, danad y dalian'.
 Gwayw, a Nudd Gefenni wyd,
 8 A tharian, da y'th eurwyd.
 Tëyrn ar helgyrn yr haf,
 Tywysog ar Went Isaf.
 Mwyn yw fy ngorchymyn i,
 12 Mwyn wrthywch, Mynwy ierthi.

I'r plas er na lyfasaf
 Anfon anerchion a wnaf
 At frig y pendefigion
 16 Oll y sydd yn y llys hon.
 Anerchaf yr ystafell
 Wen a'i gwŷr, ni wn ei gwell,
 A'r neuadd, tair gradd tŷ'r Grog,
 20 A'i channwr a'i pherchennog.
 Ystiwart i'th lys duwiol
 A wna swyddogion i'w ôl.
 Bord Gron Gaerllion a'i llu,
 24 Ni'th dalai hon a'th deulu.

Bai yno lle bŵm annwyl,
 Baun ar Went, na bawn yr ŵyl.
 Pana buon' yn onest,
 28 Gytŷn iawn, Guto a Nest?
 Haeru wrth ei chynghori
 Ym daro Nest o'm dwrn i.
 I ddiawl fyth ydd êl o'i fodd
 32 Y ddwyllaw a'i meddyliodd.
 Eithr gwedy, feth ergydion,
 Ym drwy chwant ymdrech â hon.

- 36 Ôl dwrn a welad arnaf
 Wedy nos; ei wadu a wnafl.
 Parod, er nas dirperwyf,
 I roi gwad i'r faerwraig wyf.
 Y neb a wnaeth y sebon
 40 A'i chwaer ffydd fu'n chwarae'r ffon.
- Chwithau, arglwydd, ni chaethir
 Ym na'ch tai yma na'ch tir.
 Edrych, wr, o dra chariad,
 44 Lafar da doeth, lyfr dy dad.
 Bwrw nis gwnâi, rhoi barn nis gwnaeth,
 Am hanner chwedl, 'y mhennaeth
 Nes clybod, cydfod eu cwyn,
 48 Y ddeuchwedl a'r ddau achwyn.
 Duwolaidd oedd yd, Wiliam,
 Fwrw gwg ar a fai ar gam.
- Addaf o wlad baradwys,
 52 Efa a'i dug, feiau dwys.
 Mi yw Addaf, 'mai oeddym,
 Efa yw Nest a wnaeth ofn ym.
 Angel praff mal Seraffin
 56 Wyd dros Went a wtres win.
 Seraffin llid, sarff yn llaw,
 Sedd a ddanfones iddaw.
 Cymun Addaf a gafas,
 60 Cynhwyllion a gwreiddion gras.
 Anfoned o nef einym
 Dri gair da drwy gariad ym:
 Gair unwaith o garennydd,
 64 Gair gobaith, f'anrhaith ym fydd.

Ffynonellau

A—Llst 6, 189–92 B—Stowe 959 [= RWM 48], 147^v–148^r C—Card 5.44,
 201^{r-v} D—Llst 134, rhif 287 E—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 352–3
 F—LIGC 6511B, 113^r–114^r G—LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams
 4], rhif 296 H—LIGC 13061B, 118^v–120^r I—BL Add 14976 [= RWM 22],
 185^v–186^v J—Pen 101, 243–5 K—BL Add 14969, 173^v–174^v L—LIGC
 18B, 313–15 M—Card 3.2 [= RWM 27], 283^r–285^v N—LIGC 13079B,
 72^v (*llau. 43–50 yn unig*)

Ffynonellau eraill

O—Card 4.10 [= RWM 84], 800–1 P—BL Add 31070, 7^v–10^r Q—J.R. Hughes 5, 298–301

Amrywiadau

1 *A* ..yrddowaed 2 *A–M* herbart ystiwart.. 3 *AB* ..raglan.., *C–HKM* ..Raglan.., *C–F* ..saithlan.. 4 *A* hed.., *C–EGH* hyd yna hwday.., *FI–L* hyd yna.. 5 *IJL* tref y twr oll.., *M* tre twr oll.., *B* ..twr oll.., *C–H* ..oll yt.. 6 *ABM* dailio.., *I–K* devle.., *L* deulu.., *B* ..dalann 7 *A* gwayw nydd gyfain wyd, *IJL* gwaew nvdd y gywenni.., *K* gwaew nvdd.., *M* gway.., *C–H* ..vy nvdd.. 8 *AKM* ath arian.., *C–HJL* au tharian.. 9 *AI–L* ..yr helgryn.., *C–H* ..ir helgryn.. 10 *BM* an tywssog.., *C–H* twysog wyt ar.. 11 *J* mwy yw.., *M* mwyn y wn gorchymynn i 12 *IJL* mwyn orchwyl mae mwy n erchi, *K* ..wrthych mae mwy n erchi, *C* ..airchwaith.., *E* ..aurchwaith.., *B* ..mynna y erchi, *M* ..muna i erchi, *AC–H* ..erchi 13 *A* er plas.., *BM* ych plas.., *B* ..lavassaf, *AC–H* ..lefasaf, *M* ..lafaraf 14 *AC–HM* ..anerchon.., *B* ..u nerchon u wna, *A* ..y wna 15 *BM* [15–16] 16 *C–H* ..a sydd.. 18 *D* ..gwr.., *IJKL* ..i mewn y gell 19 *AI–L* ay nayadd.., *K* ..tv r grog 20 *C–H* a channwr.. 21 *BM* [21–2], *A* ..dwyl 22 *A* y sy gwna swyddog ny ol, *C–H* a sydd gwna swyddog ny ol, *K* ..yn i ol 23 *I–L* + i, *I–L* bort.. kaerllion.., *DH* ..a llv 24 *A* ny thalai..ay thayly, *C–H* ..yth deulv 25 *A* bym vno ba yn anwyl, *BIJLM* bym uno lle bym annwyl, *C–H* bai ym yno bvm.., *K* bvm yno lle i bvm.. 26 *I* bai yna ar went.., *J* bai yno ar went.., *K* bai yw ar went na bwy.., *L* bai n oer went.., *M* bay n ar went lle bym r wyl, *B* ..lle bym yr wyl, *F* ..ar wyl 27 *ACFG* pyna byon.., *BI–M* am na.., *DE* pan na.., *H* pryd na.., *M* ..byom.. 28 *B* ..y gitto.. 29 *BI–L* haerwyd.., *M* aurwyd.. 30 *BI–M* ..am dwrn.. 31 *C–H* i ddail.., *AIJLM* ..a ddel.., *B–HK* ..y ddel.. 32 *A* y ddwylio.., *B–J* y ddwyllaw.., *M* ay ddwyllaw.., *ACG* ..meddylloedd, *B* ..u myddylloedd, *M* ..meduloedd 33 *BM* ..gwedy r meth.., *I* ..gwedi y fath.., *J* ..wedi y fath.., *L* ..gwedi r fath.., *D* ..peth.., *G* ..egidion 34 *M* ..chwant n drecha hon 35 *BM* [35–6], *F* ..welaf.., *I–L* ..welid.. 36 *CH* ..y nos.., *AEL* ..wady wna, *K* ..i wna 37 *K* ..er nas disperwyf, *C–H* ..darperwyf 38 *M* a roi gwaed.., *H* ..i vaerwraig.., *K* ..i faer gwraig.. 39 *BM* [39–40], *F* ..wnaeth sebon 40 *A* chwaer.., *GL* a chwaer.., *A* ..or ffon, *EI–L* ..chwarav ffon 41 *K* chwithie.. 42 *AC–H* yma ych tai ym.., *K* ..dai..dir 44 *ABM* lafr.., *I–K* lafr.. 45 *N* bwrw gwc nis gnai roi barn.., *D* bwrw nys roi barn.., *ABF–HM* ..roi barn.. 46 *A* ..amhenaeth, *K* ..fymhenaeth, *M* ..ym pen aeth 47 *C* mes klybod.., *B* ..kyfnod u kwyn, *M* ..cyfnad u cwyn, *N* ..kyfnod.., *AC–LN* ..y kwyn 49 *A* dwy voliaidd.., *B* dyvoled.., *C–H* duwoliaidd.., *N* dywvoliaidd.., *M* du foled.., *IJL* duwiolaidd oeddyd.. 50 *A* ..er a fai.., *BM* ..er u vai.., *C* ..y vai.., *K* ..gwg ar fai.. 51 *L* ..paradwys 52 *L* efe.., *BM* ..ddivaia dwys 53 *IJL* [53–4], *ABM* ..may.., *CE–HK* ..mav.., *D* ..mae.., *BM* ..oyddynt 54 *K* efa nest llei gwnaeth.., *C–H* ..nest gwnaeth.., *B* ..u wna ovan ynn, *M* ..a wna ofan ynt 55

BM [55–6], *IL* ..fal.. 56 *A* ..went wtres.. 57 *B* syr raffin llin., *IK* siarassin., *M* Syr Raffin lin., *K* ..yn y llaw 58 *B* ..u danvones., *M* ..y danfones.. 59 *M* 60–59, *B* ..u gavas.. 60 *AD–H* kniwillion., *BM* knywillon a gwraiddon., *C* kniwillion gwraiddon a gras, *IJL* knewyllion., *D–G* ..gwraiddon.. 61 *I–L* anfonwch., *B* ..emmynn, *M* ..e myn 62 *BM* tri..ynn 64 *A* ..vamaith., *I–M* ..fanrhaith a fydd

i

Treilliaid a gwawd trvlliaid gwin
tyrrv kogav tair kegin

Trefn

I–L 1–22, + *i*, 23–36, 39–40, 37–8, 41–50, 57–60, 51–2, (53–4 yn *K*), 55–6, 61–4

*Moliant Guto'r Glyn i Syr Wiliam Herbert
a cheisio cael gan Hywel Dafî adael Rhaglan*

Mawr yw dysg (yno mae'r da)
 Mwynwyr o wlad Sermania:
 Mynnu o waelod grodir
 4 Mwyn aur tawdd, a minio'r tir.
 Mae aur ym yn 'y mro iach,
 Oes, ac arian segurach:
 Mae cwarel aur, mae caer lân,
 8 Greiglwyth i'r gŵr o Raglan.
 Mwy fy rhent lle mae fy rhi
 No'r mwyndir o Normandi,
 A mwy fy nghyflog bob mis
 12 No dau fwynwr hyd Fenis.
 Syr Wiliam, gwrser olwyn,
 A rôi erioed yr aur ynn.
 Af i Raglan at f'annwyl,
 16 Aed y traed hyd ataw'r wyl.
 Af i lys—nefawl osai—
 Herbart wych: hir y bo'r tai!
 O fewn awr wyf un oroen
 20 Â Phawl, gweles nef a phoen.
 Gwelaf innau gwal feinin,
 B'radwys Gwent, Bwrdiaws y gwin,
 A phoen herwyr, ffyn hirion;
 24 I'r rhai ffeils rhôi warae â ffon.
 Troes gŵr rhag treisio gwirion
 Tros Went fal y Preutur Siôn.
 Marchog yw meirch a gwewyr,
 28 Mwy ei wledd no mil o wŷr.
 Mawr fu 'n Israel gaffaeliad,
 Mwy no dim, Salmon a'i dad;
 Am ynys Went mwy yw'n sôn
 32 A'r ddau Wiliam urddolion.
 Ni wŷs eisiau 'n y sesiwn
 Ei dad doeth o dywaid hwn.
 Nid cryf i Gaerdyf o daw,
 36 Nid nerthawg undyn wrthaw.

Ni aned, myn y nawnef,
 Marchog aur mor wych ag ef,
 Na Syr Gei, na Syr Gawen,
 40 Na Syr Ffwg, na Syr Raff hen.
 Ei dyrnau a'i gadernyd
 A yrr bw ar wŷr y byd.
 Gadu o'r Iesu rosyn
 44 A'r glain aur o Raglan ynn!

Gwawdydd i'r marchog ydwyf
 Ac erioed prydydd gŵr wyf.
 Hywel, un o'r Deheuwyr,
 48 Hwn ni chân haeach i wŷr,
 Moli merched mal Meirchiawn;
 Moli gwŷr, mwy elw a gawn!
 Ni fawl Hywel ryfelwr
 52 Na dyn gwych, onid un gŵr;
 Ni chyrch i Wynedd, ni chân,
 Ni threigl unwaith o Raglan.
 Nid saethydd beunydd bennod
 56 Y dyn ni wŷl ond un nod;
 Y ci ni helio rhag haint
 Onid carw, hwn nid cywraint;
 Nid gŵr heb newid gware;
 60 Nid llong heb fyned o'i lle;
 Brawd heb gerdded y gwledydd,
 Ei bregeth oferbeth fydd!
 Ai crupl yw acw o'r plas
 64 Na cherdda (fynych urddas)?
 Ai ancor yw? Pam y câi rodd?
 Os ermid, cafas ormodd.
 Mi a rown dalm o'r ynys
 68 Er ynnill hwn o'r un llys.
 Gweiddi maent gywyddau mêl
 I'm tuedd am wawd Hywel.
 Och am rai (o chaem ei ran!)
 72 A'i twyllai o Went allan
 Fal y twyllwyd (wrth fwyd fu)
 Y Sais aeth i lys Iesu!
 Aed y bardd i rodiaw byd,
 76 Awn innau yno ennyd.
 Eled i Fôn, y wlad fau,
 I Efenni yr af innau.

Ffynonellau

A—Bangor 17569, 162–4 B—Bangor 5945, 79–84 C—Bangor (Mos 5), 6^v–8^v D—BL Add 12230 [= RWM 52], 49^v–50^r E—BL Add 14882 [= RWM 31], 74^v–75^v F—BL Add 14969, 212^v–214^r G—BL Add 14971 [= RWM 21], 188^v–190^v H—BL Add 31056, 82^v–83^r I—BL Add 31061, 136^r–137^v J—BL Add 31092, 82^v–85^v K—Brog I.1, 89^v–91^r L—Brog I.2, 248^v–249^v M—Card 2.114 [= RWM 7], 222–4 N—Card 2.630 [= Haf 20], 116^r–117^v O—Card 2.68 [= RWM 19], 755–8 P—Card 3.2 [= RWM 27], 305–9 Q—Card 3.37 [= RWM 20], 120–2 R—Card 5.44, 156^v–157^r S—CM 5, 83–5 T—CM 27, 219–20 U—CM 200, 193–5 V—Gwyn 5, 34–7 W—J 101 [= RWM 17], 330–1 X—J 137 [= RWM 12], 51–4 Y—J.R. Hughes 5, 283–7 Z—LIGC 428C, 193–7 A—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 294–5 B—LIGC 1247D, 88–91 C—LIGC 3050D [= Mos 147], 143–6 D—LIGC 3051D [= Mos 148], 183–5 E—LIGC 3056D [= Mos 160], 20–2 F—LIGC 3057D [= Mos 161], 131–4 G—LIGC 5282B, 1–4 H—LIGC 6511B, 164^r–165^v I—LIGC 13062B, 360^v–362^v J—LIGC 16964A, 74^v–75^v K—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 522–4 L—LIGC Mân Adnau 55B [= Abertawe 1], 6–7 M—Llst 123, 210–12 N—Llst 133, rhif 568 O—Llst 134, rhif 325 P—Llst 155, 134–6 Q—Pen 63, 17–20 R—Pen 83, 1–2 S—Pen 103, 53–5 T—Stowe 959 [= RWM 48], 152^{r-v}

i

nid ansawd bwyd o vnsaig
nid ymhelythyn yr vn wraig

ii

gwell J gwelais J treissiaw
na bwrw trwyth heb rhaid draw

Trefn

R 43–66, 69–78
M 1–4, 11–30, 33–4, 37–56, 59–60, 65–6, 61–4, 69–70
S 1–6, 9–30, 43–4, 33–42, 45–56, 59–60, 57–8, 61–2, 69–70, 63–68, 71–8
T 1–22, 27–30, 33–4, 31–2, 43–4, 35–42, 45–66, 67–8, 69–78
ABHLQTWBLQZ 1–23, 26–30, 33–4, 37–62, 65–6, 63–4, 69–78
Y 1–23, 26–30, 35–6, 33–4, 37–62, 65–6, 63–4, 69–78
N 1–22, 25–30, 33–4, 37–58, + *i*, 59–62, 65–6, 63–4, 69–78
E 1–22, 25–30, 33–4, 37–60, + *i*, 61–2, 65–6, 63–4, 69–78
D 1–22, 25–42, 45–56, 59–60, 57–8, 61–2, 69–70, 63–8, 71–8
P 1–22, 27–8, 33–4, 31–2, 43–4, 35–42, 45–78
G 1–24, 27–8, 25–6, 29–50, + *ii*, 51–62, 65–6, 63–4, 67–78
CE 1–24, 27–8, 25–6, 29–62, 65–6, 63–4, 67–78

FM	1-24, 27-8, 25-6, 29-30, 33-4, 31-2, 37-58, 60-59, 61-2, 65-6, 63-4, 67-78
FX	1-24, 27-8, 25-6, 29-56, + <i>i</i> , 57-62, 65-6, 63-4, 67-78
I	1-24, 27-30, 33-4, 37-52, 27-8 (<i>o ateb HD</i>), 55-62, 65-6, 63-4, 69-78
K	1-24, 27-30, 33-4, 37-50, 55-62, 65-6, 63-4, 69-78
UJP	1-30, 33-4, 37-66, 69-78
RA	1-32, 35-6, 33-4, 37-62, 65-6, 63-4, 67-78
NHIO	1-32, 35-6, 33-4, 37-62, 65-8, 63-4, 69-78
SV	1-42, 45-6, 43-4, 47-60, + <i>i</i> , 61-2, 69-70, 63-8, 71-8
CK	1-42, 45-6, 43-4, 47-56, 59-60, 57-8, 61-2, 69-70, 63-8, 71-8
DGJ	1-42, 45-6, 43-4, 47-56, 59-60, 57-8, + <i>i</i> , 61-2, 69-70, 63-8, 71-8
O	1-42, 45-6, 43-4, 47-8, 50-49, 51-6, 59-60, 57-8, 61-2, 69-70, 63-8, 71-8

Ateb Hywel Dafî

- Rhyfedd ydyw arfeddyd
 Rhai da o'r beirdd: rhodio'r byd;
 Hely gŵyl o hael i'i gilydd,
 4 Helynt iwrch o helynt hydd;
 Newidio ôl un a dau,
 Anwadal yw'r newidiau.
 Treiglaw a fynnant lawer
 8 Trwy'r byd fal troi ar y bêr.
 Treiglent a rhodient yr haf;
 Tua Rhaglan y treiglaw.
 Ymlyniad llei moliannwyf
 12 Ar ôl mab Syr Wiliam wyf.
 Nid af i newidio ôl
 Syr Wiliam dros yr eilol.
 Hyddgi da, hawdd ei gadw ef,
 16 A ddilid yr un ddolef;
 Ar y gainc ni wŷr y gog
 Ond un llais, edn lluosog;
 Brenhinedd, ni wedd uddun',
 20 Yr India, enw da ond un.
- Ni bwyf fyw, ni bo ei fam,
 Nos ar ôl enw Syr Wiliam.
 Ni phair ym Gymro na Ffranc
 24 Dewi am Herbard ieuanc.
 Efrog, er nad ysgarwyf,
 Aur a gwledd un arglwydd wyf.
 Ni chyrchaf ddŵr dros afon
 28 Er un saig o'r ynys hon.
 Naw seler nis cymerwn
 Islaw'r haul am seler hwn.
 Bwrdiaws Nudd yr Herberdiaid,
 32 Baiwn chwaer heb win ni chaid;
 Gasgwin, gynefin yfed,
 Glyn Rhin drwy Raglan y rhed.

- 36 Holl Gymru berchentyaeth
I'r un tŷ ym mro Went aeth.
- Bryd swrn o baradwys Went
 'Y nhwylo; hyn ni allent.
40 Un o feirdd, yno a fu,
 Gwynedd, yn cenfigennu.
 Gweled mewn felfed, mwyn fu,
 A sidan fy nhrwsiadu;
44 Gweled fy muddugoliaeth
 Gan un pendefig a wnaeth.
 Medd ef, tu yma i Ddyfi,
 Guto, myn gyty â mi.
 Nid trwy sôn ond trwy synnwyr
48 A thrwy deg f'ethrod a wŷr.
 Cynnig aur ym, cawn ei gred,
 Yma i Wynedd er myned,
 A cheisio rhoi iddo 'rhawg
52 Fy lle innau fal llwynawg.
 Minnau, er da creiriau Cred,
 Ni fynnaf o nef fyned.
- Od oes nef ar ddaearen
56 Mae 'n y graig mewn y gaer wen.
 Aed ef i newidio ôl;
 Ni fudaf o nef fydol.
 Fy mryd sydd ar gadw fy mro
60 Ac atal ffrwyn y Guto.
 Bryd y gŵr, bwriadai gam,
 Sy ar olud Syr Wiliam.
 I Went y dwg yntau daith
64 A damwain od â ymaith.
 Nid oes onid ymgroeswn,
 O daw, rhag hir drigo hwn.

Ffynonellau

A—Bangor 5946, 84–6 B—Bangor 17569, 164–5 C—Bangor (Mos) 5, 8^v–10^r D—BL Add 12230 [= RWM 52], 50^{r-v} E—BL Add 14882 [= RWM 31], 75^v–76^v F—BL Add 14969, 214^{r-v} G—BL Add 14971 [= RWM 21], 190^v–191^v H—BL Add 31056, 83^{r-v} I—BL Add 31061, 137^v–138^v J—BL Add 31092, 86^r–88^v K—Brog I.1, 89^r L—Brog I.2, 249^v–250^v M—Card 2.68 [= RWM 19], 758–60 N—Card 2.114 [= RWM 7], 225–7 O—Card 2.630 [= Haf 20], 117^v–118^v P—Card 3.2 [= RWM 27], 309–13 Q—Card

3.37 [= RWM 20], 123 R—Card 5.44, 157^v S—CM 5, 86–8 T—CM 27, 220–1 U—CM 200, 195–6 V—Gwyn 5, 38–41 W—J 101 [= RWM 17], 331–2 X—J 137 [= RWM 12], 54–6 Y—J.R. Hughes 5, 287–90 Z—Llst 123, 213–14 A—Llst 133, rhif 569 B—Llst 134, rhif 326 C—Llst 155, 136 (*llau. 1–8*) D—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 295–6 E—LIGC 1247D, 91–3 F—LIGC 3050D [= Mos 147], 146–9 G—LIGC 3051D [= Mos 148], 185–7 H—LIGC 3056D [= Mos 160], 22–3 I—LIGC 3057D [= Mos 161], 134–6 J—LIGC 6511B, 165^v–167^r K—LIGC 13062B, 362^v–363^v L—LIGC 16964A, 75–6 M—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 524–7 N—LIGC Mân Adnau 55B [= Abertawe 1], 7 O—Pen 63, 20–2 P—Pen 83, 3–5 Q—Pen 86, 317 R—Pen 103, 55–7 S—Stowe 959 [= RWM 48], 152^v–153^v

i

nid ansod bwyd orvnsaig
nid ymheithvn yr vn wraig

ii

i went ennyd i tynnaf
ynte dynn i went o daf

Trefn

Q	55–66
C	1–8
AH	1–4, 7–12, 27–8, 31–2, 29–30, 35–6, 39–66
L	1–4, 7–12, 15–22, 27–8, 31–2, 29–30, 29–30, 35–6, 39–66
W	1–4, 7–12, 15–22, 27–8, 31–2, 29–30, 35–6, 39–66
H	1–4, 7–12, 15–22, 25–[26], 27–8, 31–2, 29–30, 35–6, 39–66
G	1–4, 6–5, 7–13, 58, 15–24, 27–36, 55–6, 53–4, 37–40, 45–8, 43–4, 41–2, 49–52, 57–66
Q	1–6, 9–12, 15–22, 25–32, 39–56, 59–66
BTE	1–12, 15–22, 25–32, 39–56, 59–66
A	1–12, 15–22, 25–8, 31–2, 29–30, 35–6, 39–66
I	1–12, 15–16, 13–14, 17–28, 31–2, 29–30, 33–58
O	1–12, 15–22, 25–28, 31–2, 29–30, 35–6, 39–66
U	1–12, 15–22, 27–8, 31–[32], 29–30, 33–6, 39–58
L	1–12, 15–22, 27–8, 31–2, 29–30, 33–6, 39–58
Z	1–12, 15–16, 13–14, 17–28, 31–2, 29–30, 33–58, 59–66
P	1–12, 17–20, 23–4, 21–2, 27–8, 31–2, 29–30, 33–6, 39–40, 61–2, 41–54, 37–8, 65–6, 59–60, 55–8
P	1–12, 15–22, [<i>bwlch ar gyfer dwy linell</i>], 27–8, 31–2, 29–30, 33–6, 39–58
N	1–12, 15–22, 25–8, 31–2, 29–30, 35–6, 39–44, 46–45, 47–66
I	1–12, 15–22, 31–6, 39–40, 43–58
N	1–12, 15–22, 25–8, 31–2, 29–30, 33–6, 39–66

- S 1-12, 15-20, 23-4, 21-2, 27-8, 31-2, 29-30, 33-6, 39-40, 61-2,
41-54, 37-8, 65-6, 59-60, 55-8
- Y 1-12, 15-20, 23-4, 21-2, 25-8, 31-2, 29-30, 33-6, 39-40, 61-2,
41-54, 37-8, 63-6, 55-8
- ORBJK 1-12, 15-20, 23-4, 21-2, 25-8, 31-2, 29-30, 33-6, 39-40, 61-2,
41-54, 59-60, 37-8, 63-6, 55-8
- D 1-12, 15-20, 23-4, 21-2, 25-8, 31-2, 29-30, 33-6, 41-54, 59-
60, 37-8, 63-6, 55-8 (*collwyd rhan o'r tudalen cyn ll. 41*)
- F 1-14, 27-36, 55-6, 53-4, 37-40, 45-8, 43-4, 41-2, 49-52, 57-8,
25-6, 59-60
- M 1-18, + *i*, 19-24, 27-36, 55-6, 53-4, 37-40, 45-8, 43-4, 41-2,
49-52, 57-8, 25-6, 59-62, + *ii*, 63-6
- DGJSVM 1-24, 27-36, 55-6, 53-4, 37-40, 45-8, 43-4, 41-2, 49-52, 57-8,
25-6, 59-66
- R 1-24, 29-36, 55-6, 53-4, 27-8, 37-40, 45-8, 43-4, 41-2, 49-52,
57-8, 25-6, 59-60, 63-6
- C 1-28, 31-2, 29-30, 33-58
- FX 1-28, 31-2, 29-30, 33-66
- K 15-22, 25-8, 31-6, 39-40, 43-58
- E 1-28, 31-2, 29-30, 33-52, 59-62, 53-8, 63-6

Moliant Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro

- Os byr oed dydd, os brut hen,
 A chronigl achau Ronwen,
 Hir y trig, a hwyr eu tranc,
 4 Brut newydd Brytwn ieuanc.
 Ninnau a wnawn, un o'n iaith,
 Ail gronigl i Loegr unwaith.
- Iarll hir y deellir hwn,
 8 Penfro,—ato pwy'n Frytwn?—
 Arglwydd mwyn, eurgledd Mynyw,
 Hawlfordd oll, hael a phrudd yw.
 Yrl Wiliam, wŷr Lywelyn,
 12 A geidw'r tir ac Edwart ynn.
 Rhyw iawn oedd, wraidd yr hen iaith,
 Daleithio dy dâl wythwaith.
 Dau neu dri dyn o Droea
 16 Yn blant oedd un blaned da,
 Arthur, yn filwyr, un fam,
 Elis-ander a Wiliam.
- Gair Wiliam mewn gwrolaeth
 20 Mal ydd oedd ddeuddengmlwydd aeth.
 Ei glod ar hyd Gwlad yr Haf
 A'i ofn gynt a fu'n gyntaf.
 Da fu i'r dug, Deifr a'i digient,
 24 Lithio'r gwŷr eilwaith ar Gent.
 Treiglo o Gent i Raglan
 Trwy ddŵr i Dre'rtŵr, drwy'r tân,
 A chael heddwch o eiloed,
 28 Nid o garn onid o goed.
 Sorri eilwaith Syr Wiliam,
 O Goentry cael Gwent rhag cam.
 Galw dros fôr gwŷr a orug
 32 A rhoi ar dor Harri'r Dug,
 A chynnig, Wyddelig ddart,
 Ben yr asen i Risiart.

- 36 Ennill Lloegr â'i un llygad
I Edwart wyn wedy'r tad.
Anwig yn un frenhiniaeth,
Wigmor, Iorc, holl Gymru aeth.
- 40 Dofes a'i wŷr, difasw wedd,
Darenni daear Wynedd.
Iarll ond ef â'r llu nid â
Ar wddf Eryri wyddfa.
- 44 Dau, er ei chael, dri a chwech,
Un dan harddlun yw Harddlech.
Neud rheiol sis, nid rhyhir
Un wrth hon o fôr a thir.
- 48 Tynnu â gwŷr, tynnau gwin,
Peiriannau fal mab brenin;
Uchel ewri â chlariwns
A tharfu gwŷr â thwrf gwns;
- 52 Saethu 'mhob porth, seithmil pen
Â'u bwa o bob ywen;
Clod wellwell, cludo allan
Goed mawr yn ffagodau mân.
- 56 O wartha'r rhain wrth yr hwyr
Arfogion âi ar fagwyr.
Trwy'r tair gwart, Herbart hirborth,
Tynnu'r pum capten o'r porth.
- 60 Enillodd, un ewyllys,
Y brenin lech Bronwen lys.
Darogan, wiwdan odech,
Y dôl'r llew a'r neidr i'r llech,
- 64 A rhoi gwŷr Harri o'u gwart
A chadw heddwch Edwart.
Gwynedd, gwnaen' feddyginiaeth,
A Môn yn wystlon a wnaeth.
- 68 Cymro a wna Cymru'n un
O deyrnoedd Lloegr aed arnun'.
Aeth â'r carn, ni thorrir cyd,
Ef â â'r llafn, fy iarll, hefyd.

Ffynonellau

A—LIGC 1553B, 57^r–58^r B—Card 4.101 [= RWM 83], 143^v–144^r C—BL Add 14976 [= RWM 22], 278^v–280^r D—Pen 101, 248–50 E—Stowe 959 [= RWM 48], 177^r–178^r F—Brog I.2, 408^v–409^v G—LIGC 3056D [= Mos

160], 357–9 H—J 101 [= RWM 17], 541–2 I—LIGC 16B, 190–3 J—LIGC 18B, 721–3

Ffynonellau eraill

K—Card 3.2 [= RWM 27], 431–5 L—Card 4.10 [= RWM 84], 258 M—Gwyn 7, 23–7 N—LIGC 9176B, 37^v–39^r O—LIGC 1987B [= Pant 18], 80^v–82^v

Amrywiadau

1 *E* ..oes bryd., *B–DGJ* ..brud., *FHI* ..bryd.. 2 *B* ..iachau., *EH* ..a chay., *G* ..rhonwen 3 *ACDFH–J* ..hwyr yw tranc, *BE* ..hwy yw r trangk 4 *AEFH* bryt., *I* bryd.. 5 *E* minay., *BE* ..yn vn iaith, *I* ..on vn iaith 7 *D* jar hir., *B* ..devhellir.. 8 *BE* ..eto.. 10 *A* Hwlphordd., *B* hwyl fforth., *E* howlffordd hael., *H* ..ffryd.. 11 *J* earl.. 12 *B* ..y tir., *J* ..y tri., *AEFH* ..yn 13 *F–H* rhiw., *J* a rhyw., *ACDF–J* ..oedd ir hen., *B* ..yn yr hen.. 14 *E* dalaitho.. 16 *C* vn blant., *A* ..o blanel., *H* ..dda 17 *B* a myr., *I* ..vilwr.. 18 *BE* alexander.. 19 *A* ..myw.. 20 *A* ..deugain mlwydd., *FH* ..yn ddevddeng mlwydd., *I* ..deuddegmlwyd.. 21 *B* ai glod., *E* y glod., *I* ..ar haf 23 *ABEFHI* da vu r duc., *CDGJ* dav fv r dvg.. 24 *C* lithro., *EF* llithio.. 25 *B–J* ..o went., *D* ..o Raglan 26 *ACDF–HJ* drwy ddwr., *B* trwy r dwr., *I* drwy dwr., *EG* ..o dre r twr.. 28 *B* ..gam.. 30 *ABDJ* ..gwintri., *B* ..i kael., *I* ..rag.. 31 *G* ..gwyr oruc, *E* ..orig 32 *I* a roi., *E* ..ar dir., *D* ..dig 33 *EI* ..dart 34 *AI* ..ar assenn., *B* ..or assen.. 35 *E* ..yn hyn llygad 36 *B* ..hynn., *I* ..dad 37 *CDJ* anwir.. 38 *A* ..Gemry., *EI* ..gymry.. 39 *B* ..di salw., *E* ..divasswy oedd, *I* ..ved 40 *B* da ranav., *CJ* darenai., *I* ..vyned 41 *E* ..aeth 42 *E* ..eryr u widdva, *I* ..wdyf..wydua 44 *E* yn harddlyn ydiw n harddlech, *I* yn dau hardlun yw hardleth, *A* ..hardlech, *B* ..i harddlech, *F* ..harlegh, *H* ..harlech 45 *E* [45–6], *FH* nend., *A* ..rhiol., *CDIJ* ..riol., *H* ..reiol., *A* ..sidsis., *B* ..six., *CDF–H* ..sigis., *I* ..figis., *J* ..sids., *CDFH–J* ..ryir 46 *G* fy wrth honn., *I* vy., *A* ..hwnn.. 47 *E* tynn a gwyr u tonnay gwin, *AC–J* ..tonnau.. 48 *B* perianav.. brein 49 *E–H* ywchel., *J* uchel aerawd., *B* ..owri., *I* ..chariwns 50 *FH* a tharfur gwyr., *I* a tharruw.. 51 *DJ* ..mhol porth.. 52 *E* a bwae., *B* ..a ffob e owen 54 *E* koed., *B* ..fagadav., *H* ..a ffagadav.. 55 *E* [55–6], *AIJ* o wartha r hain., *B* o waith ar rhain., *FH* ..y rhain.. 56 *B* arfogion ar y fagwyr, *CF–I* ..ai ryfagwyr, *DJ* ..ai ir fagwyr 58 *A* ..pemp., *E* ..pymp., *I* ..pen., *G* ..ir porth 59 *E* enillodd vn yw wllys, *C* ..vn o wllys 60 *C* y brenhinlech., *E* u brenin bronnyw u brys, *I* ..leth.. 61 *AB* ..o dan., *CDF–J* ..adan.. 62 *F* i dori r llew.. 63 *I* ..roi., *B* ..yw gward, *E* ..ai art 64 *J* ..i Edwart 65 *B* gwenedd gwnan., *I* gwyned.. vediginiaeth, *F–H* ..gwaen.. 66 *I* ..bystlon.. 67 *A* Cembro..Cembru., *EI* ..kymry.. 68 *ACD* ..dernoedd., *B* ..deyrnwaed., *E* ..deirmioedd., *G* ..dernoedd., *J* ..deyrnedd., *I* ..dernoedd aed.. 69 *A* ..na.. 70 *E* e var llavan yr jarll., *J* ef ar llafn..

Moliant Wiliam Herbert, ail iarll Penfro

4 Y iarll hydr a wŷr Lladin,
 O Gymraeg a gaem ei rin,
 Traul mawr y tri Wiliam aeth
 I'w dreulio'n dy wrolaeth.

8 Heb wayw ymwan na maneg
 Hir y bu'r tir, Herbart deg.
 Oed oedd ddyfod o Ddafydd
 Gam wŷr i'n rhoi, Gymry, 'n rhydd.
 O ach Cradog y'ch credynt
 Ac o wreiddyn Godwin gynt.
 Y don nid aeth dan y dŵr;
 12 Nid âi'ch tad o ach Tewdwr.
 Dy dâl, Rhôn a'r Fâl, a fedd,
 Dwylath hen, dalaith Wynedd.
 Hŷn yw dy wreiddyn drwyddaw
 16 No'r gwŷr o Dre'r Garrai draw.
 Eu cynfigen a'u chwennych
 A gais gwall ar bob gwas gwyh.
 Cefndyr a brodyr mewn braw,
 20 Hwyltau, wylliaid, i'n twyllaw.
 D'estronion pan gilion', gant,
 Dy genedl yw'r digoniant.

24 Yr ordd drom yw'r Meistr Tomas
 A bair y cwymp i rai cas.
 Myned rhwng main a'u trangai;
 Ei bren ar risg a brŷn rhai.
 Nes elin yn dilyn d'ôl
 28 No'r arddwrn i wŷr urddol.
 Na ro d'aelod er d'elyn,
 Er bod i'th ethrod, a'th ddyn.
 Na fwrw un nos fâr i ni
 32 A'th ddigasog i'th gosi.
 Gedwch, os heddwch y sydd,
 I gyd-dyfu goed Dafydd.

36 Chwi'n ben ac yn gapten Gwent,
Yntau'n fraich deau Dwywent.

O gwnewch faes rhoch a'r Saeson,
Uwchlaw'r rhiw uchel arhôn',
Cymer dy nifer dan un
40 Cyn addef d'amcan uddun'.
Saetha 'n y bwa neu baid
Y sy i'th ddwrn o saeth ddyrnaid.
Gwna'r gwaed fal y gwin o'r gwŷdd
44 Un llif Noe â llafn newydd.
Tyn rai bob blwyddyn o'u plant;
Dy nesaf a dynasant.
Os draw'r ewch â mwstr o Rôn
48 Hyd ar ddaear Iddewon,
Od wyd ing ar dy dynged
Efo â'r groes fawr i Gred.
Uchel yw'r haul uwchlaw'r rhod;
52 Nid wyd is wedy d'osod.
Môr Rudd nid mwy ei wreiddyn,
Môr Tawch yng Nghymru wyt ynn.
Chwi a dynnech chwe dinas
56 Wrth eich troed o nerth eich tras.
Trowch i gyd rhag trochi gwan;
Tair o oesoedd ni'n treisian'.

Ffynonellau

A—Pen 67, 204–7 B—Pen 99, 456–8 C—Pen 101, 333–5 D—CM 12, 278–80

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 17–18 F—Bangor 7268, 17–19

Amrywiadau

3 *A* travr mawr.. 4 *A* y drevlyo n wrawlaeth 6 *B–D* ..herbert.. 8 *A–C* ..gymrv.. 9 *A* ..kradodoc.., *D* ..Gradog..gredynt 13 *D* ..rhom.. 15 *C* ..yw wreiddyn.. 17 *A* y kynvigenn.., *B–D* y gynfigen.. 24 *C* a bair cwymp.., *A* ..kwypn.. 25 *D* ..tregai 26 *A* y brenn a risc.., *B–D* i bren a rhisg.. 29 *A* ma ro d aelod.., *B–D* parod d aelod.. 30 *A* er bod ith ethod athyn, *B–D* ..ethrod.. 36 *A* ..vraic.. 38 *A–D* vwchlaw rriw..ar honn 40 *B–D* ..iddvn 42 *A* y sy thwrn.., *B–D* y sy th ddwrn a saeth.. 43 *B–D* ..fel.. 44 *A–D* yn llif.., *D* ..ar llafn.. 46 *A* ..a dynyssant 48 *B–D* ..Juddewon 50 *A* e va r groes.., *B–D* ef a ar groes.. 51 *AC* ..ywchlaw r hot 54 *A* ..wyd hynn 55 *A* ..hwe dinas

*Awdl foliant i Edward IV
ac i Wiliam Herbert, ail iarll Penfro*

- Y sydd ac a fydd ac a fu—o sant
A santes yng Nghymru,
Ac yn Lloegr rhag ein llygru,
4 A wnêl troi dydd y tarw du.
- Porth Iesu i'r tarw du, a'i daid—o dylwyth
Cadwaladr Fendigaid;
Porth Mair trwy weddi offeiriaid,
8 Penfro yw'r iarll pan fo raid.
- Rhaid oedd i'r gweiniaid ddaroganu—mab
I ymwybod â Chymru;
Daw, er ei lywiaw a'i lu,
12 Fal y tus fawl at Iesu.
- Cai fawl, Duw nefawl, da nifer—fawrglod,
Cadw f'arglwydd a'i froder;
Mair catwo rhag clwyfo clêr,
16 O Ben-rhys, feibion Rhoser.
- Meibion Mair a Non, i'n ynys—y dêl,
Adolwyn yt ydd ys
Lywio'r iarll hael a'i wŷr llys
20 A'i drillew drwy ei 'wyllys.
- Tri llew gwyn a fyn yn ei faner,—gowls
A glas yn ddau hanner;
Y Tri sy Un yn troi sêr
24 Dan nef i'w gadw a'i nifer.
- Nifer a weler yn rheoli—Ffrainc
O lewod ieuainc a alwo Dewi;
Duw, gwna'n un ffortun â pharti—Herbart
28 A phair i Edwart ei phriodi.

- Cadwo'r holl saint ei fraint a'i fri—a'i stad
 Ar ôl y tyniad o'r lateni;
 Ni bo na chaffo arnoch chwi—Ffrancod
 32 I warae gorfod o'n arfod ni.
- Porth bo i'w curo, cury—y Saeson,
 I Edwart o Rôn un Duw a'r Tri;
 Santa Maria, fy Mair i,—geilw fo,
 36 Pob Cymro, honno wrth ei henwi.
- Am deirgwart Edwart, cyfody—ei waed ef,
 Fihangel o nef, fy nghalon i;
 Raffael i'w drafael i'w drefi—lle dêl,
 40 Gabriel ac Uriel i'w hagoni.
- Anfonaf, galwaf fi Geli,—r gerdd hon,
 Yr holl engylion i'w hanfon hi;
 O'n tir o gellir n'ad golli—un gŵr,
 44 Ieuan Fedyddiwr, od wyd ŵr, di.
- I ddart praff, Edwart, a'r proffwydi—'n blaid
 A'r padriarchiaid, Pedr i'w erchi;
 Pawl, Tomas, Andras, hendri—apostawl,
 48 Y ddau Iago, mawl a ddug i mi.
- Mae'r Mab Rhad arnad drwy werni—Ffrainc deg,
 Llywia â'th ddeuddeg llu aeth iddi;
 Myfyriwn, gwyliwn bum gweli—Jesus,
 52 Marcus, Mathëus rhôm a thewi.
- Ni ato yno o ynni—caswyr
 Yr Efangylwyr ar fy ngweli;
 Bid Ystyffan, lân Lini,—Sain Dwnstan,
 56 Bid Alban ar ran ei rieni.
- Blas insens, Clemens, cael i mi—fy ngwyn,
 I wyrthiau'r rhai hyn nerthu'r rheini;
 Erasmus, Morus, Mawri,—Sebastian,
 60 Ffabian, nid oedd wan dy ddaioni.
- Aeth Edwart a gwart o'i gerti—trwy'r dŵr,
 Sain Denis, da ŵr, sy 'n d'ynys di;

- 64 Etifedd mawredd meiri,—Sain Lewys,
Ac yn ei ynys gwn ei enwi.
- 68 Llesg wyf on'd ydwyf yn dodi—'n ystig
Ar gleuwydd Gurig arglwydd Geri;
Gobeithio iddo, weddi—lwyddiannus,
Ei rym wrth Iorus a'r merthyri.
- 72 Dafydd wyrth a fydd wrth ddofi—Lewys
A gatwo'r ynys rhag trueni;
N'ad, Dingad ddoniad, ddinodi—gwlad Goel,
Deinioel a Seirioel rhag ei sorri.
- 76 Cadw, Beuno, Llonio, Llwni—a Phedrog,
Mwrog a Llawddog, llu aeth iddi;
Gwnaeth Awstin o'r gwin ac o wynni—'r fflŵr
A dŵr, da nawddwr, aed i'w noddi.
- 80 Colwmbart, Cwbart, bo Cybi—wrth raid
A'r conffectoriaid, plaid i'n pobli;
Martha ac Anna ac enwi—Dwynwen,
Mair Fadlen a Gwen i'w ddiagoni.
- 84 Sain Annes, Aeles, Iuli—a Neustas
O gas hwnt a las, a Saint Luwsi,
Nertha, 'r wir Farbra wŷr Ferbri—â thras,
Rhag gynnu â gras, rhag gwayw neu gri.
- 88 Merched Brychan lân sy 'ngoleuni—nef
I'w hail-droi adref i wlad Rodri;
Erglywed, Fargred, fawrgri—gwlad Frython,
A'n holl wryddon, ein llwyr weddi.
- 92 Moesent a mwstrent, fy meistri,—a'm rhent,
Ym i ynys Went *omnes santi*,
A'n brenin o lin haelioni—a gras
O ryw y dyrnas a roed arni.
- Dinistred, naded heb nodi—un dydd
A fydd ac y sydd o gas iddi.
- Y sydd ac a fydd ac a fu, &c.

Ffynonellau

A—Pen 100, 109–13 B—Llst 133, rhif 36 C—CM 12, 412–16 D—LIGC 2023B [=Pant 56], 386–91

Amrywiadau

8 *D* ..pan fai raid 9 *AB* ..gweniaid., *A* ..ddarganv.. 14 *B* ..frodyr 16 *C* ..Rhossier 19 *A* blywio., *B–D* llywio.. 21 *A–D* ..giwls 28 *C* ..o Edwart.. 29 *A* ..holsaint.. 31 *C* na bo., *BD* ..ni chaffo.. 32 *ABD* y gwarae., *C* yn gwarae.. 34 *C* er Edwart., *A–D* ..y Duw.. 37 *C* ..codi.. 39 *C* ..ai drefi., *AB* ..lle y ddel 40 *B* ..rhagori 41 *ABD* ..galwaf i geli., *C* ..ar Geli.. 42 *A–D* ..angylion.. 44 *B* ..wyt.. 45 *C* ei ddart., *D* ..or prophwydi.. 46 *A–C* ar padriarchaid.. 47 *A–D* ..hen dri.. 48 *A–D* ..i mi 51 *A–D* ..Jessu 52 *ACD* ..Romathewi, *B* ..Rema thewi, *C* ..Matheusa Mathewi 53 *C* na atto.. 55 *A* ..Lin.. 57 *A–D* ..insent Clement., *A–E* ..cael i mi., *C* ..fy nghwyn 58 *C* o wyrthiau rhai hyn nertha rheini, *B* ..nertha.. 59 *C* ..Mwri.. 60 *B* ..oes wan.. 61 *B* ..a gart., *D* ..ai gerti.. 71 *D* ..Coel 73 *A–D* ..lluwni., *D* ..Pedrog 74 *C* ..Llawddog y llu iddi 75 *C* ..o win., *D* ..o win o wynni.. 76 *D* ar dwr.. 77 *B* ..kubart.. 78 *ABD* ..yn pobli, *C* ..iw pobli 79 *C* ..Dwynen 80 *ABD* ..ei ddigoni 81 *D* saint., *C* ..Ales.. 83 *C* ..Fabra.. 86 *C* ..y wlad., *ACD* ..Rhodri 89 *A* ..a mws[] fy meistri..

*Cyhuddo Guto'r Glyn o ganu celwydd
gerbron Morgan ap Rhoser*

- 4 Darogan fydd a ganwyf,
Dyn ni thau, diweniaith wyf.
Rhai a wnânt, enwant anwir,
Gerdd goeth heb gyfwrdd â gwir.
Minnau ni wn, myn Anna,
Gwneuthur dim gweniaith er da.
8 Eos gwŷr hael, os gwir hyn,
Â Guto nid wyf gytyn.
Y Guto, gwenieithio a wna
O chwant cael ariant clera.
Enwi angor dan gorun
12 Yn Nudd hael—ni weddai hyn;
Gwannwr bychan ei gynnydd,
Wrth roi'r farn Arthur a fydd.
- 16 O! Dduw, oes a ddewisai
Ei foli byth fal y bai?
Oes gun ni ddewis gweniaith
A gâr gwawd gywir ei gwaith?
Mawr fydd i'r Morfa ei wg,
20 Morgan winllew, mur Gwenllwg,
Bydaf Roser ab Adam
Byw, 'n wych yw, bôn iawn a cham.
Cemais hil, cymwys hawlwr,
24 Cymen ac aren yw'r gŵr.
Cerdd a fyn, carodd fy iaith,
Ac ni fyn gennyf weniaith.
- 28 Canmolwn, ben-cun milwr,
Y campau gorau i'r gŵr:
Rhaglaw chwyryn, rhugl yw a chall,
Rhin orig yw'r rhan arall.
Nid triniwr rheolwr rhus,
32 Nid rhylew ond rheolus;
Nid rhy gybydd, gelfydd gael,
Ni wna traha, nid rhyhael;

36 Ni bydd dig o genfigen,
 Nid â barn ehud o'i ben.
 Gŵr un fetel â'r garreg,
 Doeth yw a chaled a theg.
 40 Tëyrn, i defyrn nid â,
 Ei draul a gymedrola.
 A dreulio llaw iddo, wŵr,
 Dwy a'i cynnull, da cannwr.
 44 Mawr ei draul fal môr ar draeth;
 Mwy yw'r elw am wrolaeth.
 Gofyn cerdd o waith Merddin,
 Gwylio a gâr, a galw gwin.
 48 Ei gasbeth a'i argosbion
 Gŵr meddw serth a gormodd sôn.

Cof a rydd cyfarwyddyd
 Morgan i bedwar ban byd.
 Awdur cerddorion ydyw;
 52 Arfer y glêr ofer yw.
 Deall llawer, dull ewybr,
 O nen hyd yn niben wybr.
 Nid gwaeth y dywaid, nid gau,
 56 Bedeiriaith no'i baderau.
 Ni chymer mewn awch amwyll
 Ar air teg oreuro twyll.

60 Pwys y Guto, pes gatwn,
 Gwenieithio a hudo hwn,
 Sôn am gael rhoddion rhuddaur
 A chanu twyll o chwant aur.
 64 Mae erioed, ffel yw 'mrawd ffydd,
 Mal y bradwr, moel brydydd.
 Diwedd pregeth a deuair
 Brawd—erchi cerdawd y'i cair.
 68 Gwell pregeth difeth dafod
 Guto'r Glyn, doctor y glod.
 Gwin fydd diwedd a gano,
 Gwrdd fydd, ac aur iddo fo!

Ffynonellau

A—BL Add 12230 [= RWM 52], 79–80 B—BL Add 31070, 89^r–92^r C—
 Brog I.6, 234^v–235^v D—Card 2.114 [= RWM 7], 493 E—Card 5.44, 159^v–
 160^r F—CM 12, 58–60 G—J.R. Hughes 5, 291–4 H—Llst 134, rhif 334

I—LIGC 428C, 387–91 J—LIGC 673D, 278–80 K—LIGC 970E
 [= Merthyr Tudful], 299–300 L—LIGC 5269B, 135^r–136^v M—LIGC
 6511B, 175^r–176^v N—LIGC 13062B, 349^v–351^r O—LIGC Mân Adnau
 1206B [= Tanybwllch], 185–6 P—Pen 77, 364–7 Q—Pen 99, 182–5 R—
 Pen 112, 455–8 S—Pen 152, 251–4

Ffynhonnell arall

Bangor 7268 (*dim rhif tudalen*)

Trefn

C 1–16, 19–50, 53–66, 69–70

O 1–8, 13–16, 19–50, 53–66, 69–70

Ateb Guto'r Glyn a moliant Morgan ap Rhosier

Ewch yn iach, ni chwenychaf
 Ganu i neb, ac iawn a wnaf,
 Gan amled yw gweled gwŷr
 4 Gwynion yn genfigenwyr.
 Hywel gwyn, holi gweniaith
 A'm beio y bydd am bob iaith.
 Medd ef, myfi a ddyfod
 8 I'r medd glas ormodd o glod,
 Gweniaith ddigon i gannwr
 A chelwydd ar gywydd gŵr.
 Ni cheisiaf, o chanaf chwaith
 12 Wedy gwin, wadu gweniaith.
 Minnau'n dyst, ni mynnwn dwyll
 Mewn gweniaith, myn y gannwyll.
 Pe bai gyfion pob gofeg,
 16 Beth yw gweniaith ond iaith deg?
 O thraethir y gwir a'r gau,
 Y gair tecaf yw'r gorau.
 Ni thraethir y gwir i gyd
 20 Yn llyfr nac unlle hefyd.
 Traethai gerdd, truth yw a gwanc,
 Tawed Siôn y Cent ieuanc!
 Cywydd heb gelwydd a gân,
 24 Gwnaeth waeth no gweniaith weithian:
 Prisio Morgan ap Rhosier
 Y bu ar glod, bwa'r glêr;
1 *EH* ..or dyellir 2 *B* ..vel., *G* ..felyna., *BE-H* ..hyd.. 3 *F* a buddar., *ACDH* ..Rybuddio 4 *A-DFG* ..vo 5 *EH* 6-5, *ACD* wrer., *B* berer., *E* geyrei., *F* gyred., *H* geirau.. 6 *C* bwy., *E* bydd awr y vo byddar y vydd, *F* ar fedday fo yn fyddar fydd, *H* byddar a fo byddar a fydd, *G* ..efo.. 7 *A-D* pan weler., *F* pen..y poen., *G* ..ir poen.. 8 *G* ..gwyr.. 9 *EH* ..ym dibryd, *G* ..nim dybryd 10 *E* ..gwr ymeder., *F* ..gwr oymadeg y gyd, *H* ..gwr medr.. 11 *EFH* ..y vo.. 12 *EH* anaf yr byd.. 13 *F* ..meaddig.. 14 *A-D* ..dyn gwych onyd., *EFH* ..gwiw.. 15 *EFH* ..val y perthyn, *G* ..fal i perthyn 18 *EFH* ..o nef., *G* ..ai dianaf 19 *A-D* gen teg., *F* gwyn., *EH* duw.. 20 *BEFH* ..y gyffesaf 21 *F* addafa., *G* ..yw ddofydd, *H* ..yn ddofydd 22 *H* pwy saith., *F* ..y saith., *A-D* ..a sydd 23 *EH* ..y gely 24 *EH/F* ..a balchedd am by / y bu 25 *F* ..tlawd cnawd., *A-DFG* ..i gwnaid, *EH* ..i gneid 27 *EH* ..derwen., *F* ..dayarwr., *A-D* ..dewr arw 28 *C* kynghorfyn., *EH* kynghorwynt keinge., *F* cynghorfaint ceinge., *A-FH* ..hirfarw 29 *EH* [29-30], *F* ..pen., *G* ..pen dorais dig 30 *ACD* gairav., *B* gair deddf.. 31 *F* ..di y gffwyf 32 *E-H* duw vry.. 33 *BGH* ymar., *E* yn ar..n awr., *F* y mae ar..mawr yw hwyl, *A-D* ..mawr ywnghwl 34 *F* madde weithed ame, *H* maddeu im., *G* ..bechod.. 35 *A-D* a gyrr vi er y gwr., *E* ag yr vy., *G* [] a fedd, *F* ..y fedd 36 *A-D* i gyrraidd dy drigaredd, *F* ac eiriol ym drigaredd, *EH* ac iriat.. 37 *F* mayr ywnel ymieli, *B* ..wry wnel., *EH* ..a wnel moli 39 *A-E* kaised., *F* ceisedyrn fedd., *H* ..feddygon or faeth 40 *A-D* a gwainaid., *E* a gweined., *F* a gweinion., *A-E* ..veddiginaeth 41 *DI* ny by.. 42 *F* yn iach na bo yndo., *A* ..arnoe., *C* ..ag yndo., *I* ..heb arno.. 43 *E* ..or dolwc., *H* ..er dolwg.. 44 *E* twyllawdr., *F* duall awdyr balch ddyll y bud, *G* dyllawdr., *H* twyllwr..yw r byd 45 *A-D* [45-46], *FG* rhag., *E* ..na.. 46 *E* ac na da., *F* nyd a vn wedd heybio yn wir, *H* hebddo ni a neb., *G* ..o dir 47 *F* [47-8], *G* ef addaw.. 48 *H* a chwedl., *I* gwn y chwedl., *A-D* ..choedl.. 49 *EHI* gwyn vyd y dyn., *F* gwyn fyd dyn gwnfyd da, *I* ..dyfyn da 50 *A-H* gwirionedd., *I* a gwirion., *E* ..y gair., *F* ..y gar.. 51 *A* yna i gwelid., *B-D* yma i gwelid., *EH* ..y gwelir., *F* ynar golyd yn gelwydd, *G* yna golyd., *I* yno.. 52 *CI* ..anfwynawg., *EF/H* ..kyvoythawc y / a vydd, *G* ..kyfoethawg.. 53 *F* ..tryan y ganed, *G* ..drvain yw gwanned 54 *A-D* a gwainon., *E* gwinion., *F* gweinion..o gred, *G* gweinion..yn y gred, *H* gweinion..eu cred, *I* ..an gryfion., *E* ..ny gred 55 *A* ..venheddig.. 56 *F* ar claf.. 57 *EFH* naws y bawb.. 58 *A-DF* vradychw., *AF* ..y vrawd., *B-D* ..i vrawd., *E* ..y vrad bechod, *H* ..i frad pechod, *I* ..ei frawd.. 59 *HI* ..Crist., *F* ..gread, *I* ..cred 60 *EF/H* yndi / ynddi yn sickir nyd., *G* ondi sikir., *I* a sicr yw.. 61 *F* [61-2], *EH* ..diserth vydd, *G* ..gwerth serth y sydd, *I* nid gwarae gwerth yn serth sydd 62 *I* na gobaith yw i., *A-D* ..gobaith., *E* ..gwabar., *G* ..gober., *A-EH* ..gebydd 63 *BD* ny Rydd., *EH* ny ry.. 64 *A-CI/D* nef er i ofn / er ofn nav Ryvig, *FH* ..Ryvig 65 *A-DFG* ..chaiff eithr.. 66 *BC* ..na chollo., *E* ..chollo y gred, *H* ..chollo r gred, *F* ..y gread

Cywydd duwiol

- Y Gŵr y sydd ar groes wen
 A dyfiasai'n dŷ Foesen,
 Y Grog ddelw dan graig Ddiwlais
 4 A'r galon don yn dy ais,
 Ni bydd ar glaf, anaf O,
 Heb ei llun i'th ball yno.
 Ni buoch awr heb iacháu
 8 Y claf gwan o'r clwyf gynnuau.
 Fo glyw byddar ddyn arall,
 Fo wyl yn d'emyl ddyn dall.
 Nid oes gof na dysg a wŷr
 12 Ar a wnaethost er neithwyr.
 Echydig o bechadur
 Ar dy gorff a wŷr dy gur,
 Un dyn byw yn dwyn bywyd,
 16 Awr ba hawr ni wŷr ba hyd.
- Tri darogan arganfu
 Y sydd, a fydd ac a fu:
 Tri dial ynn trwy dy law;
 20 Tro hebom y tri heibiau.
 Rhyfel yn ôl marwolaeth,
 Newyn i wŷr a wna'n waeth.
 Gwerin aml, gwŷr yn ymladd,
 24 Gwenwyn ym mhob llwyn yn lladd.
 Bryd ar Sais mewn brwydr y sydd,
 Brad yn gwyliad ei gilydd.
 Ni wn, bei profwn bob rhai,
 28 Yn y dafl un ai difai.
- Y gwaed o'th fru gyda'th fron
 A droist unwaith dros dynion.
 Ni'th welir byth o lawr bedd
 32 Mewn dy irwaed mwy 'n d'orwedd.
 Dyn a buro Duw'n barod,
 Dydd y Farn rhaid oedd ei fod.

36 Ni bydd cadarn yn farnwr
 Na dyn o goed ond un gŵr.
 Ni roed hoel i'th wryd di
 Na bu dynnas byd arni.
 40 Nis gwyl lladron aflonydd,
 Ni'th welai'r dall wrth liw'r dydd.

Mawr fu gwyn y Forwyn fain
 Yn dwyn galar Duw'n gelain.
 44 Mwy fydd cwyn a gynllwynwyd
 Êl, fal dur, Hywel, i'r rhwyd.
 Ceisio nef rhag cas a wnânt,
 Eisio cyffes nis caffant.
 Ni ddwg câr faich dyn arall,
 48 Ni wyl wr llên weli'r llall.
 Mwya' baich ym heb iechyd
 A chynta' baich chwant y byd.
 Ni boch ddig o'r baich a ddêl
 52 Heb iachâu baich Hywel.
 Dyn o gorwedd dan gerrig
 Dan dy draed, un Duw, a drig.
 Dwyn yr wyd ynn, bob dyn, rodd,
 56 Dwyn pren a'r gwaed a'n prynodd.
 Dy dŷ di, fal Duw dy Dad,
 Ni bydd dragywydd gaead.
 Fal y mae'r ddôr egored
 60 Y bo'r llall ynn, bawb, ar lled.

Ffynonellau

A—Pen 67, 84–8 B—Pen 99, 403–5 C—Pen 101, 285–7 D—CM 12, 231–3

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 54–5 F—Bangor 7268, 56–8

Amrywiadau

2 B–D a dyfasai n dy i Voesen 6 D ..ar ball.. 7 B–D ni bu och.. 10 B–D ..yn dymyl.. 13 B–D ychydic.., D ..ar bechadur 16 A ..byhawr.., BCD ..ba awr.. 17 A ..ar gannv 20 A ..hebon.. 22 B–D ..a wnai waeth 26 A ..gwylyad yw gilydd 27 B–D ..be profwn.. 28 BC ..vn ai dofai, D ..un iawn difai 31 A ..welwir.. 32 A ..mwy n orwedd 37 B–D ..wrhyd.. 38 B–D na bai.. 46 B–D eisiau.. 48 A ..wely r llall 49 D ..ymhob iechyd 51 C ..er baich.., A ..y ddel 52 D ..beichiau Howel 55 A ..yn bob.. 56 A ..prnodd 59 D ..agored

Cywydd y nychdod

Gorweddiog y gorweddaï;
 Gwae'r un corff gwirion a'i câi.
 Myn f' Arglwydd, hanner blwyddyn,
 4 Ni chwimiais i 'r chwemis hyn.
 Ni bu'n glaf neb un glefyd,
 Ni bu arnaf haf un hyd.
 Ni welwn onid niwlach,
 8 Ni welid ym aelod iach.
 Fy mhoen a ddug ym henaint;
 Addas ym weddio saint.
 I Gynog mi a genais;
 12 Gwanhau am hyn mae'r gwayw i'm hais.
 Cynfab, gorau mab i mi,
 Nos Sul anfonnes eli.
 Cathen a wnaeth ym ennaint,
 16 Mal Seth, ugeinmil o saint.

Am y ddelw y meddyliaf
 A weryd clefyd y claf.
 Mae 'mryd roi fy hyd i hon
 20 O gŵyr lliw, hyd Gaerlleon.
 Teiroel sydd wedy'u taraw;
 Ar y ddwy hoel mae'r ddwy law,
 A'i draed ar yr hoel drydedd
 24 Mal y bu yn ymyl bedd.
 Ni wŷr dyn lle'r aeth o'r dŵr
 Ar y pren na bai'r Prynwr
 Y dydd y bu'n dioddef,
 28 Yn ymlâdd dros nawradd nef.
 Ar ei fron gwaed gwirion gwâr;
 Yno'n cyrchwyd o'n carchar.

Twyll yw'r byd ynfyd anfaith;
 32 Dall ni wyl dwyll yn ei waith.
 Ba les am Fab mynwes Mair
 Yw rhybuddio rhai byddair?

36 Gwir Dduw gywir a ddywawd
 Ni roir bri ar eiriau brawd.
 Nid mawr gan ddyn, dengyn dâl,
 Fâr Duw yny fo'r dial.
 40 Saith *bechod*, rhyfeddod rhus,
 A wna dyn anudonus.
 Na wnawn nebun anobaith;
 Ni wn na syrthiwn 'n y saith.
 44 Llesgedd, buchedd heb iechyd,
 Llid a bâr a bair lledu byd.
 Murno'r da, marw 'n y diwedd,
 Tlotaf yw'r mwyaf a'i medd.

48 Ped ystyriai pan fai fyd
 Y gwyliwr sydd i'r golud,
 Ni chadwai ond ychydig
 Dan ei ddwrn, a Duw yn ddig.
 52 Gorwedd ar grug o arian;
 Gwae ni roddai i rai ran.
 A fo 'n ôl ei farwolaeth
 Heb ei roi—heibio yr aeth.
 Y da a golles a'i dir;
 56 Y dialau a delir.
 Mogeled ym myw gilwg;
 I'r rhwyd yr aeth y rhai drwg.
 Nid oes, hyd einioes dynion,
 60 Dro llaw ar y dröell hon.

64 Mae *i'n* Tad, a'r wlad yn ei law,
 Engylion yn fy ngwyliaw.
 Mae bradwyr am ei bridwerth;
 Mair, dy nawdd, mawr yw dy nerth.
 Dadlau, dy drasau drosom,
 Er hyd yn y byd y bôm;
 68 Cadw arnam ein cadernid
 Y dydd y bo diwedd byd.
 I'th Fab, na ad ein gado,
 Da Forwyn Fair, dy farn fo.

Ffynonellau

A—Card 5.44, 32^{r-v} B—Llst 47, 168–71 C—Llst 134, rhif 45 D—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 60–1 E—LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], rhif 58 F—LIGC 13071B, 99–102 G—LIGC 13061B, 110^v–112^r H—Bodley Welsh f 4, 116–19 I—BL Add 14876, 78^v–79^v

Ffynonellau eraill

J—BL Add 31072, 178^r–181^r K—BL Add 31072, 184^v–187^v L—J.R. Hughes 5, 105–8

Amrywiadau

1 *E* [1–11], *D* gorwyddiog., *G* gorwaiddog.. 3 *I* bloeddiais ers hanner blwyddyn 4 *I* ni chwimiais i chwemis hyn, *A–DF–H* ny chemais.. 6 *I* na bo.. 7 *AF* ..nwylach 9 *A–DF–I* ymhoen.. 12 *B* am hyn llai yw r gwaew ym ais, *ACD* gwanhae m hynn y gwaew., *FG* gwanhae., *CDF–H* ..gwaew m hais 14 *I* ysul.. 15 *I* mae n Llan Gathen ym hennaint 16 *A–DF–H* mal saith., *I* mal swm.. 17 *A–DF–H* ..i ddelw.. 18 *I* ..pob claf 19 *A–DF* ..Roi.. 20 *A* ..hed.. 21 *G* mae tairoel gwedy taraw, *I* teirhoel oll wedi taraw, *C* ..a sy., *A–DFH* ..wedy taraw 22 *D* ar ddwy oel i mae., *I* dwy o ddur drwy ei ddwy law 24 *A–DF–I* ..y bedd 25 *AD* ..lle ra ir dwr, *I* ..pan ddel or dwr, *BCF–H* ..ir dwr 26 *I* mae or prenn y mae r prynnwr, *ACD* ..na bo., *G* ..na ba r.. 28 *ACD* yn roddi ni nawradd., *H* yn ymlawdd.. 29 *I* oi fron gawod gwirion.. 30 *BFH* yna., *G* yna n kyrchwyd., *I* in cyrchwyd oll on.. 31 *I* twyll yw n byd.. 33 *I* pa les i fab.. 34 *B* yw rebuddio., *H* yw rybuddio rai., *I* er rhybuddio.. 36 *F* ny Roir., *H* ni roi r., *ADF* ..ar airav.. 37 *A* ny mawr., *B* nym dawr.. 38 *H* ..yn y fo.. 39 *A–DF–H* saith pechod., *A–DF* ..Rys, *G* ..rys 41 *ACD* na nawn., *A–DFH* ..neb vn.. 44 *G* ..a wna.. 45 *BCF–H* myrno da.. 46 *D* []r mwya medd, *AFH* tylota..mwya., *BCG* tlota..mwya.. 47 *AC* pai., *D* pei., *I* ..pan fai n fud, *C* ..vud 48 *A–DF–I* y gwilwyr., *A–CFH* ..a sydd., *I* ..sy ar y golud 49 *I* 50–49 50 *I* y da n ei ddwrn.. 52 *B–DF* ..Roddai i Rai Rann, *A* ..i Rai Rann, *G* ..rhoddai..rhan 53 *FG* ..varolaeth, *I* ..i farwolaeth 54 *F* heb i Roi., *A–DFG* ..haibo.. 55 *B* y da golles., *I* y gallu da a gyll dyn 56 *I* a dialedd ai dilyn 57 *C* mogelwn.. 58 *A–DF* y Rwyd., *G* y rwyd..y rai.. 59 *A–DG* ..einoes., *F* ..enioes.. 60 *F* ..at y.. 61 *A–DF–H* mae n tad.. 62 *A–E* angylion., *A* ..yn vnygilaw, *BC* ..yn vnygwilaw, *D* ..ynyngwilaw, *FG* ..yn yngwiliaw, *H* ..yn gwyliaw 63 *I* a bradwr., *B* ..dy bridwerth 65 *I* dadle di drase.. 67 *A–EGH* ..arnom.. 70 *I* Forwyn Fair dy farn a fo

i

Ai ddelw oes dduwiolaeth
Ar Groes fal y troes or traeth

ii

Y Da gadwer ofer yw
Y da a roir ystor yw

Trefn

I 3–6, 9–10, 15–16, 13–14, 17–24, +*i*, 25–30, 33–4, 31–2, 47–50, + *ii*, 53–56, 63–6, 69–70

101
Cywydd i'r byd

Y byd rhwng ei bedwar ban,
Twyllodrus, tywyll oedran,
Pêl o blwm yn drwm a dry,
4 Pa beth wyd? Pawb a'th edy.
Ai bro Addaf? Ai breuddwyd?
Ai brawdwr oes? Ai brwydwr wyd?
Ai herod twyll hiroed dydd?
8 Ai hudol? Ai llamhidydd?
Ai gau dduw, argyhoedd w'r?
Ai pwy ynteu? Ai peintiwr?
Pawb a'th wyl—pa beth yw hyn?—
12 Annoeth wyd, un ni'th edwyn.
Drycha' dyn, drych yw dy waith
I'w dreulio a'i droi eilwaith.
Cadarn gwan truan y try
16 A go gadarn gwan gwedy.
I dlawd teg yw d'olud di;
Aed oludog i dlodi.
O ddydd i ddydd, addefwyd,
20 O nos i ddydd nesáu 'dd wyd.
Er golud y byd, heb au,
Byd ing yw bywyd angau.

Rhag angau ni ddihengir
24 Ac nid â heb neb yn wir.
Yr enaid ni w'r yna
Ba du ar ôl byd yr â.
Mal dall yn ymofyn ei dŷ
28 Ydyw hwn wedy hynny:
Heb swydd, heb gyfarwyddyd,
Heb dduw i'w bais, heb dda'r byd;
Heb falchedd, heb drosedd draw,
32 Heb dudded, heb dŷ iddaw;
Heb ddwyfol gred, heb fedydd,
Heb Dduw am fodd, heb ddim fydd.
Nid oes eithr y saith weithred
36 I ddyn, a gwreiddyn ei gred.

Saith elyn i ddyn a ddaw
 I ymdynnu amdanaw.
 Pwyso'n drwm, i'r cwm y'i caid,
 40 Yn y dafl a wna dieflaid.
 Cael i minnau, cwlm uniawn,
 Baderau Mair, bu drwm iawn,
 A'i phwys i dalu fy ffin
 44 A'i llaswyr i'w llaw iesin.
 Y byd tramawr, be trymach,
 A bwysai ben ei bys bach.

Y dydd y rhifer deuddeg
 48 I farnu dan Iesu'n deg,
 Mair o'i rhad ni'm gad i gwm,
 Meddyges y camddegwm.
 Eiriolwn hon, erlyn hir,
 52 O'i heiriol y'n diheurir,
 A chael nef, brau olef brig,
 I'n heneidiau'n enwedig.

Ffynonellau

A—Pen 84, 16–19 B—LIGC 722B, 57–60 C—LIGC 643B, 110^r–120^r
 D—Card 5.44, 11^{r-v} E—Llst 47, 50–2 F—Llst 134, rhif 6 G—LIGC 970E
 [= Merthyr Tudful], 18–19 H—LIGC 13061B, 149^r–150^r I—LIGC
 13079B, 40^v–41^v J—LIGC 13078B, 27^r–27^v K—BL Add 14984, 320–1
 L—Bodley Welsh e 8, 12^r–13^r M—Card 2.68 [= RWM 19], 641–3 N—
 Card 2.202 [= RWM 66], 366–8 O—CM 21, 217–19 P—CM 3, 19–22
 Q—Card 1.53 [= RWM 52], 52–3 R—Card 2.114 [= RWM 7], 57–9 S—
 LIGC 19901B [= J. Gwenogvryn Evans I, B], 60^r, 59^v, 59^r T—LIGC
 3049D [= Mos 146], 36–8 U—Bodewryd 1, 108–9 V—BL Add 14900,
 119^v–120^v W—LIGC 695E, 146–7 (*collwyd llau. 40–7*) X—BL Add
 14971 [= RWM 21], 109^{r-v} Y—Bangor (Mos) 5, 145^v–147^r

Ffynonellau eraill

Z—Card 4.156 [= RWM 64], 39^{r-v} A—J.R. Hughes 6, 397–8 B—Llst 133,
 rhif 629 C—LIGC 1979B [= Pant 10], 61–4

Amrywiadau

1 *L* byd..., *TY* y byd drwg i bedwar..., *P* ..rhwn..., *HI* ..rwng..., *J* ..Rhwg..., *S*
 ..wrth y bedwar man, *X* ..wrth..., *ACIL-NPU-W* ..y pedwar..., *K* ..rann, *O*
 ..rran 2 *W* ..twvll..., *I* ..y oydran 3 *K* 4–3, *ACIKMN* ai pel blwm..., *L* ay pel o
 blwm mor drwm a dry, *R* pelen..., *S* pel blwm..., *TY* ai pel..., *PQT* ..mor
 drwm..., *Y* ..blwm drwm..., *IV* ..y dry 4 *DEG* pwy..., *K* beth..., *L* a pa beth...,

OTW py., *R* pw., *QW* ..wyt., *B* ..pawb a thydi, *O* ..pawb a thydy, *J* ..aeth edy 5 *W* ..a briddwyd 6 *CDG-IKLPT-WY* ai bradwr., *F* ai brwydr., *N* bradwr oes., *RSX* ai brwydyr oer., *BO* ..iaith., *H* ..oes brwydyr., *ADEGIJL-NPQTY* ..brwydyr wyd, *BFORSX* ..bradwr wyd, *KUV* ..brawdwr wyd, *W* ..brodwr wyd 7 *L* ay hortwyll ay oed tydd, *GY* ..dwyll., *U-W* ..twys., *AIKP-TY* ..ai hiroed., *BO* ..ai roed tydd, *V* ..hirwed tydd 8 *R* ai llam hvdol llymhidydd, *C* ..llamehedydd, *W* ..llamhedydd 9 *C-HJN* ai gof duw ai gavaf dwr, *L* ay gay o ddyw ay gayf ddwr, *S* ai y gevdduw argoeddwr, *I* ay kaydduw., *M* ai gof dduw., *X* ai r gau., *A* ..ai gaya dd [], *BIO* ..ai gaya ddwr, *KM* ..ai gavaf dwr, *D* ..au gau gauaf dwr, *QR* ..ar goedd wr, *TUWY* ..ai gwe o ddwr, *V* ..a gwe o ddwr 10 *D-H* ..y paintwr, *IJQ* ..paintwr, *L* ..beintwr, *R* ..pantiwr 11 *PQ* [11-14], *T-W* [11-12], *SX* [11-16], *KN* ..wel., *D-F* ..pwy.. 12 *L* a noeth., *R* noeth., *ABIKLOR* ..ydwyd.. 13 *A* arch a dyn., *D-HJ* drych dyn yw edrych., *U-WY* dyrchaf., *IKL* ..ddyn., *BO* ..edrych dy waith, *Y* ..drych yw daith 14 *J* [14], *ABOT-VY* ai drevliaw., *CLN* ai dravl ai adre., *D-H* drwy wylaw i droi., *IL* ai droylo., *KR* ai., *W* []elio ai.. 15 *CMN* kadarn o dryan a dry, *V* kadarn gwan tran wyti 16 *A-CIK-PR-TY* ac o gadarn., *D-HJ* o gadarn gwann i gedy, *Q* ac i gadarn., *UV* ag yn gadarn., *W* [] gadarn.. 17 *ACL-N* y tlawd., *BIJKO* tlawd., *D-H* o dlawd., *V* dlawd., *W* []lawd.. 18 *IK* ..yw dlodi, *W* ..j deilady 19 *SU-WX* [19-20], *BO* ..ddydd i ddwyd, *D-H* ..i ddewyd, *I* ..y ddefnyddwyd, *N* ..adefwyd, *PQ* ..ydd oeddwyt, *T* ..i ddevlwyd, *Y* ..y ddefwyd 20 *EF* ..nesa i ddwyd, *P* ..nessai wyd 21 *AD-JLT-VY* o glefyd bowyd., *BO* ag o fyd bowyd., *CMN* o glefyd enbyd heb iav, *K* a gofid bowyd., *SX* ar golvd byd a heb av, *W* []bowyd bud jav, *UV* ..iav 22 *W* [..], *CMN* hyd ing abowyd., *LPQUY* bid., *RSX* bid yngod., *PQS* ..ir bowyd., *U* ..or bowyd., *V* ..yw r bowyd., *L* ..y angay 23 *C-HJMN* o angav., *IO* rac., *L* [] angay., *PQ* o ddydd angau yn ddiangol, *RSX* o ddydd angav., *U* o ddv angav., *V* odd angav., *W* ag o angav., *O* ..r angau.. 24 *PQ* Duw ny ad vn dyn yn ol, *RSX* dwv ni ad vn dyn yn wir 25 *CMNU-W* ar enaid.. 26 *AC-HJ-LNQ* ba dy., *I* pa dyu., *TY* wedi r ol pa vyd yr a, *Q* ..bid., *LRSU-W* ..y byd.. 27 *SU-WX* [27-8], *AILTY* fal., *PQ* y dall., *D-FHJ* ..yn ymyl i dy, *G* ..yn ymyl dy, *Y* ..dall ymofyn.. 28 *K* ..gwedi.. 29 *A* []heb., *C-HJMNT-WY* ..a heb., *L* ..heb gyrwyddydd 30 *A* [] dvr bais., *BKLORS* heb ddaiar bais., *C-HJMN* heb ddv ar bais., *I* y ddayar bais heb dda or byd, *T* heb ddvr bas., *U-W* heb ddayar bwys., *X* heb ddayar bann., *Y* ddvr bais a heb.. 31 *A* [] valchedd., *RSU-X* heb fonedd., *ABCKM-ORSU-XY* ..drowsedd., *PQ* ..drysedd.. 32 *A* [] dddded., *BKO* heb dyddyn., *NWX* heb duedd.. 33 *SU-WX* [33-4], *C-HJMN* heb ddwylaw., *L* ..ddyfal., *Q* ..dwyfol., *Y* ..ddwywol., *PQ* ..a bedydd 34 *A* ..yn vn vodd., *BIKOR* ..vn fodd., *D-HJ* ..am vod., *L* ..yn yn fodd heb ddim y fydd, *PQ* ..a vo., *TY* ..vm vodd., *BKO* ..ddawn fydd, *I* ..y vydd 35 *C-HJMN* ..eithr i weithred, *IKLPTY* ..eythir saith., *RS* ..eithr ond saith.. 36 *PQ* ..ond gwreiddyn., *U-W* ..na gwreiddin o

gred, *O* ..gweiddyn..., *AILQS* ..y gred 37 *AC-MPQU-WY* saith gelyn..., *N* []
 ddyn..., *L* ..y dyn..., *I* ..y ddaw 38 *N* [38], *BOR* ..yma am danaw, *S* ..dynn am
 danaw 39 *W* pwys[], *X* ..drwn..., *ABD-FH-JLT* ..yn y kwm..., *GY* ..mewn
 kwm..., *K* ..yn cwm..., *O* ..yn y cwm caid, *U* ..or kwm..., *PQ* ..tu ar cwm..., *V*
 ..yn y kwn..., *A-NP-VX* ..i kaid 40 *S* y dafl a wnafl y diawlaid, *P* y dafl..., *R*
 mi daflv..., *N* ..y wna..., *E* ..diawlfleid, *T* ..deifleid, *U* ..wna r diawlaid, *V* ..y
 na r diawliaid 41 *L* del ynine kwlwn yn jawn, *U* cael vm yno..., *V* kael ym
 yna..., *CKPQ* ..ninnav, *RSX* ..klaim..., *Q* ..yn iawn 42 *Q* [42], *J* baderai..., *K*
 hyderau yr gair drud air iawn 43 *BO* 44-43, *PQ* ar ffordd y wneuthur y ffin,
D-HJRSUVX a phwys..., *K* ai bwys..., *L* ..y dal y fy ny, *RUX* ..i wnevthvr..., *S*
 ..i wneuthyd..., *V* ..i gynnal..., *X* ..i phin 44 *C* ai laswyr..., *D-HJRX* oi
 llaswyr..., *I* oy sallwyr..., *K* ai llasur ai law..., *P* ai lawyr o law..., *Q* ai lasswyr
 oi law..., *S* ai llysswyr a llaw..., *UV* a llaswyr yn llaw..., *ABD-JORTXY* ..ai
 llaw..., *L* ..ay llaw r Iessy 45 *RSU* ar byd..., *C-JMNPQ* ..bai trymach, *RS* ..pe
 trymach, *K* ..pe bay trymach, *L* ..byw yn trymach, *Y* ..bei.. 46 *I* y bwysai...,
Q a pwysai..., *BILORUV* ..y bys..., *K* ..i fys.. 47 *P* dydd i rhifer y dauddec, *IL*
 ..rifer..., *S* ..rhifir..., *Q-S* ..y daiddec 48 *A/BIK* ar a dal degwm yn / or deg,
C/MN a / ag yn dal degwm or deg, *D-HJ* ar i dal degwm or deg, *L* ar a dal y
 degwm or deg, *O* ar a del degwm or deg, *P-Y* ..Iesu dec 49 *K* y gair oi rad
 nim gad gwnn, *P/Q-SU-X* Mair a ddel mewn / rrac trafel trwm, *H* mair ai
 rad..., *A* ..or cad nim gad od gw[], *D-GJN* ..ai Rad..., *I* ..rad..., *L* ..ny gad..., *O*
 ..gad gwm 50 *K* meddig yw ir cam ddegwm, *J* ..i kam..., *L* ..y gam.. 51 *AT*
 ariolwn..., *C-HJMN* erlynwn..., *RS* eiriol hon., *Q* ..hwnn..., *A* ..avr lwyn hir,
BO ..evrlen hir, *ITY* ..ayrlyn..., *K* ..hwnn aur lin hir, *L* ..ayr lyn hir 52 *ILRTY*
 ag oy hairiol ym..., *KS* ag oy..., *S* ..hi am dihevrir 53 *PSU-WX* [53-4], *DK* ar
 gael..., *CN* ..hedd..., *G* ..gwledd..., *B* ..brif anedd brig, *CGMNR* ..brifonedd
 brig, *D-FHJ* ..brif fonef brig, *I* ..brivoledd bric, *K* ..brif nedd brig, *L/Q* ..rag /
 rrag y ddolef ddig, *O* ..brif anedd brig, *TY* ..briw vonedd brig 54 *ABKNORT*
 ..eneidiav..., *D-JL* ..enaidav..., *L* ..ny yn wedig, *Q* ..ni yn enwedig

i

ai anwadal dwysc mewn rhwysc rhot
 anaf gasgl nai o gyscot

ii

arotic pol arotic pler wyt
 oth droe oll ith droellwyt

iii

trwy nen ffyrfawen ffyrf rat
 troi dyn ai ddatroi danat

iv

a gras y tad or gadair
ar mab a gweddiaw Mair

v

ar hain yn arwain yn ol
mowrion saith bechod marwol

vi

in dwyn rhac yffern gern grach
adref i wlad nef yn iach

vii

anodd yw dy goelio yn vnawr
a roi di ai dygi yn vnawr

Trefn

- PQ* 1-4, 7-8, 5-6, 9-10, + *i*, + *ii*, + *iii*, 15-16, 19-20, 17-18, 21-36, +
iv, 37-8, + *v*, 39-52, + *vi* (53-4 yn Q)
- R* 1-4, 7-8, 5-6, 9-16, + *i*, + *ii*, + *vii*, 17-36, + *iv*, 37-52, + *vi*, 53-4
- S* 1-4, 7-8, 5-6, 9-10, + *i*, + *ii*, + *vii*, 17-18, 21-6, 29-32, 35-6, + *iv*,
37-52, + *vi*
- T* 1-10, + *i*, + *ii*, + *vii*, 13-54, + *iv*, + *vi*
- U-W* 1-4, 7-8, 5-6, 9-10, + *i*, + *ii*, + *vii*, 13-18, 21-26, 29-32, 35-6, + *iv*,
37-50, + *vi*, 51-2
- X* 1-4, 7-8, 5-6, 9-10, + *i*, + *ii*, + *vii*, 17-18, 21-6, 29-32, 35-6, + *iv*,
37-52
- Y* 1-10, + *i*, + *ii*, + *vii*, 13-36, + *iv*, 37-50, + *vi*, 51-4

Priodoliad

- A-JL-OZA* Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys
- K* Hywel ab Adda ab Ieuan ap Tudur
- PQBC* Siôn Cent (ychwanegwyd HDIR yn Q)
- RS* Gruffudd Gryg (ychwanegwyd HDIR yn R)
- T-WY* Hywel Swrdwal (Siôn Cent neu Hywel Swrdwal yn V)

I'r Grog yn Aberhonddu

- Y Grog aurdroedog drydoll,
 Arfau croes deau Crist oll,
 Y sy draw 'n yr Ystrywaid,
 4 Ystôr uwchben côr y'i caid
 Ar oror,—wi o'r arwydd!—
 Hyd yno'r af, Hodni rwydd.
 Rhoed ar groes o wÿdd Moesen
 8 Rhwng Dismas a Sesmas hen,
 A'i ddeufraich o'i ddiolfryd
 Dros ei gorff ar draws i gyd
 Yn erbyn o ddyn a ddêl
 12 I nef ato 'n ei fetel,
 A'i fron gron, farwn, i Gred,
 Enwog ŵr, yn egored,
 Yn rhoi ei galon yn rhydd
 16 I'r byd ffordd y mae'r bedydd.
 Talodd ddeugeincant weli
 Trwy swm a naw trosom ni,
 A thri phump cadarn arnaw
 20 A thrigain weli drain draw.
 Ni thalai'r byd, gwryd gur,
 Byth i'w ddelw bwyth ei ddolur.
- Pedwar deunydd, gwÿdd goddef,
 24 Y Grawys oedd ei groes ef,
 Sef salma, W, palma pur,
 Cedrus, cypresus prysur.
 Ar ei groes, pumoes apêl,
 28 Y dringodd pedwar angel.
 Marc yw'r llew, mawr cofl llid,
 Lucas mal ych a locid;
 Mathëus, angel melyn,
 32 A ddeail Duw ar ddull dyn;
 Delw Ieuan achlân uwchlaw
 Yw'r eryr wedy r'euraw
 Dan arwydd, dawn a oryw,
 36 Duw mawr, mae ucha' dim yw.

Dodaf amdanaf rhag diawl
 Dy arwydd, Fab Duw wrawl,
 Yn enw'r Tad a'r Mab Rhad rhwydd
 40 A'r Ysbryd, wryd arwydd,
 Ac yn henwau, gain hynaif,
 Y saith archangel a saif
 Gerbron Crist, gŵyr breiniau craff,
 44 Gabriel, gorcheidwad gwiwbraff;
 Mihangel, dawel dywydd,
 Molawdr, amddiffynnawdr ffydd;
 Raffel, da angel dengyn,
 48 I Dduw y dwg weddi dyn;
 Uriel, tau arail y tân,
 Sariel ar ddwfr glaseirian,
 Aruniel oryw ennyd
 52 Ar bob anifail o'r byd;
 Penaetsiel, gwry angel gwâr,
 Ar ffrwythiau deau daear.
 Gwisgaf i'm cylch rhag asgen
 56 Croes Duw a Mair, Crist, Amen.
 Arfer o grwys, arfau'r Grog,
 A orfydd ar bob arfog.

Sioseff gyntaf a gafas
 60 O blwyf Barmatheia blas
 Henwau, geiriau a garwn,
 Ar ucha' lled erchyll hwn.
 Dwyn Siesus, da iawn Sioseb,
 64 Adonai, nis edwyn neb:
 Agios Ysgyros os cur,
 Alffa, Agla, W eglur;
 Emas ein dinas yw d'enw,
 68 Eleison, nid oedd lysenw;
 Te-, diafrwydd to difreg,
 Tragrama-ton tri grym teg.
 Seithrif enwau ni sathrwn,
 72 Iesu, ŵr hael, sy ar hwn.
 Cyfrwys a ŵyr eu cyfrif;
 Caf yn y rhol cyfenwi rhif.

Irwn, dirydw'n ei draed,
 76 Werinwerth, ei wirionwaed.

Cymynnaf, nid cam annedd,
O'r byd, pan elwyf i'r bedd,
I'w Dad enaid, Duw dinam,
80 A'm cnawd i'r fedrawd, i'w fam.

Ffynonellau

A—Pen 54 i, 157–62, 167 B—Pen 67, 2–6 C—Llst 6, 75–8 D—LIGC 13079B, 71^r–72^r E—Card 5.44, 35^{r-v} F—Llst 47, 201–4 G—Llst 134, rhif 50 H—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 66–7 I—LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], rhif 64 J—LIGC 13071B, 136–9 K—LIGC 13061B, 74^r–75^r L—LIGC 21291E [= Iolo Aneurin Williams 5], vii M—Bodley Welsh f 4, 113–16 N—Pen 100, 183–7 O—Bodewryd 1, 449–51 P—BL Add 14891, 20^v–21^v Q—LIGC 11816B, 77^r–78^v R—Llst 133, rhif 56 S—CM 12, 422–5 T—Card 2.201 [= RWM 63], 93–6 U—BL Add 14866 [= RWM 29], 12^v–13^v V—Pen 112, 665–8 W—BL Add 31056, 164^v–165^r

Ffynonellau eraill

X—BL Add 13014, 93–5 Y—BL Add 31070, 104^r–107^r Z—LIGC 670D, 47–8 A—Bangor 7268, 50–2

Amrywiadau

1 *D* [1–6], *T* [1–10], *L* y groeg droedog..., *OW* ..draediog..., *QUV* ..droydiog..., *PQW* ..drwydoll 2 *M* ar crwys..., *CE-LN-PRSU-W* ..krwys..., *Q* ..krwysteav..., *O* ..diav.. 3 *A* ys draw..., *B* [] yn yr..., *CO* jessv draw..., *E-I* a sy..., *CFJ-NRSW* ..yn ystrywaid, *O-QUV* ..yn ystrowiaid, *EG-I* ..yn ystrywad 4 *P* ..uwch fy nghor ich caid, *JM* ..vch benn..., *Q* ..ywch pen..., *W* ..vwch cor..., *A-CFJ-OQ-W* ..y kaid, *EG-I* ..i kad 5 *W* yr oror..., *C* ..gwiw ar arwydd, *EG-IOW* ..gwiw..., *FJ-NRSUV* ..wiiw..., *HOU-W* ..yw r arwydd 6 *H* hed yno.. 7 *CJ* roed..., *W* rroes..., *O* ..ar y groes wydd..., *P* ..ar y groes..., *L* ..y wydd.. 8 *CJ* rwng..., *C* ..dismes a siosmes..., *EG-I* ..Gismas a Gesmas..., *FKM* ..Desmas a Giesmas..., *J* ..desmas a giesmes..., *L* ..Desmes a Sesmes..., *O* ..deismes a siesmes..., *ABQU-W* ..a desmas..., *D* ..a Jesmas..., *NRS* ..a Esmas..., *P* ..a Gesmas.. 9 *W* [9–10], *C-MO* ay ddwy vraych..., *ABD* ..ef ddiodyfryd, *CNRS* ..ay ddiodyfryd, *E-JLM* ..oedd ddiodyfryd, *Q* ..ai ddiowryd, *UV* ..ef o ddeufryd 11 *E* i erbyn..., *HNQ-W* i dderbyn..., *P* yn deilwng yno ddyn..., *D* ..y ddyn y ddel, *L* ..y ddel 12 *Q* ir nef atos..., *W* o ddyn atto..., *B* ..atto mi vettel, *CLOPRV* ..vatel, *NS* ..y fattel 13 *T* [13–14], *W* ai fron Crist frenin gred, *UV* ..grist frenin o gred, *NQRS* ..frenin y gred, *O* ..farwar..., *P* ..farwn gred, *B-DLM* ..y gret 14 *C* enwoc yr.. 15 *D* Roes y galhon..., *E-K* i Roi..., *L* a rhoi..., *M* i roi..., *C* ..roi..rydd, *J* ..yn rydd 16 *W* ir byd i mae r bedydd, *L* ..ffordd eu mae ffordd y bedydd, *G* ..ffor..., *O* ..mae bedydd 17 *CFGI-K* taloedd..., *O* talodd i ddevkant..., *P* talodd e ddeucant..., *ABDQS* ..devgaintant..., *L* ..gweli 18 *C* drw swm..drosom..., *ABD-MQW*

drwy..drosom., *TW* ..ai nawdd., *UV* ..oi nawdd., *G* ..drosom.. 19 *W* [19–20], *T–V* ..ffvm., *L* ..cadarnaw 20 *B* a thvgain., *D–M* ..gweli., *O* ..welv.. 21 *H* na thale., *L* ni thraetha., *TW* ni allai., *UV* ni all y byd., *P* ..gweryd gur 22 *NRS* byth a ddel., *UV* byth daly bwyth y dolur, *W* bwyth i ddelw byth., *ABE–KMOQ* ..i delw., *CD* ..y ddelw., *L* ..o ddelw., *P* ..oi ddelw., *DC* ..y ddolwr 23 *C–NPR–W* ..defnydd., *O* ..denfydd.. 24 *CD* ..y groes., *P* ..oedd ei gwys., *T* ..i grwys., *UV* ..yw groes.. 25 *B* sef salma yw., *CO* seff alma w., *E–KMQ* sef salma o palma., *L* sef sawlma pawlma., *NRS* sef alma ar palma., *P* sef salma palma., *T–V* ssyth ssalma w., *W* syth salma yw.. 26 *AB* nitrys siprissys., *CO* vitys seprisy., *DQUV* sipris., *EGH* sidrvs., *JM* sedras., *K* sedrws sipresws., *L* sedrws seipresiws., *P* se i pris seiprys., *TW* sspres epreissys., *D* ..prossyr 27 *B–W* ..y groes., *DT–V* ..bymoes., *P* ..pump oes pel, *NS* ..heb hel, *Q* ..er pel, *R* ..heb gel, *TUVW* ..y bel 28 *AFJ* y dringoedd., *C* y tringoedd., *D* y tringawdd., *EG* a dringawdd., *U* ..bedwar.. 29 *A* ..lle., *CQ* ..mawr y kyr llid, *E–MT* ..mawr yw kur llid, *D* ..mawr gofal llid, *NRS* ..mawr y cair llid, *O* ..mawr kwr a llid, *P* ..mawr cur llid, *U* ..mawr y kur llid, *V* ..mawr y [], *W* ..mawr yw r cur llid 30 *W* lucam., *CPW* ..val., *C* ..lekid, *DL* ..y lockid, *Q* ..logid 31 *W* mathew mal angel., *D* ..val angel.. 32 *E–NPRT* o ddeall., *OS* a ddeall., *Q* i ddeall., *U* o ddyall da., *V* o ddyall da ar., *W* a ddeall oll duw., *NRS* ..o ddull.. 33 *E–JM* ..jaean lan., *K* ..ochlan., *L* ..awchlan., *NORS* ..wych lan., *I* ..ywch i law, *M* ..uchlaw 34 *I* yw eryr., *NRS* eryr., *CEFH–KMOPW* ..wedy oreyrw, *G* ..wedy orauryw, *DLNRS* ..gwedy oreyrw 35 *JM* 36–35, *P* am arwydd., *D* ..dawn oryw, *E–L* ..dawn orauryw, *M* ..dawn or aur yw 36 *L* duw mawr a gorau., *O* duw mae., *D* ..mawr ycha., *MNRSUV* ..mai., *B* ..vcha din., *JM* ..gorav dim., *KQU* ..ywcha., *TV* ..mwua dim.. 37 *W* 38–37, *D* gwisgaf., *P* gwisga., *B–DJ* ..rac.. 38 *E–JLMPQTW* ..mab.. 39 *M* [39–40], *W* enw r tad., *C* ..er tad., *H* ..mab Rwydd, *CDJ* ..rad rwydd, *Q* ..rwydd 40 *L* glan ysbryd.. 41 *T–W* ac iawn henwav., *CLP* ..enw., *EG–I* ..enw y gain., *D* ..enwav gan hynaf, *F* ..enw yn gann., *J* ..enw yn gain., *K* ..henw yn gain., *M* ..enw ein gain., *O* ..henw., *I* ..hynaf 42 *CDL* ..y saif, *H* ..saiff 43 *O* gabriel krist gair., *C* ..gwir., *E–M* ..gwir brennav., *NRS* ..gwir brenin., *P* ..wir frenin., *T–W* ..gwr breinioc.. 44 *ANOQ–T* ..gwarcheidwad., *P* ..orcheidwad., *CP* ..gobraff 45 *G* Mihange.. 46 *D–KMQV* moliawdr., *L* Paganael ymddiffynwr., *W* molawd ymddiffynawd., *U* miliawdr., *P* ..amddiffynnwr., *IMNQ–V* ..ymddiffyniawdr.. 47 *AT* rraffyl., *B* Rrvffyl., *EHI* Raffael da angael., *FJLMPRU–W* Raffael., *C* ..dan gyn, *P* ..dyngyn 48 *L* ei dduw y daw., *O* i dduw dwg., *C* ..y ddyw weddi ddyw, *D* ..i dw., *P* ..a ddwg., *Q* ..wedi dyn 49 *P* ..da i arail i dan, *C* ..ariel., *T* ..aravl., *EFIJM* ..ar ail., *GH* ..ar ael., *L* ..yr ail., *OW* ..arael.. 50 *K* Sairiel., *P* ..ar dewr glas.. 51 *ABD–NR–U* a rrvnyel., *O* a riniel., *P* Ryniel arrw., *AB* ..o rryw., *D* ..o Ryw., *E–I* ..yn Ryw., *JKM* ..yn ryw., *L* ..unrhyw., *NR* ..a rhyw., *O* ..o ryw., *Q* ..a ryw., *S* ..a rhyn., *T* ..or rryw., *U* ..ar rhyw., *V*

..ar ryw..., *W* ..ar hyn.. 52 *F* ar bod.. 53 *B* penn ainsiel.., *E-MQ* Penagieli.., *NRS* Penachiel.., *O* pantasiel gwir.., *P* pen a thail gwiw.., *T* penassiel gwrdd.., *UV* penasiel gwiw.., *V* Panasiel.., *W* pen odded gwyryf angav.. 54 *C-W* ..ffirwythay.., *D* ..dawnav.., *EG-MOPUV* ..diav.. 55 *UV* [55-8], *W* [55-6], *D* kroysaf gwisgaf rac.., *T* gwisga.., *BCJ* ..rac.. 56 *L* croes mab mair sef Crist.. 57 *P* arfer grwys o arfau.., *D* ..grwys yw arvey groc, *NRS* ..ar grwys.. 58 *L* y ofydd.. 59 *CJL-W* sioseb.., *D* Josseb.., *K* Siosef.., *Q* ..kyntaf.., *DL* ..y gafas, *H* ..garas 60 *P* o blwm.., *CE-MO-QT-V* ..armathia.., *D* ..parmathia.., *NRS* ..Palmathia.., *W* ..permasia.. 61 *U-W* [61-2], *CL/D* enway y gairiay garwn / a garwn, *E-J/K* enwav a / y gairav garwn, *NOQ-S* enwau.., *P* ewr geirie.., *M* ..a geiriau garwn 62 *P* ucha er lles.., *T* arch a lled.., *B* ..lle.. 63 *CO* [63-4], *AB* dwn.., *W* dwy.., *ABD* ..jessvs.josseb, *K* ..Siosvs.., *LQ* ..Siosws.. 64 *T* duw i gnawd nis dygai neb, *U/V* deg / da a wnaeth nis digiai neb, *W* duw yn i gnawd nis dygai neb, *A* a dwnae.., *B* a dwn ae.., *D* yd y wnai.., *NR* dwyn a wna.., *P* a dwyn naf.., *Q* a dywai.., *S* dwyn a wnafe.., *L* ..nyd edwyn.. 65 *T* adssios ysgeiros dros gvr, *A* aidiois.., *B* adcios.., *C* eitsios.., *D* ac eisioes.., *O* o theios.., *W* ai dios.., *UV* adsios.., *ABQW* ..ysgeirios.., *C* ..ysgairios.., *D* ..sgairioes gyr, *E-IKL* ..sgirios.., *J* ..sgairios.., *M* ..sgarios.., *O* ..ysgarios.., *PUV* ..ysgeiros.., *AB* ..ys gvr, *COQ* ..oes gyr, *E-L* ..jas gvr, *M* ..fas gur, *NS* ..oes cvr, *U-W* ..dros gvr, *R* ..oer cur 66 *W* alpha wr agla eglvr, *PT-V* ..w agla eglur, *E-NRS* ..o eglur, *Q* ..dv eglur 67 *NS* eninas mewn dinas denw, *Q* yn eimas mewn dynas yn dyen, *R* eniccas mewn dinas denw, *T-V* eleimas in dinas denw, *AB* enimas.., *C* eimas ny dinas.., *D* animas mewn dinas.., *E-M* vnias.., *O* messeias mewn.., *P* animas endimas.., *W* eleimas yn y dinas.. 68 *AB* a leission.., *D* eyleisson.., *W* eleson nid oes.., *NRS* ..nid o lysenw, *E-MOT-V* ..nid yw.., *Q* ..lysenn 69 *A-CE-IKP* ty di afrwydd.., *JL-ORS* tydi afrwydd.., *D* ty difafrwydd.., *Q* ty diafrwydd.., *T-V* ti at hyfryd tad difrec, *W* tydy afryw.., *JM* ..difrig 70 *O* ti gramaton liw ton teg, *S* terra grama ton grym teg, *A* tre.., *NR* tetra grama.., *W* ta gramaton.. 71 *DNQ-V* saithryw.., *P* y sythrif.., *E-L* ..Rif.., *A* ..enav.., *O* ..enw.., *TU* ..o enw.. 72 *D* ..sydd.. 73 *P* 74-73, *W* cyfrwys arwydd.., *E-JM* ..ny wyr.., *DL* ..y wyr.., *B-D* ..y kyfrif, *Q* ..kifri 74 *J* cof yn y rol cyfenwav rif, *O* kof yn rhol cyfan yw rhif, *P* caf im rhol cyfenw.., *Q* kan ynrol i kyfenw ai rri, *W* caf yn ol.., *T* ..yn Rol kyfenw i Rif, *C* ..rol kyfan yw r rif, *E-IK-M* ..kyfenwav.., *DNRSUV* ..kyfenw.., *U* ..i rhi, *V* ..i ri 75 *P* ir hwn y drydwn yw draed, *C* iriwn.., *OT-W* evrwn.., *W* ..drydwn yw draed 76 *D* weirinwerth.., *EFH-KM* o rinwedd.., *GL* o Rinwedd.., *NQ-S* wirionwerth ai.., *P* wir unwedd.., *T-W* wiw rinwedd.. 77 *CO* kymynwn.., *P* ..cam aniwedd 78 *OW* ir byd.., *A* ..pan y elwyf.., *COP* ..kyn elom.., *D* ..kynn elonn.., *EIQ* ..kynn elwyf.., *FGJ-NR-W* ..kyn myned.. 79 *C* y dad.., *D* yn tad enaid yn duw.., *NRS* y tad.., *OQ* ir tad.., *P* yr enaid ir tad duw.., *T-V* in tad.., *W* im tad.. 80 *C-W* ar knawd.., *L* ..i feddrawd.., *M* ..ir feddrawd.., *A-W* ..i vam

Trefn

D [1-6], 7-74, 77-8, 75-6, 79-80

E-M 1-8, 13-18, 9-12, 19-80

T 15-16, 11-12, 21-2, 17-20, 23-46, 49-54, 47-8, 55-68, 71-4, 69-70, 75-80

UV 1-10, 13-16, 11-12, 21-2, 17-20, 23-46, 49-54, 47-8, 59-60, 63-4, 71-4, 65-70, 75-80

W 1-8, 13-16, 11-12, 21-2, 17-18, 23-36, 57-8, 38-37, 39-46, 49-54, 47-8, 59-60, 63-4, 71-4, 65-70, 75-80

Cywydd merch

Dirymais oll drimis haf;
 O'r trimis hwn yw'r trymaf.
 Aeth fy nhrebl weithian yn rhybell;
 4 Ymadrodd gormodd nid gwell.

A ddwedwyf heb rwyf, heb raid,
 Nos da i'r ferch, nis dywaid.
 O bydd f'amcan ychwaneg
 8 Fo'i cêl fy nyn dawel deg.
 Gyrrais am hyn o gerrynt
 Ddwylan Gwy ffyrdd Elen gynt.
 Ni bu redyn heb rodio,
 12 Ni chât'r ffyrdd anach ar ffo.
 Ni bu leidr heb ledwg;
 Ni wyl y drem a wnêl drwg.
 Gwae'r dail a'r gwair y delom,
 16 Gwae'r traed lle bu gariad rhôm.

Llongwr wyf fi yn ddioed;
 Ar ben yr hwyllbren mae 'nhroed.
 Fo â, 'nyn, o fewn unawr
 20 Ai'n gamp i'm oes ai'n gwymp mawr.
 Mae dan wreiddion 'y mronnau
 Asgwrn tw'n nis gŵyr ond dau.
 Dau o eidionnau a dynnyn'
 24 Aeth â'r llwyth o eitha'r llyn.
 Mî a dynnaf fy myd innau
 Drwy'r allt oni dorro'r iau.

Er i hon ladd gweision gwyth
 28 A channwr wrth ei chwennyth,
 Nid rhyw iddi ladd truan;
 Nid clod gallel gorfod gwan.

Aed i lawr y dail irion;
 32 Nid â cerdd y ferch deg hon.

- Ni thawaf fal bytheiad,
 Ni thynnir hon o'i thŷ'n rhad.
 Oni edir ar dir da
 36 Lle ym gar ei llaw yma,
 I'r môr yr af, marw'r wyf,
 Ni'm tawr pa fan y tiriwyf.

Ffynonellau

A—BL Add 14967 [= RWM 23], 20^v–21^r B—Pen 112, 469–70 C—LIGC 5269B, 202^v–203^v D—Pen 101, 258–60 E—Pen 312 iv, 39–40 F—CM 23, 130–2

Ffynhonnell arall

G—BL Add 31070, 21^r–22^v

Amrywiadau

1 *A–D* trymheais..trimis.. 3 *A* ..vyn rebl weithie n rybell, *B–F* ..weithie.. 5 *F* a ddoytwy.. 8 *A* ..vy dyn.., *F* ..y ddyn.. 10 *E* dwylann Gwy n ffordd.. 11 *E* ..bu r rredyn.. 12 *F* ..anerch.. 13 *CD* ..leidr draw heb.., *E* ..na bai ledwg, *F* ..nai ledwg 14 *A–C* ..i drem.., *EF* ..ei draed.. 15 *C* ..a gwair.., *EF* ..ar gwir.. 16 *F* mae r traed pan fv.., *E* ..traed penn gariad.., *A–D* ..gariad trom 18 *A* ..maen roed, *F* ..fyn rroed 19 *A* mae yn vn ym min ionawr, *B* mae ym vn ymin ionawr, *CD* mae y nyn ym min jonawr, *E* y fo an un o fewn jonawr, *F* fo a yn vn.. 20 *A–D* ai gamp im oes ai gwypm mawr 21 *F* i mae yngwreiddion.. 22 *E* ..ni gwyr.. 23 *F* ..o dionav.. 24 *E* ..a llwyth.. 25 *E* ..am byd.., *A* ..iniav 26 *A* drwy r all.., *E* drwy allt oni dorro iau 28 *AB* ..chanwr.., *C* ..chennych 29 *A* nid ryw.., *F* nid rrywydd.. 31 *D* ..i dail.. 32 *A* ni da.., *F* ni kerdd.. 33 *E* ..batheiad 34 *A* ..yn rad 35 *EF* ni edir..od af 36 *C* lle ymgar.., *A* ..garri llaw.., *F* ..ar i llaw.. 38 *AB* ..i tiriwyf

i

y dyn fwyn nid annfanol
 o dy ei mam y daw im ol
 ei lliw a wnaeth duw llowydd
 ei llun am deun cynn dydd
 hir im gwesgir am gysgu
 hiraeth am y famaeth vu

ii

tewi ni wnaif fi tra vwyf
 a dywedyd nid ydwyf

iii

pob grudd or ddeurud dirym
 pob aelod sy n darfod ym
 dyn ai benn dann iau beunydd
 darfod heb wybod y byd

iv

o mynn ei chorff ym na chaid
 ni chair anach or enaid

v

ei gair aeth hyd Bortaethwy
 yn eitha Mon na thau mwy

Trefn

EF + *i*, 1–2, + *ii*, 3–22, + *iii*, 23–6, 29–30, + *iv*, 31–2, + *v*, 33–8

Priodoliad

A–D Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys

EF Bedo Brwynllys

G Hywel Dafï

104
Cywydd i'r olwg

Tad wylo, tydi, olwg,
Ti oll yw drych twyll a drwg.
Tywyn llaestrem tanllestri,
4 Twyllaist ac ynfydaist fi.
Fy llwm gorff, fy lliw a'm gwedd,
Aeth yn hen o'th anhunedd.
F'arwain yn anghyfarwydd
8 I fidiau serch, anfadus swydd,
Arweddiad, eiriau addwyn,
Y dall ar y llall i'r llwyn.
Dangoser ym, dyn gyson,
12 Dangoser y sêr, mes hon;
Dangos bun a'i damunaw,
Dangosiad lleuad â llaw.
Y gyfriw *drem*, *gafar drud*
16 A gefais—mawr fu'r gofid.
A wyl is dail lysiau da
Nis caiff, nid nes eu coffa.
Un olwg wyf, ni weled,
20 Yn ei thâl Sain Greal gred.
Teulu o grynford *dilyth*
A'i canfu ef—nis cân' fyth.

Canfod ydd wyf Wenhwyfar.
24 Cam a wnâi nas câi a'i câr.
Un olwg wyf yn ael gwen
Â llongwr mewn lle angen:
Y gwr ni wyl o garreg
28 Seren ond un, bai swrn yn deg.
Seren y côr, swrn a'i câr,
Gwen hyfedr, ail Wenhwyfar.
Deuer â mil i dai'r medd
32 Ar unwaith o rianedd,
Aelfain yw, ni welaf neb
Eithr hon o thry ei hwyneb.

- 36 Yr eilir a fwrw ei olwg
Yn y drych iddo wna drwg.
Naws adar nos yw hedeg
I gael twyll mewn golau teg.
40 Ef â gleisiad, wyf glasach,
Yn ôl bwyd; ni wyl y bach.
Deliais olwg lle'm daliwyd
Draw ar hon fal edn i'r rhwyd.
Deled yn ôl fy ngolwg.
44 Hi, oni ddaw, hyn a ddwg.

Ffynonellau

A—Card 5.44, 268^v B—Llst 47, 392–3 C—Llst 134, rhif 463 D—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 508 E—LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], rhif 463

Ffynhonnell arall

F—BL Add 31070, 130^v–132^r

Amrywiadau

4 *BD* ..enfyaist.. 8 *B* i vaidiav.. anfadwy.., *D* ..anfad.. 9 *A* arwyddiad.., *A–D* ..airav.. 14 *B* dangosad.., *AD* ..o llaw 15 *A–E* y gyfriw ddrem a gafr ddrvd 16 *B* a gefaist.. 17 *A–E* ..lysav.. 19 *A* ..welad 20 *BE* ny thal y sain.., *C* ny thal y sant.. 21 *A–E* taelv o grynford tylyth 26 *C* ..amgen 31 *ADE* doier.., *BC* doyer.., *B* ..dy r medd 32 *A–E* ..Rianedd 34 *A–D* ..thry hwyneb 37 *A–E* ..hydeg 39 *AC* ..glaisad.., *C* ..ef glasach 41 *A–E* delais..daliwyd

Trefn

C 1–18, 25–8, 19–24, 29–44

Cywydd i wraig briod

- Yr ewig wen, aur ei gwallt,
 A gerais dan fedw gorallt,
 Dy gael am y dig a wn,
 4 Wedd manod, a ddamunwn.
 Ieuanc, fun, yw'r damunwr;
 Hÿn nid wyd; hen yw dy ŵr.
 Dy foli rhag dy briod
 8 Dan llaw'r wyf, deunawlliw'r ôd.
 Erchi ym a'i orchymyn
 Dewi rhag dy ŵr yw hyn.
 Na dddwg, ni haeddy ogan,
 12 Bryder mwy, bryd yr eiry mân.
 Addef ni wnawn bwy oeddud
 Fis Mai mwy no chyffes mud.
- Tlawd wyf heb gael tâl *no* dau
 16 A chywoethog ych chwithau.
 Dyred i wlad yr adar,
 Deled i'th gof dlawd a'th gân.
 Mwyn ei buchedd, mae'n bechawd,
 20 Meddynt, loer, maddau un tlawd.
 Mae fry, lle bu dÿ dy daid,
 Goed yniâl i gadw enaid.
 Seithran yfed, meddwed medd;
 24 A gair dan fedw drugaredd?
 Caru dyn ieuanc wiwrym,
 Cariad a dâl cardod ym.
 Sychedig wyf o glwyf glân
 28 Ac osai yw dy gusan.
 Anwadal fedw yw'n adail,
 'Y mun deg, pâr ym ŵn dail.
- Galw unwaith, bydd galonnog,
 32 Gado'r gŵr, awn gyda'r gog.
 Tyn fi o garchar cariad,
 Toi d'ŵyl, rhag enaid dy dad.

- 36 Edrych ddyn o'th gydoedran,
Erglyw fi lle'r wyf glaf wan.
Dy ro yn ei hyd i orwedd
Dy ŵr, fun, mewn daear fedd.
40 Pâr ym fwyd, golochwydwr,
Yr ail dydd fo arwyl d'ŵr.
Llawn wyd, ferch, lliw newid fydd,
Ael winau, o lawenydd.
44 Ymlid dristyd; mal Trystan
I farw o haint yw fy rhan.

- Maen crisial yw dy dâl di
A'i lonaid o oleuni;
48 Gwin newydd y sydd o Sieb
Yn donnau yn dy wyneb;
Mwyn yw d'annwyd, myn Dwynwen,
Main a gloyw yw'r mwnwgl, wen;
52 Dy lun di y sy ddiwyr,
Dy gorff fal *pei* gwnaid o gŵyr.
Dy gariad, ceidwad y cof,
Dirion yw, a dry ynof;
56 Dy gerdd y ffordd y cerddwyf;
Dyn nid iach amdanad wyf.

Ffynonellau

A—Card 5.44, 284^v–285^r B—Llist 47, 469–71 C—Llist 134, rhif 511 D—LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], rhif 513 E—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 539

Ffynhonnell arall

F—BL Add 31070, 132^v–134^v

Amrywiadau

1 *E* [1–20] 5 *C* ..yw damvnwr 6 *A–C* hvn.. 8 *A–D* dan law..daunawliw..
11 *A–C* ..haeddv.. 12 *BC* ..bryd eiry.. 13 *B* ..pwy..
14 *A–C* ..mwy na.. 15 *A* ..tal od av, *BC* ..tal o dav 18 *A–C* delyd.., *C* ..dlaw..
20 *C* ..mauddv.. 23 *A–CE* saith Rann.. 30 *B* ..own dail 34 *E* to dwyl..
36 *A–CE* ..lle rwy.. 37 *A* dyro nny hyd i orwedd, *BC* dyro ny hyd..
39 *A–CE* ..vwyd y golchwydwr 40 *A–CE* ar ail..
41 *C* llawen.. 47 *A–CE* ..a sydd.. 49 *C* ..dwyneb..
50 *C* main gloew.., *ACE* ..yw mwnwgl.. 51 *C* dy lvn a sy ddiwyr, *ABE* ..a sy ddiwyr 52 *ABE* ..val be gwnaid.., *C* ..val be gwnaid gwyr

106
Cywydd merch

Bwriais drem a beris drwg,
Fy ngelyn yw fy ngolwg,
Dros ben aflwy', fwyfwy fawl,
4 Ddoe ar fun ddiwair fanawl
Lle'r oedd mewn lliw o ruddaur
A'i llafar oll mewn llyfr aur.
Adrodd gair bron Mair o'i min
8 Salmau ar dalau'i deulin.
Gwisgo wna hon, Gasgwin hed,
Gwisg eurliw ac ysgarled.
Templys aur, to wmpl y sydd
12 Ar iad bun euraid beunydd:
Glain o wiail, glân wead,
Gwallt cywarch aur, gwellt ceirch iad.
Ysgîn bron, diysgawn bris,
16 Ysgubau godrau Gwdris.
Dala hon fal deuliw haul,
Dwyael Euron, dâl araul.
Dan ei ffrîw duon a phrudd
20 Ydyw aeron ei deurudd.
Y wen y sydd megis ôd
A'r mwnwgl liw eiry manod,
A'r ddwyfraich, fwyn ddiolfryd,
24 Addfain gorff, addfwyn i gyd.

Gwnaf iddi hi dŷ gwiail
Gwedy'i doi i gyd â dail.
28 Golau drwyddo y gwelaf,
Gwaith terydr, haul belydr haf.
Rhwng dwy lenlliain feinïon
Och! fis haf na chefais hon,
A'i bwrw rhwng dau bared
32 I'r llawr, a'i dwyfraich ar lled.
Offrwm, liw blodau effros,
Ar dalau y gliniau'n glòs,
A hon o'i bodd yn goddef
36 A rhoddi naid rhyddi a nef.

Disgyn rhwng ei dwy esgair,
Addoli fyth i'r ddelw Fair.

- Gwnawn iddi, gwynion oeddym,
40 Lewygu dau lygad ym
I edrych pwy fai hwyaf;
Ai mi ai hi fis Mai haf.
44 Ac i'n cylch, egin a'n câr,
Neuadd fedw, noddfa adar.
Clywir yno, clêr anant,
Cydlais pêr *mewn* coedlys pant:
Trydar adar a siarad,
48 Clariwns dail, clêr ein ystad.
Clywir ar ben derwen deg,
Cethlydd ddigrif, cathl *ddigreg*,
A minnau, dioer, er mwyn dyn
52 Â dolef uchel delyn.
Canu wnawn rhwng nawn a nos
Gan cywydd gan gainc eos.

- Awn yno, union waneg,
56 Awn ein dau, Wenonwy deg.
Awn yr haf, ddyn aur ei hed,
Od awn, fun, oed *yn* fyned.

Ffynonellau

A—Card 5.44, 268^{r-v} B—Llst 47, 390–2 C—Llst 134, rhif 462 D—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 508–9 E—LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], rhif 462

Ffynhonnell arall

F—BL Add 31070, 128^r–130^v

Amrywiadau

1 *A–E* bwrais.. 2 *D* vyingalar.. 3 *C* ..allwy.. 5 *C* lle ddoedd., *B* ..llv., *ACE* ..Ryddaur, *D* ..ryddaur 7 *E* [7–10] 8 *C* salme ar dale., *D* ..dalav daulin 9 *B* ..na honn.. 11 *B* ..wimpl., *A–E* ..a sydd 13 *E* ..wial.. 14 *C* ..kwarch., *A* ..air.. 15 *CE* ..di ysgon.. 17 *C* 18–17, *C* dal i honn.. 18 *AC* ..auron., *BDE* ..aeron., *C* ..dan araul 20 *CE* ..daerudd 21 *A–D* y wenn., *ABE* ..a sydd., *CD* ..a sy.. 22 *D* au mwnwgl., *A–C* ..mwnwg., *CD* ..val eiry.. 23 *C* ..vain ddiofryd 24 *C* aeddafain.. 26 *A–E* gwedy doi..o dail 29 *AD* ..lynlliaen., *A–E* ..vainon 31 *D* a bwrw.. 34 *A–E* ..y glinav.. 36 *C* a Rodd naid.. 37 *D* ..Rwn.. 39 *A–E* ..gwynn jawn.. 41 *D* ..bwy.. 43 *A–E* + i, *A–E* ..yn kylch..

46 *A-E* ..yny koedlys.. 47 *C* ..ai siarad 48 *C* klariwn.. 50 *AC-E* ..kaethlef
ogreg, *B* ..kaethledd ogreg 51 *B* minnav..y dyn 53 *AD* kanv a wnawn.. 55
A-E ..yno n vnion.. 56 *C* ..wenonw.., *D* ..Gwenonwy.. 58 *C* ..fyn yn..,
ABDE ..yn fyned

i

ar vatrás o ddail glas glynn
a Ridols o vedw a Redyn

Moliant merch lygadlas

Prifeirdd Cymru a'i profant,
 Prydu yn ôl pryd a wnânt.
 Dwys babl, dewis bobun,
 4 Dull hoff, eu deall eu hun.
 Rhai a ddewis, rhodd ddioed,
 Fwrw eu cerdd i frig coed,
 Ac eraill, er a gara' i,
 8 A dyr mawl i adar Mai.
 Ni wnâi'r un o syddyn serch
 Fireinfawl i forwynferch
 Oni bydd, *mau* g'wilydd gael,
 12 Duon ei drem a'i dwyael.

Mae ynof gariad Ofydd,
 Myn y saint, a minnau sydd
 Yn rhoi fy serch ar ferch fwyn
 16 Lygadlas dan loyw goedlwyn.
 Ni chaiff lwybr, ni chyff'lybwn
 I hon a'i gwedd, hyn y gwn,
 (Eigr serch am ferch a fu)
 20 Olwg watwar, lygeitu.
 Cynghori 'dd wy', saith mwy sôn,
 Tewi am lygaid duon,
 A phrydu, lleihâu llid,
 24 O bob prifardd, be'i profid,
 Gwawd i ddyn coeth, cyd-ddwyn cur,
 Olyglas, ddwyael eglur.

Gorau lliw, mâl gorllewin,
 28 Gloywgain dâl, golygon dyn:
 Glwys ddadl, gloesau *i* ddidlawd,
 Glas a gwyrdd, gwn glosio gwawd.
 Glas iawn oedd, glwys *ei* neddair,
 32 Golygon *mwyn* gloywgain Mair,
 A glas oedd fernagl Iesu;
 Eurddrem ei gwedd yw'r ddrem gu.

- 36 Gwn innau serch gan enwi
Gwawr is allt a gerais i:
Arwydd dwfr ar wÿdd difreg,
Astrus dâl ystrywus deg.
Is ael leddf dwy sêl addfwyn;
- 40 *Eisin* dâl y sy'n eu dwyn.
Iaswyd ar groen, sodr gred,
Asur addfwyn, sêr aeddfed:
Aeron gloywon goleuynt,
- 44 Arian byw ar wyneb ÿnt;
Chwerfannau uwch eirw fwynfant,
Chwerthinad yn nofiad nant;
Drych hoyw fal edrych ewyn,
- 48 Dau fael goris dwyael dyn;
Dau *wrym* wych, ni bu drem well,
Dwy siecr dewis hocrell;
Dwy ysbectal i'r galon,
- 52 Dau dwred tâl, dwy *rod* hon;
Dwy loyw burlas blymasen,
Dau amnaid pwmpaniaid pen.
- 56 O bydd prydydd profiadwy
I bryd merch a brydo mwy,
Gwnaed gywydd, gloyw lwyswydd glas,
Ac awdl i fun lygadlas.

Ffynonellau

A—LIGC 16964A, 119^v–120^r B—Card 5.44, 267^v–268^r C—Llst 47, 385–7
D—Llst 134, rhif 459 E—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 507–8 F—
LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], rhif 459

Ffynhonnell arall

G—BL Add 31070, 123^r–125^r

Amrywiadau

1 *C* ..holl gymry provant, *F* ..kymry.. 2 *A* ..prydiai anant 3 *B–F* ..bobl a dewis.. 4 *A* dyll haf oi dyall.. 5 *A* rai y ddewys rann.., *BD–F* ..Ryw.. 6 *AE* vwrw kerdd.., *B–F* ..i vuriav koed 7 *A* ..er y garai, *B* ..oryw garai, *C–F* ..o Ryw garrai 8 *A* y dyrr.. 9 *A* ny neir un.., *B–F* minnav r vn a sydd vn serch 10 *B–F* vy Rinfawl i.., *A* ..y vorwyn verch 11 *A* ..mayn gwilidd.., *BCEF* ..bydd gwilydd a gwael, *D* ..bydd gywilydd.. 12 *AF* ..y drem.., *CD* ..o drem a dwyael, *E* ..i threm.. 14 *E* ..saint minnav a sydd 15 *A* roi..ar y verch.. 17 *B–F* [17–18] 18 *A* ..heny gwn 19 *B/C* Eigr i / a serch ir verch.., *EF*..i serch

ir verch vy, *D* ..i serch y verch vv, *A* ..y vy 20 *A* ..lygaty 21 *B-F* ..ddwyf soniwyf son, *A* ..saith mwyaf son 22 *A* dewi.. 23 *A* ..er llehay.., *B-F* ..llaihaey.. 25 *B-F* i ddyn koeth wawd i ddwyn kur, *A* ..yddu koeth hyd ddwyn 26 *A* goleygloes yn ail eglun, *D* lygadlas olwg.. 27 *A* ..lliw gorllewyn 28 *D* ..gain doeth golygon.. 29 *B-F* 30-29, *AC* glwys dadl glossay didlawd, *BF* ..glose ddidlawd, *DE* ..glosie ddidlawd 30 *B-F* ..i glosi.. 31 *A* ..glwys vwyneddair, *B-F* ..glwys aneddair 32 *D* gloewgain vwyn golygon vair, *A-CEF* ..vwyn..vair 33 *BE* ..glas oleugain jesv, *CDF* ..glas ar vernagl.., *A* ..vernegl.. 34 *A* ag vn gwedd ac eyrddrem gu 35 *A* ..gain inni 36 *A* gwawn.y gerens i 37 *A* ..yngwydd ddivreck, *BDE* ..arwydd.., *CF* ..a rhyydd.. 38 *B-F* ..tal..teg, *A* ..estrynes.. 39 *A* [39-44], *CF* ..ddwy.. 40 *B-F* esni dal a sy.. 41 *BCEF* ..isedr.., *D* ..isodr.. 43 *B-F* ..golauwynt 45 *A* hervane ywch earw.., *B-F* chwerfain ywch.., *A-F* ..vwynant 46 *A* chwerthnad.., *BEF* chwerthinad noevad a wnant, *D* chwerthinad noevant a want, *C* ..noevad.. 47 *B-F* 48-47 48 *B-F* dav arael is dwy.. 49 *A* dwy drem wych ny bydrwm well, *B-F* dav rwym.. 50 *AE* dwys sieker..okrell, *C* ..sierker.. 52 *A* ..hael dewdret hon, *B-F* ..dewredd tal dadwraidd ton 53 *A* ..blwmossen, *B-F* ..blemasen 54 *A* dwy emnaid a pwmpaynaid pen, *B-F* ..emnaid pwmpanaid.. 55 *A* or..praviddwy, *E* ..prydadwy 56 *A* ..merch y br 57 *A* gnaed gowydd gair glwys wyw gwas, *CF* ..gloyw glwyswydd glas, *BDE* ..eglwyswydd glas 58 *B-F* ..odl.., *A* ..yr vyn.., *C* ..i ddyn..

108
Y clo

Rhoes eiddig o gynfigen
Rhwymau gwŷdd rhôm, mi a gwen.
Nid rhwym ar fod priodas
4 Ond rhwym gof ar fod rhôm gas.

Clwm ar dderw, clyw mor ddyrys,
Clo a bach nis declly bys;
Crwth cau, annel croth cynnor,
8 Ci du a wŷr cau dôr;
Cist allwydd, cau ystyllen,
Cath yw a'i brath o wain bren;
Porthor ar gynnor y gell
12 Pyn ymystyn am astell;
Llais gwrcath a'i frath 'n ei fron,
Llun hwrdd yn llawn waharddon;
Marchlyffan ar darian dôr
16 A'i gonyrn yn ei gynnor.
Beichiog â'r gwst yw'r drws draw,
Bors wern, a bar sy arnaw.
Budr ydyw eu byw, o'm barn,
20 Bos hwyad â bys haearn.
Mae 'n ei dor, gymain, o dêl,
Mal cestryn ym moly costrel;
Magl drws yw, mwygl dyrws hen,
24 Mal chwidongl corn molchweden.

Y dydd—ym y daw amarch—
Y cilia i mewn mal caly march,
A'r nos rhag dangos y dyn
28 Am astell i ymystyn.
Weithiau 'nghroen dôr i'm poeni,
Weithiau ar hyd ei thor hi.
Diddawn fu'r llamidyddiaeth
32 Am fy nyn a mi a wnaeth.

Be bawn fal y gwialwr
Yn y drws, gwn, deiroes gŵr,

36 Ni chawn rin o'i gloywfin glân
 Na chyswllt gair, na chusan
 Ond edrych, ddyn gwych ei gwedd,
 Trwy dyllad, ôl troed allwedd,
 40 A rhoi'n flwng rhwng, pan fo rhaid,
 Dôr a'i chynnor ochenaid.

Oerchwedd i eiddig eirchwerw
 A wnaeth y borthoriaeth dderw.
 Y gŵr chwerw a garcharo,
 44 Gweddw fyth o'i guddfa fo.
 Gwaetherodd fod gwaith eurych,
 Llen gêl, ar ddyn llawen gwych.
 Mae'r dew ddôr yrhôm ar des
 48 A'r eirian garcharores.

Lladd dy borthawr, gludfawr glod,
 O chwsg ef, a chais gyfod.
 Oni chwsg gwae ni na chad
 52 Ar y gair yr agoriad.
 Ateb am f'wyneb ym, fun,
 Eurfain wyd, ar funudyn.
 Yma y gwnaetham amod.
 56 Od wyd fyw dywaid dy fod.

Ffynonellau

A—Llst 135, 23 B—Bodley Welsh e 2, 21^r–22^r C—Card 5.44, 261^v–262^r
 D—Llst 47, 367–8 E—Llst 134, rhif 444 F—LIGC 970E [= Merthyr
 Tudful], 497–8 G—LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], rhif 446

Ffynonellau eraill

H—BL Add 15003, 53^v I—BL Add 31070, 121^r–123^v J—Card 2.40 [= RWM 26], 445–6

Amrywiadau

1 AC–G gwnaeth., BD ..genfigen 2 A ..gwydd Rovi., BD ..gwydd rhom i.,
 CE–G ..gof Rom mi.. 4 A ..gwydd vod.. 6 ABD–G klo bach., C kloch
 bach., B ..ni ddeclu a bys, C–EG ..nys dekly o bys, F ..nys dakloir o bys 8
 D ki duw., C–G ..kav y dor 9 C–G [9–10], B cyt allwedd.. 10 A kath y wan
 brath., B cath a wan brath.. 11 B ..gynnoll.. 12 B/C–G pwd yswyn / ystwyn
 piw dwy astell 13 CF llais kath., D llaith.. 14 A ..llawn o wharddon, B–G
 ..hwrdd llawn o.. 15 E march lyfan.. 16 AC–G ..yn y gynnor 17 A baych ar
 gws., C–G baichog ar gws., B ..ar gwst yw drws.. 18 A ..wen a bar y sy..

y wnaeth.. 7 *AI-N* nyd oedd fawr., *GH* ni wyddwn., *I-M* ..yn gwlad 8 *B-DFI-N* ddav., *E* ddoe yn.. 9 *AE* ..gwn achwyn., *I-N* ..hon mae n achwyn.. 10 *F* [], *AN* er ym gael., *B-G* er yn gael., *AG-HI-M* ..yr vn.. 11 *A* yn amlwg ny beiddwn ymladd, *GH* amled ni feiddiwn., *B-FI-L* ..i byddwn.. 12 *A* ag vn., *GH* ..llv., *ILM* ..lle., *A* ..y barey., *BE* ..a bair yn lladd 13 *GH* ..y grudd., *E* ..gystu gwr 14 *A-DF* ..y bym.. 15 *B-JL-N* i mae., *B-EGHIJ-LN* ..hwyneb.. 16 *B-FK* am i hwyneb ym hoeni, *G-JLM* am iw hwyneb fy mhoeni, *N* am ei hwyneb i ymoni 17 *I-N* gwenwyn im dwyn., *JMN* ..mwyn i modd 18 *J* twy gael.. 19 *A* da y gwyddiad., *B-JL-N/K* da i gwyddiad / gwyddad gariad.. 20 *A* ddwylaw..ddala., *BCEFI-N* ddwylaw..ddal., *J* ..hirion., *DGH* ..dal.. 21 *A-F* byrem., *L* bwrien., *G* ..ar., *H* ..am., *I-N* ..yn dwylaw yn birion 22 *B-F* bedair.. 23 *B/C-HM* e vy hoff genny dy / fy hynt, *I-L* bu hoff genni fi., *N* bu hoff iawn geni fy hynt 24 *AGH* ..y gwddf., *C* ..y gwddf., *AGHK* ..ym y gweddynt, *B-FL* ..ym gweddynt, *IJM* ..im gyweddynt, *N* ..r ymguddynt 25 *I-N* [25-8] 26 *A-F* rhwymad., *GH* ..i wrth., *A* ..fom., *F* ..ym Rwyd j 27 *A* y fy., *B-F* e vy.. 28 *D* am dwyn., *B-F* ..am dyn.. 29 *F* ..am bo., *IL* ..barabl., *J* ..mvd 30 *B-JL-N* ..y gwynfyd, *K* ..ein gwynfyd 31 *I-M* a santes yw r., *N* y santes yw r., *A* ..yw or fynwes.. 32 *B-FI-N* ar gelynion., *B-F* ..glinav 33 *I-KN* ar fy hynt ir wy fy hvn, *M* wy ar hynt mae yn wir hyn 34 *I-KMN* mal blaidd er ys llawer., *B-F* ..es llawer.. 35 *M* gwyllo nod dan giliau naint, *I-KN* ..nod., *E* ..gan., *A* ..giley., *C* ..guliav.. 36 *AG* ..hynn., *F* ..hoen., *A* ..y beir.. 37 *A-FI-KMN* ..rhyfig rhann 38 *N* ddyll Hywel ai ddylluan, *I-KM* oedd ddyll huw., *B-H* ..i dyllyan, *J* ..ir ddylluan, *IK* ..ir ddylluan, *M* ..i ddylluan 39 *B* gwilaw., *GH* galw., *F* ..ar nos., *N* ..nos bwy gilydd 40 *B-F* gochel., *M* ..fel del y dydd, *B-FI-LN* ..y dydd 41 *A* ..mab.. 42 *A* yn., *B* ..gwilo., *BC* ..mvd., *D-FMN* ..myd., *J* ..y mvd., *IKL* ..y myd.. 43 *D* ..ynoeth 44 *I-N* ..benyd nawn., *A* ..y naen., *D* ..wnaen.. 45 *B-F* ..veddylaid., *L* ..fyddylied.. 46 *BCF* ..na r Rai., *DE* ..na r rai.. 47 *A* dala yr yn fy a., *B-F* dala yr wyf a., *G* dal yr wyf mi a., *H* dal yr wyf im a., *I-N* dal ir wyf a.. 48 *H* gyfellach., *K* ..gyfeillod 49 *D* ..kusan.. 50 *E* ny char vy chwaer., *A* ..fyth fy chwaer., *B-DF* ..fy chwaer.. 51 *B-FI-N* carv annerch serch a son, *GH* caru mannerch.. 52 *A* ..ifeink., *BC* ..ievank.. 53 *J* mawr y kariad., *L* ..gwillied..

i

Ni allai fun a llaw fach
yno nal yn anwylach

Trefn

GH 1-6, + i, 7-12, 17-18, 13-16, 19-28, 31-2, 29-30, 33-54
Q-S 1-10, 13-14, 17-18, 29-32, 35-6, 39-40, 49-50

Priodoliad

<i>A–F</i>	Huw Dafï / Huw Dafydd
<i>GH</i>	Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys
<i>I–MOP</i>	Huw Arwystl
<i>N</i>	Tudur Aled
<i>Q–S</i>	Gruffudd Gryg

Atodiad VI
Drylliau a ddiogelwyd yn Llst 55

i

Ple mae'r mab, y palmer main,
Glân lle mae graean a gro
Y Porth Aur heb borthoriaeth

ii

4 Y mab ieuanc i'm bywyd
O trosliodd tir Selyf
Mwy ei balf no mab Elen
Y tri gwayw âi trwy Gïen

iii

8 Bryd gw lith yr Ysbryd Glân
Geirnerth yn llythyrawl
Erbynied ar led ei law
Ni allai Loegr enilliad

iv

12 Gan ymddymuno ganwaith
Glân yw dail y gelynnen,
Gwelais ei brig, gwiwlwys bren,
A'i ddail yn debyg a ddwg
16 I wÿdd irion eiddorwg.
Nac ofna di gyfnod oer,

Gaeaf a welaf, wiwloer.

Hindda pan ddêl gwanhwynddydd

20 I'w fyned yw'n tyngeid da

v

Gwledd gri a fu 'Nghaerllïon

Ymhell onid gwell nid gwaeth

Rhai obry yn rhoi ebran

24 Mae eurglos yma i'm arglwydd

A gwin ddigon i gannwr

Arglwydd diafrwydd difreg

I ddiawl neb a ddeil â mi

28 Magiad i'r teirgwlad yw'r tŷ

Teirlllys y maent mal teirllwyth

Teiroes fydd i gaterwen,

Tair oes a bid tros ei ben

vi

32 Y mab taer ym mhob tarren

Mae diwynnig am d'wyneb

Gorhydri milgi a march

Nac ymliw fal cadgamlan

vii

36

Da oedd wryd y dderwen

Ni bu 'nhrin y brenhinedd

Llawer iâ bwll ar ei ben,
Llyna orffwyll anorffen.*Ffynhonnell*Llst 55, 160 (*i*), 130 (*ii*), 3 (*iii*), 106–7 (*iv*), 32 (*v*), 155 (*vi*), 57–8 (*vii*)

Nodiadau

61

Trigai un o ganghennau'r Sgudmoriaid yn Llan-gain (Kentchurch) yn swydd Henffordd. Ymddengys mai marwnad i Domas Sgudmor yw hon am mai ef a enwir yn gyntaf (ll. 7), ac os felly yr oedd yn fab i Siâms ap Syr Siôn Sgudmor Ieuanc ap Syr Siôn Sgudmor, gw. WG2 1595; ByCy 851–2; W. Skidmore, 'Burkes Landed Gentry, 1972', Occasional Papers, No. 31 <www.skidmoregenealogy.com/images/OccPap_no._31_Burkes_20080505.pdf>.

- 6 **Caerfyrddin** Cyfleir bod y galar i'w deimlo ymhell i ffwrdd, ond tâl nodi bod plwyf Llan-gain yng nghwmwd Derllys yng nghyffiniau Caerfyrddin, gw. WATU 125. Nododd David Ellis yn CM 12 *Llan Gain sydd yn agos i Gaerfyrddin*, ond nid yno y trigai gwrthrych y farwnad. Dosbarthwyd y cywydd o dan Lan-gain, sir Gaerfyrddin, yn NBSG 281–3, gan ddilyn David Ellis.
- 7 **cant iemon** Ar arfer *cant* yn hytrach na *can* yn y safle hwn, gw. 8.59n.
- 8 **tröell** Gw. 5.24n.
- 10 **Samswn** Fe'i cynysgaeddwyd â chryfder anghyffredin a'i galluogodd i gyflawni sawl gorchest, megis lladd llew â'i ddwylo, gw. ODCC³ 1449–50.
- 12 **ŵyr Syr Siôn** Yr oedd Tomas yn ŵyr Syr Siôn Sgudmor Ieuanc, cf. 61.53–4, ond byddai ei etifedd ef yn orwyr iddo. Yn ByCy 851–2, fodd bynnag, nodir mai Siôn yn hytrach na Siâms oedd tad Tomas. Awgryma'r ll. mai gŵr ieuanc oedd yr etifedd ar y pryd. Un mab a roddir i Domas yn WG2 1595, sef Siâms, ond yr oedd iddo fab arall, Nicolas, yn ôl WMDNG.
- 15 **gŵyl Gain** Cysegrwyd eglwysi i Gain neu Geinwen, merch Brychan, ym Môn, ym Morgannwg, yng Nghaerfyrddin yn ogystal ag yn swydd Henffordd, gw. LBS ii, 52–4 55; WCD 95. Dywed y bardd fod trefniant wedi ei wneud rhyngddo a Thomas Sgudmor, a hynny yn ystod yr haf, y byddai'n ymweld â'r cartref adeg yr ŵyl nesaf. Dethlid gŵyl Cain ar 8 Hydref ac ymddengys ei bod yn digwydd ar ddydd Gwener y flwyddyn y bu farw Tomas.
- 16 **gwŷr Dewi** Pobl Cymru.
- 19 **hil Lawdden** Mawd, merch Gruffudd ap Nicolas ap Ffyllib ab Elidir

- Ddu, oedd mam Tomas, gw. WG1 330, a barnai tylwyth Einion ap Llywarch eu bod yn ddisgynyddion Urien (ll. 34). Gallai gwraig Nicolas ap Ffyllib arddel cyswllt trwy briodas â Llawdden, gw. WG1 406–7. Ni chyfeirir ato yn y cywyddau a luniodd Hywel Dafi i Ruffudd ap Nicolas a'i feibion, gw. cerddi 80–1, ond fe'i henwir ar un achlysur wrth gyfarch gwraig a ddisgynnai o Ffyllib ab Elidir Ddu, gw. 8.22n.
- 21 **Owain** Yr oedd Tomas yn orwyr i Syr Siôn Sgudmor a oedd yn briod ag un o ferched Owain Glyndŵr. Enwir Owain drachefn yn ll. 50. Ar gyfeiriadau'r beirdd at Owain yn y canu i'w ddisgynyddion ac i'r rhai a arddelai gyswllt ag ef trwy briodas, gw. G.A. Williams, 'The later Welsh poetry referencing Owain' yn *Owain Glyndŵr: A Casebook*, ed. M. Livingston and J.K. Bollard (Liverpool, 2013), 536–7. Am gyfeiriad tebyg gan y bardd, gw. 83.16n.
- 21–2 Cyfatebiaeth caled a meddal yn y cymeriad llythrennol. Gellid diwygio'r ail fraich yn *Caerlleon Gawr carw Llan-gain*.
- 24 **y gro** Trosiad am y bedd. Mewn marwnadau cyfleir yn fynych y syniad fod gŵr o faintoli anghyffredin wedi ei gladdu ac yma awgryma'r bardd fod y pridd a gloddiwyd i'w weld dros ardal helaeth. Cf. GLM VII.39–44 *Nid oes droedfedd ond beddau / o glais dir yr eglwys dau. / Merciais oll mur Caswallon; / Maelgwn fu'n anheddu'n hon: / magwyr gerrig Sarigi; / mam-wyddfa Hwfa yw hi.*
- o gylch i** Nid yw'r gynghanedd yn caniatáu mabwysiadu'r arddodiad *gogylch*, gw. GPC 1442, ac ni ddisgwyliid y cyfuniad *gogylch i*.
- Craig Wÿ** Dyfelir mai e. lle sydd yma, er na welwyd engh. arall ohono. Y mae castell Goodrich, gw. 106.16n, ar godiad tir uwchben afon Gwy.
- 25 **Llwdlo** Am engh. arall o'r ffurf hon, gw. GGDT 11.24 *Llawr llwyrfraw Llwdlaw, llid Llŷr Llediaith*.
- 26 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 55, 58.
- 30 **ewythr Siôn** Brawd ei dad oedd hwn. Dyfelir mai ef a enwir yn ll. 41 isod drachefn. Ef oedd ail ŵr Sisli, merch Ieuan ap Morgan ap Dafydd Gam, gw. WG1 104; WG2 212.
- 33–4 **gwen**, / ... **Urien** Ar gyswllt Tomas ag Urien trwy ei fam, gw. ll. 19n. Llai tebygol mai cyfeiriad at Wên, un o feibion Llywarch Hen, sydd yma, gw. WG1 tabl 12.
- 34 **Iorwerth** Methwyd â dod o hyd iddo yn yr ach. Nid ymddengys ei fod yn un o hynafiaid uniongyrchol Tomas o dad i dad, na thrwy briodas ychwaith. Cyfosodwyd Iorwerth ac Urien mewn cywydd arall, gw. 51.2n, a bernir mai Iorwerth Drwyndwn a enwir yn y cywydd hwnnw.
- 37–40 **Harri ... / ... / Rhisiart** Siâms oedd unig fab Tomas yn ôl WG2 1595. Yr oedd Harri a Rhisiart yn ewythrod i Domas Sgudmor ac yn frodyr i Siôn a enwir yn llau. 30 a 41, gw. WMDNG. Dienyddiwyd

Harri yn dilyn brwydr Mortimer's Cross, 1461, gw. ByCy 851–2; brawd Syr Siôn Sgudmor Ieuanc ydoedd yn ôl W. Skidmore, 'Burkes Landed Gentry, 1972', Occasional Papers, No. 31 <www.skidmoregenealogy.com/images/OccPap_no_31_Burkes_20080505.pdf>. Nodir yno hefyd fod dau ewythr Tomas wedi marw cyn 1489.

39 **mwstrai** 'Cynnull (milwyr), byddino' yw ystyron arferol *mwstro*, ond yma 'bygylu, bygwth', gw. GPC 2514.

40 **Edwart** Y Brenin Edward IV, ond yr oedd Syr Siôn Sgudmor Ieuanc yn un o gefnogwyr pybyr plaid y Lancastriaid, ac ymladdodd gyda Siasbar Tudur ym mrwydr Mortimer's Cross, gw. WWR² 75.

Rhôn Bu Siâms Sgudmor a llu o chwe saethydd yn gwasanaethu yn Ffrainc yn 1441, gw. R.A. Griffiths: PW i, 271–2. Ymddengys fod dau ewythr Tomas hwythau yn rhan o'r cyrch.

41 **Siôn** Dilynwyd Pen 67, gw. ll. 30n. Byddai'r ll. yn fwy ystyrlon o ddiwygio *Siôn* yn *Iôn* 'Duw'.

42 **singed** 'Modrwy sêl', gw. GPC 3277. Dyma'r engh. gynharaf a restrir.

50 **tân gwyllt Owain gynt** Efallai fod yma gyfeiriad at un o frwydrau Owain yn benodol, sef brwydr Bryn Glas a ymladdwyd ar 22 Mehefin 1402. Y mae safle'r frwydr ryw 30 milltir o Lan-gain. Daliwyd Edmwnd Mortimer a lladdwyd lliaws o'i wŷr—cynifer ag wyth mil yn ôl Adda o Frynbuga. Parodd y frwydr gryn bryder i'r goron ac adroddid bod cyrff y lladdedigion wedi eu hamharchu gan y gwagedd a ddilynai'r milwyr. Un esboniad ar lwyddiant y Cymry, a graddfa'r lladdedigion, oedd fod saethyddion Mortimer wedi troi ac wedi ochri gydag Owain, gw. G. Hodges, *Owain Glyn Dŵr and the War of Independence in the Welsh Borders* (Woonton, 1995), 76–81; J.E. Lloyd, *Owen Glendower* (Oxford, 1931), 50–2; M. Livingston, 'The battle of Bryn Glas, 1402', yn M. Livingston and J.K. Bollard, *op.cit.* 451–74.

55 Cf. 36.23 *Ni adai Dduw oedi'i ddydd*.

Diogelwyd ach y Ffelpodiaid yn WG2 1445, a gwelir bod Ffelpod ap Rhys ap Dafydd ap Ffelpod ap Hywel ab Ifor yn perthyn i genhedlaeth 14. A barnu wrth dystiolaeth y cywydd hwn, y gŵr a gyfarchwyd gan y bardd oedd Tomas ap Ffelpod ap Rhys. Nid enwir disgynyddion Ffelpod ap Rhys yn yr ach, ond gwyddys i Lewys Glyn Cothi ganu cywydd marwnad i Ffelpod, gw. GLGC cerdd 144. Canodd awdl hefyd i'w bedwar mab, sef Dafydd, Rhys, Siôn a Thomas, ynghyd â chywydd i un o'r meibion, sef Rhys, gw. cerddi 145–6. Ar sail canu Lewys Glyn Cothi gellir bod yn bur sicr mai'r pedwerydd mab a enwir uchod oedd gwrthrych cywydd moliant Hywel Dafi ac mai ei frawd Siôn a ganodd i ddychanu'r bardd, gw. cerdd

63. Wrth gyfarch Tomas dywed Lewys Glyn Cothi ei fod yn rhoi rhoddion o aur a medd yn ddibrin: *aur gwynias Domas yn un dwymiad ... medd glas gan Domas fal y gwnâi'i dad*, gw. GLGC 145.20, 24. Gan mai ef a enwir yn olaf gellid tybio mai ef oedd yr ieuengaf o'r pedwar. Trigai Ffelpod ap Rhys ym Mrulai yn swydd Henffordd, ar lan ogleddol afon Gwy, rhyw dair milltir o dref y Gelli. Ceir tystiolaeth bellach fod croeso i'r bardd ar yr aelwyd, am fod Gwenllïan ferch Ffelpod yn cael ei henwi yn y rhestr o daliadau yn Pen 67, 154–5. Gall mai taliadau a dderbyniodd Hywel Dafï gan ei noddwyr yw'r rhain. Gwenllïan yw'r enw olaf, a hi yw'r unig ferch a restrir. Gw. ymhellach A.C. Lake, ‘“O gedais lythr yn eisiau”: llawysgrif Peniarth 67 a'i disgynyddion’, LICY 37 (2014/15), 1–18.

Rhan agoriadol y cywydd yn unig a ddiogelwyd. Ymddengys fod y ddalen a oedd yn dilyn 281–2 yn y llawysgrif wreiddiol wedi ei cholli, gw. ‘Cerddi Ansic’ td. 52.

1 Cynghanedd groes o gyswllt neu *r* wreiddgoll.

6, 8 **Siôn** Rhoddir lle blaenllaw iddo yn y cywydd marwnad a ganodd Lewys Glyn Cothi i Ffelpod ap Rhys. Taid Ffelpod o du ei fam oedd hwn, sef Siôn ab Ieuan ap Llywelyn o Grugeryr, gw. WG1 790.

7 Ychwanegwyd cwpled ar ochr y ddalen ond y mae sawl gair yn aneglur. Fel hyn y'i dehonglwyd yn Peniarth MS. 67: []rvl* *wyn yw raelwyt / tynwn bawb att*n yn b*yt. Ni cheisiwyd atgynhyrchu'r cwpled yn Pen 99.

8 **siarad** Ymddengys fod Pen 67 o blaid *siariad*, ond ni chydabyddir y ffurf hon yn GPC 3263. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. ‘Rhagymadrodd’ td. 38.

16 **aeth olud Io** Am engh. arall o dreiglo goddr. *aeth*, gw. 11.16n.

19 **tŷ Ronwy** Am fod Hywel Dafï yn enwi *Tudur ym Môn* mewn cywydd arall, gw. 6.19n, tebyg fod yma gyfeiriad naill ai at ei dad, Goronwy ap Tudur Hen, neu at ei fab, Goronwy Fychan, gw. y tabl achau yn AWH 274. Cyfarchwyd Goronwy Fychan gan Ruffudd ap Maredudd mewn awdl hirfaith a lluniodd y bardd farwnad iddo yn dilyn ei farw disyfyd yn 1382, gw. GGMD i, cerddi 4, 6. Canodd Iolo Goch i Oronwy Fychan a'i bedwar brawd, ac ar yr awgrym fod Hywel Dafï yn gyfarwydd â rhai o'i gerddi ef, gw. 1.61n. Gŵr arall oedd Goronwy Foel y disgynnai rhai o noddwyr y bardd ohono, gw. 23.12n.

21 **cenglaid** Collwyd dechrau'r gair yn Pen 67, ond y mae'n bosibl fod John Davies, Mallwyd, wedi llwyddo i ddarllen yr hyn a ysgrifennwyd yn wreiddiol. Y mae *conglaid* ‘llond congl’, gw. GPC 541, yn cynnal y cymeriad llythrennol, ond i'r 17g. y perthyn yr engh. gynharaf a restrir. Yn GPC 541 d.g. *conglen* cynigir y diwygiad *cenglaid*, bôn *cengl* ‘rhwymyn neu wregys o ledr’, gw. *ib.* 450.

Siôn ap Ffelpod a ganodd y cywydd hwn i annerch Hywel Dafï ac i dynnu ei goes ar gyfrif ei fawr chwant am arian a rhoddion. Cafodd y bardd ei wobrwyo yn hael gan Siôn am ei gerddi mawl, ond yna cefnodd arno a throï at Domas, brawd Siôn, am fod hwnnw yn rhoi iddo *Rodd uwch am ei radd* (ll. 28). Y mae'n bur sicr mai un o bedwar mab yr uchelwr Ffelpod ap Rhys ap Dafydd oedd Siôn. Brawd iddo oedd Tomas a enwir yn llinell 30 ac a gyfarchwyd yng ngerdd 62. Dyma'r unig ddarn wrth enw Tomas yn MFGLI 3448. Awgryma'r cywydd fod Hywel Dafï yn ymwelydd cyson â'i gartref (llau. 25–6 *Doeth ataf ... / Lawer gŵyl*), ond ni ddiogelwyd unrhyw ganu ganddo i Siôn ap Ffelpod.

Cynghanedd: croes 12 ll. (21%), traws 10 ll. (18%), sain 24 ll. (43%), llusg 10 ll. (18%)

2 Cynghanedd sain sy'n cynnwys yr odlau *iddo / fo*, neu dwyll gyng-hanedd *dd*.

4 **diefl** Nodir d.g. *diawl* yn GPC 953 y ffurfiau amr. *diafl* a *diewl*, ond ni nodir *diefl*. Fodd bynnag, nodir y ffurf l. *diefyl*: ai ffurf gywasgedig ar y gair hwnnw sydd yma? Ni nodir ychwaith y ffurf l. *dieflaid* sydd yn digwydd yn 101.40 *Yn y dafl a wna dieflaid*.

Hywel *hvw* a ysgrifennwyd yn wreiddiol ond newidiwyd yr enw yn *howel*. Gallai hyn awgrymu mai *Huw* a ysgrifennai'r bardd yn reddfol. Ar y llaw arall, efallai mai copïo'r hyn a oedd o'i flaen a wnâi'r bardd, ac iddo sylweddoli, ar ôl ysgrifennu *hvw*, fod y mesur yn galw am *howel*; rhaid cyfrif *diefl* yn air deusill o fabwysiadu *hvw*.

10 **berw geiriau** Cadarnhaol yw'r cywair wrth i Forsys Gethin farwnadu Tudur Aled a dweud am ei awen, *Berw awen-gerdd, brifiawn-gamp ... / ... / Berwi bu iaith bur o'i ben*, TA At VI.11, 34, a cf. GLMorg 93.3 *berw Taliesin*, unwaith eto mewn marwnad i Dudur Aled. Ond efallai mai cyfleu ystyron megis 'terfysg, cythrwfl, dadwrdd' a wna *berw* yma yn hytrach na 'bwrllwm (barddoniaeth)', gw. GPC² 631. Ar ystyron deublyg *berw*, gw. GwalchCG 435–6.

11 **mawr ei gest** Ychwanegodd David Ellis ar ochr y ddalen, *Gwr tew oedd Howel Dafï mae'n debygol*.

gwestiwr Rhestrir *gwestwr* a *gwestiwr* yn GPC 1651, ond *gwestwr* yw'r ffurf yn 28.18. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38.

12 **led bwrdd y Tŵr** Cf. y disgrifiad sydd gan Hywel Dafï o'i gyd-fardd Bedo Brwynllys mewn ymryson rhwng y ddau yng nghartref Tomas Fychan yn Nhretŵr: 51.33–4 *Mae o led yn y Bedo / A gaeai'r drws ar*

Gaer Dro. Gellid y *tŵr*, ond awgrymir bod yma gyfeiriad at Dretŵr gan fod Hywel Dafï yn ymwelydd rheolaidd â'r cartref. Mewn cywydd dychan i Hywel Dafï a ddatganwyd yn y *Slwch* y tro hwn, cyfeiria Huw Cae Llwyd at ei ymweliadau â'r cartref, gw. 39.41n.

- 13–14 **padriarch ... / ... gŵr garsyth** Unwaith eto pwysleisir bod Hywel Dafï yn fawr o gorff. Ni châi padriarch, sef gŵr eglwysig (pwysig, a phwysfawr o bosibl) gadair fwy na'r gadair a roddir i'r bardd, sef y *gŵr garsyth*, gŵr 'anhyblyg ei goesau', neu 'uchelwr, pendefig; milwr, rhyfelwr', gw. GPC 1383.
- 15 **gwŷdd** Cyffredin oedd cyffelybu awen y beirdd i goed yn tyfu neu i ddeunydd crai y saer, gw. M.T. Davies, ' "Aed i'r coed i dorri cof": Dafydd ap Gwilym and the metaphors of carpentry', CMCS 30 (Winter 1995), 67–85; P. Lynch, 'Aberpergwm a'r traddodiad nawdd' yn *Nedd a Dulais*, gol. H.T. Edwards (Llandysul, 1994), 14–16.
- 17 **anwaharddol** Cynigir yr ystyron 'afreolus, anystywallt' yn ogystal ag 'anwaharddedig' yn GPC² 381.
- 23 **dywad** Newidiwyd yn *dywawd* yn Pen 99, ond y mae'r ddwy ffurf yn cynrychioli 3 un.grff. y f. *dweud*, gw. G 431. Digwydd *dywawd* yn 100.35 *Gwir Dduw gywir a ddywawd*, a *dyfod* yn 23.39n *Pysgod, o dyfod, y don*, 73.7 *Medd ef, myfi a ddyfod*.
- chwedl diledlyth** 'Gwir, dilys; bywiog, llawen', gw. GPC 1012. Diau fod y gair yn cael ei ddefnyddio yn ddychanol yn y cyd-destun hwn. Diwygiwyd y ll. yn Pen 99 yn *nid chwedl diledlyth*. Gall *chwedl* fod yn eg. ac eb., gw. GPC 846–7.
- 25 **diwith** Ffurf amr. ar *dichwith* 'hyfedr; hyfryd; diymdroi', gw. GPC 960 er na restrwyd yr engh. hon. Tybiwyd yn Pen 99 mai *diwyth* 'tirion, heddychol, di-lid' a fwriadwyd gan y bardd. Unwaith eto y mae blas dychanol ar y gair yn y cyd-destun.
- 26 **annwyl** Gair mwys. Gellid *annwyl*, *an-* + *gŵyl*, sef 'hy, digywilydd', gw. GPC² 391.
- 28 **rhodd uwch am ei radd** Yn ôl Statud Gruffudd ap Cynan, dogfen a baratowyd ar gyfer yr eisteddfod gyntaf a gynhaliwyd yng Nghaerwys yn 1523, yr oedd graddfa'r taliadau i'r beirdd yn ddibynnol ar eu graddau, gw. T. Parry, 'Statud Gruffudd ap Cynan', B v (1923–5), 32. Ymddengys fod Siôn ap Ffelpod yn ensynio bod Hywel Dafï wedi ei ddyrchafu i radd uwch, a'i fod yn awr yn hawlio tâl mwy anrhydeddus am ei ganiadau. Mewn cywydd moliant i Hywel ap Morgan a Sioned ei wraig, cyfeiria'r bardd at ei [*g*]erdd *gadair*, gw. 16.29n *Dof i'r wlad â cherdd gadair*. Gw. ymhellach 'Rhagymadrodd' tt. 16–18.
- 29 **ni bo caeth cas** Y mae i'r ddau air, *caeth* a *cas*, swyddogaeth ansoddeiriol ac enwol fel mai anodd pennu pa ystyr yn union y bwriadau'r

- bardd ei chyfleu. Cynigir yr aralleiriad ‘ni bydd gelyn [yn barod i gael ei] rwymo’ yn hytrach na ‘ni bydd gŵr wedi ei rwymo [wrth dir ei berchennog] yn elyn’. Ar *caeth* ‘deiliad rhwym i’r tir heb freintiau’, gw. GPC 385.
- 30 **fy mrawd Tomas** Tomas Ffelpod. Diogelwyd rhan o gywydd gan Hywel Dafydd, gw. cerdd 62.
m wreiddgoll neu *r* berfeddgoll.
- 32 **y gŵr tew** Ymddengys fod Tomas Ffelpod, fel Hywel Dafydd, yntau, yn ŵr mawr o gorff.
- 36 **Llawdden** Fel Ieuan Gyfannedd (gw. isod) canodd yntau i Ffyllib ap Rhys o blwyf Sain Harmon yng nghwmwd Gwrtheyrnion. Yr oedd yn ei flodau yn ail a thrydydd chwarter y 15g. ac yn dal i ganu yn 1474. Canodd yn fwyaf arbennig i noddwyr yn y canolbarth, yn siroedd Maesyfed a Brycheiniog ac yn swydd Henffordd, gw. GLI 1–15. Am gyfeiriadau ato yng nghanu’r beirdd (ond ni chrybwyllir y cywydd hwn), gw. *ib.* 12–13.
- 40 **ceinhegwerth** ‘Gwerth ceiniog, yr hyn y gellir ei brynu am geiniog’, gw. GPC 453, ond *ceinhiagwerth*, *ceinhegwerth*, *ceiniogwerth* yw’r ffurfiau a restrir yno. Ni nodir yn *ib.* fod *ceinog* yn ffurf amr. ar *ceiniog* er gwaethaf tystiolaeth un engh. gynnar. *Ceiniog* yw’r ffurf yn 26.29, ond y mae sawl llgr. o blaid *ceinog* yn 82.61n.
- 41 *n* wreiddgoll.
- 48 **y Glyn** Dyfelir ei fod yn e. lle yma ac yn gyfeiriad at noddwyr Hywel Dafydd yng Nglyn-nedd, sef Rhys ap Siancyn ap Rhys a’i feibion, gw. cerddi 75–6.
- 53 **Ieuan Gyfannedd** Bardd a roddir yn ei flodau rhwng tua 1570 a 1600 yn ByCy 389, ond a barnu wrth yr unig gywydd sydd wrth ei enw i Ffyllib ap Rhys o Genarth a’i wraig, Gwenllian, a oedd yn ferch anghyfreithlon i Owain Glyndŵr, hanner cyntaf y 15g. oedd ei gyfnod, gw. MFGLI 1795 a bellach ByCy Ar-lein lle y rhoddir y dyddiad blodeuo c.1450–60. Yn y cywydd hwnnw y digwydd y ll. adnabyddus *Cwysau o foliant cyson*. Dyfynnir y cywydd yn ei gyfanrwydd gan F.G. Payne yn ‘“Cwysau o foliant cyson”’, *Llenor*, xxvi (1947), 23–4, ac awgryma mai brodor o ardal y Gororau ydoedd. Dichon iddo ganu i’r Ffelpodiaid ond i’r cyfan gael ei golli. Gw. hefyd BU 265. Ymddengys ei fod wedi marw erbyn i’r cywydd hwn o waith Siôn ap Ffelpod gael ei lunio.
- 54 Newidiodd David Ellis *Och Dduw* yn *Och yw* er mwyn cryfhau’r odl. Nodwyd *Twyll gynghanedd* ar ochr y ddalen yn nhestun Pen 99.
- 56 **ni leihëid** Cyfeiria at y lle neu at y parch a roddid i Ieuan Gyfannedd ped ymwelai â’r cartref. Ni chaiff ei drin yn waeth na Hywel Dafydd. Ond

gallai'r ymadrodd gyfeirio at Hywel Dafï hefyd *Efô gâi ... / Le Hywel ni leihëid*. Nid yw Hywel yn mynd yn llai o ran ei faint. I'r gwrthwyneb.

64

Harri Ddu ap Gruffudd ap Harri ap Siôn ap Gwilym ap Ffyllib o'r Cwrtnewydd yn Ewias a gyferchir yn y cywydd hwn, gw. WG1 253; WG2 485–6. Dyma un o noddwyr pwysicaf Guto'r Glyn a ganodd iddo ar bum achlysur, gw. GG.net cerddi 32–6 a'r nodiadau ar ei yrfa lle y rhestrir y swyddi a fu iddo rhwng 1431 a 1467. Yn ei farwnad iddo (c. 1477) esbonia Guto mai Harri a'i dug i sylw dug Efrog: *Dug fi at y dug of Iorc / Dan amod cael deunawmorc*, gw. *ib.* 36.23–4.

Cywydd i ofyn cymod y noddwr yw hwn, ond perthyn iddo elfen ysgafn a hwyliog oblegid awgrymir bod merch o'r enw Gwladus a roes Harri dan ofal y bardd wedi ei denu gan w'r du arall, a hynny'n fwyaf arbennig ar gyfrif maint ei gala. Ar sail y cyfeiriad at *Einion Sais hil* (ll. 16), dyfelir mai Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, oedd y gŵr hwnnw. Gellid tybio y byddai'r cywydd yn destun difyrwrch yn y Cwrtnewydd ac yn Rhaglan fel ei gilydd. Anodd peidio â chyfosod y cywydd hwn a'r cywydd dychanol a ganodd Guto'r Glyn i Harri Ddu, gw. GG.net cerdd 35. Yn hwnnw cyhudda Guto ei noddwr o anghofio am ei haelioni gynt tuag at y beirdd ac o ddewis rhoi ei dda bydol yn hytrach i *Ddwsing o brydyddesau* (*ib.* 35.34). Enwir un yn benodol, sef Gwladus, *haul Lyn-nedd* (*ib.* 35.38). Nid trwy gyd-ddigwyddiad yn ddiau y rhoes Hywel Dafï *Gwladus* yn enw ar y ferch a ymddiriedwyd i'w ofal. At hyn, ymddengys ei fod yntau yn adran olaf y cywydd yn apelio at y prydyddesau yn y Cwrtnewydd ac yn deisyf eu cymorth er mwyn sicrhau maddeuant Harri Ddu. Enwir Gwladus mewn cywydd arall a ganwyd yn y Cwrtnewydd, gw. *ib.* cerdd 34. Ymgais y bardd hÿn, Ieuan Gethin, a Harri Ddu, i ddenu sylw ac i ennill ffafr Gwladus yw'r pwnc y tro hwn, a chais Guto hyrwyddo achos ei gyfaill, Harri. Awgryma B.J. Lewis, a olygodd y cerddi i Harri Ddu, mai yn ystod pedwardegau neu bumdegau'r bymthegfed ganrif y canwyd y ddau gywydd hyn. O dderbyn mai Wiliam Herbert a ddenodd y ferch a ymddiriedwyd i ofal y bardd, rhaid dyddio cywydd Hywel Dafï i'r cyfnod byr rhwng urddo Wiliam Herbert yn iarll Penfro yn 1468 a'i farw yn dilyn brwydr Banbri yn 1469. Rhoddwyd y pennawd *K : i ofyn kymod* yn LIGC 834B, a *kowydd i ofyn kymod am gollï merch oddiwrtho a roesyd ato i gadw* yn BL Add 14969.

Diogelwyd y cywydd mewn tair ffynhonnell a gopiwyd yn negawdau cynnar yr ail ganrif ar bymtheg. Y mae LIGC 834B a Pen 101 yn cyfateb yn agos i'w gilydd, ac y mae'n bur debyg fod yr ail yn gopi o'r cyntaf. Perthyn y cyntaf i gylch John Davies, Mallwyd, ac yn llaw Robert Vaughan y mae'r ail. Y mae sawl darlleniad llwgr yn BL Add 14969, er enghraifft yn llinellau 5, 28, 32, fel pe bai yma ymgais i ddehongli a chofnodi'r hyn a glywyd ar

lafar. Serch hynny dilynwyd y llawysgrif hon yn llinellau 23 a 40. Dechreuwyd copïo chwe llinell gyntaf y cywydd (gan ddilyn BL Add 14969) yn BL Add 31084 yn yr adran ar *Ieuan ab Rhydderch ab Ieuan Llwyd, Gwr Bonheddig o Sir Aberteivi ag yn amser Owain Glyndwr* ond yna sylweddolwyd mai cywydd a berthynai i Hywel Dafï oedd hwn a rhoddwyd llinell trwy'r tudalen. Cynhwyswyd y cywydd, gan ddilyn yr un ffynhonnell (sef BL Add 14969) ond gan ddiwygio yma a thraw, yn yr adran ar waith y bardd yn BL Add 31070.

3–4 **Ŵyr Wilym ... / Llwyd** Disgynnai Harri Ddu o Wilym ap Ffyllib, gw. yr ach uchod, ond un o'i hynafiaid ar ochr y fam a gaiff y sylw yma. Yr oedd Mawd, gwraig Gruffudd ap Harri, yn ferch i Wilym Llwyd ap Gerald Barry (*Gerallt* ll. 4). Fe'i henwir gan Guto'r Glyn hefyd yn un o hynafiaid Harri, gw. GG.net 32.13–14, 36.16–17.

5 **Ifor** Nid oedd yr un Ifor ymhlith hynafiaid Harri Ddu o dad i dad, ond yr oedd Harri ap Siôn yn briod ag Efa, merch Ieuan ap Rhys ab Ifor Goch (neu Ifor Gloff), gw. WG1 600. Cf. 65.27 lle y cyferchir ŵyr Harri *Tir Ifor ddeutu'r afon*. Ar y llaw arall, ymddengys mai cyffelybu Harri i Ifor Hael a wna Guto'r Glyn yn GG.net 33.17 *Hawddamor, Ifor afael*.

Bai crych a llyfn; gw. ymhellach 1.16n a 'Cynghanedd' td. 42.

5–6 **Hil Ifor ... / Wyf** Caiff y bardd ei drin fel pe bai'n aelod o'r teulu.

8 **Ilias** 'Lladd, llofruddio', ffurf amr. ar *lleasu, lliaasu*, gw. GPC 2122–3. Arferir y ffurf *lleasu* yn Atod.I.36.

11 **rhoddaist** Gthg. BL Add 14969 *roddess*. Cyfeirir at Harri Ddu yn y trydydd person yn llau. 7–10, ond yn yr ail berson yn llau. 11–14.

12 **cadwriaeth** 'Gwarchodaeth, gwyliadwriaeth, gofal', gw. GPC 380–1 lle y rhestrir y ffurf hon a *cadwraeth*. *Cadwriaeth* a gofnodwyd yn y llsgrau. ond *cadwraeth* yn ll. 54.

13 **Gwladus** Aeth M. Haycock, 'Dwsin o brydyddesau? Achos Gwladus "Hael" ac eraill', *Dwned*, 16 (2010), 106–13, ar drywydd y ferch a gafodd ei henwi yn y ddau gywydd o waith Guto'r Glyn, gw. y nodyn brig, a chynigiodd y gallai fod yn ferch i Siancyn ap Rhys Fychan neu i Rys ap Siancyn o Aberpergwm. Y mae B.J. Lewis yn ffafrio'r ail yn GG.net 34.2n.

16 **Einion Sais hil** Mab Syr Wiliam ap Tomas a Gwladus Gam oedd Wiliam Herbert. Disgynnai Gwladus o Einion Sais, gw. WG1 104, WG1 425. Ni ddisgynnai Harri Ddu o Einion Sais. Olrheiniari'r teulu eu hach hyd at Foreiddig Fychan ap Moreiddig Warwyn ap Drymbenog.

17 **anghyfeillach** Un o ffurfiau *cywaeth* sydd yn y tair llsgr. Awgryma BL Add 14969 mai gair negyddol sydd ei angen yn hytrach na'r ardd. *yn* + treigladd trwynol. Diwygiwyd yn *anghyfeillach* 'anghyfeillgarwch,

gelyniaeth', gw. GPC² 141, er mwyn gwella'r ystyr.

18 **iarll du** Wiliam Herbert, mab Syr Wiliam ap Tomas, yn ôl pob tebyg. Nid arferai'r beirdd y teitl *iarll* yn ddiotal, a rhaid dyddio'r cywydd yn dilyn dyrchafu Wiliam Herbert yn iarll Penfro.

21 **gŵr du** Gŵr pryd tywyll oedd Harri ap Gruffudd, ac yn un o'i gywyddau iddo pwysleisia Guto'r Glyn pa mor arbennig oedd y lliw hwnnw, gw. GG.net cerdd 33.

23 **I'w blwyf ... o'i blas** Nid yw'n glir at bwy y cyfeiria'r ddau ragenw. Diwygiwyd *oi blwyf* y llsgrau. yn *i'w blwyf*, a bernir bod y rhagenw cyntaf yn cyfeirio at yr *iarll du*, a'r ail at Harri Ddu. 'Deuthum o'i Gwrtnwydd yn nyffryn Ewas i blwyf Wiliam Herbert'. Ymddengys mai'r rhoddion a roes Harri Ddu i'r bardd ac i Wladus a restrir yn llau. 25–30, sef yr aur a'r arian a'r gwisgoedd, cf. *hael fu'i aras* (ll. 5), *Y gŵr du ... / A'm diwallodd o'm dillad* (llau. 21–2).

pan ddoethum Defnyddid *pan* yn berthynol yn dilyn ymadrodd adferfol ac yn rhagflaenu berf, gw. GPC 2678 d.g. *pan*⁴; GMW 79–80 a cf. DG.net 130.27 *Ac o Wynedd pan henyw* 'Ac o Wynedd y mae'n hanu'.

23–4 **plas / Newydd** Yn y Cwrtnewydd neu Newcourt yn y Dyffryn Aur y trigai'r teulu. Harri Ddu ei hun a gododd y cartref newydd hwn, gw. A. Chapman, '“He took me to the duke of York”: Henry Griffith a “man of war”', GwalchCG 106–7.

26 **gorwag** Gall olygu 'coegfalch', wrth ddisgrifio ymarweddiad Gwladus yn ei dillad newyddion, neu 'gwaglaw', gw. GPC 1504; treuliodd Harri Ddu ei holl dda ar y bardd ac ar Wladus.

28 Cyfatebiaeth *sg* = *-sg g-*.

29 **dy arian** Diwygiwyd *y darian* y llsgrau. yn *dy arian* er mwyn ategu'r hyn a ddywedir yn ail fraich y cwpled. Anodd esbonio cysefin yr a. yn dilyn *tarian*. Gall *tarian* fod yn eg. yn ogystal ag eb. yn ôl GPC 3450–1 ond pur anghyffredin yw'r eg. Eb. ydyw yn 40.7 *Ŵyr Domas, darian fras fraith*.

30 Anodd gwybod sut i ddehongli cynnig BL Add 14969 *a men avr in om nerav*. Diwygiwyd yn *A men aur i mun orau* yn BL Add 31070.

34 Cyfeiriad, o bosibl, at gywydd Dafydd ap Gwilym 'Y Cwt Gwyddau', gw. DG.net cerdd 67.

36 **Gwen a mab Owain Gwynedd** Mab y Tywysog Owain Gwynedd oedd Hywel, awdur chwech o awdlau serch nodedig a'r bardd serch cynharaf yn y Gym., gw. CLC² 353–4. Am drafodaeth ar ei ganu serch, gw. H.M. Edwards, 'Canu serch Hywel ab Owain Gwynedd' yn *Hywel ab Owain Gwynedd Bardd-Dywysog*, gol. N.A. Jones (Caerdydd, 2009). Yn ei ymdriniaeth ef yn yr un gyfrol, 'Hywel ab Owain a Beirdd yr Uchelwyr', dangosodd D. Johnston mai prin iawn oedd y cyfeiriadau

ato yng nghanu'r Cywyddwyr. Y mae'n bosibl y gwyddai Hywel Dafï am chwedl goll am ei garwriaeth â merch o'r enw Gwen, ond sylwer mai Gwennllïan yw'r ferch gyntaf a enwir gan Hywel ab Owain yn ail ran ei Orhoffedd, gw. *ib.* 200 a cherdd 6 yn GLIF.

37 **ysgyryd** 'Garw, gerwin', gw. GPC 3855. Perthyn yr engh. gynharaf i'r 16–17g. Digwydd hefyd yn e. lle ac yn e. mynydd. a diau mai *Ysgyryd* sydd fwyaf ystyrlon yn GRhB 28.39–40 *Bryn Taf lle bwriant eu byd, / bennau sgwâr, bron ysgyryd.*

38 'Cala hir mwy na hyd [cal] Cilmin'.

Cilmin Am mai gŵr pryd tywyll oedd Wiliam Herbert yn ôl tystiolaeth ll. 18, fe'i cyffelybir i Gilmin Troed-ddu, pennaeth un o Bymtheg Llwyth Gwynedd y cysylltir ei ddisgynyddion ag Arfon Uwch Gwyrfaï, gw. WCD 129. Y mae'n bosibl fod chwedlau gynt am ei garwriaeth (neu am faint ei gala).

43 **gwaddol** Ffurf amr. ar *gwaddol* yw *goddol* a gofnodwyd yn BL Add 14969.

47 **Eluned** Y mae dwy o'r llsgrau. o blaid *ail Luned*, cf. GG.net 34.29 *Ystyried ail Luned lw* yn un o'r cywyddau i Harri Ddu. Efallai mai sangiad yn disgrifio'r ddwy brydyddes, Margred ac Annes, sydd yma. Diogelwyd sawl cyfeiriad at Luned chwedl 'Owain', gw. TYP³ 346–7.

47–8 **Marged, Eluned ... / Annes** Efallai fod y rhain yn enwau confensiynol a nodweddiadol ar ferched a allai fod yn bresennol ac yn clywed datgan y cywydd. Efallai fod y bardd yn cyfeirio at brydyddes neu brydyddesau penodol, gw. y nodyn brig, neu hyd yn oed at ferched Harri Ddu. Yr oedd ganddo ferch o'r enw Margred a merch arall o'r enw Ann, gw. WG2 485. Amcan y bardd yw sicrhau cefnogaeth wrth iddo geisio adennill cyfeillgarwch Harri Ddu.

48 **prydyddes diddan** Ar galedu *s + dd > sd*, gw. Treigladau 60–1.

54 **cedorawg** 'Blewog o amgylch yr aelodau dirgel', gw. GPC 446, ond efallai mai parodwydd y ferch i rannu ei chedor a gyfleir yma.

Teitl y cywydd, yn ôl CM 12, yw *Cywydd i gynghori Gwr bonheddig rhag priodi Saesnes*, er mai'r cyngor a roddir, mewn gwirionedd, yw gwrthod Saesnes oeddrannus a dewis Cymraes *addfain ugeinmlwydd* yn wraig. Harri Mil oedd y gŵr bonheddig hwnnw, neu Harri ap Mil ap Harri ap Gruffudd ap Harri, gw. WG1 253; WG2 485–6. Yr oedd yn ŵyr i Harri Ddu ap Gruffudd y deisyfwyd ei gymod yng ngherdd 64. Perthyn Harri Mil i genhedlaeth 14 yn WG, sef y rhai a aned rhwng tua 1470 a 1500, ond yr oedd ei dad, Mil ap Harri, ymhlith cyfeillion a chydabod Wiliam Herbert a gafodd bardwn

cyffredinol ar 7 Mehefin 1457, gw. CPR 1452–1461, 367; D.H. Thomas, ‘The Herberts of Raglan as supporters of the House of York in the second half of the fifteenth century’ (M.A. Cymru [Bangor], 1968), 39–40.

Alis, merch Simon Milbourne, oedd gwraig Harri Mil, ac os canwyd y cywydd er mwyn rhwystro’r briodas, y mae’n amlwg na fu i ymdrech Hywel Dafï ddwyn ffrwyth. Tâl nodi i rai o hynafiaid Harri Mil briodi merched a hanai, chwedl y bardd, o *had Ronwen*. Alizon, merch Eustace Whitney, oedd gwraig Harri Ddu. Fodd bynnag, ceir elfen o amwysedd ynghylch gwerthoedd a theyrngarwch y bardd yn y cywydd oblegid yn dilyn ei apêl yn llinellau 39–50 diwedda’r cywydd drwy ddatgan wrth ei noddwr mai *Hebog i’r twysog wyt ti*. At hyn pwysleisiwyd bod tad Harri Mil yn *gariad y goron* (ll. 13).

Blanche Parry oedd plentyn mwyaf adnabyddus Harri. Bu’n gwasanaethu yn y llys brenhinol ac yn llawforwyn i’r Frenhines Elisabeth I. Fe’i ganed yn 1507 neu yn 1508, gw. ByCy 688–9 lle y ceir trafodaeth loyw ar ei chysylltiadau teuluol. Ceir testun a chyfieithiad Saesneg o’r cerddi i’w hynafiaid, gan gynnwys y cywydd hwn, ar y wefan ‘Blanche Parry’ <www.blancheparry.com>.

2 **yn nhir** Dilynwed Pen 99; gthg. *yn hir* Pen 67.

3 **aur y Tŵr** Tretŵr neu’r Tŵr yn Llundain. Cedwid trysorau’r goron yn yr olaf, gw. EncBr 22, 333–4. Tybed ai rhag-weld urddo Harri yn farchog a wneir?

4 **dau Harri** Disgynnai Harri Mil o ddau Harri o dad i dad, gw. yr ach uchod, ond yr oedd yn ŵyr hefyd i ddau Harri, y naill o du ei dad a’r ail o du ei fam. Harri Stradling oedd ei daid o ochr ei fam a Harri ap Gruffudd o ochr ei dad.

5 **cyff Dafydd Gam** Siân, merch Harri Stradling, oedd gwraig Mil ap Harri. Yr oedd ei mam hi, Elsbeth, yn ferch i Syr Wiliam ap Tomas, ond ni ellir bod yn sicr ai Gwladus Gam, ei ail wraig ef, oedd ei mam. Yr oedd Elsbeth felly yn chwaer (neu yn hanner chwaer) i Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, gw. WG1 425; WG2 1621–2.

6 **dau Syr Wiliam** Syr Wiliam ap Tomas a Syr Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro.

9 **peran** Digwydd y ffurf *peren* yn safle’r odl yn 29.1.

10 **y gainc arwa’ a gân’** Yng ngherdd 48 datblygir trosiad y berllan wrth gyflwyno llinach a chynnydd Tomas Fychan, Tretŵr, a dehonglir y trosiad *cainc* [= cangen] yn yr un modd yma. Gellid hefyd y *gainc* [= alaw] *arwa’ a gân*, cf. llau. 20–1 *Gwahodd pawb â’i gywydd pêr; / Chwilio â dwylo’r delyn*.

Cyfarebiaeth reolaidd yn y gynghanedd groes o gyswllt [*n*]c = c.

- 13–14 **Ei dad ... / ... bu 'n Rhôn** Ymdrinnir â gyrfa filwrol Harri Gruffudd, taid Harri Mil, yn A. Chapman, ‘“He took me to the duke of York”’: Henry Griffith, a “man of war”’, GwalchCG 108–20. Gwyddys iddo ddilyn dug Efrog i Ffrainc yn 1441, ynghyd â llu o un saethydd ar bymtheg. Erbyn mis Awst yr oedd wedi ei benodi yn swyddog a chanddo gyfrifoldeb am y magnelau. Gw. ymhellach GG.net ‘Harri Gruffudd o’r Cwrtnewydd, *fl. c.* 1425–67’.
- 14 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 52.
- 17 **uwchaf** Ffurf amr. ar *uchaf*, gw. GPC 3692, ond i’r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf a nodir yno; ond cf. *uwchder* yn GLMorg 5.26 *Uwchder nerth, a chadarn wyd*. Hefyd R 1251.4 *Y duw uwchaf y kyfarchaf wyf kyuerchyd*.
- 17–18 **Addaf lwyd / Ei wybodau** Nid oedd yr un Adda ymhlith cyndeidiau uniongyrchol Harri ap Mil. Crybwyllir doethineb Adda, cyndad y ddynoliaeth, yn 1.4n.
- 19 **tabler** ‘Gêm fwrdd, ffristial’, gw. GPC 3404. Disgwyliid i’r uchelwr feistrolï pedair camp ar hugain. Mydryddir y campau hyn yn un o gywyddau Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC cerdd 50. Yr oedd pedair gogamp ymhlith y pedair camp ar hugain, sef chwarae gwyddbwyll, chwarae tawlbwrdd, chwarae ffristial a chyweirio telyn, gw. yr adran ‘Y pedair camp ar hugain’ ar ddiwedd geiriadur John Davies, *Dictionarium Duplex* (Londinium, 1632). Sonnir am ganu’r delyn yn ll. 21, ac yr oedd saethu (ll. 24) yn un o’r pedair gwrolgamp. Am gyfeiriadau pellach yng nghanu Hywel Dafî at y campau, gw. 78.35–42.
- 27 **tir Ifor** Gw. 64.5–6n.
- 29 **Gwrgan** Gwrgan Frych, brenin Morgannwg. Fe’i henwir ym Muchedd Cadog, gw. WCD 333–4. Ond gw. 13.3ln.
- 30 **Gwaunllŵg** Y cantref rhwng afon Rhymni i’r gorllewin ac afon Wysg i’r dwyrain, gw. WATU 61.
- 32 **bordir** Fe’i diwygiwyd yn *brodir* yn Pen 99 ond y mae’r gynghanedd yn galw am y ffurf *bordir* a gofnodwyd gan y bardd yn Pen 67 (er bod rhai enghrau. o’r bai crych a llyfn yng nghanu Hywel Dafî). Cynigir yn GPC² 712–13 fod *bordor, border, bordr, bordir* ‘ffin, goror’ yn tarddu o’r S. *border*, cf. GG.net 25.68 *Rhy’r bordir i’r Herbardiaid*. Ond *brodir* < *bro* + *tir* sydd yn ll. 40.
- 35–6 Awgryma’r bardd iddo ganu cyn hyn i hynafiaid Harri ap Mil, ond un cywydd a ddiogelwyd i’r teulu, gw. cerdd 64. Fodd bynnag, cyfarchwyd nifer o ddisgynyddion Dafydd Gam a Gwladus Gam, gw. cerddi 19–27, 46–58.
- 39–52 Dyfynnir y llau. hyn yn BU 369 mewn adran lle y trafodir y berthynas rhwng y Cymry a’r Saeson yn y 15g. Cyfeirir hefyd at

gywyddau eraill a ganwyd ar yr un pwnc.

- 43–4 Dilynwyd Pen 99 lle y newidiwyd y gosodiad yn Pen 67 (*a mawr ...*) yn ofyniad.
- 44 **had Ronwen** ‘Y Saeson’; ar yr enw, gw. J.E.C. Williams, ‘Ronwen: rhawn gwynion’, B xxi (1964–6), 301–3. Croni-clir y modd y sicrhaodd y Saeson droedle ym Mhrydain trwy ddichell Hengist a’i ferch Rhonwen yn BD 91–8. Y mae lle i gredu bod Hywel Dafi yn trin *Ronwen* yn ffurf gysefin, cf. 69.2 *A chronigl achau Ronwen*. Fodd bynnag, gall fod yma dreigladau i’r e.p. yn dilyn eg. mewn ymadrodd genidol, gw. 2.1n a cf. 10.3 *had Forgan*, 69.11 *wyr Lywelyn*, ond y gysefin a arferid gan amlaf yn dilyn y lluosog. *Rhonwen* yw’r ffurf gan Ddafydd Llwyd o Fathafarn, gw. GDLI 11.24 *A Rhonwen a’i rhieni*, 22.66 *O bresen Rhonwen yn rhad*. Cf. *plant Ronwen* yn GGI² XLVIII.59, L.24, ond diwygiwyd yn *plant Rhonwen* yn GG.net 21.59, 23.28.
- 46 **Nid gwell ei chymell no chynt** Cyfeiriad cynnil at y canlyniadau alaethus a ddilynodd y briodas rhwng Gwrtheyrn a Rhonwen, gw. BD 94–5.
- 48 **cawg** Yn chwedl ‘Owain’ lle y cyflwynir y syniad o briodas drosiadol rhwng yr arwr a’i deyrnas, dechreua’r anturiaethau wrth ffynnon lle y gwelid cawg arian. Adwaenid Owain yng nghanu’r beirdd wrth yr enw ‘Iarll y Cawg’, gw. GLMorg 65.14n.
- 52 **nid a’ i’m hoes** Y darlleniad *nid â i’m hoes* a welir yn BU 369 ac yn y testun a’r cyfieithiad ar wefan ‘Blanche Parry’ <www.blancheparry.com>. Y mae hwnnw yn ystyrllon (‘Os daw hi yma yn wraig i ti ni bydd byth yn gadael’), ond ystyrllon hefyd fyddai l un.pres.myn. y f. a fab-wysiadwyd yma (‘Os dof atat i’th lys ni fyddaf byth yn gadael’). Cyfeiria’r bardd ato ef ei hun drachefn yn y cwpled nesaf.
- 53–4 **Hwde ... / Hwdau** Diwygiwyd *hwдав* Pen 67 yn ll. 53, ond cf. 46.47n lle y cyfosodir y ddwy ffurf.
- 55 **hil Harri** Yr oedd sawl Harri ymhlith hynafiaid Harri Mil, gw. nodyn brig cerdd 64.
- 56 **y twysog** Ai mab y Brenin Edward IV? Gall fod yma gyfeiriad at linach anrhydeddus Mil a’i gyswllt â’r goron trwy’r Stradlingiaid. Yr oedd Harri Stradling, ei dad yng nghyfraith, yn fab i Edward Stradling a briododd â merch y Cardnal Henry Beaufort. Yr oedd hwnnw’n wŷr (anghyfreithlon) i’r Brenin Edward III trwy John o Gaunt, dug Lancast. Canodd Gwilym Tew awdl i ofyn march gan Harri Ddu, taid Harri Mil, ar ran Harri Stradling.

Dosbarthwyd y cywydd yn CH gyda'r cerddi i Syr Wiliam ap Tomas, ail ŵr Gwladus Gam a thad Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro (gw. *ib.* cerdd 2). Ceir ateg i hyn yn Stowe 959 lle yr ysgrifennwyd *Syr Wiliam ap Thomas o Raglann*. Ateg bellach yw'r unig gywydd o waith Guto'r Glyn i Syr Wiliam ap Tomas sydd ar glawr, gw. GG.net cerdd 19 (ond cf. hefyd y farwnad ddiennw yn *ib.* cerdd 125 a all fod yn waith Guto). Cyfeiria Guto at ei lysoedd yn Rhaglan, yng Ngefenni, yn Llandeilio ac yn Nhretŵr, yn union fel y gwna Hywel Dafu yn llinellau agoriadol ei gywydd ef. Serch hynny, y mae lle i gredu mai cywydd i Wiliam Herbert, mab Syr Wiliam ap Tomas, yw hwn. Y ddadl fwyaf argyhoeddiadol yw'r enw *Wiliam ... / Herbard* (llau. 1–2). Cydnabu golygydd CH mai peth pur anghyffredin oedd defnyddio'r enw *Herbard* mewn perthynas â Syr Wiliam ap Tomas. Ar arwyddocâd yr enw, gw. D.F. Evans, 'William Herbert of Raglan (d. 1469): family history and personal identity', GwalchCG 83–101. At hyn, y mae tebygrwydd rhwng y cywydd hwn a cherdd 64. Y mae'r ddau yn gywyddau cymod, a chyhuddiadau ffug neu ysgafn, a'r rheini yn ymwneud â merch, sydd yn y cefndir yn y naill fel y llall. Colli merch a ymddiriedwyd i'w ofal yw'r man cychwyn yng ngherdd 64, a'r cyhuddiad ei fod wedi taro merch sydd yn gorfodi'r bardd i geisio cymod y tro hwn. Enwir iarll du yn y cywydd cyntaf a diau fod bys Wiliam Herbert yn y brywes yn yr ail gywydd.

Ni ddiogelwyd yr un cywydd o waith Hywel Dafu i Syr Wiliam ap Tomas er bod awgrym yn llinellau 43–8 fod y bardd yn gyfarwydd ag ef. Canodd y bardd farwnad i Wladus Gam, ail wraig Syr Wiliam ap Tomas a mam Wiliam Herbert (gw. cerdd 19) a chanodd i Wiliam Herbert ac i'w fab yntau.

Ceir arolwg manwl o yrfa Wiliam Herbert ar GG.net, gw. cerddi 20–1, 23–4. Gw. hefyd ByCy 333; R.A. Griffiths: PW i, 155–6; DNB² 26, 729–31. Canwyd y cywydd ar ôl dyrchafu Wiliam yn arglwydd yn 1461 ac o bosibl yn dilyn creu arglwyddiaeth Rhaglan yn 1465.

Seiliwyd y golygiad ar Llst 6 a Stowe 959 er bod rhai mân wahaniaethau rhyngddynt. Y gwahaniaeth pennaf yw bod pedwar cwpled yn eisiau yn Stowe 959 er nad yw'r drefn yn wahanol. Y mae rhai mân wahaniaethau hefyd rhwng y ddau hyn a'r pum fersiwn sydd yn llaw Llywelyn Siôn; a hefyd rhwng y ddau hyn a BL Add14976 (a Pen 101 a BL Add 14969 sydd yn rhannu darlleniadau cyffredin, er na ddigwydd hynny bob tro yn achos yr olaf). Mewn dwy adran gwelir trefn wahanol yn BL Add 14976, Pen 101 a BL Add 14969. Cynnwys y rhain un cwpled ychwanegol nas cynhwyswyd yn y golygiad, ond collodd BL Add 14976 a Pen 101 un cwpled a ddiogelwyd yn Llst 6 a Stowe 959, yn BL Add 14969, ac yn nhestunau Llywelyn Siôn. Y mae LIGC 18B yn dilyn BL Add 14976 ac y mae tebygrwydd amlwg rhwng Stowe 959 a Card 3.2. Yr un yw'r pennawd yn y ddwy hyn, y

mae'r un cwpledi yn eisiau, ac nid enwir y bardd yn y naill na'r llall. Os Stowe 959 oedd cynsail Card 3.2 rhaid derbyn bod y copiydd yn esgeulus ac yn hynod o ddiotal. Dilyn trefn llawysgrifau y de a wna Card 4.10 ond ceir yma nifer o ddarlleniadau llwgr nad oes cynsail iddynt yn y llawysgrifau hysbys. Copi o BL Add 14976 yw BL Add 31070. Cofnodwyd ambell ddarn yn Llst 55 a mabwysiadwyd un darlleniad unigryw yn llinell 12.

- 2 **ystiward** Yn ôl Guto'r Glyn yr oedd Syr Wiliam ap Tomas yn *Ystiward dros y Deau*, gw. GG.net 19.17. Daliai swydd stiward Brynbuga a Chaerllïon erbyn 1430, a daeth y swyddi hyn i ran Wiliam Herbert, ei fab, yn ddiweddarach, gw. R.A. Griffiths: PW i, 147–8; DNB² 26, 729–31.
- 3 **Arglwydd Rhaglan** Dyrchafwyd Wiliam Herbert yn arglwydd ar achlysur coroni Edward IV yn frenin, gw. ByCy 333. Ni ellir dyddio'r cywydd cyn 1465 os cyfeirir yma at greu arglwyddiaeth Rhaglan, y tro olaf i'r goron greu arglwyddiaeth newydd yng Nghymru, gw. DNB² 26, 729–31. Ond geilw Guto'r Glyn Syr Wiliam ap Tomas, yntau, yn *Arglwydd rhywiawglwydd Rhaglan*, gw. GG.net 19.36.
- 5 Yr oedd Syr Wiliam ap Thomas wedi prynu Tretŵr a Rhaglan yn y 1420au, a daeth y ddau i ddwylo Wiliam Herbert maes o law. Ymddengys fod hwnnw wedi rhoi Tretŵr i'w lysfrawd, Rhoser Fychan, tua 1450, gw. C.A.R. Radford and D.M. Robinson, *Tretower Court and Castle* (Cardiff, 1986), 4–5.
- 5–6 **Llan / Deilo** Meddai Syr Wiliam ap Tomas ar diroedd yn Llandeilo Gresynni, gw. CH 1.25n; GG.net 19.25n.
- 7 Yma cyplysir *gwayw a tarian* (ll. 8), ond darlleniad CH yw *Gwayw Nudd Gyfenni* wyd. Sylweddolwyd bod crybwyll *gwayw Nudd* yn beth anghyffredin, ac awgrymwyd y gallai fod yma gyfeiriad at Ludd neu Nudd Llaw Eraint a uniaethir â'r duw Gwyddelig Nuadu. Meddai hwnnw ar gleddyf arbennig, gw. TYP³ cix, 419.
- Gefenni** Ardal yng nghyffiniau tref y Fenni yn hytrach na'r afon sydd yn ymuno ag afon Wysg ger y dref, gw. GG.net 19.9n.
- 8 **eurwyd** Yr oedd Wiliam Herbert wedi ei urddo yn farchog erbyn y Nadolig, 1452, gw. DNB² 26, 729–31.
- 10 **Gwent Isaf** Rhannwyd Gwent yn ddau gwmwd, Gwent Uwch Coed a Gwent Is Coed, gw. WATU 81 a cf. 7.37 *Nid âi Ddwywent un fendith*. Trafodir y modd y syniai'r beirdd am Went yn uned, er bod y diriogaeth wedi ei rhannu yn ymarferol rhwng sawl arglwyddiaeth, gan D.F. Evans '“Talm o Wentoedd”': The Welsh language and its literature, c. 1070–c. 1530' yn GCH2 297.
- 12 **ierthi** 'Gwialen neu ffon flaenllem a ddefnyddid gynt i yrru neu i

gymell ychen', gw. GPC 2012 a cf. GLMorg 89.67–8 *Ni chyngain i'r ych wingaw / Wrth y draen a'r ierthi draw*. Yn Llst 55 yn unig y digwydd y gair hwn (*mwyn wrthych mynnwy ierthi*), ac ychwanegodd Siôn Dafydd Rhys y glos *gwialen i yrrv r ychen*. Y mae'n amlwg fod y ll. yn llwgr yn y rhan fwyaf o'r llsgrau. am fod *r.th* yn ateb *r.ch* o dan yr acen yn y geiriau *wrthywch / erchi*. Diau mai ymgais i gaboli'r gynghanedd sydd yn cyfrif am y ffurfiau *airchwaith, eurchwaith* yn safle'r orffwysfa gan Lywelyn Siôn, cf. *mwyn orchwyl* BL Add 14976. Anodd osgoi ailadrodd *mwyn* ar ddechrau dwy l. y cwpled.

- 19 **tair gradd tŷ'r Grog** Yr oedd ei bri deirgwaith yn fwy na bri eglwys Ioan yn Aberhonddu lle yr oedd delw enwog o'r Grog. Canodd Hywel Dafi i'r eglwys ac i'r Grog, gw. cerdd 102. Neu tybed ai'r deml sanctaidd yn Jerwsalem sy'n esbonio'r disgrifiad? Atalnodwyd yn wahanol yn CH *A'i neuadd tair rhan, tŷ'r Grog*, ac awgrymwyd bod yma gyfeiriad at dair rhan y neuadd, ond dwy brif ran oedd i'r neuadd, sef yr uwchgyntedd a'r isgyntedd, gw. I.C. Peate, *The Welsh House* (Llannerch, 2000), 117. Cf. HCLl XLV.1 *Dy dir a gred i dŷ'r Grog*. Ymddengys fod yr un bardd mewn cywydd i Forgan ap Dafydd Gam yn galw'r eglwys yn dŷ'r Drindod, gw. *ib.* XII.55–8 *Tai Morgan fal Teganwy, / Treftad ein hollwlad yn hwy. / Tai'r undyn wrth dŷ Trindod, / Trwy bob tir clywir eu clod*.
- 21 **llys duwiol** Eb. yw *llys* mewn Cym.C., cf. ll. 16 y *llys hon*. Efallai fod yma engh. o drin y gair yn eg., neu o galedu ar batrwm *nos da*, gw. Treigladau 24–5. Gweddai ystyron megis 'nefol, paradwysaidd', gw. GPC 1108 d.g. *dwyfol*. Awgryma *dwyol* Llst 6 y gall fod y gair wedi ei gamddeall; gellid *deol* 'arbennig', gw. GPC 930.
- 22 Y mae hon eto yn ll. sydd yn peri trafferthion. Y mae'r ll. sydd yn Llst 6 yn ddigynghanedd ac yn rhy hir. Llwyddodd Llywelyn Siôn i gywiro'r ll. ond braidd yn glogyrnaidd yw ei ymgais. Dilynwyd BL Add 14976. Collwyd y cwpled yn Stowe 959.
- 23 **Bord Gron Gaerllion** Yn ôl un o'r Trioedd *Teir Prif Lys Arthur: Kaerllion ar Wysg yg Kymry, a Chelli Wic y Ghernyw, A Phenryn Rioned yn y Gogled*, gw. TYP³ 223. Yn y testunau Arthuraidd Cym. sydd yn seiliedig ar gynseiliau Ffrengig y crybwyllir y Ford Gron am y tro cyntaf, gw. I. Hughes, 'Camlan, Medrawd a Melwas', *Dwned*, 13 (2007), 13–14. Cyplysyr y Ford Gron â Chaerllion yng ngwaith Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 120.1–2 *A mi yn nhref Gaerllion / deg ar Wysg, lle bu'r Ford Gron*, a Lewys Morgannwg, gw. GLMorg 8.15 *Bord Gron Gaerllion a'i llys*. Cf. ymhellach 104.21–2.
- 25–6 Y mae'r synnwyr yn awgrymu bod angen y gair *bai* [= diffyg] yn rhywle yn y cwpled. Digwydd ar ddechrau'r fraich gyntaf yn llsgrau. Llywelyn Siôn ond ar ddechrau'r ail fraich yn BL Add 14976. Nis ceir o

- gwbl yn Llst 6 a Stowe 959. Y mae nifer o'r llsgrau. o blaid *Bûm yno lle bûm annwyl* yn ll. 25, a cf. y ll. agoriadol mewn cywydd serch a roddwyd i Hywel Dafï mewn rhai llsgrau. *Bûm annwyl lle bûm unnos*, gw. Atod.V.1. Ceir *m* berfeddgoll yn ll. 25 fel y saif. Dewis arall fyddai deall *bai* yn ffurf ar *pe*, gw. GPC 2704.
- 26 Collwyd y ll. hon yn J.R. Hughes 5.
- 27 **pana** Ffurf amr. ar *poni*, *ponid*, gw. GPC 2848.
- 28 **Guto** Y mae'n bur sicr mai Guto'r Glyn yw hwn. Bu Hywel Dafï a Guto yn ymryson yn llys Wiliam Herbert yn Rhaglan, gw. cerddi 67–8, a bu'r ddau fardd yn croesi cleddyfau yng nghartref Morgan ap Rhoser hefyd, gw. cerddi 72–3.
- Nest** Ni wyddys pwy oedd hi. Fe'i disgrifir yn ll. 38 yn *faerwraig* 'gwraig ffermwr; llaethwraig', gw. GPC 2312, ac efallai fod y gair yn cael ei ddefnyddio yn ddychanol ac yn ddiraddiol yma, cf. cyd-destun *maerwr* (64.39) mewn cywydd arall dychanol ei gywair. Gwyddys bod Syr Wiliam ap Tomas wedi cael dau blentyn anghyfreithlon trwy Gari Ddu, a bod plant anghyfreithlon gan Wiliam Herbert yntau, trwy Fawd, merch Adam, trwy ferch Hoesgyn ap Cydrych, a thrwy ferch Wiliam Boys o Frynbuga, gw. WG1 425; WG2 780. Efallai mai un o ordderchferched Wiliam Herbert oedd Nest.
- 32 **meddylïodd** Nid yw'r brifodl yn caniatáu'r terfyniad *-oedd* a welir yn Llst 6. Digwydd y terfyniad hwn yn aml yn y testunau a gysylltir â Morgannwg, gw. GLMorg 10.42n, ond nis harferir o gwbl gan Hywel Dafï ei hun yn Pen 67, ond gw. 102.28n. Ceir sawl engh. o'r terfyniad *-oedd* yn y llsgrau. a ddiogelodd gerddi'r bardd, e.e. *paroedd* (39.46, Stowe 959), *ymapeloedd* (40.25, Stowe 959), *crinoedd* (60.12, Llywelyn Siôn), *tyfoedd* (95.33, Llywelyn Siôn), *taloedd* (102.17, Llst 6).
- 33 **meth** Gall fod yn enw, ond a. yw yma, sef 'beius', gw. GPC 2445.
- 34 **ymdrech** 'Ymgodymu, ymladd, brwydro', gw. GPC 3766, ac y mae hyn yn gyson â'r hyn a ddywedir yn llau. 29–30, ond yng ngoleuni *sebon* (ll. 39), dichon fod blas rhywiol ar y gair. Rhaid cysylltu'r berfenw â *haeru* yn ll. 29 *Haeru ... / Ym daro Nest ... / ... / ... gwedy ... / Ym drwy chwant ymdrech â hon*.
- 39 **sebon** Dosbarthwyd y ll. hon o dan yr ystyr 'had gwryw' yn GPC 3198. I ganol yr 16g. y perthyn yr enghrau. cyntaf o *sebon* 'gweniaith, geiriau teg' (? celwydd).
- 40 **chwarae'r ffon** Ymddengys ei fod yn gyfystyr â 'chwarae'r ffon ddwybig', sef 'twyllo, camarwain', gw. GPC 842. Ond yr oedd chwarae ffon ddwybig yn un o'r deg gwrolgamp y disgwyliid i'r gŵr bonheddig eu meistrolï a'u harfer, gw. IGE² 387. Am gyfeiriad arall gan Hywel Dafï at y campau, gw. 65.19n.

- 44 **llafar** Y ffurf unsill *lafr* a gofnodwyd yn Llst 6 a gall gynrychioli ffurf dreigledig naill ai *llafar* neu *llafur*, gw. GPC 2087. Mae'r a. *doeth* yn ffafrio'r blaenaf; ar *llafar* 'lleferydd, parabl', gw. *ib.* 2084.
- 49 **duwolaidd** 'Duwiol', gw. GPC 1102, hefyd d.g. *dwyfolaidd* yn *ib.* 1108. Efallai y byddai 'cyfiawn' yn taro'n well yma.
- 53 **'mai oeddym** 'Ym mai yr oeddem.' Diwygiwyd *mae* a *mau* y llsgrau. er mwyn sicrhau bod y sangiad yn ystyrion, ond disgwyliid 3 ll.amhff. yn hytrach na 1 ll.amhff. Guto a Nest a fu ar fai, nid y bardd. Y mae *oeddynt* Stowe 959 yn gwella'r ystyr ond nid yw *ynt* yn taro cystal yn ail fraich y cwpled. Cf. 64.15–16 *Be 'mai, gwen, ni bùm gynnill, / Ban oedais Einion Sais hil.*
- 53–4 Collwyd y cwpled hwn yn BL Add 14976 ond fe'i diogelwyd yn BL Add 14969 er bod y ddwy lsg. yn cynnwys darlleniadau cyffredin ac yn arddel yr un drefn.
- 54 Rhaid ceseilio.
- 57 **Seraffin ... sarff** Ailadroddir yr esboniad a gynigiwyd yn CH: yn ôl y testun 'Fal y cafas Elen y Grog' yn Pen 5, 9^a *a deu onadunt a ossodeist ym paradwys y gadw prenn y vuched. ac ef a elwyr seraphyn.* Ychwanegir yn nhestun Pen 32, 243 o 'Ystorya Addaf': *Ac ynteu a deuth tra e gefyn ac a welas sarff aruthur creulawn cribdeilyawdyr yngkylch y pren.*
- 58 **Sedd** Ffurf ar yr e.p. *Seth*, cf. GLGC 103.33 (yn safle'r brifodl) *Nid llai sôn am Siôn nog oedd am Sedd.*
- 60 **cynhwyllion** Ffurf l. ddwbl *cnewyll*, gw. GPC 519–20.
- 62 **tri gair da** Cafodd Seth dri hedyn ac fe'u rhoes o dan dafod ei dad. gw. 100.16n. Gobeithia Hywel Dafï, yntau, dderbyn tri gair bendithiol a fydd yn ei adfer ef ac a fydd yn tystio i ewyllys da Wiliam Herbert. Awgrymir yn CH y dylid uniaethu'r tri gair â'r tair llythyren AVE, sef y gwrthwyneb i'r pechod a ddaeth i'r byd yn sgil gweithred Efa yn bwyta'r afal, gw. J. Cartwright: ForF 29–37; GGMD ii, 12.17–20 *Da y gwnaeth ... / ... / Afe deg, rhag Efa dwyll.* Dyma gyfarchiad yr archangel Gabriel pan ddatgelodd wrth Fair Forwyn y byddai'n esgor ar fab a fyddai yn ei dro yn gyfrwng achubiaeth a gwaredigaeth, cf. GIBH 6.12, 14 *Dwyn Afe i glust Mair ... Gabriel grair.*

Bu dau ymryson rhwng Guto'r Glyn a Hywel Dafï. Guto'r Glyn a ysbardunodd yr ymryson a fu yn llys Wiliam Herbert (cerddi 67–8), ond Hywel Dafï a drawodd yr ergyd gyntaf yn yr ail ymryson a ddigwyddodd yng ngŵydd Morgan ap Rhoser yng Ngwaunllŵg (cerddi 72–3). Bu cryn gopïo ar yr ail ymryson ond bu'r ymryson yn Rhaglan hyd yn oed yn fwy poblogaidd.

Diogelwyd y ddau gywydd ynghyd mewn 44 llawysgrif, dwywaith cymaint â'r ymryson yng Ngwaunllŵg. Yn llys Wiliam Herbert yn Rhaglan y bu'r ymryson sydd dan sylw, a hynny cyn urddo Wiliam yn arglwydd Rhaglan ac yna yn iarll Penfro. Cynigir yn GG.net fod y cywydd wedi ei ganu rhwng 1452 pan urddwyd Wiliam Herbert yn farchog a 1454 pan fu farw Gwladus Gam, ei fam. Awgryma 68.21 ei bod hi yn fyw pan ganwyd y cywydd. Gwelir testunau o'r ymryson yn GGI² cerddi LX–LXI; PC cerddi 11–12; GG.net cerddi 20–20a (Ile y ceir nodiadau manwl ar yr ymryson a'i arwyddocâd). Atgynhyrchwyd y golygiad sydd ar wefan GG.net ond yn achos ateb Hywel Dafï addaswyd peth ar yr atalnodi a'r paragraffu, a newidiwyd ambell ffurf, er mwyn sicrhau cysondeb â'r cerddi eraill o waith y bardd yn y golygiad.

Yn dilyn agoriad confensiynol sydd yn clodfori Wiliam Herbert ac yn pwysleisio mwynderau ei lys, beirniada Guto ei gyd-fardd am ei fod yn mynnu oedi yn Rhaglan gan ymwrthod â'r arfer o deithio a chlera. Dyfais yw'r ymosodiad, wrth gwrs, i bwysleisio croesawgarwch a pherchentyaeth Wiliam Herbert. Yn ail ran y cywydd cynigir cyfres o sefyllfaoedd sydd yn ategu safbwynt Guto mai peth annaturiol yw sefydlogrwydd a diffyg antur, megis *Nid saethydd beunydd bennod / Y dyn ni wyl ond un nod* (llau. 55–6). (Ni fabwysiadwyd yn GG.net y cwpled sydd yn digwydd mewn dyrnoid o lawysgrifau ac sydd yn cynnwys y sylw *Nid amheuthun yr un wraig!*) Wrth gloi anogir Hywel Dafï i droi ei olygon at ran arall o Gymru, a chais Guto ei argyhoeddi y bydd croeso mawr i'w *gywyddau mêl* ym Môn.

Er bod rhyw ugain copi o'r ymryson rhwng Hywel Dafï a Guto'r Glyn yng Ngwaunllŵg, diogelwyd y ddau gywydd yn eu crynswth yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau, a dilynir yr un drefn yn union. Nid felly yn achos yr ymryson yn Rhaglan. Y mae trefn y ddau gywydd yn amrywio'n fawr, ac nid yw trefn y ddau destun a olygwyd yn cyfateb yn union i'r un ffynhonnell lawysgrifol. Y mae'n amlwg fod proses cymhleth o drosglwyddo llafar ac ysgrifenedig wedi bod ar waith, a phwysleisiodd B.J. Lewis, golygydd y cerddi yn GG.net, fod cryn groesffrwythloni wedi digwydd hefyd. Er bod yr un drefn i'w gweld mewn naw ffynhonnell gyda golwg ar gywydd Guto, mewn tair o'r naw yn unig y ceir yr un drefn yng nghywydd Hywel Dafï. Ac er mai'r un drefn yn union sydd yn BL Add 14971, CM 5 a LIGC 17114B gyda golwg ar gywydd Hywel Dafï, gwelir nad yw'r tair hyn yn cyfateb yn union yn achos cywydd Guto'r Glyn.

Cywydd Guto yn unig a ddiogelwyd yn LIGC 5282B a LIGC 428C. Collwyd y ddalen a oedd yn cynnwys dechrau cywydd Guto yn Pen 83. Cofnodwyd cwpled cyntaf y ddau gywydd yn Pen 221, llyfr mynegai John Jones, Gellilyfdy, a cheir drylliau o'r ddau gywydd yn Llst 55, llyfr dyfyniadau Siôn Dafydd Rhys. Rhywsut, cafodd un cwpled o ateb Hywel Dafï (llau. 27–8) ei gynnwys yng nghanol cywydd cyntaf Guto yn BL Add 31061. Nodwyd yn CM 5 *Cowydd da da ragorol o waith gutto r glyn*.

- 2 **Mwynwyr o wlad Sermania** Am gyfeiriad arall atynt, cf. BL Add 14871 [= RWM 20], 180^r *Mwynwyr Sermania / teirw teuaingc Troia / a wnae ei difa / fal chwynn neu dafawl.*
- 8 Cf. HCLI XXXIII.10 *Heb aur grughwyth brig Rhaglan.*
- 13 Digwydd yr un ll. mewn cywydd marwnad gan fardd dienw i Syr Wiliam ap Tomas, ond y mae'n bosibl mai Guto'r Glyn oedd y bardd hwnnw, gw. GG.net 125.14.
- 39 **Syr Gawen** Y marchog sydd yn cyfateb i Walchmai yn y rhamantau Ffrengig, gw. WCD 303–5 a 24.5n.
- 40 **Syr Ffwg** Syr Ffwg ap Gwarin, gw. GLI 9.53n.
Syr Raff Awgrymir yn GG.net 20.20n mai Syr Ralph Mortimer (m. 1246), ail ŵr Gwladus Ddu, oedd hwn, gw. ymhellach 19.9n.

68

Gw. nodyn brig cerdd 67.

- 11–12 Dyfynnir y cwpled yn yr eirfa a baratoes Wiliam Llŷn yn Card 3.12 d.g. *emlyniad* a thrachefn d.g. *ymlyniad*, gw. R. Stephens, 'Gwaith Wiliam Llŷn' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1983), Atodiad. Cynigir ganddo'r cyfystyr *bitheiad*.
- 15–18 Dyfynnir y llau. hyn yn J. Davies: Flores 47.

69

Canwyd y cywydd hwn yn dilyn dyrchafu Wiliam Herbert yn iarll Penfro ar 8 Medi 1468. Yn llinellau 19–38 ceir amlinelliad dethol o yrfa Wiliam Herbert hyd at goroni Edward yn frenin yn dilyn brwydr Mortimer's Cross ar 2 Chwefror 1461. Ni chrybwyllir ei yrfa filwrol yn Ffrainc ond tystia Hywel Dafu iddo fod yn weithgar yng Ngwlad yr Haf, yng Nghaint ac yn ne Cymru. Pwysleisir ymlyniad Wiliam wrth Risiart, dug Efrog, a'i fab Edward ar ei ôl, ac awgrymir bod llwyddiant Edward i'w briodoli i gampau Wiliam yn *Ennill Lloegr â'i un llygad* (ll. 35). Y cyrch yn ystod haf 1468 yn erbyn Harlech, cadarnle'r Lancastriaid, yw pwnc yr adran olaf (llau. 39–66). Ildiodd y garsiwn ar 14 Awst a gwobrwywyd Wiliam Herbert trwy ei ddyrchafu'n iarll Penfro. Ar ganlyniadau'r ildio y mae'r pwyslais yn y cywydd adnabyddus a ganodd Guto'r Glyn i Wiliam Herbert, gw. GG.net cerdd 21, ond y gwarchae ei hun sydd yn destun rhyfeddod i Hywel Dafu. Ychydig o gydymdeimlad sydd ganddo â'r rhai a fu'n amharod i dderbyn llywodraeth plaid Efrog: *Gwynedd, gwnaen' feddyginiaeth, / A Môn yn wystlon a wnaeth* (llau. 65–6). Ar y llaw arall apelia Guto'n daer am drugar-

edd, ac awgryma B.J. Lewis fod lles gwyrda Gwynedd lawn cyn bwysiced yn ei olwg â llwyddiant Wiliam Herbert. Ond fel Guto'r Glyn dymuna Hywel Dafï weld y Cymry i gyd yn uno o dan arweiniad Wiliam, cf. GG.net 21.67–8 *Dwg Forgannwg a Gwynedd, / Gwna'n un o Gonwy i Nedd*.

Diogelwyd y cywydd mewn naw llawysgrif a gopiwyd yn negawdau olaf yr unfed ganrif ar bymtheg a degawdau cynnar yr ail ganrif ar bymtheg. Un ohonynt yn unig, sef Stowe 959, sydd yn perthyn i'r de-ddwyrain, a chollwyd dau gwpled yn y testun hwn (ac felly hefyd yn Card 3.2). Y mae'r testunau i gyd yn weddol gytûn. Cafodd Wiliam Bodwrda gryn drafferth wrth wahaniaethu rhwng *d / dd a c / t* yn ei gynsail wrth baratoi LIGC 16B ac y mae ei destun ef yn ymddangos yn fwy llwgr nag ydyw mewn gwirionedd. Yn llinell 2, er enghraifft, troes *A chronigl achau Ronwen* yn *A thromgl athan ronwen*. Diogelwyd copïau diweddar yn llaw Ieuan Fardd, Dafydd Jones o Drefriw a Peter Bailey Williams (dau gopi).

Cynullwyd y canu i Wiliam Herbert yn CH cerddi 8–23. Fe'i cyfarchwyd gan Hywel Swrdwal, Guto'r Glyn, Dafydd Llwyd o Fathafarn, Lewys Glyn Cothi, yn ogystal â Hywel Dafï. Manteisiwyd ar lafur y golygydd, W.G. Lewis, wrth baratoi'r nodiadau ar y cywydd hwn, gw. CH cerdd 16 a'r nodiadau.

1–2 Ni ddiogelwyd y cywydd yn llaw John Jones, Gellilyfdy, ond rhestrwyd y cwpled cyntaf yn ei lyfr mynegai yn Pen 221, 33: *Os byrr oet dydd os brvt hen / a chronigl achav Ronwen*.

2 **achau Ronwen** Gw. 65.44n. Ychwanegodd David Ellis ar ochr y ddalen yn LIGC 18B *daughter of Hengist, a Saxon Chief, a common strumpet*.

7 **Iarll hir** Bernir bod *hir* yn goleddfu *Iarll ... Penfro*, ac ar yr awgrym ei fod yn w'r tal, gw. 47.47n, ond gwnaed *hir y deallir hwn* yn sangiad yn CH.

Camosodiad *r.ll = ll.r* os cynghanedd draws a fwrriadwyd. Gellid cynghanedd sain gadwynog hefyd, ond efallai fod *devhellir* Card 4.101 yn ymgais i gryfhau'r ll. trwy ei throi yn gynghanedd sain lefn.

9–10 **Arglwydd ... / Hawlffordd** Cafodd Wiliam Herbert arglwyddiaeth Hwlffordd a'r tiroedd a'r hawliau a berthynai iddi ar 12 Chwefror 1462, gw. D.H. Thomas, 'The Herberts of Raglan as supporters of the House of York in the second half of the fifteenth century' (M.A. Cymru [Bangor], 1968), 90. Rhoddwyd cestyll Penfro, Cilgerran a Chastell-martin o dan ei ofal hefyd. Ar y ffurf *Hawlffordd*, gw. GG.net 114.22n *Uwch Hawlffordd fal uchelffair*.

11 **Yrl Wiliam** Canwyd y cywydd yn dilyn dyrchafu Wiliam Herbert yn iarll Penfro ar 8 Medi 1468 a chyn ei ddiennyddio yn dilyn brwydr Banbri yn 1469. Ymddengys nad oedd Wiliam Herbert wedi ei arhwydeddu pan ganodd Guto'r Glyn iddo.

- ŵyr Lywelyn** Cynigir yn CH mai'r Tywysog Llywelyn ap Gruffudd yw hwn, ond diau mai Llywelyn ap Hywel Fychan a olygir, sef tad Dafydd Gam, gw. WG1 104, er bod yr enw yr un pryd yn dwyn i gof yrfa a gorchestion Llywelyn ein Llyw Olaf. Y mae'n wir na roddir amlygrwydd i Lywelyn ap Hywel yn y cerddi a ganodd Hywel Dafydd i ddisgynyddion Dafydd Gam, ond ni wneir ymgais ychwaith i gysylltu Wiliam Herbert yn uniongyrchol â llinach tywysogion Gwynedd, a cf. yr awdl a ganodd Hywel Srdwal iddo, GHS cerdd 4. Enwir y tywysog Llywelyn yn un o gywyddau Dafydd Llwyd i Wiliam Herbert, gw. GDL1 28.34, ond er mwyn pwysleisio twyll y Saeson, fel y gwnaeth Ieuan Deulwyn wrth gyfarch Wiliam Herbert, yr ail iarll, gw. ID XXXV. 33–4; LlyB XVII.11–12 *mwy lladdiad y kad kam / er Llywelyn Iarll Wiliam*. Ar y llaw arall geilw sawl bardd sylw at y ffaith fod Edward IV yn hanu o linach Gwladus Ddu, cf. 19.8n, 71.6n; GLGC 112.73–4, 79–80 *Ac o Wladus Du un o egin / yw llewpart Rhisiart drwy'r ddaear hon ... o Syr Liwnel, o Lywelyn, / y daw o rowndwal Iorwerth Drwyndwn*.
- 11–12 'Iarll Wiliam ac Edward a geidw'r tir i ni'.
- 13 Dilynwyd Stowe 959 er mwyn sicrhau bod hyd y ll. yn rheolaidd.
- 16 **planed da** Yn drosiadol am ferch neu wraig. Eb. yw *planed* ran fynychaf, gw. GPC 2816–17. Y mae'n bosibl fod yma galedu ar batrwm *hyd Dyfi*, gw. 10.6n. Yn J 101 yn unig y ceir *planed dda* a fabwysiadwyd yn CH, ond y mae'r gynghanedd yn wallus. Rhaid fyddai derbyn bod y ll. yn cynnwys y bai crych a llyfn.
- 18 **Elis-ander** Rhaid hollti'r gair er mwyn sicrhau cynghanedd, cf. GG.net 72.19 *Alecs-ander i Wrecsam*. Gwyddai'r beirdd am Aleksander Fawr o Facedonia, teyrnas yng ngogledd Gwlad Groeg, a cheir sawl cyfeiriad ato yn y canu. Fodd bynnag, dangosir yn CH mai'r arwr chwedlonol Paris, un o feibion Priaf, brenin Tro, a Hecuba oedd hwn. Fe'i hadwaenid hefyd wrth yr enw Aleksander, gw. OCD⁴ 1081. Enwir Paris yn un o'r Trioedd, ond y ffurf *Alexander* a arferir yn y 'Dares Phrygius', gw. TYP³ 476. Am fod Brutus, arweinydd gwŷr Troea, wedi dod i Brydain ac ymsefydlu yma, gellid cyfiawnhau galw Arthur a Wiliam Herbert, ynghyd â Pharis, yn wŷr Troea.
- 20 **ddeudengmlwydd** Gall fod yma gyfeiriad at yr hanes am Iesu yn ddeuddeg oed yn gwrandao ar y doethion ac yn eu holi yn y deml yn Jerwsalem, gw. Luc 2.41–50. Yr oedd nerth a doethineb Wiliam Herbert yn amlwg i bawb pan oedd yntau yn ddeudeng mlwydd oed. Disgrifir Crist yn ddeuddeg oed yn y testun 'Ymborth yr Enaid'. Am gyfeiriad arall posibl at y testun hwnnw, gw. 54.46n.
- 21 **Gwlad yr Haf** Bu Wiliam Herbert yn cynorthwyo dug Efrog i godi'r gwarchae ar Taunton yng Ngwlad yr Haf ym mis Medi 1451, gw. DNB² 26, 729–31. Yna ar 9 Mai 1461 cafodd orchymyn i feddiannu castell

- Dwnster. Rhoddwyd tiroedd arglwyddiaeth Dunster i Wiliam Herbert ym mis Mehefin 1463 ynghyd â maenorau eraill yng Ngwlad yr Haf ac yn Nyfnaint; cafodd ei fab, Wiliam Herbert, a briododd â Mary Woodville, chwaer y frenhines, ei ddyrchafu yn arglwydd Dunster, gw. D.H. Thomas, *op.cit.* 59, 77–8; WWR² 95–6; C. Ross, *Edward IV* (New Haven, 1997), 76–8.
- 23 y **dug** Y Brenin Harri VI yw'r *Dug* yn ll. 32. Ond Rhisiart, dug Efrog, a enwir yma. Aeth benben â Harri ger Dartford yn 1452, gw. R.A. Griffiths, *The Reign of Henry VI* (Stroud, 1997), 693–8.
- 24 **Cent** Awgrymir yn CH y gall fod yma gyfeiriad at wrthryfel Jack Cade. Dyma ail ddigwyddiad, felly, yn y rhan hon o Loegr. Erbyn mis Mehefin 1450 yr oedd tyrfa o rai miloedd o wŷr Caint wedi ymgasglu ar gomin Blackheath cyn gorymdeithio i Lundain er mwyn lleisio eu hanniddigrwydd am yr anghyfiawnder a'r anllywodraeth a ddaethai yn sgil y ffafrau a roddwyd i gyfeillion y brenin (a welodd yn dda ffoi i swydd Warwick), gw. C. Ross, *op.cit.* 11–12. Yr oedd Wiliam Herbert yn filwr profiadol erbyn hynny gan iddo wasanaethu yn Ffrainc. Cymerodd ran ym mrwydr Formingy ar 15 Ebrill 1450 ac yr oedd ymhlith y 900 milwr a ddaliwyd yn dilyn y grasfa a gafodd byddin Lloegr, gw. D.H. Thomas, *op.cit.* 30.
- 25 **Cent** Yn LIGC 1553B yn unig y digwydd o *Gent*; o *went* sydd ym mhob llsgr. arall. Gall fod yma engh. o gamgopiö am fod *Cent* yn digwydd yn y cwpled blaenorol, ond ailadroddir *Gwent* hefyd yn ll. 30. Y mae'r ergyd yn gryfach o lawer o fabwysiadu *Cent*.
- 28 **carn** Ll. anodd. Un dehongliad posibl fyddai i Wiliam Herbert sicrhau trefn trwy rym arfau (y saethau a'r gwaywffyn yw'r *coed*) yn hytrach na thrwy gwrdd i drafod amodau heddwch a chodi carn i goffâu'r digwyddiad, a cf. sylw Ellis Wynne yn 'Gweledigaeth Angau', gw. *Gweledigaethau y Bardd Cwsg*, gol. P.J. Donovan a G. Thomas (Llandysul, 1998), 67, *Nid oedd yn eich amser chwi, Syr, ond bargeinion bol clawdd, a lled llaw o sgrifen am dyddyn canpunt, a chodi carnedd neu goeten Arthur yn goffadwriaeth o'r pryniant a'r terfynau*. Ond cf. hefyd l. 69 *Aeth â'r carn*.
- 30 **Coentry** Gwyswyd Wiliam Herbert i ymddangos gerbron cyngor arbennig yn Coventry ddiwedd Mai 1456, ond llwyddodd i gael ei draed yn rhydd, gw. D.H. Thomas, *op.cit.* 35–7. Mabwysiadwyd y ffurf *Cwyntry* yn GG.net 44.34 *Drigeintre hyd ar Gwyntry* (*gowntry* yw darlleniad Card 2.68ii), ffurf sydd yn cyfateb i *gwintri* llsgrau. ABDJ.
- 31 **dros fôr** Yr oedd Rhisiart, dug Efrog, wedi ei benodi yn rhaglaw yn Iwerddon yn 1447, a thebyg fod Owain Dwnn yn un o'r llu a ymunodd ag ef, gw. cerdd 82. Byr fu arhosiad Rhisiart yno ond fe'i croesawyd gan yr arglwyddi Eingl-Wyddelig a theimlai yn ddigon hyderus i

ddychwelyd yno yn dilyn methiant plaid Efrog ym mrwydr Ludford. Yr oedd dug Warwig, un o brif gefnogwyr plaid Efrog, wedi ei benodi yn rheolwr Calais, a manteisiwyd i'r eithaf ar adnoddau milwrol helaeth y dref ac ar ei safle ddiogel.

- 31–6 Ymddengys fod yma gyfeiriad at gyfres o frwydrau tyngedfennol yn yr ymgiprys rhwng plaid Efrog a phlaid Lancastr, sef brwydr Northampton (14 Gorffennaf 1460), brwydr Wakefield (30 Rhagfyr 1460), a brwydr Mortimer's Cross (2 Chwefror 1461). Yr oedd Rhisiart, dug Efrog, wedi ffoi i Iwerddon yn dilyn brwydr Ludford ar 12–13 Hydref 1459, a'i fab, Edward, wedi dianc i Galais. Dychwelodd y ddau ond lladdwyd Rhisiart ym mrwydr Wakefield. Yr oedd Harri VI wedi ei ddal yn dilyn llwyddiant plaid Efrog ym mrwydr Northampton rai misoedd ynghynt. Ym mrwydr Mortimer's Cross y cafodd Edward, mab dug Efrog, y llaw drechaf ac fe'i coronwyd yn fuan wedyn. Cymerodd Wiliam Herbert ran ym mrwydr Mortimer's Cross, a gorymdeithiodd gydag Edward i Lundain, gw. C. Ross, *op.cit.* 76.
- 32 **ar dor** Gall olygu naill ai i. 'ar ben, y naill ar ben y llall'; ii. 'yn erbyn, er gwaethaf, yn erbyn ewyllys', gw. GPC 3525. Yr ail sydd yn taro orau yma.
- Harri'r Dug** Y Brenin Harri VI, ond dull Hywel Dafï o roi'r flaenoriaeth i Edward IV a bychanu hawl Harri i'r goron yw arfer y teitl *Dug*, sef dug Lancastr, wrth ei grybwyll yma.
- Cynghanedd groes o gyswllt neu *r* wreiddgoll.
- 33 **Gwyddelig ddart** Sangiad sydd yn disgrifio Rhisiart, dug Efrog, ac sydd yn pwysleisio ei gyswllt clòs ag Iwerddon.
- 34 **pen yr asen** 'Dellten, bar', gw. GPC² 498–9. Yr ystyr 'un o gyfres o esgyrn main amgrwm sy'n cysylltu'n barau â'r asgrwm cefn' a gyfleir gan y ffurf l. *ais* yn y canu, e.e. 6.1 *Cwyno'r wyf rhag gwayw 'n yr ais*.
- Rhisiart** Dug Efrog (m. 1460), tad *Edwart wyn* a enwir yn y cwpled nesaf.
- 36 **Edwart wyn** Rhoddir i *gwyn* yr ystyron 'sanctaid, bendigaid', gw. GPC 1770, a digwydd yr un cyfuniad mewn cywydd marwnad i Wiliam Herbert o waith Hywel Swrdwal, gw. GHS 7.33–4 *Edwart wyn, dyred unwaith, / I Gymru i enynnu'n iaith*. Gall *gwyn* gyfeirio hefyd at rosyn *gwyn* plaid Efrog. Defnyddiodd Hywel Dafï yr un a. wrth ddisgrifio'r Brenin Harri VI mewn cywydd a luniwyd cyn 1461 fel y bernir, cf. 76.32n.
- 37 **Anwig** Alnwick yn Northumbria. Pwysleisir bod awdurdod Edward yn ymestyn o un cwr y deyrnas i'r llall. Ond bu castell Anwig a gwŷr Northumbria yn ddraenen yn ystlys Edward IV ym mlynnydoedd cynnar ei deyrnasiad. Enillwyd a chollwyd y castell ar fwy nag un

- achlysur, gw. C. Ross, *op.cit.* pennod 3. Cymerodd Wiliam Herbert ran yn ymgyrch y brenin i geisio sefydlu ei awdurdod yng ngogledd Lloegr yn 1462, ac yr oedd yn ei gwmmi yn Durham erbyn mis Rhagfyr y flwyddyn honno, gw. D.H. Thomas: HerR 40. Cf. GLGC 112.1–2 *Dart Arglwydd Herbert, baham—na thorres / wrth ferthyru Duram?*
- 39–68 Dyfynnir golygiad o'r llau. hyn yn E.D. Jones, *Beirdd y Bymthegfed Ganrif a'u Cefndir* (Aberystwyth, 1982), 31.
- 42 **gwyddfa** E.c. 'uchelfa, uchelder; gorsedd, tomen', gw. GPC 1755.
- 43 **dau ... dri a chwech** Anodd esbonio'r cyfeiriad hwn. Crybwyllir pum capten isod (ll. 58), ond daliwyd hanner cant yn dilyn y gwarchae a'u hanfon i'r Tŵr yn Llundain, gw. WWR² 100. Bydd *dau ... dri a chwech* yn rhoi cyfanswm o ddeuddeg wrth daflu dis, sef y rhif uchaf posibl, a gallai gyfleu'r ystyr 'llwyddiant eithriadol', gw. GPC 3214 d.g. *seis*². Trafodir y cywyddau i'r cardiau, lle y sonnir am y cyfansymiau a chwenychid, yn A.C. Lake, '“Ysgrifen y fall”', *Dwned*, 2 (1996), 95–117. Cf. GLGC 23.63–4 *Traicatur drwy y curas, / trwy bob gwregis mae sis as*. Ond *sis* 'gwarchae' (o'r S. *siege*) sydd yn y cwpled nesaf yng nghywydd Hywel Dafï.
- 45 **sis** Mabwysiadwyd y ffurf hon sydd yn digwydd yn 17.15 a 61.43. Y ffurfiau a gofnodwyd yn y llsgrau. oedd *sidsis*, *six*, *sigis* a *sids*.
nid rhyhir Diwygiwyd yn CH yn *neud rhyhir* am fod pwysleisio'r hyd yn ffordd o fawrygu ymdrech Wiliam Herbert. Parodd y gwarchae am gwta mis, gw. D.H. Thomas, 'The Herberts of Raglan as supporters of the House of York in the second half of the fifteenth century' (M.A. Cymru [Bangor], 1968), 107. Collwyd y cwpled hwn yn Stowe 959.
- 46 Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll.
- 47 **tynnau gwin** Y dehongliad amlwg yw bod y cerbydau sy'n cludo'r peiriannau megis tonnau ar gyfrif eu lluosogrwydd, ac y mae'r rhan fwyaf o'r llsgrau. o blaid mabwysiadu *tonnau gwin*. Dehongliad arall yw bod y *peririannau*, sef y gynnuau mawr, fel casgenni gwin. Rhestrir *tw*n 'casgen fawr' yn GPC 3659, ac awgrymir yn betrus y gall fod yn e. yn ogystal ag yn ansoddair. Daw'r engh. gynharaf a ddyfynnir o waith Hywel Rheinallt, sef *Mae sôn am haelion ymhell / A'u gwin tw*n o gan *tunnell*. Ni nodir ffurf l. yn *ib*. ond y mae darlleniad Card 4.101, *tynnav*, o blaid yr ail ddehongliad.
- 50 **twrf gwns** Trafodir agwedd y Cymry at y gwn yn D.F. Evans, '“Y carl a'i trawai o'r cudd”': ergyd y gwn ar y Cywyddwyr', *Dwned*, 4 (1998), 75–105.
- 51 Twyll gynghanedd *l*, ond ceisiwyd cywiro'r ll. yn Pen 101 a LIGC 18B.
- 52 **o bob ywen** 'Pob ywen sydd ar gael neu o fewn cyrraedd'. Trosiad yw'r ywen am saeth. Mewn cywydd o waith Guto'r Glyn, gw. GG.net 11.7–8,

cyfeiria'r yw at y bwa: *Nid bwa hwn, cysthwn cur, / Yw neu lwyf a wnâi lafur.* Mewn cywydd o waith Tudur Aled ar y llaw arall, ymddengys ei fod yn cyfeirio at y bwa ac at y saeth, gw. TA XXII.19–20, 25–8 *Ni chaewyd yw, na choed iach, / Dan figwrn dyn fywiogach / ... / Yw'n olwyn a anelir, / A thynnu'n hwn aethnen hir; / Tynn y saeth at einioes hydd, / Efa'i'r ywen yn friwydd!*

- 54 **ffagodau** 'Bwndel neu fwrn o goed; clwm o danwydd' yw *ffagod*, gw. GPC 1274. Daw'r engh. gynharaf o'r 16g.
- 57 **tair gwart** Dwy wart sydd yn Harlech, un fewnol ac un allanol, gw. A.D. Carr a G. Carr, *Cestyll Gwynedd* (Caerdydd, 1985), 33; *Harlech Castle Gwynedd / Castell Harlech* (Cardiff, 1980), ond efallai mai'r wart fewnol a'r ddwy allanol, un i gyfeiriad y dwyrain a'r llall i gyfeiriad y gorllewin, yw'r tair. Gw. ymhellach CH ii, 77.
- 58 **pum capten** Crybwyllir chwe chaptan yn Philip Yorke, *The Royal Tribes of Wales* (Wrexham, 1799), 100, ond gw. ymhellach CH ii, 77–8. Y ddau Gymro enwocaf a gysylltir â'r ymdrechion i amddiffyn y castell oedd Rheinallt ap Gruffudd a Dafydd ab Einion.
- 60 **Bronwen lys** Adwaenid Harlech wrth yr enwau *Tŵr Bronwen* a *Tŵr Llŷr*. Dyfynnir enghrau. o waith Tudur Penllyn, Dafydd Nanmor a Thudur Aled yn G. Jones, 'Y wledd yn Harlech ac yng Ngwales ym Mabinogi Branwen', B xxv (1972–4), 380–6 a cf. GTP 16.47–8 *Tŵr Bronwen a orffennwyd / Ferch Llŷr o fewn Harddlech lwyd*.
- 61 **gwiwdan odech** 'Lloches rhag ymosodiad grymus'. Gthg. CH *Darogan, o dan odech*. Mabwysiadwyd darlleniad Stowe 959 am fod y gynghanedd yn galw am air diacen yn safle'r odl gyntaf.
- 62 **y llew a'r neidr** Arwydd herodrol Edward IV oedd y *llew*, gw. 71.21–2n, tra cynrychiolai'r *neidr* dras Wiliam Herbert a'i gyswllt â llwyth Moreiddig, gw. 46.7n.
- 64 Cf. GG.net 23.48 *A cheidwad heddwch Edwart*. Yn ôl George Owen o'r Henllys, Wiliam Herbert oedd *the chiefest subject that then defended the rightful title of the House of York*, gw. *The Description of Pembrokeshire*, ed. D. Miles (Llandysul, 1994), 29–30.

Rhaid cyfrif *cadw* yn ddeusill.

65–6 Cf. 26.8n, 47.23–4.

Golygwyd y cywydd yn CH cerdd 17 a'i ddsbarthu o dan y cerddi i Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, ond ar sail llinellau 3–4 cynigir mai'r ail iarll, mab Wiliam Herbert, a gyferchir ar yr achlysur hwn. Canodd Hywel Dafu i Wiliam Herbert ac i'w fab ac felly nid oes unrhyw sail dros dybio na allai

hwn fod yn gywydd i'r mab. Ni wyddai golygydd CH am yr awdl a ganodd Hywel Dafï i'r Brenin Edward IV ac i Wiliam Herbert, ail iarll Penfro, yn 1475, gw. cerdd 71.

Bu peth cythrwfl yng Nghymru yn 1473–4 ac yr oedd yn amlwg fod a wnelo'r Herbertiaid â hyn. Awgrymir mai anniddigrwydd Wiliam Herbert am na chafodd y swyddi a'r awdurdod a feddai ei dad oedd wrth wraidd yr helyntion. Codwyd sawl comisiwn, un ar 26 Chwefror 1474, er mwyn galw Wiliam Herbert, ynghyd â rhai o'i gefnogwyr, i gyfrif, sef Siôn Herbert 'bastard', Tomas Herbert 'bastard', Siôn ap Rhoser Fychan a Rhoser ap Rhoser Fychan, gw. D.H. Thomas, 'The Herberts of Raglan as supporters of the House of York in the second half of the fifteenth century' (M.A. Cymru [Bangor], 1968), 202–4; DNB² 26, 729–31. Dau hanner brawd Wiliam Herbert oedd Siôn a Thomas, ac yr oedd Rhoser Fychan, Porth-aml, a Siôn Fychan, Ewias, meibion Syr Rhoser Fychan, Tretŵr, yn gefnderwyr iddo. Cefnder arall iddo oedd Tomas Fychan, Tretŵr, a enwir yn y cywydd (ll. 23). Er gwaethaf sawl gorchymyn, [*Wiliam Herbert*] *did not appear before the king and council when summoned to answer for divers offences committed by them in Wales and the marches*. Byddai'r amgylchiadau hyn yn esbonio drwgdybiaeth y bardd a'i noddwr o'r Saeson. Dygir i gof rym ac awdurdod Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, yn y cywydd: *Y don nid aeth dan y dŵr; / Nid âi'ch tad o ach Tewdwr* (llau. 11–12). Y mae'n wir na chyfeirir at amgylchiadau ei farwolaeth, ond yr oedd rhyw bedair blynedd wedi mynd heibio yn y cyfamser. Nid dyma ddiwedd trafferthion Wiliam Herbert a bu'n dda ganddo dderbyn pardwn brenhinol yn 1478, diolch i ymyrraeth y frenhines, ei chwaer yng nghyfraith, gw. D.H. Thomas, *op.cit.* 204–5.

- 1 **y iarll** Cf. llau. agoriadol dau gywydd gan Lewys Morgannwg, GLMorg cerddi 45, 96 *Y iarll o Went â'r holl wŷr, Y iarll gynt ar y lle gâi*. Nodir enghrau. o'r ffurfiau *y iarll* ac *yr iarll* yn WG 192.
- 3 **y tri Wiliam** Cynigir yn CH mai i. Wiliam Gwncwerwr; ii. Wiliam Rufus, trydydd mab y Cwncwerwr a iii. Syr Wiliam ap Tomas oedd y tri hyn, ond haws esbonio'r cyfeiriad o dderbyn mai Wiliam Herbert, ail iarll Penfro, a gyferchir, a bod Hywel Dafï yn cyfeirio at dri o'i hynafiaid uniongyrchol, sef *Wiliam Herbert ap Wiliam ap Tomas ap Gwilym ap Siancyn*, gw. WG1 425. Ar ochr mam Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, ei nain (a mam Gwladus Gam) oedd Gwenllïan, merch Gwilym ap Hywel Grach, gw. WG1 245. Cf. y modd y cyfeiria Lewys Morgannwg at hynafiaid Wiliam, iarll Caerwrangon: GLMorg 48.3–4 *Tŷ dau Wiliam, tad aelwyd, / Tŵr, dau oedd ieirll, trydydd wyd*. Cf. hefyd y sylw gan Hywel Dafï mewn cywydd arall: 15.7–8 *Trydydd Hywel, aur melyn, / A'r trydydd Dafydd wyd ynn*. Yng nghywydd Guto'r Glyn i Ann Herbert, yn dilyn marwolaeth ei gŵr, iarll cyntaf

- Penfro, mynegir balchder am fod mab yn cymryd lle ei dad, gw. GG.net 26.23–4 *Troes fab ni ad trais i'i fam, / Troelus, yn lle tri Wiliam*. Deallir bod *yn lle* yn gyfystyr ag ‘yn lleoliad’ a bod y mab, yr ail iarll, yn un o’r *tri Wiliam*, ond nid annichon mai at dri o’i hynafiaid y cyfeiria Guto.
- 4 **treulio** Gw. 23.41–2n.
- 6 Cynghanedd groes gytbwys acennog neu gynghanedd sain lefn gytbwys acennog.
- 9 **ach Cradog** Yn ôl Hywel Dafî yn ei gywydd i wlad Brycheiniog, yr oedd disgynyddion Caradog Freichfras yn un o’r *Tri bonedd ... / Aeth yn un weithian yno*, gw. 59.57–8, 59n.
- 10 **Godwin** Gw. 47.32n.
- 12 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 31, 52 (ond gw. hefyd lau. 16n, 28n, 44n).
- 14 **talaith** ‘Rhanbarth, tiriogaeth, ardal’ yn 31.22, ond ‘coron’ yma, gw. GPC 3426–7. Gallai’r sylw hwn fod yn ymgais i ddwyn i gof y modd y llwyddodd Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, i orchfygu castell Harlech yn 1468. Ar yr un pryd beiddgar yw’r deisyfiad yma, megis yn ll. 52, lle yr awgrymir bod Wiliam Herbert o’r un statws â’r Brenin Edward IV.
- 16 **y gwŷr o Dre’r Garrai** Y Saeson, ac ymhellach 65.44n, 69.2n. Dyma’r gaer a adeiladwyd gan Hengist yn y dref a adwaenir bellach wrth yr enw Doncaster, gw. BD 93–4 a cf. GG.net 24.3 *Dawns gwŷr Dinas y Garrai*; GLMorg 19.19–20n *Ni chair ynod iach Ronwen / Na’u gwŷr hwynt o’r Garrai hen*.
- Cynghanedd groes o gyswllt ac ynddi *n* wreiddgoll.
- 23 **y Meistr Tomas** Tomas Herbert o Droea, brawd Wiliam Herbert, yn ôl CH. Ond gan gofio i Hywel Dafî gyfarch Tomas Fychan, Tretŵr, nai Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, a chefnder Wiliam Herbert, ail iarll Penfro, mewn cynifer â saith cywydd, tebycach mai ef sydd dan sylw, gw. cerddi 48–55. Rhaid dyddio’r cywydd hwn cyn 1483–4.
- 24 Cynghanedd groes o hanner cyswllt a *b* yn ateb [*m*]p.
- 25 Y gair gwan *rhwng* sydd yn safle’r orffwysfa, gw. 1.23n a ‘Cynghanedd’ tt. 42–3.
- 26 Nid yw’r ergyd yn glir. Cynigir mai’r rhagenw *ei* yn hytrach na’r ardd. *i* a gynrychiolir gan *y* y llsgr. Darlenniad CH yw *Ei bren a rhisg a bryn rhai*. Ymddengys fod *pren* yn drosiad am nerth Tomas Fychan a *rhisg* yn drosiad am ei wrthwynebwyrgwan.
- 27–8 **Nes elin ... / No’r arddwrn** Rhestrir y ddihareb hon yn John Davies, *Dictionarium Duplex* (Londinium, 1632); gw. hefyd DLICH testun B 319; I. Williams, ‘Hen ddiarhebion’, B iii (1926–7), 27. Manteisia’r

- bardd ar y ddihareb i gynnig cyngor i'w noddwr: ni ddylai ddal dig at ei gefnogwyr hyn yn oed os yw'n ddiig am fod eraill yn ei gythruddo neu yn ei fygwth.
- 28 Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 44.
- 29 **na ro** Y mae *ma ro d aelod* Pen 67 yn gamgopïo amlwg. Diwygiwyd yn *parod d aelod* yn Pen 99, a dilynwyd y diwygiad yn CH. Am fod bf. orchmynnol yn y ddau gwpled sydd yn dilyn, diwygiwyd yn *na ro*.
- 34 **Dafydd** Dafydd Gam a enwir yn llau. 7–8.
- 35–6 Cyfosodir Wiliam Herbert a Thomas Fychan yn y cwpled. Gelwir y blaenaf yn *gaptan Gwent* a'i wasanaethwr, Tomas Fychan, yn *fraich deau* iddo. Ond gellid diwygio yn *Yntau'n fraich Deau*, *Dwywent* neu *Yntau'n fraich ddeau i Ddwywent*.
- 36 **braich deau** Gall *braich* fod yn eg. ac yn eb., gw. GPC² 727. Fe'i trinnir yn eg. yma ac yn 102.9 sydd unwaith eto yn llaw'r bardd: *A'i ddeufraich o'i ddiolfryd*, a gw. ymhellach GPC 938 d.g. *deufraich*, *dwyfraich*. Eg. yw *braich* yn Atod.V.22 *Bedwar braich am bedair bron*, ond ni ellir bod yn gwbl sicr mai cywydd o waith Hywel Dafï yw hwnnw. Digwydd *dwyfraich* ar ddau achlysur mewn cywydd serch a roddir i Hywel Dafï ac a gofnodwyd gan Lywelyn Siôn, gw. 106.23n.
- 38 **arhôn'** Diwygiwyd *ar honn* y llsgrau. er mwyn gwella'r ystyr.
- 44 Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll.
- 46 **dy nesaf** Ar *nesaf* 'câr, perthynas', gw. GPC 2573.
- 47–50 Wrth drafod y cywydd hwn gelwir sylw yn CH 81–2 at y groesgad a drefnwyd gan y pab yn 1464 yn erbyn y Twrciaid, ond gw. y nodyn brig lle y cynigir y dyddiad 1473–4 ar gyfer y cywydd. Ymddengys fod cyfeirio at groesgad yn fotiff gweddol gyffredin yng nghanu'r 15g. a'r 16g. ac nid rhaid tybio bod ymgyrch benodol ar y gweill. Digwydd y motiff yng nghanu Dafydd Llwyd o Fathafarn, gw. GDLI 32.47–8 *Ffyrdd Elen a fforddoli / I gael Y Groes yn d'oes di* (mewn cywydd i Edward IV), 23.39–40 *I ddial twyll Iddewon / Y'th roed, fab, wrth raid o Fôn* (mewn cywydd i Harri VII); a cf. GLGC 14.3–4 *da y gŵyr wedy gwared / dynnu'r groes a'i dwyn i'r Gred* (mewn awdl i Harri VII). Mynegir dymuniad tebyg yng nghywydd Ieuan Deulwyn i Wiliam Herbert, ail iarll Penfro, gw. ID XXXV.52 *llyma r gwr a lle mae r grog*. Gw. ymhellach H. Lewis, 'Rhai cywyddau brud', B i (1921–3), 240–55. Gellir olrhain y motiff yn ôl i'r 14g. gan fod deisyfiad cyffelyb yn cael ei fynegi yn y cywydd a ganodd Iolo Goch i Edward III, gw. GIG I.52, 56–8 *Cymer yn dy gryfder groes ... A themlo'r grog a theml Grist, / A goresgyn ar grwysgaith / Caersalem hyd Fethlem faith*. Ymunodd Wiliam Herbert â chyrch Edward IV i Ffrainc yn 1475, gw. cerdd 71, ac ymddengys fod y paratoadau ar y gweill pan ganwyd y cywydd hwn.

- 48 Gair gwan, sef yr ardd. *ar*, sydd yn cynnal odl gyntaf y gynghanedd sain. Am enghrau. eraill, gw. 1.23n a ‘Cynghanedd’ tt. 42–3.
- 52 Datganiad mentrus o gofio mai’r haul oedd arwydd plaid Efrog.
- 53 **Môr Rudd** Arferid yr enw hwn, a *Môr Udd*, wrth gyfeirio at Fôr y Gogledd, a hefyd wrth gyfeirio at y gainc o fôr rhwng Lloegr a Ffrainc, gw. GPC 2485–6.
- 54 **Môr Tawch** Gall gyfeirio at Fôr y Gogledd, y Môr Coch ac at Fôr Iwerydd, ond y mae hefyd yn gyfystyr â ‘môr, y weilgi’, gw. GPC 2485.
- 55 **chwe dinas** Rhaid wrth *chwe* i ateb gofynion y gynghanedd ond y ffurf lafar *hwe* a gofnodwyd yn Pen 67.

71

Yn 1475 y canwyd yr awdl hon i’r Brenin Edward IV ac i Wiliam Herbert, mab ac etifedd iarll cyntaf Penfro. Buasai Edward yn meddwl am ymosod ar Ffrainc er 1468, ond bu’n rhaid iddo aros nes iddo ddarbwylllo’r Senedd a chael ganddi ariannu’r cyrch, a nes iddo lwyddo i sicrhau cynghrair â Siarl, dug Bwrgwyn a Ffransis, dug Llydaw yn erbyn y Brenin Louis XI, gw. DNB² 17, 856. Hwylodd y fyddin i Galais ym mis Gorffennaf 1475 ac erbyn 18 Gorffennaf yr oedd y fyddin yn barod i symud i gyfeiriad y de. Un peth anghyffredin am y cyrch oedd fod y cyfan bron o bendefigion Lloegr wedi ymuno ag ef ac wedi teithio gyda’r brenin i Ffrainc, a Wiliam Herbert yn eu plith, gw. C. Ross, *Edward IV* (New Haven, 1997), pennod 9. Cododd Wiliam Herbert lu a oedd yn cynnwys deugain gŵr arfog a dau gant o saethyddion. Yr oedd yn rhan o’r cwmni dethol pan benderfynwyd trafod â brenin Ffrainc ac yr oedd yn bresennol pan gytunwyd ar yr amodau heddwch rhwng y ddwy wlad, gw. D.H. Thomas, ‘The Herberts of Raglan as supporters of the House of York in the second half of the fifteenth century’ (M.A. Cymru [Bangor], 1968), 206. Tua’r un adeg y canodd Guto’r Glyn ei gywydd ef i’r brenin, gw. GG.net 29.43–4 *O threwi â’th wŷr ieuainc*, / *Od ai ar ffrwst i dir Ffrainc*. Awgrym B.J. Lewis yw bod y cywydd hwnnw wedi ei ganu naill ai yn ystod y blynyddoedd 1474–5 ar drothwy’r cyrch neu o bosibl yn Amwythig ym mis Mehefin 1473, a hynny yng ngŵydd Edward IV a Wiliam Herbert.

Apêl am gymorth i amddiffyn y brenin a’i wŷr (a Wiliam Herbert yn eu plith) ac i sicrhau llwyddiant eu cyrch yw’r awdl, a gelwir am gymorth y canlynol: i. Duw a Christ a Mair Forwyn; ii. yr archangylion Mihangel, Raffael, Gabriel ac Uriel; iii. gwŷr a gwagedd daionus a enwir yn y Testament Newydd, sef Ioan Fedyddiwr, Martha a Mair Fadlen; iv. yr apostolion: enwir chwech ohonynt, sef Pedr, Tomas, Andras, Iago mab Sebedeus, Iago mab Alffeus a Mathew; v. saint yr eglwys nad oeddynt yn perthyn i Gymru; vi. saint brodorol. Y mae’r awdl hon, a’r cywydd a ganodd

Lewys Glyn Cothi i saint Cymru, gw. GLGC cerdd 7 (cywydd sydd yn anghyflawn, gwaetha'r modd), yn dangos pa mor helaeth oedd gwybodaeth y beirdd a'u cynulleidfaoedd am y saint a'u bucheddau. Paratowyd rhestr o saint Cymru a'u gwyliau yn LIGC 3026C [= Mos 88], gw. RWM i, 16–17, ond cynnwys y rhestr ambell enw arall, a digwydd rhai ohonynt yn yr awdl hon, sef Ysteffan, Leini, Ffabian, Denis a Luwsi.

Gellir cyffelybu'r awdl hon i ddwy awdl arall: yr awdl a ganodd Dafydd Nanmor i Harri Tudur, gw. DN cerdd XVII; hefyd Iolo MSS 313–15, ac awdl Rhys Nanmor i Syr Rhys ap Tomas pan oedd yn glaf, gw. Llawdden, &c.: Gw cerdd 67. Mydryddir enwau lliaws o saint Cymru yn y ddwy awdl hyn drachefn. Mewn cyfres o englynion 'Englynion y Misoedd' a luniodd Dafydd ab Edmwnd, gw. DE cerdd LXIII, mydryddir enwau'r saint a goffeir ym mhob un o fisoedd y flwyddyn yn eu tro. Gelwir am fendith nifer o saint yn y cywydd a ganodd Huw Cae Llwyd cyn iddo fynd ar bererindod i Rufain, gw. A.C. Lake, 'Huw Cae Llwyd: tri nodyn', *Dwned*, 20 (2014), 65–77.

Diogelwyd y testun cynharaf yn llaw John Davies, Mallwyd, yn Pen 100.

Y mesurau

1–24 Cyfres o chwe englyn unodl union wedi eu cysylltu â chyrch-gymeriad.

25–94 Cyfres o doddeidiau ar yr odl *-i*. Y mae'n bosibl fod un cwpled yn eisiau.

1–2 **sant / A santes** Disgwylid y ffurfiau lluosog. Hawdd diwygio *sant* yn *saint*, ond anos mabwysiadu *santesau*. Trafodir y defnydd o'r unigol yn y gystrawen hon gan T.H. Parry-Williams, 'Miscellaneous notes on words and constructions', B i (1921–3), 105–6. Cf. hefyd GGMD ii, 1.169–70 *bydd ysydd o sant / Â naws gogoniant*.

1–4 Cofnodwyd yn Pen 159, 166 englyn serch sydd yn dilyn yr un patrwm cystrawennol *Er y ssydd a vydd ac a fv o avr / ac arian ynghymrv / Ni vynnwn verch geinsserch gv / dec rwydd wallt dy geryddv*. Cf. GLGC 1.65 *Chwi y sydd ac a fydd ac a fu—erioed*.

4 **a wnêl troi** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.dib., gw. 47.42n.

y tarw du Cf. GG.net 29.1 *Mae'r tarw mawr o'r Mortmeriaid?* Dyma un o'r symbolau a arferid gan Edward IV ac a ddynodai ei gyswllt â disgynyddion Edward III trwy ddug Clarens, gw. *A New Dictionary of Heraldry*, ed. S. Friar (Sherborne, 1987), 359.

Twyll gynghanedd *l*.

6 **Cadwaladr Fendigaid** Y brenin olaf a enwir ym Mrut Sieffre o Fynwy, gw. BD 204–7; TYP³ 298–9. Gallai Edward IV arddel cyswllt gwaed â thywysogion Cymru, ac â Chadwaladr, trwy briodas Gwladus

- Ddu, merch Llywelyn Fawr, â Ralph Mortimer, gw. 19.8n; CLC² 305 a'r tabl yn J. Davies: HC 134. Pan fu farw Edward gresynai'r bardd Maredudd ap Rhys *Marw Derfel o Lywelyn*, gw. GMRh 13.17.
- 8 **Penfro yw'r iarll** Yn 1479, ar ôl y cyrch i Ffrainc, gorfodwyd Wiliam Herbert i ildio iarllaeth Penfro a derbyn iarllaeth Huntingdon, gw. DNB² 26, 729–31.
- 13 **nifer fawrglod** Nodir yn GPC 2582–3 y gall *nifer* fod yn eb. yn ogystal ag yn eg. Ond gallai *mawrglod* oleddfdu *Duw*.
- 15–16 **Mair ... / O Ben-rhys** Yr oedd delw Fair ym Mhen-rhys yn gyrchfan bwysig iawn. Ar y canu iddi, gw. C. James, 'Pen-rhys: Mecca'r genedl', yn *Cwm Rhondda*, gol. H.T. Edwards (Llandysul, 1995), 27–71. Ymdrinnir â rhai o'r gwyrthiau a gysylltir a Phen-rhys gan M. Gray, "Gwyrth yn y coed gynt": a rediscovered miracle collection from the shrine of the Virgin Mary at Penrhys', SC xxv (2011), 105–9.
- 16 **meibion Rhoser** Rhoser Fychan, Tretŵr (m. 1471). I'w feibion, Tomas a Siôn, y canwyd cerddi 48–58. Ar y ffurf *Rhoser*, gw. 58.11n.
- 17 **meibion Mair a Non** Crist a Dewi.
- 21–2 **tri llew gwyn ... gowls / A glas** Disgrifiad o arfbais Edward IV a oedd yn cynnwys tri llew aur mewn dau chwarter ar gefndir coch (*gowls*) a thri fflwr de lis ar gefndir glas yn y ddau chwarter arall. Dynodai'r fflwr de lis ei hawl i goron Ffrainc.
- 27–8 **Herbart / ... Edwart** Yr oedd Wiliam Herbert a'r Brenin Edward IV yn frodyr yng nghyfraith am fod y naill a'r llall wedi priodi merched Richard Woodville, iarll Rivers, gw. WG2 780.
- 30 **lateni** 'Ffurf benodedig o weddi gyhoeddus', gw. GPC 2065, ond y ffurfiau *litani*, *letani* a restrir. Bydd y weddi yn fynych ar ffurf cyfres o erfyniadau, ac ar y saint yn benodol, gw. ODCC³ 984–5.
- 32 **arfod** Cynigir yr ystyron 'trawiad (ag arf), dyrnod, ergyd, ymosodiad, cyrch, ymladdfa, brwydr' yn GPC² 445, ond gellid hefyd 'arfogaeth'.
- 34 **Edwart o Rôn** Yn Rouen yn Normandi y ganed Edward IV (1442–83), gw. DNB² 17, 849. Ailadroddir y disgrifiad yng nghywydd Guto'r Glyn i'r brenin, gw. GG.net 29.5–6 *Yr un gŵr o'r iawn goron / Ydiw'r tri; Edward o Rôn*.
- 38 **calon** Yr ystyr ffig. 'gwrthrych serch' sydd yn gweddu orau yma, gw. GPC 394.
- 39 **trafael** Gellid naill ai 'ymdrech boenus neu lafurus' fel yn 75.25 *Minnau weaf heb drafael*, neu 'taith, siwrnai', gw. GPC 3546 d.g. *trafael*^{1,2}, ond o'r 16g. y daw'r engh. gynharaf o'r ail.
- 42 **anfon** Y mae'n bosibl mai 'hebrwng' yw ystyr *anfon* yma, gw. GPC² 282–3.

- 44 **Ieuan Fedyddiwr** Y gŵr a broffwydodd ddyfodiad teyrnas Crist, gw. ODCC³ 888.
- 47 **Pawl, Tomas, Andras** Yr oedd Tomas, gw. ODCC³ 1612–13, ac Andras, gw. *ib.* 60, ymhlith y deuddeg apostol.
- 48 **y ddau Iago** Dau o ddisgyblion Crist, Iago mab Alffeus ac Iago mab Sebedeus, gw. *ib.* 857–8. Y cyntaf, yn ôl traddodiad, a fu'n pregethu yn Sbaen ac a gysylltir â Santiago.
- i mi** Y mae angen gair acennog yn safle'r brifodl i osgoi'r bai crych a llyfn.
- 51 **pum gweli** Y pum clwyf a ddiodefodd Crist, sef trywanu ei ystlys, hoelio ei draed, hoelio ei ddwylo, gwisgo'r goron ddrain a dioddef ergydion y fflangell, gw. ODCC³ 1767.
- 52 **Marcus, Mathëus** Dau o'r pedwar efenglydd, gw. ODCC³ 1038, 1056.
- rhôm a thewi** 'Rhyngom a thewi' (sef marwolaeth). Holltwyd y geiriau yn wahanol yn y llsgrau. ac ymddengys fod y copïwyr yn barnu bod rhan gyntaf yr ymadrodd yn cynnwys yr e. lle *Roma* 'Rhufain'.
- 54 **yr Efangylwyr** Y pedwar efenglydd, sef Mathew, Marc, Luc ac Ioan. Enwir dau o'r pedwar, sef Marc a Mathew, yn y cwpled cynt. Enwir y pedwar yn y cywydd i Grog Aberhonddu a chyfeirir at y symbol a gysylltid yn draddodiadol â phob un, gw. 102.27–36.
- 55 **Ystyffan** Merthyr cyntaf yr eglwys Gristnogol a laddwyd tua 35 O.C., gw. ODS 361–2; Act 6–7. Sant arall a enwir yn 44.47n.
- Lini** Gallai fod yn e.c. ond ni restrir *llini* yn ffurf I. *llin* 'gwehelyth', gw. GPC 2180–1. Os e.p. gallai fod yn ffurf ar *Linus* a ddilynodd Bedr yn esgob ar yr eglwys yn Rhufain, ac a enwir yn 2 Tim 4.21. Darlleniad Pen 100 yw *Lân Lin*; rhoddir prif lythyren i'r ail elfen sydd yn awgrym mai e.p. sydd yma. Rhestrir *Leini esgob* mewn tabl o saint a'u gwyliau yn LIGC 3026C [= Mos 88], gw. RWM i, 17.
- Dwnstan** Mynach Benedictaidd ac archesgob Caer-gaint yn y 10g., gw. ODS 111–13. Pan grewyd arglwyddiaeth Rhaglan, cafwyd hawl i gynnal dwy ffair yn flynyddol, un ohonynt ar 19 Mai ar ddiwrnod gŵyl Dwnstan, gw. J. Bradley, *A History of Monmouthshire Vol 2, Part 1* (London, 1914), 8.
- 56 **Alban** Cyfeiria Gildas a Beda at ei ferthyrdod yn y 3g., gw. ODS 8–9.
- 57 **insens** 'Aroglarth', gw. GPC 2023, ond daw'r engh. gynharaf o'r 16g. Diwygiwyd *insent*, *Clement* y llsgrau. yn *insens*, *Clemens*.
- Clemens** Esgob Rhufain a merthyr a laddwyd tua 100 O.C., gw. ODS 83–4.
- cael i mi** Dilynwyd Pen 100 *cael i mi*, ond trwsogl yw'r frawddeg. Fodd bynnag, cf. GGMD ii, 1.15 *Cael ym, grym grair, rhad o'i borthair*,

rheidiau berthedd. Y mae hefyd yn bosibl fod enw sant wedi ei gamddeall, a hwnnw, fe ddichon, yn hanu o wlad arall. Rhestrir enw'r sant *Calminius* neu *Calmin* yn 'Catholic Online: Saints' <www.catholic.org/saints>, a dywedir iddo sefydlu tri abaty yn Ffrainc yn y 6g. neu'r 7g.

- 59 **Erasmus** Esgob a merthyr o'r Eidal a fu farw tua 300 O.C., gw. ODS 133. Ceir testun Cym. o'i fuchedd yn Llst 34. Crybwyllir ei ferthyrdod mewn cywydd serch a briodolir i Ieuan Dyfi, gw. HCLI LXIII.47–8 *Sant Rasmus ofalus fu / Wrth aros ei ferthyru*.

Morus Enwir sawl *Maurus* yn 'Catholic Online: Saints' <www.catholic.org/saints>. Yr oedd un yn fynach a oedd yn byw yn y 6g. ac yr ymddiriedwyd ei hyfforddiant i Bened. Fe'i huniaethwyd yn ddiweddarach, ond ar gam, â Maurus a sefydlodd abaty Glanfeuil ar lan afon Loire nid nepell o dref Saumur yn Ffrainc, gw. ODS 273; ODCC³ 1060–1.

Mawri Gellid e.c. *mawr + rhi*, gw. GPC 2385, ond tystia 'Englynion y Misoedd' fod sant o'r enw *Mawri*; dethlid ei wyl ar ddydd Calan, gw. DE LXIII.2.

Sebastian Merthyr o Rufain a ddioddefodd o dan law yr Ymherodr Diocletianus tua diwedd y 3g., gw. ODS 352–3.

- 60 **Ffabian** Esgob a merthyr a fu farw yn 250 O.C., gw. ODS 146; NCE 5, 783.

- 62 **Sain Denis** Esgob Paris a nawddsant Ffrainc, gw. ODS 105–6. Fe'i henwir yn y rhestr o'r merthyron yn LIGC 3047C [= Mos 144], 330: *llyma henway y saith merthur penna or bvd ag a gan pa arch bynnag a archon gan grist hyd ddvdd brawd achos i bod yn benna merthyri garbron crist Sain Lassar Sain Kristoffr Sain Sior Sain Denis Santes Katring, Santes Marged Sain Vnisens*.

- 63 **etifedd mawredd meiri** Sangiad sydd yn disgrifio Edward IV. Gellid atalnodi yn wahanol a chyplysu'r geiriau *etifedd* a *Sain Lewys*. Awgrymid wedyn bod Edward yn iawn etifedd i Lewys am ei fod yn hawlio awdurdod yn Ffrainc.

Sain Lewys Y Brenin Louis IX o Ffrainc (1214–70), a arweiniodd groesgad i'r dwyrain yn 1248, gw. ODS 249–50.

- 66 **Curig ... Geri** Cysegrwyd sawl eglwys i Gurig yn y de a'r gogledd, ond yng nghantref Arwystli, nid yng nghwmwd Ceri, y mae Llangurig, gw. LBS ii, 192–200; TWS 262–8; WCD 155. Byddai enwi Curig yn addas am fod 'Eryn Curig' yn fath o swyn a adroddid cyn mynd ar daith, gw. B.F. Roberts, 'Rhai swynion Cymraeg', B xxi (1964–6), 202–3. Ond nid ymddengys fod y bardd yn ymwybodol o'r weddi amddiffynnol honno. Canodd Hywel Swardwal i'r sant i ddeisyf gwellhad i'w

lygaid, gw. GHS cerdd 20. Gw. ymhellach l. 81n d.g. *Iuli*.

arglwydd Geri Yr oedd arglwyddiaethau Ceri a Chedewain wedi eu rhoi i Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, ym mis Awst 1467, gw. D.H. Thomas, 'The Herberts of Raglan as supporters of the House of York in the second half of the fifteenth century' (M.A. Cymru [Bangor], 1968), 94–5.

68 **Iorus** Merthyr a fu farw ym Mhalesteina tua 303 O.C., a nawddsant Lloegr er y 14g. Yr oedd ei gwlt yn eang a dechreuodd yn gynnar, gw. ODS 166–7; hefyd ll. 62n.

69 **Dafydd** Arferir y ffurf *Dafydd* yn ogystal â *Dewi* yn 'Buchedd Dewi' wrth gyfeirio at Ddewi Sant, gw. BDe 1, 26. Esbonnir yn y testun Llad. mai Dewi y gelwid ef gan y bobl gyffredin. Ond gellid y Brenin Dafydd o'r Hen Destament am ei fod yn enwog am ei orchest yn lladd y cawr Goleiath, gw. I Sam 17.

Lewys Lewys XI, brenin Ffrainc rhwng 1461 a 1483.

71 **Dingad** Yr oedd dau sant o'r enw Dingad, y naill yn fab i Frychan a'r llall yn fab i Nudd Hael, gw. LBS ii, 343–4; WCD 199.

doniad Tebyg mai 'rhoddwr, anrhegwr' yw'r ystyr, gw. GPC 1076, ond i'r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf, felly hefyd yn achos *doniad*¹ 'rhoddiad, rhodd', gw. *ib*.

Bai crych a llyfn. Gw. ymhellach l.16n a 'Cynghanedd' td. 42.

72 **Deinioel** Yr oedd yn fab i Babo Post Prydyn. Fe'i cysylltir â Bangor Is-Coed ac â Bangor Fawr yn Arfon, ond dywedir iddo gael ei gladdu yn Enlli, gw. LBS ii, 325–31. Yn 1602 copiodd Thomas Wiliems ei fuchedd yn Pen 225 sydd hefyd yn cynnwys ei destun o gywydd Hywel Dafi i'r ynys a'i saint, gw. RWM i, 1051–2.

Seirioel Sant a gysylltir â Phenmon ac Ynys Seiriol oddi ar arfordir dwyreiniol Môn, gw. LBS iv, 177–80; TWS 238–9; WCD 582–3.

73 **Beuno** Un peth anarferol am Feuno yw'r fuchedd Gym. a ddiogelwyd iddo. Y mae'r cyfeiriadau ato yn y canu yn niferus ar gyfrif ei waith yn atgyfodi Gwenfrewy. Fe'i claddwyd yng Nghlynnog yn Arfon, gw. LBS i, 208–21; TWS 74–88.

Llonio Mab Alan ab Emyr Llydaw. Iddo ef y cysegrwyd eglwys Llandinam, gw. LBS iii, 377–8; WCD 415. Canodd Huw Arwystl awdl iddo, gw. LBS iv, 429–31.

Llwni Nid yw ach y sant hwn yn hysbys, ond fe'i cysylltir â Llanllwni yn nyffryn afon Teifi, gw. LBS iii, 383; WCD 419.

Pedrog Cysylltir llawer o weithgarwch cenhadol y sant hwn â Chernyw, gw. LBS iv, 94–103; TSW 199–205; WCD 533–5.

74 **Mwrog** Coffeir ei enw yn Llanfwrog, nid nepell o Ruthun, ac ym Môn

(yn Llanfaethlu), gw. LBS iii, 505–6; WCD 490. Argraffwyd cywydd iddo gan fardd anh. yn LBS iv, 435.

Llawddog Gw. nodyn brig cerdd 93.

- 75 **Awstin** Ni ddisgwylid gweld ei enw yn dilyn y cyfeiriadau at rai o saint Cymru, ond gwysir sawl sant mewn modd pur fypmwyol yn y ddau doddaid sydd yn dilyn.

gwynni ‘Gwynder’, gw. GPC 1777, ond i’r 18g. y perthyn yr engh. gynharaf. Ond digwydd *penwynnu* a *penwynni* ym Meibl 1588, gw. GPC 2765.

75–6 Cf. 14.5–6n.

- 76 **nawddwr** ‘Un sydd yn derbyn nawdd’ yw ystyr wreiddiol y gair, ac yn ddiweddarach y datblygodd yr ystyr ‘noddwr, ceidwad’. Yr ail sydd ei angen yma, ond i’r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf yn GPC 2557. Ond cf. GMBen 19.7 *Nawddwr pobl, neddair Pabo*.

- 77 **Colwmbart** Y sant Columba a sefydlodd fynachlog ar ynys Iona yn y 6g., gw. ODS 87–8.

Cwbart Bu Cwthbert yn esgob Lindisfarne yn y 7g., gw. ODS 94–5.

Cybi Cafodd sawl ffynnon ei henwi ar ôl Cybi, gw. LBS ii, 202–15; TWS 233–7; WCD 159–61. Diogelwyd englynion i Gybi a’i deulu, ac yr oedd Cybi hefyd yn un o’r ‘saith gefnder sant’; enwau’r lleill oedd Dewi, Beuno, Dingad, Cynfarch, Deiniol a Seiriol, gw. LBS iv, 383.

- 78 **confessoriaid** Rhoddir i *confessor* yr ystyron ‘un sydd yn proffesu ei ffydd yn gyhoeddus ac yn glynu wrthi yn wyneb erledigaeth; offeiriad sydd yn gwrando cyffesu pechodau ac yn gorchymyn penyd am y cyfryw a rhoi gollyngodod’, gw. GPC 551.

plaid Gellid naill ai ‘amddiffyn’ fel yn ll. 45, neu addas hefyd ystyr arferol y gair yn y canu, sef ‘llu, mintai’.

pobli Y mae’n bosibl fod y ll. yn llwgr am ei bod yn cynnwys bai crych a llyfn. Gall fod *pobli* yn ffurf l. *pobl* a fathwyd er mwyn ateb anghenion y brifodl. Rhestrir y terfyniadau ll. *-oedd*, *-au*, *-ydd*, *-edd* yn GPC 2836, lle y gwelir mai i’r 18g. y perthyn yr engh. gynharaf o’r f. *pobli* ‘poblogi, cyfanheddu’.

- 79 **Martha** Chwaer Lasarus a Mair y sonnir am ymweliad Crist â’i chartref yn Luc 10.38–42; hefyd ODS 264–5.

Anna Dyma’r enw a roddwyd ar fam y Forwyn Fair, gw. ODCC³ 71; GIBH 5.61n. Diogelwyd cywydd iddi a briodolir yn yr unig lsgr. i Ieuan ap Gruffudd Leiaf. Tebyg mai santes wahanol a enwir yn y cwpled nesaf, gw. ll. 81n.

- 80 **Mair Fadlen** Bu’n gweini ar Grist yng Ngalicea ac yr oedd yn un o’r tair a ddarganfu’r bedd gwag, gw. ODCC³ 1049.

- Gwen** Y mae'r cyfeiriadau at fywyd a marwolaeth Gwenfrewy ac at ei ffynnon yn Nhrefffynnon yn niferus iawn, gw. LBS iii, 185–96; TWS 141–51; WCD 315–16. Dau fardd a ganodd iddi oedd Tudur Aled a Siôn ap Hywel, gw. TA cerdd CXXXIX; GSH cerdd 18. Ond efallai mai Gwen, un o ferched Brychan, a enwir er nad oedd hi mor adnabyddus â Gwenfrewy. Arni, gw. LBS iii, 168. Gwyddai Lewys Glyn Cothi amdani ac am ei chyswllt â Thalgarth, gw. GLGC 228.65 *Och Wen o Dalgarth am Lwydiarth lys*.
- 81 **Annes** Cyfeiriad o bosibl at santes frodorol, gw. LBS i, 160–5 lle yr enwir pedair Anna, un ohonynt yn ferch i Frychan.
- Aeles** Ni ellir bod yn sicr pwy oedd hi. Nid ymddengys ei bod yn santes frodorol.
- Iuli** Gallai fod yn ffurf ar *Juliana*, gwyruf a merthyr a oedd yn byw yn negawdau cynnar y 4g., ac y cyfeiriodd Beda at ei chwlt, neu *Julitta* a laddwyd ynghyd â'i mab, Cyricus, yn Nharsws tua 304 O.C., gw. ODS 99, 227. Yng Nghymru disodlwyd Curig gan Cyricus dan ddylanwad y Normaniaid, a chydag amser cymysgwyd hanes y ddau, gw. LBS ii, 192–200.
- Neustas** Y ferthyres Anastasia a laddwyd oddeutu 304 O.C., gw. ODS 16.
- 82 **Luwsi** Gwyruf a merthyr a fu farw yn 304 O.C. yn ystod cyrch Diocletianus, gw. ODS 250–1.
- 83 **Barbra** Y mae ansicrwydd ynghylch ei bodolaeth ac nid oes awgrym o gwlt cynnar, ond ymddengys ei bod yn byw yn y 4g., gw. ODS 28.
- gwŷr Ferbri** Anodd bod yn sicr ynghylch ystyr y llinell. Gellid naill ai *wŷr* neu *[g]wŷr*, ac at hyn gallai'r ymadrodd *wŷr/wŷr Ferbri* naill ai fod yn wrth. y f. *nertha*, yn sangiad sy'n cyfeirio at y santes Barbra, neu yn sangiad sy'n cyfeirio at y naill neu'r llall, neu at y ddau, a gyferchir yn yr awdl. Ni welwyd engh. o *Berbri* yn enw sant. Mewn cywydd o waith Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 170.26n *brawdwr fel Merbri ydyw*, cyffelybir Ieuan ap Phylib i John Merbury a fu'n ustus yn y 1420au, ond anodd cynnig dadl o blaid yr enw hwn. Gellid gwella ll. 83 ryw gymaint o ddiwygio yn *Nertha*, 'r wir *Farbra*, *wŷr/wŷr Ferbri—â'th ras*, ond rhaid wedyn fyddai diwygio ail fraich y cwpled: *Rhag gynnau a chas, rhag gwayw a chri*.
- 85 **merched Brychan** Cenhedlodd Brychan nifer anghyffredin o blant, yn feibion a merched, ac yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn saint, gw. y rhestrau yn LBS i, 310–14.
- 86 **gwlad Rodri** Y mae'r gynghanedd yn galw am ffurf dreigledig yr e.p., gw. 2.1n.
- 87 **Margred** Margred o Antioch. Yr oedd ei chwlt yn boblogaidd iawn yn

Lloegr yn yr Oesoedd Canol diweddar, a chysegrwyd rhagor na dau gant o eglwysi iddi. Y mae lle i gredu nad oedd yn berson go iawn ond yn gymeriad mewn llên grefyddol, gw. ODS 260–1; hefyd ll. 62n. Diogelwyd sawl fersiwn o'r fuchedd Gym. iddi, gan gynnwys un yn Llyfr Gwyn Rhydderch, gw. M. Richards, 'Buchedd Fargred', B ix (1937–9), 324–34.

88 **gwryddon** Cyfeiriad o bosibl at Wrswla a'r un fil ar ddeg o wryfon a ferthyrwyd, gw. ODCC³ 1671; GGM 4.35–8 *Wrth Gwlan, fu un waneg, / A ddoeth yr un fil ar ddeg / O'r gweryddon i'r gradde / Am odde a wnaeth, i Dduw Ne*'.

89 **moesent** Bf. ddiffygiol. Rhestrir yn GPC 2476 y ffurfiau grch. *moes, moeswch, moesed, moeswn, moesont*.

72

Yng nghartref Morgan ap Rhoser y bu'r ymryson hwn rhwng Hywel Dafï a Guto'r Glyn, a Hywel Dafï a'i hysgogodd. Beirnedir Guto am ei fod yn canu celwydd, ac yn gwneud hynny er mwyn ennill clust ei noddwyr a denu eu rhoddion. Ar ôl ymosod ar ei gyd-fardd cais Hywel foli Morgan mewn dull cymeradwy sydd yn amddifad o weniath, a sylfaen ei bortread ef yw *gwawd gywir ei gwaith* (ll. 18).

Nid yw enw Morgan ap Rhoser i'w weld yn WG1/WG2, ond cynigir yn GG.net ei fod yn frawd i Drahaearn ap Rhoser ab Adam Fychan ab Adam, gw. WG1 1. Nodir ymhellach fod y tad a thri o'i feibion wedi dal swyddi gweinyddol yn yr ardal. Bu Rhoser ab Adam yn feili Gwaunllŵg, Trahaearn ap Rhoser yn grwner, brawd arall, Gwilym, yn feili, a Morgan, yntau, yn grwner. Digwydd enw Morgan mewn dogfennau sydd yn perthyn i'r arglwyddiaeth hon ac i arglwyddiaeth Casnewydd rhwng 1417 a 1447/8. Cynigir i'r ymryson ddigwydd naill ai yn y 1430au neu yn y 1440au.

Ceir testun o'r ymryson yn GGI² cerddi LXV–LXVI ac yn GG.net cerddi 18a ac 18. Dilynwyd y golygiad sydd yn GG.net ond addaswyd yr atalnodi yma a thraw ynghyd â'r paragraffu; newidiwyd ambell ffurf er mwyn sicrhau cysondeb â cherddi eraill Hywel Dafï.

Diogelwyd cywydd Hywel Dafï ynghyd ag ateb Guto yn yr un llawysgrifau yn union—deunaw ohonynt—ac y mae'r naill gywydd yn dilyn y llall ym mhob un. Yr unig eithriad yw LIGC 428C, testun diweddar a gopiwyd tua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nid yw ateb Guto yma ond y mae cyfres o ddalennau gweigion yn dilyn cywydd Hywel Dafï. Y mae'r cywydd yn gyfan ac yn dilyn yr un drefn, sef trefn y golygiad, ym mhob ffynhonnell ac eithrio Brog I.6 a LIGC Mân Adnau 1206B [= Tanybwlch]. Collwyd tri chwpled yn B rog I.6, sef llinellau 17–18, 51–2, 67–8, a chollwyd yr un cwpledi yn union, ynghyd â llinellau 9–12 yn LIGC Mân Adnau 1206B [= Tanybwlch]. Diwedd cywydd Hywel Dafï yn unig

sydd i'w weld yn Card 2.114 am fod dalen yn eisiau a honno'n wreiddiol, gellid tybio, yn cynnwys llinellau 1–52, ond y mae ateb Guto yma yn ei gryswth. Cofnododd Siôn Dafydd Rhys ddarnau o'r ddau gywydd yn Llst 55, 52–4, ac y mae'r darnau yn dilyn ei gilydd yn y fan honno.

- 7 **eos gŵyr hael** Y mae'r sangiad hwn yn amwys, fel y nodir yn GG.net. Gall gyfeirio naill ai at Hywel Dafï ei hun, neu at ei wrthwynebydd, Guto'r Glyn, neu at Forgan ap Rhoser.
- 11 **corun** 'Pen wedi ei eillio yn ôl arfer offeiriad a mynaich', gw. GPC 567. Nodir yn graff yn GGI² LXV.11n fod nifer o noddwyr Guto yn wŷr eglwysig—yn wahanol iawn yn hynny o beth i Hywel Dafï.
- 17–18 Bernir mai gofyniad sydd yma tra cyfrifir y cwpled ar ei hyd yn frawddeg gadarnhaol yn nhestun GG.net: *Oes, gun ni ddewis gweniaith, / A gâr gwawd gywir ei gwaith.*
- 18 **câr gwawd** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n.
- 20 **Gwenllwg** Y mae'r mesur yn galw am ffurf ddiacen, ond acennog yw *Gwaunllwŷg* sydd yn digwydd yn safle'r brifodl yn 65.30 *Blodau gwinllannau Gwaunllwŷg.*
n berfeddgoll.
- 22 Tybed a lygrwyd y ll. hon am na sylweddolwyd bod yr ymadrodd *ych bôn* yn cael ei drychu? *Byw, 'n ych, yw, bôn iawn a cham.*
- 23 **Cemais hil** Awgrymir yn GG.net mai cyfeiriad at deulu *Cemais* sydd yma, teulu a oedd yn amlwg iawn yn y de-ddwyrain yn y 15g. Serch hynny, ni lwyddwyd i daro ar y cyswllt rhwng Morgan ap Rhoser a'r teulu. Posibilrwydd arall yw mai cantref Cemais yn Nyfed sydd dan sylw. Yr oedd gwraig Rhoser ab Adam Fychan yn ferch i Lywelyn ap Morgan a ddisgynnai o Gydfor Fawr, arglwydd Blaen-cuch, gw. WG1 187. Yng nghantref Emlyn yr oedd Blaen-cuch, ond yr oedd Emlyn a Chemais yn ddau o blith y saith cantref a ffurfiai wlad Dyfed, a ffiniai'r ddau â'i gilydd, gw. WATU 62.
- 39–40 Dyfynnir y cwpled yn J. Davies: Flores 14.
- 41 **treulio** Ar y ffurfiau *treulo* a *treulio*, gw. 23.41–2n.
- 49 **rhydd cyfarwyddyd** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n.
- 49–50 'Bydd coffadwriaeth yn peri bod hanes Morgan [yn mynd] i bob cwr o'r ddaear.' Gellid hefyd *Cof a rydd cyfarwyddyd, / Morgan, i bedwar ban byd* 'Mae dysg Morgan yn rhoi arweiniad i bob cwr o'r ddaear.'
- 50 Cf. 22.10 *Morgan, dros bedwar ban byd.*
- 61–2 Dyfynnir y cwpled yn *Cywyddau Cymru*, gol. A. Hughes (Bangor, 1926), cerdd CXVII.

65–6 Ychwanegodd Iolo Morganwg ar ochr y ddalen yn LIGC 13062B *diwedd y bregeth yw ceiniog. Glam.*

73

Gweler nodyn brig cerdd 72. Y mae'r cywydd yn gyfan ac yn dilyn yr un drefn yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau. Collwyd pedair llinell oherwydd amryfusedd mewn grŵp o bum llawysgrif (gw. isod), a chollwyd dau gwpld yn Brog I.6 a LIGC Mân Adnau 1206B [= Tanybwllch].

Cynghanedd: croes 27 ll. (45%), traws 17 ll. (28%), sain 14 ll. (23%), llusg 2 l. (4%).

22 **Siôn y Cent** Arno, gw. CLC² 670; IGE² cerddi LX, LXXXIII–XCIX; M.P. Bryant-Quinn, 'Chwedl Siôn Cent', *Cof Cenedl*, 20 (2005), 1–31; hefyd nodyn brig cerdd 59.

24–7 Collwyd y llau. hyn yn BL Add 12230, Card 2.114, LIGC 5269B, Pen 112 a Pen 152. Neidiodd llygad y copiwr o ddiwedd ll. 23 (*a gân yn safle'r brifodl*) a heibio ll. 27 (*prifodl glân*), ac yna copiwyd ll. 28.

74

Cywydd i erchi bydaf yw hwn. Gall bydaf gyfeirio at haid neu nythaid o wenyng gwyllt neu at nyth y gwenyn a'r mêl sydd ynddo. Ymddengys fod y bardd yn erchi'r ddeubeth: *Rhoed ym fêl ... / A gwenyn* (llau. 37–8). Erchir y rhodd gan Lywelyn Goch ab Ieuan ap Dafydd ap Llywelyn Fychan ap Llywelyn ap Cynfrig o Rydlafar yn Sain Ffagan. Gan yr un gŵr y gofynnwyd am walch yn rhodd ar ran Tomas ap Gruffudd, gw. cerdd 81. Pwysleisia'r bardd ei fod ef a'r rhoddwr yn hanfod o'r un cyff, *clywed ei gân* (ll. 18). Ar y canu i'r teulu, gw. NBMM 286. Ceir bwlch yn hanes y nawdd ar aelwyd Rhydlafar rhwng dyddiau Hywel Dafu a Gwilym Tew yn ail hanner y bymthegfed ganrif a chanu Dafydd Benwyn, ganrif yn ddiweddarach.

Diogelwyd y cywydd mewn pedwar testun yn llaw Llywelyn Siôn, ac mewn un testun a gopiodd Lewys Dwnn. Nis diogelwyd yn y llawysgrifau sydd yn perthyn i John Davies, Mallwyd, ond rhestrwyd y cywydd yn yr adran 'Beirdd a Phrydyddion' yn Pen 49, 172^v. (Ceir copi yn Llst 30 o gywydd Hywel Dafu i erchi hebog gan Lywelyn Goch ar ran Tomas ap Nicolas, cerdd 81). Yr un yw hyd y cywydd a threfn y llinellau yn yr holl gopïau ond ceir sawl darlleniad gwahanol yn nhestun Lewys Dwnn sydd yn rhagori ar destunau Llywelyn Siôn (e.e. llau. 11, 31, 45, 53). Y mae LIGC 6511B mewn sawl lle yn cyfateb i Bodley Welsh e 4 yn hytrach nag i'r testunau eraill yn llaw Llywelyn Siôn (e.e. llau. 9, 22, 65), a gall hyn awgrymu bod testun LIGC 6511B, un o destunau cynnar Llywelyn Siôn, yn

rhagori ar y testunau diweddarach yn ei lyfrau hir. Y mae LIGC 13061B yn atgynhyrchu sawl darlleniad unigryw sydd yn LIGC 6511B (e.e. llau. 34, 42, 49, 51, 68), er na ddigwydd hyn bob tro. Collwyd rhannau o destun LIGC 21290E, sef llinellau 69–78, oherwydd traul. Copi diweddar yw LIGC 165C ond y mae'n cyfateb yn agos i LIGC 6511B.

- 2 **melysig** ‘Hoff o fwyd neu ddiod felys’, gw. GPC 2425, ond am fod y gair *mêl* yn digwydd mewn sawl ll., efallai fod y gair wedi ei gamddeall. Gellid *blysig* ‘chwantus, chwannog’, gw. GPC 291, gan ddilyn Bodley Welsh e 4. Fodd bynnag, byddai’r ll. sillaf yn fyr o fabwysiadu’r gair hwnnw; gellid diwygio *Yn flysig am fêl osai*.
- 4 **gofeilau cudd** Dilynwyd Bodley Welsh e 4 *ofele kvdd*, a bernir mai ffurf l. *gofal* ‘cadwraeth, gwarchodaeth’ sydd yma, gw. GPC 1428.
- 7 **tra glerheais** Ymddengys fod peth ansicrwydd ym meddwl y copiŵyr— cyfunwyd a chofnodwyd y ddau air mewn pedair ffordd wahanol yn nhestunau Llywelyn Siôn. Arferid treigladd yn dilyn y cys. *tra* er bod yr arfer o gadw’r gysefin yn fwy cyffredin erbyn cyfnod y Cywyddwyr, gw. Treigladau 378–80. Enghrau. o’r berfenw *clera* yn unig a gofnodwyd yn GPC 497–8.
- 11 **meddu** Y mae’r ystyr yn galw am y gair hwn.
- 12 **mêl cwyradd** Y mae’n bosibl fod yr ymadrodd wedi ei lygru am mai *mêl cwyradd* a arferir yn 17.33n (darlleniad Pen 67) lle yr ailadroddir y ll.
- 13 **gwythi** Ffurf l. *gŵyth* ‘llid, dig, digofaint’, gw. GPC 1790 a cf. 42.5n. Diwygiwyd *gwythni* y llsgrau. Ni chofnodwyd y gair hwnnw yn GPC.
- 18 **câr** Disgynyddion Iestyn a drigai yn Rhydlafer ond gallai Llywelyn Goch arddel cyswllt â thylwyth Bleddyn ap Maenyrch trwy ei hen nain, Catrin, a oedd yn briod â Llywelyn Fychan ap Llywelyn. Disgynnai Hopgyn ap Tomas hefyd o dylwyth Bleddyn, gw. ll. 69n. Nid oedd y cyswllt yn un clòs; dyna pam y mynnai’r bardd bwysleisio’r berthynas rhyngddynt.
- 19–20 **Llywelyn ... / Goch** Canodd Gwilym Tew gywydd marwnad i ddau o frodyr Llywelyn, sef Tomas a Siancyn. Yr oedd Llywelyn wedi marw cyn hynny, a Morgan oedd yr unig frawd o blith pedwar a oedd yn dal ar dir y byw, gw. Ll. 134, rhif 166, *o bedwar i bv adwyth / tri aeth ir llawr trethy r llwyth / yr vn or pedwar annedd / a sy vvw hir oes a vedd / del Morgan darian llann Daf / drychant or adur vchaf / gwyr llys brenin lloegr yw r llaill / gorwyrion y gwyr eraill*.
- 20 **gochelyn’** Y mae’r llsgrau. o blaid un o ffurfiau’r ferf *gochel*, ond ni ddisgwyliid bf. 3 ll. wrth gyfeirio at Lywelyn Goch, ac ni chyfeiriwyd eto at ei hynafiaid. Gellid diwygio yn *gochelai* wg, ond rhoddai hyn l. ac ynnddi *n* berfeddgonll. Er nad yw’r cyfeiriadau ato yn niferus, gellir yr e.p.

Cychwlyn, sef Cú Chulinn. Gwyddai'r beirdd amdano. Arferid y ffurfiau *Cuhelyn* (e.e. GMBr 8.33n, ond rhybuddir yn DG.net 71.39n y gall mai cymeriad gwahanol oedd hwn) a hefyd *Cychwlyn*, gw. GDID IX.29–30 *Un feddwl â Chychwlyn / Wyd i roi, benadur, ynn*; GLGC 153.57 *Chwech haelach no Chychwlyn*.

- 22 Bai crych a llyfn; gw. ymhellach 1.16n a 'Cynghanedd' td. 42. Gellid cryfhau'r ll. trwy ddiwygio yn *Duwfab i Ieuan Dafydd*, ond ni restrir enghrau. o *Duwfab* yn GPC.
- 23 **Cynwrig daid** Gw. yr ach yn y nodyn brig. Fe'i henwir drachefn yn 81.6 *Cynnor o gorff Cynwrig wyd*. Gwelir bod *taid* yma yn gyfystyr â 'hynafiad'. Ni chofnodwyd enwau hynafiaid Margred Cemaes, mam Llywelyn Goch. Rhaid cyfrif *Cynwrig* yn air deusill.
- 24 **cu moesaidd** Darlleniad ansicr. Bernir bod *cu* yn rhagori ar *cyw*, ond rhoes Llywelyn Siôn dri gair gwahanol yn safle'r orffwysfa i gynganeddu â *Cemysiaid*, sef *moesaidd*, *moesawl* a *Moesen*. Er mai'r olaf sydd debycaf i'r ffurf ferfol *kymwysen* yn Bodley Welsh e 4, nid yw'r darlleniad hwnnw yn gwbl addas, felly derbyniwyd yn betrus *moesaidd* 'cwrtais, moesgar', gw. GPC 2476. Ceir trawiad tebyg yn un o gywyddau Rhisiart ap Rhys, gw. GRhB 20.43 *Moesaidd oedd y Gameisiaid*. Ar *cymhwyso* 'mesur', gw. GPC 766. O fabwysiadu'r f. sydd yn Bodley Welsh e 4, ceid ystyr burion o newid y rhif o 3 ll.amhff. (*cymhwysen*) yn 1 ll.amhff. (*cymhwysen*).
- Cemaesiaid** Gw. 74.23n uchod.
- 25 **y rhyw gŵyn** 'Y cyfryw gŵyn', ond y mae'r ffurf *gwynn* yn nhri o destunau Llywelyn Siôn yn dangos mai cyfuniad o enw ac a. oedd yma yn ei olwg ef, sef y *rhyw gwyn* 'y genedl wynfydedig'. Ond y mae *cwyn* yn ategu'r hyn a ddywedwyd eisoes yn ll. 17 *Cwynaf wrth garw Rhydlafar*.
- 28 **Aberdâr** *aberdaer* a gofnodwyd yn yr holl lsgrau., ond y mae'r ddau gyfeiriad pellach yn llau. 37 a 40 at Lwythgoed, i'r gogledd o Aberdâr, yn cynnig lleoliad diamwys wrth ddisgrifio'r haid a'r mêl y gobeithir eu meddiannu, sef cyrion uchaf cwmwd Meisgyn. Ni nodir y ffurf *Aberdaer* yn ArchifMR. Ar yr awgrym mai gŵr o Aberdâr oedd Hywel Dafï, gw. 'Rhagymadrodd' troednodyn 31.
- 29 **bydafau** Gw. y nodyn brig. Yn un o'i gywyddau cwyna Ieuan Gethin fod Siôn ap Rhys a'i weision yn difa ei fydafau, gw. GIGeth cerdd 2 a tt. 105–6.
- 30 **Misgyn** Cysylltir cyndeidiau Llywelyn Goch â chwmwd Meisgyn yng nghantref Penychen. Trwy briodas Dafydd ap Llywelyn Fychan â Chatrin, merch Ieuan Goch, y daeth Rhydlafar yn eiddo i'r teulu.
- 31 **hylwybr** 'Tramwyadwy, hwylus, rhydd', gw. GPC 1969. Rhannwyd y ddwy elfen yn y gair yn llsgrau. Llywelyn Siôn, a cheir anwadalu rhwng

lle hu a lle bu. Cyfeirir at y Brenin Hu Gadarn yng nghywydd adnabyddus Iolo Goch i'r llafurwr, ond yng nghyd-destun ei waith yn aredig, gw. GIG XXVIII.63–78; hefyd 21.57n.

34 **mêl garddau** Mêl a gynhyrchir gan wenyn sydd yn cael eu cadw mewn cychod pwrpasol. Mêl y gwenyn gwyllt sydd yn dod â dŵr i ddannedd Hywel Dafi.

36 **cymalau** Ymddengys fod *calau* Bodley Welsh e 4 yn ddarlleniad llwgr.

41 **brwyd** Gwelir bod sawl ymadrodd yn y darn lle y dyfelir y gwenyn yn gysylltiedig â milwriaeth. Digwydd *brwydr* a welir yn holl lsgrau. Llywelyn Siôn yn ll. 43 drachefn, ond awgryma *bwyd* Bodley Welsh e 4 fod peth ansicrwydd ynghylch y ffurf. Awgrymir diwygio yn *brwyd* yma (neu yn ll. 43), 'amryliw, brith, addurnedig, gwych', gw. GPC 335.

cwyr heiliaid Ni restrir *cwreiliaid* yn GPC, sef y ffurf a awgrymir gan y llsgrau. oll. Ond gellid *cwyr* + ffurf l. gair megis *eiliwr*. I ddiwedd yr 16g. y perthyn yr engh. gynharaf o *eiliwr* 'plethwr, adeiladwr', gw. GPC 1192. Gellid *ail* 'plethiad', gw. GPC² 165, + y terfyniad gweithredydd ll. *-iaid*, neu ffurf l. *heiliad* 'darparwr neu weinyddwr gwledd neu win', gw. GPC 1840.

41–4 Y mae braich gyntaf y ddau gwpled yn debyg am fod y geiriau *brwyd* a *brwydr* yn digwydd yn safle'r orffwyfa. Neidiodd llygad y copïwr yn BL Add 31070, a chyfunwyd dechrau ll. 41 a diwedd ll. 43.

44 **parau** Nid yw *peiri*, ffurf l. *pair* 'crochan, padell' gw. GPC 2669–70, a geir yn llsgrau. Llywelyn Siôn, yn addas, ond am fod sawl ymadrodd yn gysylltiedig â milwriaeth, a gwanu yn benodol, gellid ffurf l. *pâr* 'boltt, bar, polyn', gw. GPC 2684. Y mae'n bosibl fod *parai* Bodley Welsh e 4 yn ffrwyth llygru ar lafar neu wrth gopïo.

parau Grist Ar dreiglo'r e.p. yn dilyn e.ll. mewn ymadrodd genidol, gw. 2.1n. Gelwir y gwenyn yn [*b*]arau Crist am eu bod yn hanu o'r nef, gw. DrOC 165. Yr oedd chwedl yn hysbys gynt am Bedr a'r gwenyn, gw. GG.net 21.52n.

47 **awyr, a gwŷr** Gw. llau. 57–8n.

48 **ffristiol** 'Math o chwarae â gwerin ar glawr pwrpasol', gw. GPC 1315. Yn y cywydd 'I'r Ugain Mil o Saint yn Enlli', ceir delwedd arall sydd yn gysylltiedig â chwaraeon; yno cyffelybir delwau'r saint yn abaty Enlli i ffigurau ar glawr tawlbwrdd, gw. 93.55–6.

mil 'Anifail', ond enwau ll. sydd yng ngweddill y cwpled: *mes*, *gwŷr*. Cynigir *mêl* yn un o lsgrau. Llywelyn Siôn.

50 **derw** Addas yw *derw* o ystyried lleoliad nythod y gwenyn, ond gellid ystyried y darlleniad *dewr* a fyddai'n ategu'r disgrifiad o'r gwenyn fel milwyr glew.

53 **ednogion** Ni restrwyd *hednogion* sydd yn digwydd yn llsgrau. Llywelyn Siôn, yn GPC. Ar *ednog* ‘gwybed, pryfed; adar’, gw. GPC 1167.

57–8 **awyr**, / ... **cwyr** Odl leddf sydd yn safle’r brifodl, ond yn ll. 57 rhaid wrth odl dalgron *naw* / *awyr* er mwyn boddhau gofynion yr odl yn y gynghanedd lusg. Gw. J. Morris-Jones: CD 238–9 a cf. GMBen 8.54n. Ymddengys mai odl dalgron sydd yn y gynghanedd sain yn ll. 47 (*awyr* / *gwŷr*), ond gellid odl dalgron o fabwysiadu’r darlleniad *ar gŵyr* gan ddilyn Bodley Welsh e 4.

58 **brycini** *Breci* yw’r bôn, ‘cwrw newydd heb eplesu, trwyth brag’, gw. GPC 314. Trafodir ystyron *bricini* yn GLM LXXIV.12n; GPC 337.

59 Y mae’r llsgrau. oll o blaid *Cyfarwydd y caf wyrain*. Ar *gwyran*, *gwyrain* ‘gwair, irwellt’, gw. GPC 1781. Ond cyfunwyd y ddwy elfen a mabwysiadu *cyfwyrain* ‘dyrchafael, codi, codi i frwydr’, gw. GPC 724, gan ategu’r disgrifiad *Saethant bob naw i’r awyr* yn y cwpled blaenorol.

62 **addug** Nid yw ergyd y cwpled yn glir, o fabwysiadu’r enw *Eiddig* a geir yn llsgrau. Llywelyn Siôn, ac ymddengys fod Bodley Welsh e 4 hefyd yn llwgr. Diwygiwyd yn *addug* ‘amcan, dyhead, chwant’, gw. GPC² 77.

65 Mae’r gyfatebiaeth rhwng yr orffwysfa a’r brifodl yn ymylu ar fod yn rhy debyg, gw. J. Morris-Jones: CD 303.

68 Camosodiad $n.m = m.n$.

69 **Tangwystl** Gwraig Llywelyn Goch, a merch Hoggyn ap Tomas o Ynysforgan, yn ôl WG1 116, ond a barnu wrth dystiolaeth y cywydd, merch Tomas ap Hoggyn ap Tomas oedd hi. Gw. ymhellach 81.15n. Ymddengys fod Hoggyn ap Tomas yn ei flodau rhwng 1337 a 1408 am fod cofnod amdano yn trosglwyddo tir i’w fab Tomas yn 1408, a thebycach mai ef oedd taid Tangwystl, gw. DNB² 28, 3; C. James, ‘ “Llywr Wybodau, Llên a Llyfrau”’: Hopcyn ap Tomas a’r Traddodiad Llenyddol Cymraeg’ yn *Cwm Tawe*, gol. H.T. Edwards (Llandysul, 1993), 4–44; P. Morgan, ‘Glamorgan and the Red Book’, *Morgannwg*, 22 (1978), 42–60. Diogelwyd pum awdl gan bum bardd i Hoggyn yn Llyfr Coch Hergest, ynghyd ag un awdl o waith y Proll i’w fab Tomas (er nad enwir ef yn WG1 116), gw. GDC cerdd 14. Canwyd honno felly cyn tua 1400 pan gopiwyd y Llyfr Coch ar gais ei dad. Nid enwir gwraig Hoggyn, na gwragedd ei dad a’i daid yn yr ach. Nid oedd *Elidir* (ll. 72) ymhlith hynafiaid Hoggyn ap Tomas, o ddilyn yr ach o dad i dad, ac nis enwir ychwaith yn y canu iddo, ond ar ei ddiddordebau diwylliannol yn hytrach nag ar ei dylwyth y mae’r pwyslais yn y cerddi hynny. Tebycach, felly, mai un o hynafiaid gwraig Tomas ap Hoggyn oedd *Elidir*.

72 **Elidir** Gw. ll. 69n. Tebyg mai *Elidir Ddu* oedd hwn. Yn y cywydd i erchi hebog gan Lywelyn Goch ar ran Tomas ap Nicolas (a ddisgynnai o

Elidir), pwysleisir bod cyswllt gwaed rhwng y ddau deulu, er na lwyddwyd i'w esbonio yn foddhaol, gw. 81.15n.

75

Cywydd moliant i Rys ap Siancyn ap Rhys ap Llywelyn yw hwn, ac am ei ach, gw. WG1 311; WG2 607. Cywydd i'w bedwar mab yw cerdd 76. Trigai'r teulu yn Aberpergwm yng Nglyn-nedd. Trafodir y canu i'r teulu yn NBMM 42–59.

Diogelwyd y cywydd mewn chwe llawysgrif a gopiwyd gan Lywelyn Siôn. Fe'i diogelwyd hefyd yn LIGC 20574A mewn adran a gopiwyd ar 28 Awst 1652. Derbyniwyd bod un cwpled a ddiogelwyd yn y llawysgrif honno ond nas ceir gan Lywelyn Siôn, sef llinellau 9–10, yn ddilys. Er bod ambell ddarlleniad llwgr yn LIGC 20574A ceir ambell ddarlleniad da sydd yn rhagori ar ddarlleniadau Llywelyn Siôn (e.e. ll. 50).

Golygwyd y cywydd yn P. Lynch yn 'Aberpergwm a'r traddodiad nawdd' yn *Nedd a Dulais*, gol. H.T. Edwards (Llandysul, 1994), 16–17. Ymddengys na welodd y golygydd LIGC 20574A, ac ni chyfeirir ar y cwpled ychwanegol sydd yn digwydd yn y llawysgrif honno. Awgrymodd fod y cywydd hwn, a chywydd Ieuan ap Hywel Swrdwal i'r un gwrthrych, wedi eu canu ar yr un achlysur, gw. *ib.* 14, ac ymhellach GHS cerdd 27. Diogelwyd y ddau gywydd yn yr un llawysgrifau, ac y mae cywydd Hywel Dafï yn dilyn cywydd Ieuan ym mhob un. Cyflwynir delwedd estynedig yn y naill gywydd ar llall, a chymharer hefyd y ddau gwpled hyn yn benodol: GHS 27.55–6 *Ni thrigant, er gwarant gwÿdd, / Awr o gwbl ar ry gybydd a 75.21–2 Ni wna fy nhafod, ni nydd, / O'r we gwbl air i gybydd*. Fe'i cyffelyba Ieuan ei hun i impiwr tra seilia Hywel Dafï ei gywydd ef ar grefft y gwehydd. Defnyddiodd sawl ymadrodd sydd yn gysylltiedig â'r gwÿdd, sef *gwennol* (llau. 9, 14), *anwe* (ll. 10) a *brwyd* (llau. 16, 18). O ystyried y pwyslais ar grefft ac ar lunio cerdd yn feistrolgar, y mae'n arwyddocaol mai hwn yw'r cywydd sydd yn cynnwys y ganran uchaf o gynganeddion croes a chroes o gywllt, sef 75%. Mewn pum cywydd yn unig y mae'r ganran yn cyrraedd 60% ac y mae'r cywydd i Rys ap Siancyn yn bur anghyffredin o'r herwydd.

Canodd Hywel farwnad i Ieuan ap Hywel Swrdwal, gw. cerdd 86.

3 *m wreiddgoll*.

3–4 **gwell crefft ... / No golud** Y mae hon yn ddihareb gyfarwydd, gw. DLICH rhif 354; cf. GHS 27.3–4 *Gwn fod crefft heb ddim gweniaith / Gennyfi, a da y gwnaf waith*.

4 Rhaid ceseilio er mwyn sicrhau'r saith sillaf angenrheidiol.

9 **gwennol** 'Darn o bren a'i ddeupen yn meinhaus sydd yn cario'r anwe ar draws y gwÿdd a thrwy'r ystof wrth wau', gw. GPC 1638.

- 9–10 Yn LIGC 20574A yn unig y diogelwyd y cwpled hwn. Disgwyliid *grefft gynnil gref*, ond efallai mai disgrifiad o'r bardd a'i grefft sydd yma.
- 10 **anwe** 'Yr edafedd ar draws y gwŷdd a weithir yn gyfrodedd i'r ystof wrth weu brethyn', gw. GPC² 383.
- 11 **adafedd** Y mae *adafedd* ac *edafedd* yn ffurfiau ll. *edau*, gw. GPC 1163, ond *edafedd* yw'r ffurf a arferwyd yn 54.54 mewn cywydd a ddiogelwyd yn Pen 67.
nydwedd Ffurf amr. ar *nodwydd*, gw. GPC 2590. Diweddarach yw'r ffurf *nyddwedd*, *nydwedd* 'maint yr edafedd wrth nyddu', gw. *ib.* 2603.
- 13 Cynghanedd groes o gyswllt neu *r* wreiddgoll. Sylwer mai gair gwan, y cys. *er*, sydd yn safle'r orffwysfa. Am enghrau. eraill, gw. 1.23n a 'Cynghanedd' tt. 42–3.
- 15 **ordeinwyd** 'Darparu, trefnu', gw. GPC 2652 lle y rhestrir y ffurfiau *ordeino* ac *ordeinio*.
- 16 **gwäu** Cofnodir y ffurfiau berfenwol *gweu* a *gwau* yn GPC 1608, ond ni nodir y ffurf ddeusill *gwäu*. Ond cf. GIG XXII.67 *Na dyrnu, na gwëu gwawd*; DG.net 35.38 *Dyfu a gwëu gwaiail*.
brwyd 'Harnais gwŷdd sydd yn symud edafedd yr ystof neu'r ddylif, ffrâm i frodio arni', gw. GPC 335.
- 17 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 44. Cyfatebiaeth lafarog yn unig sydd yn y ll. hon rhwng [*ni*] *wëir* a *Ieuan*.
- 19–20 **Gwëydd ... / ... gwŷdd** Dwy ffurf gyfochrog, gw. GPC 1652. Dilynwyd darlenniad y rhan fwyaf o'r llsgrau. yn ll. 20, a rhaid cyfrif *gwŷdd* yn unsill yma ond deusill yw *gwëydd* yn ll. 19. Rhaid cyfrif *gwŷdd* yn unsill yn ll. 48 drachefn.
- 21 *Ni wna fy nhafod fy nydd* a fabwysiadwyd yn P. Lynch, 'Aberpergwm a'r traddodiad nawdd' yn *Nedd a Dulais*, gol. H.T. Edwards (Llandysul, 1994), 16–17.
- 23 **gwŷdd** Nid 'un sydd yn gwau', fel yn llau. 20 a 48, ond 'ffrâm gwëydd i weu defnyddiau', gw. GPC 1753. Digwydd yr engh. gynharaf yng ngeiriadur William Salesbury (1547).
cywyddon Y ffurfiau ll. *cywyddau*, *cywyddion* a nodir yn GPC 836–7 ond ceir engh. arall o'r ffurf *cywyddon* gan Iorwerth Fynglwyd yn safle'r brifodl, GIF 41.17 *Llywelyn geuddyn gywyddon gwaedlyd*.
- 27 **o'm diwag enwi** 'O'm gweithred ddilys o gyhoeddi'.
- 29 **trosedd** 'Rhinwedd, rhagoriaeth, goruchafiaeth', gw. GPC 3617. Llsgrau. Llywelyn Siôn sydd yn rhoi'r darlenniad hwn; *trasedd* sydd yn LIGC 20574A.
- 31 **hil Rys** Taid gwrthrych y moliant, gw. yr ach uchod. Am fod Llywelyn Siôn yn arfer *R* i gynrychioli *R* a *Rh*, anodd gwybod a fwriadai dreiglo'r

e.p. ai peidio. Treiglir yn 9.32 *hil Dewdwr*, 35.5 *hil Drahaearn*, 50.7 *hil Fleddyn*, ond ceir y gysefin yn 35.8 *hil Gwgon*, 35.11 *hil Moelwyn*. Gw. ymhellach 2.1n, 31.35n, 80.61n.

arglwyddRys Y mae'r gynghanedd yn gryfach yn LIGC 20574A am nad ailadroddir *Rhys* yn safle'r odl yn y gynghanedd sain, *Hil Rys*, *arglwyddlys o'r Glyn*. Mabwysiadwyd darlleniad gwannach llsgrau. Llywelyn Siôn am fod un o hynafiaid y teulu, sef Rhisiart ab Einion ap Collwyn, yn briod ag Elliw, merch Rhys Gryg ab yr Arglwydd Rhys, gw. WG1 779. Addaswyd y darlleniad a chryfhawyd y gynghanedd trwy greu cyfansoddair o'r e.c. a'r e.p. Ni welwyd engh. arall yng nghanu Hywel Dafi, ond gwnaeth Guto'r Glyn beth tebyg ar fwy nag un achlysur, gw. GG.net 5.1 *ArglwyddRys*, *eryr gwleddrym*, 6.38 *Aros heb wiwRys Abad*, 9.71 *Dagrau am urddedigRys*.

34 **wyr Domas** Lleucu, merch Tomas ap Dafydd ap Hywel ap Rhys Fychan, oedd mam Rhys ap Siancyn. Disgynnai hi, fel ei gŵr, Siancyn ap Rhys, o Einion ap Gollwyn. Disgynyddion Ieuan ap Hywel ap Rhys Fychan oedd Rhys Brydydd, ei fab Rhisiart ap Rhys, a'i fab yntau Lewys Morgannwg, gw. WG1 306.

35 **mwynfawr** 'Cyfoethog, goludog', hefyd gyda grym enwol, gw. GPC 2521. Y mae'n bosibl fod y bardd hefyd yn dymuno cyfleu'r enw Mynyddog Mwynfawr, noddwr Aneirin. Y mae'r llsgrau. yn gyfûn, ond ceir yma gyfatebiaeth $n.f = n$ o dan yr acen. Diwygiwyd y ll. gan P. Lynch, *op.cit.*, yn *Mawr ei fwynair a'i fonedd*. Nid yw'r gynghanedd yn gryfach am fod y ll. ar ei newydd wedd yn cynnwys *m* ac *r* wreiddgoll (neu *m* wreiddgoll mewn cynghanedd groes o gyswllt). Ni ddisgwyliid treigladd yn dilyn *yw*, a cf. ll. 36 *Miragl ynn yw mur Glyn-nedd*, ond gthg. 4.2n *Rhywyr ynn yw fyrhau'r nos*. Gwrthodwyd *Mawr yw fwynfawr ei fonedd*, a chyfrifwyd *mwynfawr* yn sangiad.

39 **nydd** 'Y weithred o nyddu', gw. GPC 2603, felly yn drosiadol yn yr ystyr 'caniad, cerdd' yng nghyd-destun y ddelwedd a gynhelir trwy'r cywydd. Y mae'r rhan fwyaf o'r llsgrau. o blaid yr e.p. *Nudd* a enwir yn llau. 43, 45–6.

41 **tir blaenau** Bannau Brycheiniog yw'r tir uchel sydd i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o Lyn-nedd, a cf. 10.22n, 31.16n.

45 **blawdd** Yr ystyron 'cyflym, chwyn, bywiog, heini' sydd yn taro orau, gw. GPC 284–5.

46 Camosodiad $b.n = n.b$ neu n berfeddgoll.

48 **cywyddol** 'Bardd', gw. GPC 837; cf. GG.net 35.24 *A chywyddol ywch oeddwn*.

Camosodiad $m.l = l.m$.

49–50 **gwëwn / Fawl** Diystyr yw'r cwpled fel y'i cofnodwyd yn llsgrau.

Llywelyn Siôn. Dilynyd LIGC 20574A gan ddiwygio *gwëwn fael* yn *gwëwn fawl*; cf. yr ymadrodd *gweu gwawd*, GLMorg 49.55 *Gwëwn wawd o'm genau iach*. Cofier sylw Guto'r Glyn yn ei ymryson â Hywel Dafi: 67.48–9 *Hwn ni chan haeach i wŷr, / Moli merched mal Meirchiawn*.

- 51 **mi** Yn Card 5.44 yn unig o blith llsgrau. Llywelyn Siôn y ceir y rhagenw 1 un. ond efallai fod y ffurf wedi ei newid yn y lleill o dan ddylanwad y rhagenw 1 ll. *ni* yn ll. 55.
- 53 **brutiath** Geilw P. Lynch, *op.cit.* 8, sylw at y casgliad o ganu darogan, 'Y Cwta Cyfarwydd', a luniwyd tua 1425, gw. RWM i, 389, ac a fu ym meddiant un o ddisgynyddion Tomas ap Siancyn, brawd y gŵr a gyferchir yn y cywydd hwn. Cf. hefyd yr hyn a ddywed Huw Cae Llwyd wrth annerch Siôn ap Rhys, wŷr Siancyn ap Rhys, gw. HCLL XIV.29 *Deall ei frud oll o'i fron*. Yn ail ran y cywydd a ganodd i Rys, pwysleisia Guto'r Glyn ei wybodaeth helaeth am destunau hanes, y bucheddau, y trioedd, yn ogystal â barddoniaeth, gw. GG.net 13.39–60. Canwyd y cywydd hwnnw cyn tua 1440, a rhaid ei gyfrif felly ymhlith caniadau cynharaf y bardd.
- 57 **mael** Gallai fod yn e.p. Cyfeiria Lewys Glyn Cothi at y Mael a roes ei enw i Elfael, gw. GLGC 141.59n, ac yr oedd gŵr arall o'r un enw yn fab i Fadog, un o frenhinoedd cynnar Prydain, yn ôl Brut Sieffre, gw. BD 23–4. Ond 'tywysog, pennaeth, arglwydd' sydd yn rhoi'r ystyrion gorau yma, gw. GPC 2305 d.g. *mael*².

76

Meibion Rhys ap Siancyn o Lyn-nedd a gyferchir yn y cywydd hwn, gw. cerdd 75; WG1 311; WG2 607. Enwir pedwar mab yn y cywydd, ond digwydd enw pumed brawd, sef Iorwerth, yn WG2 607. I Wiliam a Thomas y rhoddir y flaenoriaeth; fe'u henwir hwy yn gyntaf (llau. 10, 12) ac yna enwir y ddau arall, sef Siancyn a Siôn (ll. 18). Enwir y brodyr drachefn yn ail ran y cywydd, a hynny yn yr un drefn, sef Wiliam (ll. 35), Tomas (ll. 38), Siancyn (ll. 40) a Siôn (ll. 43). Yr oedd gan Rhys ap Siancyn saith merch ond ni chânt hwy eu crybwyll o gwbl. Er mai Siôn yw'r olaf i gael ei enwi, ef yn unig a gyfarchwyd yn unigol gan y beirdd.

Yn y cywydd i dad y brodyr cyffelybyd gweithgarwch y bardd yn llunio cywyddau moliant i waith y gwëydd. Yn y cywydd hwn delweddir y pedwar brawd yn ychen sydd yn tynnu'r iau (llau. 9–28). Yn ail ran y cywydd uniaethir pob brawd yn ei dro ag un o'r gwŷr hael, ac fel y digwydd yn fynych, ychwanegir enw Ifor Hael at y triawd adnabyddus er mwyn sicrhau bod pob brawd yn cael ei gydnabod mewn dull teilwng.

Diogelwyd pum copi o'r cywydd yn llaw Llywelyn Siôn. Er bod y pump yn cyfateb yn glòs, ceir mân wahaniaethau rhyngddynt, ond anodd gweld bod patrwm pendant pan fydd gwahaniaethu (e.e., gw. y nodiadau ar lau. 4,

5, 16). Collwyd dechrau a diwedd y testun yn LIGC 21290E ac ni chofnodwyd yr amrywiadau. Ymddengys mai Llst 134 sydd yn perthyn agosaf at LIGC 13062B.

2 **Einion** Disgynyddion Einion ap Gollwyn a drigai yn Aberpergwm. Gw. ymhellach l. 39n isod. Crybwyllir ei arfbais, sef tri fflwr de lis, yn rhai o'r cerddi i'r tylwyth, gw. DWH ii, 139; GDID 15.11.

4 **paladr haul** *peilydr* sydd yn Card 5.44 a LIGC 6511B ond am fod y gair hwnnw yn digwydd yn ail ran y ll., dilynwyd llsgrau. LIGC 970E a Llst 134 *paladr*.

paladr ... peilydr Manteisir ar ddwy o ystyron *paladr*, sef 'colofn neu lafn o olau' yn rhan gyntaf y ll., a 'coes gwaywffon, gwaywffon' ll. *peilydr* yn yr ail ran, gw. GPC 2671. Yr ail sydd yn ll. 8 drachefn.

5 **pêr** *pur* yw darlleniad LIGC 6511B a Llst 134, ond dyma elfen gyntaf y gair cyfansawdd ar ddechrau'r ll. sydd yn dilyn, ac felly mabwysiadwyd *pêr* Card 5.44 a LIGC 970E.

10–12 **Wiliam ... / ... / Tomas** Nid enwir gwragedd y ddau frawd yn WG2 607, ond nodir bod chwe merch gan Wiliam a bod Tomas wedi ei ddilyn gan un mab.

16 **ail** Y mae *iau* yn ddealedig. Gellid *ail dawn* am mai'r arfer oedd cadw cysefin yr eg. yn dilyn y trefnol *ail*, gw. 4.5n. Dewiswyd cyfrif *dawn i'r wlad* yn sangiad sydd yn disgrifio [y] *ddau gymheiriad*.

Ceir yma fai crych a llyfn; gw. 1.16n a 'Cynghanedd' td. 42. Er mai'r un yw'r geiriau a gynganeddir, gwelir bod y ll. yn wahanol ym mhob llsgr., ond ailadroddir y bai ym mhob un. Y mae tair o'r llsgrau. yn gytûn gyda golwg ar ran gyntaf y ll.

18 **Siancyn** Ni chrybwyllir na gwraig na disgynyddion iddo yn WG2 607.

Siôn Ei enw ef sydd yn digwydd olaf, ond ei enw ef sydd yn digwydd gyntaf yn WG2 607 ac ymddengys mai ef oedd etifedd Rhys ap Siancyn. Ef yn unig a gyfarchwyd yn unigol gan y beirdd, a cheir rhestr o'r cerddi iddo yn NBMM 231–2. Canodd y beirdd hyn iddo: Gwilym Tew, Deio ab Ieuan Du, Huw Cae Llwyd, Ieuan Gethin, Lewys Glyn Cothi a Rhisiart ap Rhys.

19 **gwiwfyllt** *Gwiw* + *byllt*, ffurf l. *boltt* 'saeth', gw. GPC 298.

20 **braenarad** Cofnodwyd y ffurfiau *braenaru*, *branaru* a *brynaru* 'aredig neu droi tir a'i lyfnu' yn GPC 306, ond ni chofnodwyd *brynarad*, *braenarad*. Rhaid wrth y ffurf er mwyn yr odl. Cf. HCLI XLI.45 *Mae am bâr im, frynarad* (cywydd i erchi ychen).

22 **rheuau** Gellid *rhau* 'golud', gw. GPC 3040 d.g. *rhau*¹, ond *rhau*² 'rhwymyn, cadwyn' sydd yn cynnig yr ystyr orau, yn dilyn y f. *tynnant* ym mraich gyntaf y cwpled. Iolo Morganwg oedd y cyntaf i restru'r

ffurf, a hynny ymhlith yr ymadroddion a oedd yn gysylltiedig â bywyd amaethyddol Morgannwg. *Rheuoedd* yw'r unig ffurf l. a restrir (ni roddwyd ffurf l. ar gyfer *rhau*¹), ond geilw'r gynghanedd sain am *rheuai*. Er bod mân wahaniaethau rhwng y pum copi sydd yn llaw Llywelyn Siôn, fel y nodwyd uchod, y mae geiriad ac orgraff y ll. hon yn cyfateb yn union ym mhob un o'r pump.

23 **gelwir** Diwygiwyd *gwelir* y llsgrau. Darlunnir y pedwar brawd yn cael eu cymell a'u gyrru yn eu blaenau gan y *geilwad* (ll. 33) a'i wialen. Y bardd ei hun yw'r geilwad hwnnw. Trafodir swyddogaeth y geilwad gan A. James, 'Y triban, y cathreiw'r hynafiaethydd', *Traethodydd*, 1996, 137–59.

32 **Harri wyn** Ai'r Brenin Harri VI (m. 1471)? Os felly lluniwyd y cywydd cyn mis Mawrth 1461 pan gipiodd Edward IV y goron, ac y mae hynny'n gyson â'r awgrym mai pedwar mab ifanc a gyferchir yn y cywydd (ond gellid gosod y cywydd yn yr ysbaid fer rhwng Hydref 1470 a Mai 1471 pan adferwyd Harri). Ymddengys fod cywydd Deio ab Ieuan Du i Siôn ap Rhys wedi ei lunio yn ddiweddarach gan ei fod yn cynnwys awgrym o wasanaeth neu gefnogaeth i Edward IV: GDID 15.11–12 *Tri fflŵr-de-lis gedwis gwart / Maes hydr a grymus Edwart*. Byddai'r Nant, maes o law, yn gresynu bod Rhys ap Siôn ap Rhys a'i fryd ar fynd i ogledd Lloegr i wasanaethu Edward IV, gw. GyN 1.73–80.

Ar ôl ei farw y dechreuwyd cyfeirio at sancteiddrwydd y brenin, a honnai'r Eidalwr Polydore Vergil, 'there was not in this world a more pure, honest, and a more holy creature', gw. B. Wolffe, *Henry VI* (Yale, 2001), 4. Daeth ei feddrod yn abaty Chertsey yn gyrchfan pererindod ac aeth y sôn ar led am y gwyrtiau a gysylltid â'r fangre. Hybwyd y ddelwedd gan Harri VII a ddymunai osod ei hawl ei hun i'r goron ar dir cadarnach trwy ymgysylltu â'r brenin Lancastraidd olaf, ac apeliodd ar y pab ar sawl achlysur i'w ganoneiddio, gw. R.A. Griffiths, *The Reign of Henry VI* (Stroud, 1988), 1–5, 249; B. Wolffe, *op.cit.* 3–21. Digwydd un o'r cyfeiriadau cynharaf yn y Gym. at *Harri Sant* yn un o gywyddau olaf Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 24.50 ac ymhellach GLMorg 1.59n. Nid oes rhaid tybio bod Hywel Dafu yn dymuno pwysleisio sancteiddrwydd y brenin am fod yr un a., *gwyn*, yn cael ei arfer mewn cywydd diweddarach wrth gyfeirio at y Brenin Edward IV, gw. 69.36n.

33–4 'A'u geilwad hwy sydd yn galw'r rhai hyn â'r glod helaeth y'm gwelir'. Y mae'r llsgrau. yn gytûn a'r gynghanedd yn ddi-fai, ond diwygiwyd am nad yw'r gystrawen *Y'm geilw y sawl y'm gwelir* yn ystyrllon.

39 **Einion felys** Ni welwyd yr un cyfeiriad at Einion Felys yn yr ach, a thebyg mai a. sydd yn goleddfu'r enw Einion [ap Gollwyn] sydd yma.

41 **Ifor Hael** Ifor ap Llywelyn o Wernyclepa, cyfaill a noddwr Dafydd ap

- Gwilym, gw. CLC² 361–2; E. Rowlands, ‘Ifor Hael’, *Traethodydd*, 1981, 115–35. Cyffredin oedd ei enwi yn gyfochrog â’r tri hael traddodiadol. Ar fynychder y cyfeiriadau at y tri hael yn unigol, gw. A.C. Lake, ‘Y tri hael: rhai ystadegau’, *Dwned*, 8 (2002), 87–98.
- 45–6 Awgrymir mai Siôn yn benodol a etifeddodd ddi-ddordebau diwylliedig y tad, a cheir ateg i hynny yn y cywydd a ganwyd iddo gan Huw Cae Llwyd: HCL1 XIV.27–30 *Mae’n darllain gymain â gŵr, / Mae’n deall mwy no deuwr. / Deall ei frud oll o’i fron, / Diddanu’i dai a’i ddynion.*
- 52 **angel** Gwelir y trosiad hwn mewn cerddi eraill lle y mawrygir rhinweddau pedwar brawd: yn GG.net 104.53–4 *Pedwar angel a welwn / Yn cynnal nef hendref hwn*; GLGC 35.55–6 *Dringo mae pedwar angel / dan y byd fal dwyn y bêl*. Diau y câi cynulleidfa’r bardd ei chymell i ddwyn i gof y pedwar efenglydd; gw. ymhellach 102.27–36.
- Disgwylid i -*d rh-* galedu. Am enghrau eraill. gw. ‘Cynghanedd’ td. 42.
- 53 **efnys** Gellid naill ai a. ‘gelyniaethus, dicllon’ neu enw ‘gelyn(ion)’, gw. GPC 1171–2. Yn llsgrau. Card 5.44 a LIGC 21290E yn unig y ceir y ffurf, a’r darlleniad hwn sydd yn sicrhau bod y gynghanedd yn gywir a’r ll. yn ystyrion. Ceir bai crych a llyfn o ddilyn *efnys* y llsgrau. eraill.
- 54 **rhwng meibion Rhys** Ni ddisgwylid treigladd yn dilyn yr ardd. *rhwng*, gw. Treigladau 385 a cf. 34.28 *Yn ffrydiau rhwng cyffredin*, 79.34 *Na fogram rhwng dwy fagwyr*. Felly diwygiwyd *rhwng feibion* y llsgrau. Ceir y gair gwan *rhwng* yn safle’r orffwysfa, gw. 1.23n a ‘Cynghanedd’ tt. 42–3.
- 56 **dewraf ynn** Y mae’r llsgrau. o blaid yr ardd. *ynn* yn hytrach na’r ffurf ferfol 3 ll.pres.myn. *ŷn*’.
- 57 **cystlwn** Rhoddir iddo’r ystyron ‘carenydd, tras, perthynas; cyfathrach, cynghrair; arddeliad, honiad, hawl’, gw. GPC 817.
- câr** Lleucu, merch Tomas ap Dafydd, oedd gwraig gyntaf Siancyn ap Rhys, a hi oedd mam Rhys ap Siancyn, gw. WG1 306. Disgynnai Mallt, ail wraig Siancyn ap Rhys, o Rys Llwyd ab Adam, fel Hywel Dafï ei hun, gw. WG1 108. Siwan Ddu, chwaer y brodyr a gyferchir yn y cywydd, oedd ail wraig Llywelyn ap Gwilym o Borthgogof, gw. cerddi 31–3, a disgynnai ef a Hywel Dafï o’r un cyff, gw. WG1 109.
- 58 **naw** Diau mai swyddogaeth y rhif *naw* yw dwyn i gof y naw cwnwcerwr; arnynt gw. 7.28n.

Canodd Hywel Dafï gywydd moliant a chywydd marwnad i Wilym ap Tomas o Wern-gib yn Llandeilo; ar y canu i’r teulu gw. NBSG 228–31. Y mae’r ddau gywydd yn dilyn ei gilydd yn Pen 67. Mab Tomas ap Gwilym

ap Ffyllib ab Elidir Ddu oedd Gwilym, a hanai'r teulu o Einion ap Llywarch ac o Basgen, mab Urien Rheged, gw. WG1 331; WG2 653. Enwir Rhydderch, brawd Gwilym, yn y cywydd i erchi wyth ych, gw. cerdd 12.

2 **aelwydiau** Nodir y ffurf l. *aelwydiau* yn GPC² 85–6 ond rhybuddir ei bod yn brin. Y cwpled hwn yw'r unig engh. a ddyfynnir. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38.

4 **gŵr hen llwyd** Cyfeiriad, o bosibl, at dad neu daid Gwilym ap Tomas. Posibilrwydd arall yw mai Urien, cyndad y teulu, sydd dan sylw a bod y bardd yn synio amdano fel henwr, fel y gwneir yn achos Llywarch Hen, gw. 28.64n. Arferir yr epithet 'Hen' yn fynych wrth gyfeirio at Owain Glyndŵr, gw. G.A. Williams, 'Cywydd brud gan Robin Ddu a'i berth-nasedd posibl i hanes Owain Glyndŵr', *Dwned*, 19 (2013), 96–102.

7 **wyr Hywel** Gwenllïan, merch Hywel Felyn ap Gwilym Gam, oedd mam Gwilym, gw. WG1 117.

gwayw rhuad 'Gwayw [sydd yn peri] griddfan'.

16 **mab ... Llŷr** Anturiaethau Pryderi a Manawydan fab Llŷr yn Nyfed yw pwnc trydedd gainc y Mabinogi, gw. TYP³ 432–4; PKM 51–65. Awgrymir mai Manawydan a'i frawd, Bendigeidfran, a ddygir i gof yn y farwnad a ganodd Bleddyn Fardd i dri mab Gruffudd ap Llywelyn, gw. GBF 54.35–6n *Drwg y'n gwnaeth hiraeth hir dewi—triwyr, / Fegis meibion Llŷr, llwyrglod ynni*. Fodd bynnag, disgynnai nifer o deuluoedd Brycheiniog a Maesyfed o Garadog Freichfras, mab Llŷr Merini, gw. 59.59n; WCD 422. Ni chyfeiria'r Cywyddwyr at Fanawydan a diau mai mab Llŷr Merini a enwir yma.

29 *n wreiddgoll*.

31 **Arthur ... warthol** Cynganeddir y ddau air ar achlysuron eraill, gw. GHD 7.2 *Á gwarthafl a gwayw Arthur*.

31–2 **Arthur ... / ... a'i nai** Gwalchmai yn ddiau, gw. TYP³ 367, ond yr oedd Medrod hefyd yn nai i Arthur, gw. WCD 303–5, 461–3. Cf. GLM LXXVI.7–8n *marw Derfel rhyfel yrhawg; / marw nai Arthur nerthawg*. Gallai gyfeirio yn ogystal at Beredur, gw. W.G. Harries, ' "Peredur, Nai Arthur" ', B xxvi (1974–6), 311–14, a'r dyfyniadau yno o waith Dafydd Nanmor, Simwnt Fychan a Wiliam Llŷn, ac o'r rhamant S.C. 'Sir Percyuell of Galles' lle y nodir bod mam Peredur yn chwaer i Arthur.

34 **Rolant** Arwr y gân epig 'Chanson de Roland', gw. GLMorg 7.64n. Enwir ei gydymaith ffyddlon Olifer mewn cywydd arall, gw. 46.49n.

41 Cyfatebiaeth caled a meddal, ond sylwer ar y modd y sillafwyd *isgil* yn y pedair llsgr.

42 **Is Cennen** Yng nghwmwd Is Cennen y mae Llandeilo a Thre-gib.

- 48 **cyn harchai** Ni ddisgwyliid treigladau yn dilyn y cys. *cyn*, ac ni ddisgwyliid yr anadliad caled ychwaith, gw. Treigladau 382; GMW 237, ond dilynwyd Pen 67 a atgynhyrchwyd yn Pen 99.
- 49 **i minnau** Pen 67 y *ninav*, ond dilynwyd diwygiad Pen 99 sydd yn cynnig cynghanedd gywir.
- 51 **pedwar gwŷr** Ar arfer enw ll. yn dilyn y rhifolion, gw. 2.17n.
- 53–4 **eryr ... / A charw a physg** Yr oedd y rhain yn enwog ar gyfrif eu hirhoedledd. Yn ‘Culhwch ac Olwen’ ceir cymorth Mwyalch Cilgwri, Carw Rhedynfre, Tylluan Cwm Cowlyd, Eryr Gwernabwy ac Eog Glyn Lliw wrth geisio dod o hyd i Fabon fab Modron, gw. CO 31–3. Enwir y carw a’r eog, ynghyd ag eryr Gwernabwy, yn y cywydd ‘Lluniais oed Ddywllun y sir’ a olygwyd gan H. Fulton yn ‘George Borrow and the oldest animals in *Wild Wales*’, THSC, 2003, 23–40. Am fersiwn annibynnol o hanes yr anifeiliaid hynaf, gw. T. Jones, ‘Chwedl yr anifeiliaid hynaf’, Cylchg LIGC vii (1951–2), 62–6; hefyd E.B. Cowell, ‘The legend of the oldest animals’, Cy v (1882), 169–72.
- 56 *n* berfeddgoll.
- 57 **nasiwn** ‘Math’ yn hytrach na ‘cenedl, pobl’ sydd yn rhoi’r ystyr orau yma, gw. GPC 2552. Ond ‘cenedl, pobl’ yn 82.25 *A nesa’ gwŷr o’i nasiwn*.
- 57–8 **nesaf ... / I Ifor Hael** Yr oedd Gwilym Fychan, ewythr Gwilym ap Tomas, a brawd ei dad, yn briod â Margred, merch Tomas ab Ifor Hael ap Llywelyn ab Ifor, gw. WG1 202.
- 59–60 Cf. diweddglo 12.72 *A bid erydr bedeiroes*, a hefyd 28.8 *Bid i’w orwyr byw deiroes*.

78

Ar wrthrych y cywydd marwnad hwn, gw. nodyn brig cerdd 77. Rhoddwyd *I wr o gydweli* yn bennawd yn Pen 99, ar sail llinell 16 ond odid, *Cadwaladr tir Cydweli*, a *Cywydd Marwnad Gwilym ap Thomas o Gydweli* yn CM 12.

- 8 Ychwanegodd David Ellis air unsill, *Ion*, er mwyn sicrhau bod hyd y ll. yn rheolaidd. Ond tebycach y dylid cyfrif *tröes* yn air deusill.
- 10 **pedwar olwyn** Dyfynnir y cwpled yn GPC 2644 d.g. *olwyn*, ac awgrymir y gall y gair fod yn eg. yn ogystal ag eb. er mai eb. ydyw yn yr holl enghrau. yng nghanu’r Cywyddwyr yno. Diwygiwyd yn *elor bedair olwyn* yn Pen 99.
- 14 **Padrig** Nawddsant Iwerddon, gw. LBS iv, 54–71; WCD 528–9. Prin yw’r cyfeiriadau ato yn y canu, ac er gwaethaf y pennawd, nid cerdd iddo ef yw ‘Odl Badrig’ o waith Hywel Aerddrem yn BL Add 14971, 170^r–172^r (a gthg. yr hyn a honnir yn LBS iv, 71). Moliant i noddwr

- lleyg sydd yma a mawrygir ei ach, ei filwriaeth a'i haelioni, ond heb ei enwi.
- 17–20 Dyfynnir y ddau gwpled hyn 'sy mor feistraidd eu cystrawen a'u dychymyg' gan S. Lewis yn BHLIG 130–1.
- 23 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 34, 38, 40, 42 (gw. hefyd ll. 56n).
- 25 **gwinben** Eg. a benthyciad o'r S. *wind-beam* 'trawst neu bren croes yn cysylltu dwy geibren mewn nen tŷ', gw. GPC 1662. Y cwpled hwn yw'r engh. gynharaf a ddyfynnir, ond cf. GG.net 37.62 *Trawst ein iaith trosti a'i nen, / A'i chanbost a gwych winben* (canol y 15g.). Nodwyd ar ochr y ddalen yn LIGC 22832C *winbren North Wales Nenbren Wimbren S W.*
- 28 **dylaith** 'Clo, yn ffig. amddiffyn, amddiffynnydd', gw. GPC 1135.
- 32 **Llangynnwr** Llifa afon Tywi heibio Llandeilo a Thre-gib, a saif Llangynnwr nid nepell o'i haber.
- 36 **ni fwrir maen neu far** Ar y pedair camp ar hugain y disgwyliid i'r uchelwr eu meistroli, gw. 65.19n. Un ohonynt oedd *bwrw llawfaen a bar llifaid*, gw. GLGC 50.30, ond ni chrybwyllir y gamp hon yn y rhestr 'Y pedair camp ar hugain' yn John Davies, *Dictionarium Duplex* (Londinium, 1632). Ceir sawl cyfeiriad yn y cywyddau at fwrw bar a maen: TA CXXI.27 *Pwy a fwrw mwy farr a maen?*; GLMorg 95.37–8 *Bwriodd, rhedodd ar adwy; / Bar a maen ba wiw bwrw mwy?* Yr oedd rhedeg (ll. 35) yn un o'r deg gwrolgamp, a chanu telyn (ll. 42) yn un o'r campau teuluaidd.
- 44 **trafael** Gellid 'ymdrech boenus neu lafurus' fel yn 75.25, ond addas hefyd fyddai 'taith, siwrnai'. Dichonadwy yw'r naill ystyr neu'r llall yn 71.39n ac yn Atod.III.80n.
Ceir cynghanedd sain reolaidd sydd yn cynnwys yr odl *gael / trafael*, ond *tâl a trafael* yw'r ddau air a bwysleisir.
- 47 **diliw** Ffurf amr. ar *dilyw* 'llifeiriant', gw. GPC 1017, a throsiad cyffredin mewn marwnadau, gw. llau. 31–4 uchod, a cf. 7.34 *Lif Noe gan lefain ei wŷr*, 26.15 *Un llif Noe yr â'n llef ni*. Ond gellid hefyd *di + lliw* 'diflas, difwyd'.
- cerdd grwth neu delyn** Diwygiwyd yn Pen 99 yn *cerdd grwth a thelyn*, ond sylweddolodd David Ellis yn CM 12 nad oedd y gynghanedd yn rheolaidd, ac yn ddiarwybod iddo adferodd ddarlleniad gwreiddiol Pen 67.
- 48 **dyddbrawd** Felly yn Pen 67, ond yr hyn a gofnodwyd yn Peniarth MS. 67 oedd *dyddhawt*.
- 49 **distyll** 'Diferiad neu lifiad allan, yn ffig. encil, terfyn, diwedd', gw. GPC 1051.
- 50 **pibau** Ffurf l. *pib* 'casgen', sydd yn cyd-fynd â *gwledd pob gwlad ail*

- ran y ll. Ystyrion hefyd fyddai *pib* ‘offeryn chwyth’, gw. GPC 2792–3.
- 56 Cynghanedd groes sydd yn cynnwys *n* wreiddgoll neu gynghanedd groes o gyswllt sydd yn cynnwys *r* berfeddgoll.
- 57 Cf. DG.net 49.10 *Saith ugeiniaith a ganai*.

79

Mab Gwallter ab Ieuan ap Llywelyn Ddu ap Rhydderch Ddu oedd Gwilym, a thrigai yn Llandybïe, gw. WG1 777; WG2 1511. Siwan Ddu oedd ei wraig, ac yr oedd hi yn ferch i Faredudd Bw̄l o Lanfihangel Aberbythych yng nghwmwd Is Cennen, gw. WG1 623. Rhoddir sylw amlwg i Siwan yn y cywydd mawl a ganodd Lewys Glyn Cothi iddi a’i gŵr, gw. GLGC cerdd 25 ac ymhellach D. Johnston, ‘Lewys Glyn Cothi: bardd y gwagedd’, *Taliesin*, 74 (1991), 68–77. Enwir Siôn Ddu, mab Gwallter a Siwan, yn y cywydd a ganodd Hywel Dafï i erchi wyth ych gan wyth o ddisgynyddion Elidir Ddu, gw. cerdd 12.

- 8 **enilliwn** Cf. 27.38n *enilliaist*.
- 19 **merched Maredudd** Maredudd Bw̄l, gw. y nodyn brig. Gŵr gwahanol oedd Maredudd Bw̄l a oedd yn dad yng nghyfraith i Forgan ap Dafydd Gam, gw. 20.9n.
- 20 Gellid *Siwan a’u rhan ac a’u rhydd*.
- 22 Y gair gwan *wrth* sydd yn safle’r orffwysfa, gw. 1.23n a ‘Cynghanedd’ tt. 42–3.
- 24 **tlodon** Ond *tlodion* yw’r ffurf yn 27.9. Rhestrir y ffurfiau ll. *tlodion* a *tlodon* yn GPC 3510. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. ‘Rhagymadrodd’ td. 38.
- 26 **Elidir** Yr oedd Isabel, gwraig gyntaf Gwallter ab Ieuan, yn ferch i Wilym ap Ffyllib ab Elidir Ddu, gw. WG1 330–1.
- 34 *n* wreiddgoll.
- 44 **ar lan y dŵr** Disgrifia Lewys Glyn Cothi leoliad cartref Gwilym a Siwan ar lan ddeheuol afon Tywi, gyferbyn â chastell Dinefwr, gw. GLGC 25.3–4 *Yng nghyfair tref Ddinefwr / y mae ei dai am y dŵr*.
- 49–50 **Pum mil ... / Pum torth** Gwyrth Crist yn bwydo torf o bum mil â phum torth haidd a dau bysgodyn, gw. Ioan 6.1–14; hefyd 93.21–2n.
- 50 **ymborth** Diwygiwyd y ll. yn Pen 99 gan dybio mai enw oedd *ymborth*, ond fe’i dehonglir yn ferfenw gan ddilyn darlleniad Pen 67, gw. GPC 3762.
- 52 **Siwan Du** Engh. o’r calediad *n + dd > nd*, gw. Treigladau 24–5.
- 56 **hyd nas** Ar y defnydd o’r cys. *hyd* wedi ei ddilyn gan negydd ‘fel, i’r

fath raddau fel', gw. GPC 1948–51 d.g. 3(c); B i (1921–3), 104.

57 **costio ei wŷr** Gall yr ardd. *i* ddilyn y f. *costio*, a gellid *Ei waith yw costio i wŷr*.

58 **gweithio** Gall *gweithio* gyfleu ystyron megis 'bragu; paratoi (bwyd), coginio', gw. GPC 1623–4.

Gwythyr Nid yw hwn yn gymeriad adnabyddus, ond digwydd ei enw yn 'Culhwch ac Olwen'. Nodir yn un o'r Trioedd fod Gwenhwyfar, merch Gwythyr ap Greidiawl, yn un o dair prif riain Arthur, gw. TYP³ 161, 395–6; WCD 358. Ni ddeallwyd arwyddocâd y cyfeiriad, a diwygiwyd yn *wythwyr* yn Pen 99.

60 **athrawaeth** 'Credo neu egwyddor', gw. GPC² 530. Newidiwyd yn *athrawiaeth* yn Pen 99.

Ieuan Enw taid Gwilym, ond fe'i deallir yn gyfeiriad at Ieuan 'y Preutur Siôn'.

61 Cywirer darlenniad Peniarth MS. 67 *ar oes es (nid ef) dwyoes oi dy*.

80

Cywydd moliant i Ruffudd ap Nicolas ap Ffyllib ab Elidir Ddu, ac i ddau o'i feibion, Tomas ac Owain, yw hwn. Rhys oedd mab hynaf Gruffudd; meibion o'i ail briodas oedd Tomas ac Owain, gw. WG1 329–30. Anodd darllen y cywydd heb ymglywed â'r grym a'r dylanwad a feddai Gruffudd, a'r modd yr oedd ef a'i feibion yn tra-arglwyddiaethu ar bawb arall. Y mae'r farddoniaeth yn ategu sylw R.A. Griffiths: PW i, 143, 'Although he never rose beyond the rank of deputy-justiciar [swydd a ddaliai erbyn 1437], he was the most powerful political figure in west Wales during these years'; hefyd *id.*, 'Gruffydd ap Nicholas and the rise of the house of Dinewfwr', Cylchg LIGC xiii (1963–4), 256–68; ByCy 293; DNB² 24, 138–9; GLGC cerdd 16 a'r nodiadau. Yr oedd yn ei anterth yn y pedwardegau a'r pumdegau, ac ymddengys mai ef a sicrhodd fod ei fab, Tomas, yn cael troedle yn sir Aberteifi. Yr oedd Tomas yn ddirprwy siryf y sir yn 1442–4, ond dechreuasai ei ymwneud â'r sir yn 1439, gw. R.A. Griffiths: PW i, 154–5. Pwysleisir ei gyswllt â sir Aberteifi yn y cywydd hwn, ac awgrymir dyddiad tua diwedd y tridegau neu ddechrau'r pedwardegau ar ei gyfer. Daeth Tomas yn amlycach ym mywyd gweinyddol sir Gaerfyrddin yn y chwedegau yn dilyn marwolaeth ei dad tua 1460, gw. R.A. Griffiths: RhT 24. Fel ei dad, fe'i penodwyd yn ddirprwy ustus De Cymru, a hynny yn 1455. Fe'i lladdwyd mewn brwydr ym Mhennal oddeutu 1468 a'i farwnadu gan Ddafydd Llwyd o Fathafarn, gw. GDL1 cerdd 59.

Ceir trafodaeth ar y canu i'r teulu yn NBSG 62–78 (Gruffudd ap Nicolas), 79–87 (Tomas ap Gruffudd) a 87–90 (Owain ap Gruffudd). Lluniodd Ieuan Brechfa gart achau yn darlunio tylwyth Gruffudd, a hynny tua 1500, gw.

M.P. Siddons, 'Welsh pedigree rolls', *Cylchg LIGC* xxix (1995–6), 1–15 (llun ar d. 15).

Seiliwyd y golygiad ar destunau Pen 94 a Llst 119, y naill yn llaw'r dyneiddiwr, Thomas Wiliems, a'r llall yn llaw'r bardd, Wiliam Ffyllib. Dilynyr y rhain (er nad yn gwbl ffyddlon bob tro) gan LIGC 3049D, Llst 133 a Bangor 401 (er mai llau. 1–21 yn unig sydd yn ddarllenadwy bellach yn yr olaf oherwydd traul). Diogelwyd tri thestun yn llaw Wmffre Dafis, sef Brog I.2, Gwyn 1 a LIGC 3056D. Y mae'r tri yn rhannu darlenniadau cyffredin, megis y darlenniad llwgr *dwy oes glaer* am *dwy osgl aur* (ll. 23), ond y mae gwahaniaethau arwyddocaol rhyngddynt hefyd. Collwyd un cwpled yn Brog I.2 a chwpled gwahanol yn Gwyn 1 / LIGC 3056D ynghyd â'r cwpled olaf lle y cyflwynir y dymuniad arferol am ffyniant neu hir oes. Collwyd pedair llinell yn rhan gyntaf y gerdd hefyd oherwydd i lygad y copïwr neidio o ddiwedd llinell 13 (*pren* yn safle'r brifodl) hyd llinell 17 (*pren* yn safle'r brifodl unwaith eto). Ceir sawl darlenniad unigryw yn Brog I.2, ac atgynhyrchwyd y rhain yn J 101. Y mae Llst 30 a Pen 101 yn dilyn Gwyn 1 / LIGC 3056D.

- 2 **ymryson** Gall hwn ymddangos yn sylw negyddol a beirniadol, a cheid darlenniad mwy boddhaol o fabwysiadu *nid gwiw ymryson* sydd gan Wmffre Dafis, er bod sawl darlenniad llwgr yn ei destunau, ond sylwer hefyd ar l. 26 *o drais a bodd*. Moses Williams yn unig a newidiodd y ll. hon: *o dras a bodd* sydd yn Llst 133. Yr oedd hawlio grym, ymryson a herio awdurdod yn ail natur i Ruffudd a'i feibion.
- 3 **gorhoffen'** Rhoddir i *gorhoffi* yn GPC 1487 yr ystyron 'hoffi'n fawr; edmygu, canmol yn fawr'.
- 5 **Llŷr** Y brenin a roes ei enw i Gaerlŷr, gw. BD 26–7. Ond gw. hefyd TYP³ 418–21 o dan i. Llŷr Llediaith, tad Bendigeidfran, Manawydan a Branwen (arno gw. WCD 421–2); ii. Llŷr Lluyddog; iii. Llŷr Merini.
- 6 **Melwas** Yr oedd chwedl yn hysbys gynt am Felwas yn cipio Gwenhwyfar, gwraig Arthur, gw. GDG 64.23n; DG.net 65.19; WCD 469–70; TYP³ lxiv, 379–80 (o dan enw Gwenhwyfar). Serch hynny, canmoliaethus ar y cyfan yw'r cyfeiriadau ato gan y beirdd, e.e. GLGC 50.57–8 *Mwy yw brig ei lymwayw bras / no miliwn o wayw Melwas*; GSH 12.8 *Melwas doeth mewn maelys dur*. Rhestrir y cyfeiriadau ato a thrafodir yr hyn sydd yn hysbys amdano gan I. Hughes, 'Camlan, Medrawd a Melwas', *Dwned*, 13 (2007), 33–42, ac ychwaneger enw Hywel Dafï at y beirdd sydd yn ei enwi.
- 12 **dwyswydd** *Dwy + swydd* 'sir', ac felly hefyd yn ll. 24. Cysylltir disgynyddion Elidir Ddu â sir Gaerfyrddin, a phrawf y cyfeiriadau at *fro Ystwyth* (ll. 28), *Teifi* (ll. 32), *Ceredigion* (ll. 37) mai sir Aberteifi yw'r ail sir dan sylw. Ond *dwy + swydd* 'gwaith' sydd yn 73.38.

- diddosa** ‘Diogelu rhag dŵr neu law; diogelu (rhag niwed), llochesu (rhag perygl)’, gw. GPC 969. Daw’r engh. gynharaf o eiriadur William Salesbury (1547).
- 15–18 Dyfynnir y llau. hyn yn y bywgraffiad a luniwyd i Syr Rhys ap Tomas yn yr 17g., yn yr adran sydd yn trafod gyrfa Gruffudd ap Nicolas, gw. R.A. Griffiths: RhT 163. Y mae ll. 17 ychydig yn wahanol: *Ni fflyg i’r fais briwdrais bren.*
- 17 **brwydrais** *Brwydr* + *ais*, un o ffurfiau ll. *asen* ‘dellten’ (ond fe’i trinnir hefyd yn eb. un.), gw. GPC² 498–9.
- 18 *n* wreiddgoll.
- 19 **paladr mwyn** ‘Gwaywffon gadarn a luniwyd o fetel’. Dosbarthwyd o dan *paladr* ‘gwaywffon’, gw. ‘Geirfa’, er y gellid yr ystyr ‘cynheilid’, gw. GPC 2671. Nid *mwyn* ‘tyner, tirion’ yw’r ail elfen ond *mwyn*, *mŵn* ‘metel’, gw. *ib.* 2519.
- pleidiwr Mynyw** Rhwng 1447 a thua 1460 cafodd Gruffudd ofal am esgobaeth Tyddewi, gw. ByCy 293.
- 20 Cf. 83.25 *Dy wraidd arglwyddiaidd ynn.*
- 21 **gogyngerth** ‘Clôs, plethedig, tewfrig’, gw. GPC 1442. Digwydd y ll. *A’i gangau yn ogyngerth* yng nghywydd Dafydd ap Gwilym ‘Diolch am Fenig’, gw. DG.net 15.49. Awgrymodd E. Rolant, ‘Ifor Hael’, *Traetod-ydd*, 1981, 130–1, fod yr adleisio yn fwriadol.
- 26 **trais** Gw. ll. 2n.
- 27 **Tomas** Ar ei ran ef y canodd Hywel Daf i erchi hebog, gw. cerdd 81.
- 28 **Twrch Trwyth** Gw. CLC² 735; WCD 616–17. Yr oedd hela’r Twrch yn un o’r tasgau a roddwyd i Gulhwch gan Ysbaddaden, gw. CO 21–8; *ib.* 38, *Gouynnwys y gwyr y Arthur peth oed ystyr yr hwch hwnnw. Y dywawt ynteu, ‘Brenhin uu, ac am y bechawt y rithwys Duw ef yn hwch’*. Cf. GIG II.19–20 *A gŵr gwynllwyd, Twrch Trwyd trin, / Nawswyllt yn rhoi farneiswin.*
- bro Ystwyth** Disgrifir Tomas yn gwnstabl Aberystwyth yn 1454–5, gw. R.A. Griffiths: PW i, 237.
- 29 **gafael** Addas yw ‘y weithred o afaelyd neu gydio’, ond am fod ystod daearyddol awdurdod Tomas yn cael ei bwysleisio yn yr adran hon, addas hefyd ‘daliad o dir etifeddol dan y gyfundrefn lwythol Gymreig’, gw. GPC 1368–9.
- 31 **gwawl** Ar sail y cyd-destun, a’r f. *tyfodd* sydd yn rhagflaenu’r enw, anodd dewis rhwng *gwawl*¹ ‘goleuni, llewyrch’ a *gwawl*² ‘mur, rhagfur’, gw. GPC 1605. Gellid yr e.p. *Gwawl*, sef y gŵr a fynnai gael Rhiannon yn wraig yng nghainc gyntaf y Mabinogi, gw. WCD 308.
- 33 **gwial ... / ... / Derwen** Dau drosiad sydd yn pwysleisio’r cyferbyniad

rhwng Tomas a phawb arall. Ailadroddir yr un syniad wrth gyfeirio at Owain yn adran nesaf y cywydd, gw. ll. 44 *Mal dŵr ar wial yr aeth*.

34 **brain** Cf. ll. 47. Barnai tylwyth Einion ap Llywarch eu bod yn disgyn o Urien Rheged a mabwysiadwyd arfbais Urien, sef tair brân, gw. DWH ii, 143, 561–2. Ceir cyfeiriadau niferus yn y canu i'r tylwyth at y brain, e.e. GLGC 16.15–16 *Gruffydd, ef a rydd dair o frain—un lliw / a llew gwyn i Owain*.

41 Cyfatebiaeth *sg* = *-s c-*. Y mae'r gyfatebiaeth yn rheolaidd yn 77.42 *A wisg hwnnw 'n Is Cennen*.

42 Gair gwan, sef yr ardd. *hyd*, sydd yn safle'r orffwysfa, gw. 1.23n a 'Cynghanedd' tt. 42–3.

45 **anhungas** *Anhun* + *cas* 'gelyn', 'gelyn sydd yn peri anhunedd'.

47 **brain ei darian** Gw. ll. 34n.

48 **Bryn-y-beirdd** Cartref Owain ap Gruffudd, gw. GLGC 17.47–8 *Owain, pab Rhufain prifeirdd, / Owain o ben Bryn-y-beirdd*. Yn ei gywydd ef, cyffelyba Lewys Glyn Cothi Owain i sawl Owain enwog, gan gynnwys *Owain y Glyn hen a'i gledd*, gw. *ib.* ll. 39. Gall *barwn* yn ll. 47 a'r cyfeiriad at *lain las* Owain yn ll. 51 ddwyn i gof Owain Glyndŵr drachefn.

ban Cyd-destun milwrol sydd i'r cwpled. Cyfeirir at darian ym mraich gyntaf y cwpled (er bod arwyddocâd herodrol i hynny hefyd), ac ymddengys mai 'braich, cangen, cainc, paladr' yw *ban* yma, gw. GPC 253. Diwygiwyd *yn ban / yn ei ban* y llsgrau., a cheir *n* berfeddgoll yn y ll. o ganlyniad (neu *br.n* = *n.br*).

49 Rhaid cyfrif *abl* yn air deusill.

51–2 **Amllyn / ... Amig** Hanes eu cyfeillgarwch, a'r modd y'i profir, yw thema'r chwedl 'Amllyn ac Amig' sydd yn seiliedig ar ddeunydd a fu'n dra phoblogaidd trwy holl wledydd Ewrop yn yr Oesoedd Canol, gw. P. Williams, 'Ffynonellau tybiedig chwedl Amllyn ac Amig', YB XV (1988), 73–91. Yn un o gywyddau Lewys Glyn Cothi cyffelybir Tomas ap Ffyllib a'i dad i Amllyn ac Amig, gw. GLGC 91.45–6. Achosodd y ddau enw gryn drafferth i'r copiŵyr, ac ymddengys nad oeddynt yn gyfarwydd â'r chwedl ac â'r enwau. Yn ll. 51 llygrwyd *Amllyn yn Efnal* (Llst 119 a Pen 94), *amal* (LlGC 3049D) *ag em* (Brog I.2).

54 **Llefelys a Lludd** Y mae'r chwedl 'Cyfranc Lludd a Llefelys' fel pe bai'n ymhelaethiad ar un o'r trioedd, sef *Teir Gormes a doeth y'r Enys Hon ... bn o nadunt Kywdaŵt y Corryanyeit*, gw. TYP³ 90–3, 416–18. Hanes y ddau frawd a adroddir yn y chwedl, a'r modd y daeth Llefelys o Ffrainc i gynorthwyo Lludd pan oedd yn wynebu tair gormes. Ceir testun o'r chwedl yn CLIL². Cyfosodir y ddau frawd ar achlysuron eraill: GLGC 189.37–9 *Wyntau yll deuoedd / dros dŵr, dros diroedd /*

oedd Ludd i filoedd a Llefelys.

56 **milwr du** Cyfeiriad o bosibl at un o hynafiaid y teulu, sef Elidir Ddu.

57 **cyd-dofion** *Cyd + dofion*, ffurf l. *daw* 'mab yng nghyfraith', gw. GPC 906. Gall fod yn gyfystyr ag 'aelod o osgordd' hefyd, ond ymddengys mai defnydd llac a wneir o'r gair yn y cywydd hwn, a chynigir yr ystyr 'disgynyddion'. *Colofnion* sydd gan Wmffre Dafis, ond ni nodir y ffurf yn GPC 544 d.g. *colofn*. Cafwyd engh. o'r trosiad hwn yn ll. 31.

57–8 **Harri / Dwnn** Ail wraig Gruffudd oedd mam y brodyr. Yr oedd hi yn ferch i Faredudd ap Harri Dwnn ap Gruffudd ap Cadwgan, gw. WG1 615–16.

60 **Cadwgan** Gw. llau. 57–8n.

61 **llin Rhys** Anodd gwybod a ddylid treiglo'r e.p. am nad yw'r gynghanedd yn rhoi arweiniad. Gw. ymhellach 2.1n, 75.31n.

Rhys Llwyd Yr oedd gan Ffyllib ab Elidir frawd o'r enw Rhys Llwyd, gw. WG1 329, ond tebycach mai cysylltiadau teuluol Maredudd ap Harri Dwnn sydd dan sylw. Mallt oedd ei wraig ef, ac yr oedd hi yn ferch i Ruffudd ap Cadwgan, gw. WG1 618. Ail wraig Gruffudd oedd mam Mallt, sef Isabel, merch Rhys Llwyd ab Adam ap Rhys ab Einion Sais, gw. WG1 108. Dyma dylwyth Hywel Dafi: yr oedd Isabel yn chwaer i Ieuan, taid y bardd. Wrth fawrygu llinach Gruffudd ap Nicolas, *Llyna binagl llawn bonedd* (ll. 62), yr oedd y bardd yr un pryd yn galw sylw at ei hynafiaid ei hun, a gellid tybio y byddai gwrthrych y gerdd wedi deall yr ergyd a'i gwerthfawrogi.

68 **huawdl** Naill ai 'un huawdl' neu 'cyfarwydd, medrus', er mai yn betrus y cynigir yr olaf yn GPC 1905.

81

Dyrnoid o gywyddau gofyn a ganodd Hywel Dafi. Y mae'n arwyddocaol, felly, mai cywyddau gofyn yw'r ddau a ganodd i Lywelyn Goch o Rydlafar yn Sain Ffagan yng nghantref Penychen, un i ofyn bydafau ar ei ran ei hun, gw. cerdd 74, a'r ail i ofyn hebog ar ran Tomas ap Gruffudd, gw. NBSG 83–4. Y mae'r cywydd dan sylw yn dilyn y drefn gydnabyddedig, gw. trafodaeth B.O. Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch c.1350–1630* (Caerdydd, 1998), pennod 7 (td. 87 yn benodol). Ar ôl cyfarch y rhoddwr (llau. 1–14) enwir yr eirchiad (llau. 15–18) ac yna disgrifir y rhodd a ddeisyfir (llau. 19–38). Yn olaf pwysleisir parodrwydd yr eirchiad i gynnig rhodd arall yn gyfnewid am yr hebog (llau. 39–48). Yr hyn sydd yn anghyffredin am y cywydd hwn yw bod y bardd fel petai yn cael ail wynt ac yn cynnig disgrifiad pellach o'r rhodd (llau. 49–66). Tynnwyd sawl delwedd yn y disgrifiad cyntaf o fyd crefydd: *aberth*, *abades*, *abid*, *abad*, *bedyddio*, *esgobes* (ac y mae un o ddau gwpled ychwanegol nas cynhwyswyd yn y

golygiad yn cynnwys y trosiad *clochyddes*). Disgleirdeb yr aderyn ar y llaw arall a bwysleisir yn yr ail bortread: *gwydr*, *cwyr*, *sêr*, *maelys euraid*, *wybren unlliw*, *gwydrin*. Rhaid ystyried y gallai'r ail adran hon fod yn perthyn i gywydd gwahanol a'i bod wedi ei hymgorffori yng nghywydd Hywel Dafi ar gam. Os felly, digwyddodd hynny'n gynnar iawn yn hanes trosglwyddo'r cywydd am fod y ddau ddisgrifiad wedi eu cynnwys yn yr holl lawysgrifau. Mewn un grŵp o lawysgrifau, fodd bynnag, y mae un cwpled a gysylltir â'r ail ddisgrifiad wedi ei leoli yn y disgrifiad cyntaf.

Olrheinir ach y rhoddwr dros chwe chenhedlaeth yn yr adran gyntaf: Llywelyn Goch ab Ieuan ap Dafydd ap Llywelyn Fychan ap Llywelyn ap Cynfrig, gw. WG1 556; WG2 1082. Cysylltir y teulu â chwmwd Meisgyn ond daeth Rhydlafer yn eiddo i'r teulu trwy briodas Dafydd ap Llywelyn Fychan â Chatrin, merch Ieuan Goch. Trosglwyddodd Tomas ap Llywelyn [Goch] ddau denement yn Sain Ffagan ac yn Ninas Powys i'w fab Lewis yn 1469, gw. CMG v, 1690–1.

Ceir testun dibynadwy yn Stowe 959 a Pen 83 er bod cwpled yn eisiau yn y blaenaf, peth sydd yn wir am gywyddau eraill o eiddo'r bardd a gofnodwyd yn y llawysgrif hon. Y mae gwahaniaethau amlwg rhwng y ddwy hyn a'r testun a ddiogelwyd yn y llawysgrifau eraill. Yn fwyaf arbennig ceir cryn amrywio o ran trefn y llinellau. Fel y nodwyd, cynnwys y cywydd ddwy adran lle y dyfelir yr hebog. Yn y rhannau hyn sydd yn cynnwys dilyniant o ddelweddau nid yw'r drefn mor haearnidd a gellir symud cwpledi unigol heb ddifetha'r ystyr. Yn y pum copi sydd yn llaw Llywelyn Siôn, fodd bynnag, ceir trefn wahanol, nid yn unig yn y ddwy adran hyn ond hefyd yn yr adran lle y cyflwynir y rhoddwr a thrachefn yn y diwedd glo. Y mae'r un peth yn wir yn achos Brog I.2 a Card 4.101 sydd yn arddel trefn wahanol eto, a honno yn bur debyg i drefn testunau Llywelyn Siôn. Yn Llst 30 wedyn, ac mewn dau destun arall yn llaw Wmffre Dafis (Gwyn 1 a LIGC 3056D), dilynir trefn Stowe 959 ac eithrio un cwpled sydd yn cyfeirio at y rhoddwr yn Stowe 959 ond at yr eirchiad yn Llst 30. Er bod y drefn yn debyg ceir sawl darlleniad gwahanol. Ceir tair enghraifft o adffurfio cwpledi ac y mae'r brifodl yn wahanol yn y tri hyn. Y mae Card 3.2 yn ymdebygu i Stowe 959 o ran hyd a threfn a darlleniadau, ond y mae yma olion llygru amlwg hefyd mewn sawl cwpled fel mai anodd derbyn mai Stowe 959 oedd ei chynsail uniongyrchol. Collwyd rhannau o destun LIGC 970E rhwng llinellau 27–36 oherwydd traul.

Y mae dau gwpled nas ceir yn Stowe 959 a Pen 83 ond a ddiogelwyd yn rhai o'r testunau eraill. Diogelwyd (ii) yn yr holl ffynonellau a grybwyllwyd uchod, ond yng nghopïau Llywelyn Siôn, Brog I.2 a Card 4.101 yn unig y digwydd (i). I adrannau'r dyfalu y perthyn y ddau gwpled hyn, ond er bod (ii) yn yr holl ffynonellau y mae'n rhan o'r dyfalu cyntaf yn Llst 30, Gwyn 1 a LIGC 3056D, ond yn rhan o'r ail ddyfalu yng nghopïau Llywelyn Siôn, Brog I.2 a Card 4.101.

I Wilym Tew y priodolir y cywydd yn Pen 83, a gwelir y cywydd gyda'i waith ef yn Glam Bards cerdd LXXI.

- 1 **Brynach** Yn ôl traddodiad daeth y sant hwn i Gymru o Iwerddon gyda Brychan, a phriododd ag un o'i ferched, gw. LBS i, 321–7. Fe'i cysylltir yn fwyaf arbennig â sir Benfro, ond cysegrwyd eglwysi iddo ym Mrych-einiog ac ym Morgannwg hefyd.
- 2 **Iestyn** Perthynai Llywelyn Goch i dylwyth Iestyn.
- 3 **edling fab** Awgrymir mai Llywelyn oedd y mab hynaf. Gwyddys iddo farw o flaen ei frodyr eraill, gw. 74.19–20n.
- 3–4 Mae'r cwpled hwn sydd yn enwi Ieuan a Dafydd, tad a thaid Llywelyn Goch, yn dilyn ll. 16 yn Llst 30 (h.y. yn yr adran lle y cyferchir yr eirchiad), ond nid yw'r ddau enw hyn i'w gweld ymhlith hynafiaid Tomas ap Gruffudd.
- 5 **colfyn** Y mae rhai llsgrau. o blaid *colofn*, ond *colfyn* 'cangen' sydd yma, ffurf sydd yn digwydd mewn cywyddau eraill, gw. 31.7n.
Llywelyn loywlyd Ailadroddir y trawiad yn ll. 40 *Llywelyn loywlas*.
- 9–10 **Ieuan / ... o Ben-coed** Tad Llywelyn Goch oedd Ieuan. Cafodd ef ei enwi eisoes yn ll. 4, ac nid oedd cyswllt amlwg rhyngddo a Phen-coed ond sylwer bod bylchau yn yr ach a gofnodwyd yn WG1/WG2. Yr oedd Dafydd ap Llywelyn Fychan, taid Llywelyn Goch, yn briod â Chatrin, merch Ieuan Goch o Rydlafar, ond unwaith eto ni wyddys am gyswllt rhyngddo a Phen-coed. Cysylltir Tomas, brawd Llywelyn Goch, fodd bynnag, â Phen-coed, gw. WG1 556.
Hon yw'r engh. gyntaf o adffurfio'r cwpled ar sail prifodl wahanol (*doloedd / oedd*) yn llsgrau. Llst 30, Pen 101, Gwyn 1 a LIGC 3056D, grŵp o lsgrau. sydd yn rhannu darlleniadau cyffredin.
- 11 **Elli** Cysegrwyd eglwys iddo yng nghwmwd Crucywel yng nghantref Talgarth, gw. LBS ii, 447–9. Nid oedd cyswllt rhwng Llywelyn Goch a'r ardal hon, ond canodd Hywel Dafi i sawl noddwr yn y rhan hon o Gymru.
- 11–12 **Llywelyn ... / ... Ifor** Margred, merch Siancyn Cemais, oedd mam Llywelyn Goch. Ei mam hi oedd Cristi, merch Morgan ap Llywelyn ab Ifor o Dredegar, ac yr oedd Morgan yn frawd i Ifor Hael, gw. WG1 200; WG2 1125. At hyn yr oedd Sioned, chwaer Dafydd ap Llywelyn Fychan, gw. yr ach uchod, yn briod â Thomas, mab Ifor Hael, gw. WG1 202.
- 12 **Llanfair** Coffeir enw'r sant Ffagan yn Sain Ffagan ond cysegrwyd yr eglwys i Fair Forwyn, gw. LBS iii, 9–10; BWGlam 558. Yn y 13g. yr adeiladwyd capel y Forwyn Fair yn eglwys Llandaf, nid nepell i ffwrdd, gw. BWGlam 240, 247.

- 13 **Rhydderch** Nid oedd yr un Rhydderch ymhlith hynafiaid Llywelyn Goch o dad i dad, a bernir mai cyfeiriad at Rydderch Hael sydd yma, gw. TYP³ 493–5 a cf. 4.9n.
- llannerch** Addas yma fyddai'r ystyr herodrol 'maes neu wyneb tarian', gw. GPC 2095.
- 14 **Rhydlafar** Y mae'n amlwg fod yr enw hwn yn anghyfarwydd, a newidiwyd y ll. yn llwyr yn Brog I.2 *rhyddlafn wayw rhodd lifaid* ac yn Card 4.101 *rhydd lafn i waew rhodd lifaid*.
- ròd** Ar *ròd* 'gwaywffon', gw. 4.46n.
- 15 **trasawl** Dyfynnir y cwpled yn GPC 3558 a rhoddir i *trasol* yr ystyron 'a chanddo dras da, bonheddig'. Os felly rhaid cyfrif *didawl yd* [= 'it'] *ydwyf* yn sangiad. Cynigir y gall *trasol* fod yn gyfystyr â 'câr, perthynas' hefyd, a bernir bod y ll. ar ei hyd yn un uned ystyr. Cf. ll. 39 'F aeth rhôm gyfeillach a thras. Ysywaeth methwyd â tharo ar yr union gyswllt gwaed rhwng yr eirchiad a'r rhoddwr. Mae'n bosibl mai Tangwystl, gwraig Llywelyn Goch, yw'r allwedd i'r dirgelwch. Gelwir hi ar achlysur arall yn *Eurferch Domas ... / ... dewr lwyth Elidir lin*, gw. 74.71–2. Disgynnai Tomas ap Gruffudd ap Nicolas, yntau, o Elidir Ddu. Nodir yn WG1 116 fod Tangwystl yn ferch i Hoppyn ap Tomas, ond tebyg mai Tomas ap Hoppyn oedd ei thad, gw. 74.69n. Efallai fod ei mam yn perthyn i Domas ap Gruffudd ap Nicolas. Ar y llaw arall, trwy alw Llywelyn yn *cun Masgen* yn ll. 42, awgrymir mai ef oedd y cyswllt â disgynyddion Elidir Ddu.
- didawl** *Di* + *tawl* 'arbediad, cyniliad; lleihad; mesur', gw. GPC 3458. Nid yw'r gynghanedd o blaid mabwysiadu *oydawl* Stowe 959 a Pen 83. Perthyn yr engh. gynharaf a restrir yn GPC 2622 i'r 19g. (geiriadur William Owen-Pughe), a rhoddir iddi'r ystyr 'yn oedi, yn gohirio'. Mwy pwrpasol yn y cyd-destun hwn fyddai 'hynafol; hirhoedlog', gw. *ib. d.g. oediog, oedog*.
- yd** Y mae'r gynghanedd yn galw am y ffurf hon, gw. 1.61–2n.
- 16 **Tomas** Mab Gruffudd ap Nicolas; ar ei ach, gw. nodyn brig cerdd 80.
- 18 **gosawg** 'Gwalch mawr byr ei adenydd ond nerthol ei hediad, gwyddwalch, math o hebog a ddefnyddid i hela', gw. GPC 1514. Trafodir y cyfeiriadau at yr aderyn hwn, ei gynneddfau a'i swyddogaeth, gan H. Williams, 'Y Cywyddwyr a'r gweilch', *Dwned*, 15 (2009), 57–92.
- 21 **aberth** Gall fod yn gyfystyr ag 'aberthiad; offrymiad' ond gall gyfeirio hefyd at yr elfennau yn y cymun sanctaidd, gw. GPC² 8. Gallai'r cyd-destun crefyddol yn ei dro awgrymu bod yr hebog yn bwydo tyrfa helaeth fel y porthodd Crist y pum mil â phum torth a dau bysgodyn, gwyrrth a grybwyllir mewn cerddi eraill, gw. 79.49–50n, 93.21–2n.
- 26 **aderyn** Ystyrlon yw *edwyn* Brog I.2, 'llym, ffyrnig, angerddol', gw.

- GPC 1169, er bod *r* berfeddgoll yn y ll. o fabwysiadu'r gair hwn. Sylwer bod *edwyn*, 1 un.pres.myn. *adnabod*, yn digwydd yn ll. 29, ac efallai i'r gair gael ei ailadrodd trwy amryfusedd.
- Y gair gwan, yr ardd. *dros*, sydd yn safle'r orffwysfa. Gw. ymhellach 1.23n a 'Cynghanedd' tt. 42–3.
- 27 **ysginio** Diwygiwyd y ll. yn NBSG yn *Ysgin fraith esgynno'n frau*. Tebyg mai ffurf ar *ysgeinio* sydd yma, 'lledaenu, tasgu, ffrydio', gw. GPC 3834.
- 32 **cyrrhyrod** Dilynwyd Stowe 959 a Pen 83 er mai *crehyrod* yw'r unig ffurf l. a restrir yn GPC 594. 'Byddai angen hyfforddiant arbennig ar yr aderyn am fod yr ysglyfaeth hon yn rhy fawr ac yn rhy beryglus i gael sylw greddfodol yr hebog tramor neu'r gwalch Marthin', gw. H. Williams, *art.cit.* 71.
- 33 **adar y bwn** Nodir, *ib.* 70–1, fod paratoi manwl yn gysylltiedig â hela'r arderyn hwn.
- 37 **diwedydd** 'Prynhawn; hwyrdydd; min nos, dechreunos', gw. GPC 1056. Dyma un gair a newidiodd wrth i'r cywydd gael ei drosglwyddo, a chynnwys sawl llsgr. yr e.c. *gwawdydd* 'bardd', gw. GPC 1605. Newidiwyd prifodl y cwpled yn Llst 30, &c., gw. llau. 9–10n.
- 38 **gwelyau pludd** Cf. GRhB 26.31–2 *Glân yw'r gwelyau newydd / yn y West Plas, onest plydd*.
- 41 **cerdd** Dilynwyd Stowe 959 a Pen 83, ond y mae'r rhan fwyaf o'r llsgrau. o blaid [*c*]/wyn. Card 2.623 yn unig sydd yn cynnig *cân*.
- datgeiniad** 'Canwr; datganwr, adroddwr', gw. GPC 902. Cynigir *atgeiniad* mewn pedair ffynhonnell, 'datgeiniad, adroddwr', gw. GPC² 517, ond i ddechrau'r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf a ddyfynnir. Y bardd, Hywel Dafî, yw'r datgeiniad am fod y cais yn cael ei gyflwyno yn llais Tomas ap Gruffudd.
- 42 **Masgen** Ffurf amr. ar yr e.p. *Pasgen*, cf. 5.22n. Gw. nodyn brig cerdd 77 a ll. 15n. Newidiwyd safle'r ddau e.p. *Masgen* a *Misgyn* mewn sawl llsgr.
- 44 **clog** Newidiwyd y brifodl yn Llst 30, &c., cf. llau. 9–10n. Troes *clog* yn *cloch*, darlleniad ystyrion o gofio mai'r arfer fyddai clymu cloch wrth goes hebog er mwyn hwyluso'r dasg o'i chanfod, gw. GLMorg 5.9n.
- 51 **cogau** Gellid naill ai ffurf l. *cog* 'cwcw' neu *cog* 'cogydd', gw. GPC 540. Yr ail sydd yn taro orau, sef 'addewid [darpariaeth ar gyfer] cogyddion'. Yn y darn dyfalu cyntaf (llau. 19–38) rhestrir yr holl adar a fydd yn ysglyfaeth i'r hebog.
- cogau addaw** Rhannwyd y geiriau yn wahanol yn rhai o'r llsgrau. ac ymddengys fod y sangiad wedi ei ddehongli naill ai yn *cog a'i addaw*

neu yn *cogau a ddaw*.

- 52 Byddai'r ll. yn llyfnach o greu dau gyfansoddair, sef *Cnith ceginlith cigweinlaw*, ond y mae'r mesur yn galw am air acennog yn safle'r brifodl. Nid oes modd rhoi gair acennog ar ddiwedd y ll. flaenorol er gwaethaf darlleniad rhai llsgrau., gw. ll. 51n.
- 53 **bel** Anifail megis gwenci neu ffwlbart y rhoddir gwerth uchel ar ei groen. Gw. GPC² 619 d.g. *bele, bela, bala, bali*. Ail ystyr a roddir i'r gair yw 'bwystfil ysglyfaethus'.
- 56 **caened** Gw. GPC 383 d.g. *caened*² i. eg. 'math o frethyn llwyd'; ii. a. 'llwyd, penllwyd'. I'r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf o'r cyntaf. Ceir sawl trosiad yn yr adran hon sydd yn cyfleu'r wisg o blu sydd gan yr aderyn: *pali* (ll. 53), *clog* (ll. 54), *crys* (ll. 56), *camlod* (ll. 60).
- 59 **cytyodd** Er bod cryn anwadalu yn nhestunau Llywelyn Siôn, y mae'r rhan fwyaf o'r llsgrau. o blaid *cytyodd*, ffurf 3 un.grff. *cytya, cytuo* 'byw ynghyd, cyd-drigo', gw. GPC 826. I ail hanner y 18g. y perthyn yr engh. gynharaf o'r f., ond digwydd yr e.c. *cyty* yn y 15g., gw. *ib.* 825; GG.net 68.46 *Guto, myn gtyt â mi*.
- 60 **camlod** 'Defnydd ysgafn o wllân, sidan a blew at wneud mentyll, &c., yn wreiddiol defnydd drudfawr gwych o'r dwyrain', gw. GPC 402.
- 61 **bron fraith** Enw ac a. sydd yma yn hytrach na chyfansoddair, cf. *motlai* 'cymysgliw' (ll. 57). Addas yw'r disgrifiad o'r hebog yn ymosod ar adar eraill ac yn eu hanafu. Os cyfansoddair byddai'n rhaid hollti'r ddau air er mwyn sicrhau cynganedd. Am enghrau. o wneud hynny yng ngwaith Lewys Glyn Cothi, cf. GLGC 124.1 *Y maes grym[-]jusa' o Gred*, 221.44 *o fewn y dyng[-]hedfen deg*, ac ymhellach D. Johnston, 'Cywydd newydd gan Lewys Glyn Cothi', *Dwned*, 18 (2012), 59. Am enghrau. o hollti e.p., gw. GLGC xxxiv (troednodyn 43), a GLD 22.5n.
- Y mae sawl llsgr. fel petai'n ceisio cyfleu'r gair *bery, beryf, beri* 'aderyn ysglyfaethus, barcud', gw. GPC 276, ac y mae'r darlleniad hwnnw yn un deniadol. Fodd bynnag, y mae'r ll. yn llwgr mewn sawl ffynhonnell a'r darlleniad mwyaf boddhaol (gan ddilyn Brog I.2) fyddai *Bron fraith, beryf a friw*, sydd yn brin o sillaf ac yn cynnwys *n* berfedd-goll.
- 66 **trum** '(Copa) mynydd neu fryn' yw'r ystyr arferol, ond cynigir yn betrus 'ffurf, llun, golwg', gw. GPC 3623. Dyma'r ystyron gorau yma.
- iâr Noe** Anfonodd Noa gigfran ac yna golomen wedi i'r arch lanio ar fynydd Ararat er mwyn gweld a oedd y dyfroedd wedi cilio, gw. Gen 8.

163 iddo wasanaethu yn Iwerddon o dan Risiart, dug Efrog, ac awgrymir yn betrus mai iddo ef y canodd Hywel Dafy y cywydd hwn. Enwir Owain Dwnn yn llinell 56 a thrachefn yn llinellau 26 (y *Dwnn*) a 38 (*Owain*). Fe'i henwir hefyd ym mhennawd y rhan fwyaf o'r llawysgrifau. Y mae'n wir na ddigwydd dau gwpled sydd yn enwi'r gwrthrych a'i gartref ym mhob llawysgrif (llau. 17–18, 57–8 a gw. *ib.n*) ond digwydd llinell 20 sydd yn crybwyll arfbais y Dwniaid ym mhob un. At hyn, diogelwyd penillion a briodolir i Owain Dwnn ac i Ruffudd ap Nicolas. Canodd Gruffudd i Owain pan oedd yn Iwerddon i ofyn am fantell ar ran ei wraig a oedd yn chwaer i Owain Dwnn, gw. NBSG 76–7 ac ymhellach MFGLI 2714. Anodd derbyn, felly, bod ansicrwydd ynghylch gwrthrych y cywydd. Fodd bynnag, yn BL Add 14964 a gopiwyd yn ail hanner y ddeunawfed ganrif, rhoddir y pennawd: *Cy' a gant Howel ap Davydd ap Ieuan ap Rhys i annerch Owain Dwnn Esgwier mab Robert Dwnn Cadpen ar dri chant o wyr meirch in Iwerddon a Chwedi hynny prif Lywydd a fu ef yno*. Dilyn BL Add 14964 destun Card 2.623 yn ffyddlon ond nid yw'r pennawd yn y fan honno. Yr oedd Robert Dwnn yn nai i Owain Dwnn. Daliai dir yng Nghydsweli yn 1449 ac fe'i penodwyd yn gwnstabl castell Aberteifi yn 1471, gw. R.A. Griffiths: PW i, 220–1; WG1 616; WG2 1193. Yr oedd ganddo fab o'r enw Owain a fu farw oddeutu 1502–3 a'i gladdu yn eglwys Cydweli. Nid yr Owain hwn a gymerodd ran yn y cyrch i Iwerddon yn y pedwardegau.

Penodwyd Rhisiart, dug Efrog, yn rhaglaw Iwerddon ym mis Gorffennaf 1447 ond aeth blwyddyn a rhagor heibio cyn iddo hwylio i Iwerddon. Rhaid tybio bod Owain Dwnn ymhlith ei ddilynwyr. O fewn dim o dro yr oedd nifer o'r arglwyddi brodorol yn ildio ac yn talu gwrogaeth i Risiart, ac yn cyflwyno iddo roddion o wartheg. Y pwysicaf ohonynt oedd Énrí Ó Néill o Ulster. Byr fu arhosiad Rhisiart yn Iwerddon. Honnai'r gwrthryfelwr John Cade ei fod yn disgyn o gyff y Mortmeriaid ac yn gefnder i Risiart, dug Efrog, a barnai hwnnw fod yn rhaid iddo ddychwelyd i Loegr i amddiffyn ei enw da ac i brofi nad oedd a wnelo â'r ymdrechion i danseilio awdurdod y Brenin Harri VI, gw. *A New History of Ireland II Medieval Ireland 1169–1534* (Oxford, 1987), pennod XIX; E. Curtis, 'Richard Duke of York as Viceroy of Ireland 1447–60', *The Journal of the Royal Society of Antiquaries of Ireland*, lxii (1932), 158–66.

Bu'r cywydd hwn yn bur boblogaidd ac fe'i diogelwyd mewn rhyw ddeg ffynhonnell ar hugain. Y mae peth amrywio o ran trefn y llinellau ac y mae'n amlwg fod llygru wedi digwydd wrth i'r copïwyr ymgodymu â geiriau anghyfarwydd megis *debre* (ll. 11), *blawdd* (ll. 20), *deintur* (ll. 27), *Conach* (ll. 35), a *dain* (ll. 63). Y mae ansicrwydd hefyd am fod y cywydd yn cael ei roi i Ieuan Tew Brydydd Hen o Gydsweli mewn pedair ffynhonnell, gw. isod ac ymhellach 'Cerddi Ansicr' tt. 51–2.

Y mae'r drefn yn sefydlog yn y rhan fwyaf o'r copïau a'r testun yn gyflawn. Collwyd un cwpled yn Llist 53 sydd yn llaw Siâms Dwnn (llau. 41–

2), cwpled sydd yn ychwanegu at ran y gleisiad yn y cywydd, a chwpled sydd yn arwain hefyd at y llinellau sydd yn dilyn. Y mae'r drefn yn wahanol yn Card 2.114 ac yn y testunau sydd yn llaw Llywelyn Siôn (llsgrau. L–S), ond mewn gwirionedd dyrnaid o gwpledi a leolwyd yn wahanol: un lle y cyferchir y gleisiad (llau. 11–12), un arall lle y disgrifir Owain Dwnn (llau. 23–4) a thrydydd sydd yn rhan o'r dyfalu yn y rhan olaf (llau. 49–50). Collwyd llinellau 41–2 yn y grŵp hwn ond digwydd cwpled arall yn yr union safle. Perthyn y cwpled hwn i gyfran y bardd yn hytrach nag i gyfran y gleisiad. Y mae dau gwpled arall yn eisiau yn y grŵp hwn, y ddau yn cyfeirio yn benodol at wrthrych y cywydd (llau. 17–18, 57–8). Y mae trefn unigryw yn LIGC 3049D ac y mae olion llygru mewn sawl llinell. Collwyd pedwar cwpled yn y fersiwn hwn, sef llinellau 23–4, 39–40, 52–3, 57–8.

Cofnodwyd sawl gair unigol a sawl llinell gyfan yn Llst 55 yn llaw Siôn Dafydd Rhys o dan enw Hywel Dafi. Y mae'n amlwg fod testun nas diogelwyd o flaen y copïwr am fod Llst 55 yn cynnwys dau ddarlleniad unigryw a ymgorfforwyd yn y golygiad, gw. llinellau 11, 20. Ond ceir yma hefyd ambell ddarlleniad llwgr megis *hyd ganoes* am *hyd Gonach* yn llinell 35.

Rhoddir y cywydd i Ieuan Tew yn Stowe 959 (ac yn Card 3.2 sydd yn perthyn yn agos i'r llsgr. hon), yn LIGC 10893E a LIGC 16964A. I Hywel Dafi y rhoddir y cywydd ym mhob ffynhonnell arall. Cynnwys Stowe 959 rai darlleniadau da a dibynadwy a ymgorfforwyd yn y testun, gw. llinellau 27, 41–2, 63. Y mae peth amrywio yn rhan olaf y cywydd gyda golwg ar y drefn, ac ailadroddwyd un cwpled yn rhan gyntaf ac yn rhan olaf y cywydd. Er bod LIGC 10893E, fel Stowe 959, yn rhoi'r cywydd i Ieuan Tew, dilynir trefn y llawysgrifau eraill. Y mae un cwpled yn LIGC 16964A nas ceir yn yr un ffynhonnell arall.

Ni chofnodwyd amrywiadau BL Add 31056 rhwng llinellau 55–64, a LIGC 970E rhwng llinellau 23–38 am fod rhannau helaeth o'r testun wedi eu colli oherwydd traul. Dechrau'r cywydd yn unig sydd yn LIGC 20968B: collwyd rhan o'r testun ar y ddalen gyntaf oherwydd rhwyg a diflannodd y ddalen nesaf a oedd yn cynnwys gweddill y cywydd. Ni chofnodwyd darlleniadau amrywiol Card 3.2 am fod yma sawl darlleniad llwgr. Y mae Bangor 5945, Llst 133 a Llst 148 yn dilyn trefn y fersiwn a olygwyd (gan ddilyn grŵp C–K), ond dilyn trefn Card 2.114 a wna LIGC 2012B.

2 a gydfydd Am mai cywydd moliant yw hwn, diau fod cymal cadarnhaol (*a gydfydd*) yn fwy priodol na'r cymal neg. a gofnodwyd yn Card 2.114 ac yn llsgrau. Llywelyn Siôn. Mynegir rhyfeddod fod y gleisiad yn gartrefol yn y môr ac yn yr afonydd sydd yn llifo o'r mynyddoedd.

mŷr Un o ffurfiau ll. *môr*, gw. GPC 2485–6. Bernir bod *mŷr* yn rhagori ar *mur* 'wal, magwyr' er mai'r olaf sydd yn y rhan fwyaf o'r llsgrau.

4 claddu 'Silio (am bysgod)', gw. GPC 486; yng ngeiriadur William

Salesbury y ceir yr engh. gynharaf. Nodwyd yn Llst 55 *cladhw ar frig gloyw dhwfr y wna r gleisiad neu r eog*.

- 5 **main** Rhaid dewis rhwng *main*, *mwyn* a *mân*. Y mae *main* yn fwy awgrymog ac yn cyfleu'r ystyron 'blaenfain, pigfain, blaenllyn' yn ogystal â 'craff, gofalus, gochelgar', gw. GPC 2322–3, ond diweddarach yw'r enghrau. o'r ail ystyr.
- 8 **ar dalar** Digwydd *ar dalym* mewn sawl llsg., ond digwydd y gair hwn yn ail fraich y cwpled sydd yn dilyn. Rhaid derbyn bod y gair gwan *ar* yn cynnal odl gyntaf y gynghanedd sain, gw. 1.23n a 'Cynghanedd' tt. 42–3.
- 11 **debre** Ffurf 2 un.grch. *dyfod*, gw. GPC 867; G 414; GMW 135. Yn Llst 55 yn unig y diogelwyd y darlleniad hwn. Parchwyd y synnwyr yn Card 2.114 *dylina ynes*, ond y darlleniad mwyaf cyffredin yw naill ai *dilyn hanes* neu *dilin achos*. Heb dystiolaeth Llst 55 byddai'r gynghanedd a'r ystyr yn ffafrio *dilyn hanes*.
- 12 **treigles** Ffurf 3 un.grff. *treiglo*. Nid oedd y terfyniad 3 un.grff. *-es* yn un cyffredin iawn erbyn y 15g., ond gellir esbonio darlleniad y rhan fwyaf o'r llsgrau. o dderbyn mai *treigles* a fwriadwyd yn y lle cyntaf. Er bod y darlleniad *a dreigl is dŵr* yn un deniadol, gan ddilyn Llst 36 a LIGC 16964A, anodd derbyn mai hwn oedd y darlleniad gwreiddiol.
- treigles dŵr** Cedwid cysefin gwrth. bf. 3 un.grff. yn diweddu yn *-as, -es, -is, -wys*, gw. Treigladau 216–17 a cf. 5.55n.
- 15 **eos** Rhaid dewis rhwng dau drosiad ffansiöol. Y mae Card 2.114 a llsgrau. Llywelyn Siôn o blaid ll. sydd yn cyflwyno'r milwyr sydd yn gwasanaethu o dan Owain Dwn—*Sidan a wisg ei sawdwyr*—ond y mae'r lleill yn cyflwyno Owain a'i gyffelybu i aderyn swynol. Er nad yw'r trosiad yn un addas ar yr olwg gyntaf mewn cyd-destun milwrol, y mae lle i gredu bod Owain yn barddoni, cf. ll. 24n. Dewis arall fyddai cysylltu'r trosiad â'r eog—*eos ydwyf*—gan ddilyn Llst 53, ond nid yw hyn yn taroystal o bell ffordd.
- 16 **adwen** Y mae *adwen* ac *adwaen* yn ffurfiau 1 un.pres.myn. y f. *adnabod*, gw. G 8.
- 20 **blawdd** 'Twrf, cynnwrf, cyffro, braw', gw. GPC 284–5. Yn LIGC 3049D y diogelwyd y ffurf, ond ategir y darlleniad unigryw hwn gan Llst 55. Er bod darlleniadau megis *blodd, bladd, blewaidd* yn llwgr y maent yn ategu'r hyn y bernir sydd yn ddarlleniad dilys. Y mae *bloedd* sydd yn digwydd yn y rhan fwyaf o'r llsgrau. yn cyfleu yr un math o ystyr, ac yn debyg o ran sain, ond yn engh. o'r modd y gall gair cyfarwydd ddisodli gair llai helaeth ei gylchrediad.
- y blaidd gwyn** Dyma arfbais y Dwniaid, gw. DWH ii, 126–7. Cyfeirir at y cywydd yn *ib.* i, 126–7, a nodir yn graff mai cymharol brin yw'r

disgrifiadau o arfbeisiau yng nghywyddau Hywel Dafï i'w noddwyr. Ond ceir sawl cyfeiriad at y neidr, sef yr arwydd a gysylltir â disgynyddion Moreiddig Warwyn, yn y canu, gw. 46.7n.

- 21–2 Dyfynnir y cwpled yn *Cywyddau Cymru*, gol. A. Hughes (Bangor, 1926), cerdd CXVII.
- 24 **penteu** Rhaid dewis rhwng *penteu* a *bardd teulu*, ac y mae'r ddau yn ystyrllon. Darlleniad Card 2.623 a Pen 114 yw *bardd teulu*. Ymddengys fod Owain yn barddoni a diogelwyd cyfres o englynion a ganodd i gyfarch ei frawd yng nghyfraith, Gruffudd ap Nicolas, gw. MFGLI 2714 a'r nodyn brig.
- 26 y **dug** Gw. y nodyn brig.
- 27 **teintur** 'Cytundeb rhwng dau neu ragor o bersonau' yw *deintur*, gw. GPC 924. Y mae cryn ôl llygru ar y ll. hon am fod rhai o'r copïwyr yn anghyfarwydd â'r gair. Ffurf l. y gair a gofnodwyd yn Stowe 959 ac yn Llst 36. Nid yw *Dwyn tir wrth ddeinturiau onn* yn rhoi cynghanedd reolaidd, ac felly mabwysiadwyd y ffurf unigol. Gellid esbonio sawl darlleniad o dderbyn bod *teintur* yn ffurf gysefin, er nas rhestrir yn GPC. Rhaid derbyn bod y gair gwan *wrth* yn safle'r orffwysfa, gw. 1.23n a 'Cynghanedd' tt. 42–3.
- 29 **tair barwniaeth** Nid hawdd esbonio'r cyfeiriad yn y cywydd at y *tair barwniaeth*, / *A fu'n wyllt* ac at *Gonach* (llau. 29–30, 35). Gall fod yma gyfeiriad at swyddi Louth, Meath a Kildare, sef y tair swydd yn ogystal â Dulyn a ffurfiai'r rhanbarth lle yr oedd awdurdod y goron, mewn egwyddor o leiaf, yn weithredol. Posibilrwydd arall yw bod y bardd yn cyfeirio at etifeddiaeth dirol Rhisiart, dug Efrog. Yr oedd Rhisiart yn etifedd iarllaeth Ulster ac arglwyddiaeth Connacht. Trwy ei dad a briodasai ag Anne Mortimer, gallai hawlio tiroedd helaeth y Mortmeriaid yn arglwyddiaethau Trim a Leix. Yr oedd llawer o'r tiroedd hyn wedi eu trawsfeddiannu gan y Gwyddelod brodorol a chan arglwyddi Eingl-Wyddelig anystywallt. Er mai priod swyddogaeth y rhaglaw oedd sefydlu a chynnal awdurdod y brenin, yr oedd yr ymweliad ag Iwerddon yn gyfle i Risiart adfer ei hawliau ar y tiroedd a berthynai iddo.
- Y mae'r ll. yn llai manwl yn y rhan fwyaf o'r llsgrau. sydd yn cynnwys y darlleniad *A hanner y frenhiniaeth*, ond mabwysiadwyd darlleniad Card 2.114 a Llywelyn Siôn gan farnu bod yma gyfeiriad at amgylchiadau Rhisiart, dug Efrog, yr oedd Owain Dwnn yn ei wasanaethu.
- 30 **gyyllt** Dyma'r modd y disgrifid poblogaeth gynhenid Iwerddon, cf. GLMorg 17.37 *Ynfydion Iwerddon wyllt*.
- 33 **rhwyg** Gwedda'r ystyron 'awdurdod; mawredd, gwycheder' ond addas hefyd 'rhyddid, pen-rhyddid, rhwydd hynt' er mai o'r 16g. y daw'r

engh. gynharaf yn GPC 3120–1. Bygythir y gleisiad gan y bardd a'i orfodi i weithredu yn gennad, oni fyn gael ei ddal a'i ladd.

35 **Conach** Gw. ll. 29n.

36 **hwre** Ffurf 2 un.grch. bf. ddiffygiol ac amr. ar *hwde*, gw. GPC 1933. O waith Wiliam Cynwal y daw'r engh. gynharaf a ddyfynnir. Digwydd y ffurfiau *hwde*, *hw dau* fwy nag unwaith yn y canu, gw. 46.47n.

37 **molwynog** 'Llawn; bras', gw. GPC 2482. Troes y gair hwn yn *molianog*, *mai lwynog*, *mau lwynog*, a *melynog*.

38 **dau gywydd** Ymddengys fod Hywel Dafi wedi llunio cywydd i gyfarch Owain Dwnn yn ogystal â'r cywydd hwn i annerch y gleisiad.

41–2 Y mae'r cwpled hwn yn rhoi cyfle i'r gleisiad lefaru unwaith eto, ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer y gyfres o rwystrau na ddylid poeni o'u plegid (llau. 43–6). Yn Stowe 959 yn unig y diogelwyd y darlleniad a fabwysiadwyd yn ll. 42. Nid yw'r cwpled hwn yn Llst 53, Card 2.114 nac yn nhestunau Llywelyn Siôn, ond y mae cwpled arall yn yr un safle nas ceir yn y ffynonellau eraill.

42 **tryferwyr** 'Trywanwyr, picellwyr', gw. GPC 3639. O waith Siôn Tudur (m. 1602) y daw'r engh. gynharaf a nodir yno.

43–6 Cf. y llau. hyn yn y cywydd 'Yr eogwas o'r eigion' sydd wrth enw Ieuan Tew Brydydd yn Stowe 959, 119^{r-v} *emyn yth geidw ar wimon / kyrig bendevig u donn / Rag maglay ymylau myr / Rag kay rwyday r kyredwyr / Rag brath ergid rrwyg bron / llaw dryver vn llaidr avonn.*

44 **gorafun** 'Rhwystro, lluddias', gw. GPC 1577 lle y rhestrir y ffurf hon a *gwarafun*.

47 **twrch ... tyrch** Cf. Stowe 959, 119^{r-v} *Tithau rigl tythywr aigiawn / twrch heli wyd torch loyw iawn.*

49 **plet ... platys** Cynganeddir y ddau air hyn yn y rhan fwyaf o'r llsgrau. ond ni ddigwydd y ddau yn yr un drefn bob tro ac nid oes cysondeb ychwaith o ran eu rhif. Y mae *plet*, *plêt*, ll. *plets*, yn gyfystyr â 'plyg; gwargrymedd', gw. GPC 2825, ond i'r 17g. y perthyn yr engh. gynharaf. Ffurfiau ll. *plât* 'metel a gurwyd; un o'r platiau o fetel sydd yn ffurfio cotarmur' yw *platys*, *plâts*, gw. GPC 2820.

50 **topynnau** Y mae cryn amrywio yn achos y ll. hon drachefn. Y mae nifer o'r llsgrau. o blaid *paun*, ac o blaid naill ai ffurf ar *tap* neu *top*. Gellid *tap* 'darn o ledr a ddefnyddir i drwsio gwadn neu sawdl esgid', gw. GPC 3445 (engh. gynharaf 16g.), yma yn drosiadol am gen y gleisiad a ddisgrifiwyd fel arfwisg yn y cwpled blaenorol. Nid yw *topyn* 'gwallt', gw. GPC 3524, mor addas. Cynigir mai ffurf ar *top* sydd yma, 'tegan sydd yn troi ar bwynt', gw. GPC 3522–3 (engh. gynharaf 14g.), a'r ffurf l. wedi ei ffurfio o'r bach. *topyn*. Byddai hwn yn ddisgrifiad cyfoethog o'r brychni ar gefn y pysgodyn ac yn ategu'r darlun o'r

cylchoedd ar adenydd y paun.

51 **llyweth** Ffurf amr. ar *llywaeth* ‘hynaws, gwâr’, gw. GPC 2287, yma â grym enwol, yn hytrach na *llyweth* ‘cudyn neu dorch (o wallt)’, *ib.* 2288.

dyfredd ... deufraich Nodir y ffurfiau hyn yn ogystal â *dyfroedd*, *dwyfraich* yn GPC 1105–6, 938. Ar genedl *braich*, gw. 70.36n.

57 **dilyn ar** ‘Holi’, gw. GPC 1015. Digwydd *dilyn at* mewn sawl llsgr.

57–8 Collwyd y cwpled hwn yn Stowe 959, ond ailadroddir yn safle’r cwpled coll gwpled arall sydd yn perthyn i adran gynharach yn y cywydd, sef llau. 39–40.

60 Cyfatebiaeth caled a meddal $t = d$. Gellid *At f’ enaid deuaf yno*.

61 **ceiniog** Ceir *cynog* yn Pen 114, ond er bod Hywel Dafï yn cael achos i alw ar y sant Cynog ac i ddeisyf ei gymorth mewn sawl cerdd, bernir mai’r syniad o gynnig ceiniog yn offrwm sydd yma, cf. 94.47 *I’r Grog mae ceiniog gennyf*; GLM XXXI.55–7 *Draw offrymais, drwy ffromi, / a chan saint achwynais i: / mae i’r Grog lawer ceiniog...*. Ar offrymu darn arian, a hwnnw wedi ei blygu, gw. E. Duffy, *The Stripping of the Altars* (Yale, 2005), 186–90. Cf. GLM VII.53n *Cemais f’aur, nid cymwys fu*. Y mae sawl llsgr. o blaid *ceinog*; ar y ffurf hon, gw. 63.40n d.g. *ceinhegwerth*.

62 **y Grog o Ddulyn** Y mae dwy eglwys gadeiriol yn Nulyn, eglwys Crist neu eglwys y Drindod ac eglwys Padrig Sant. Sefydlwyd eglwys Crist yn yr 11g. yn dilyn pererindod Sitric Silkenbeard, brenin Dulyn, i Rufain, ond yn y ganrif ddilynol y sefydlwyd eglwys Padrig Sant. Yn y flaenaf yr oedd y Grog y cyfeiriodd Gerallt Gymro ati yn ‘Topographia Hibernica’ lle y ceir disgrifiad o Iwerddon a’i phobl. Cynnwys llsgr. Coleg y Drindod Dulyn 576 restr o’r creiriau a berthynai i’r eglwys. Tua 1511–12 y copiwyd y rhestr ond fe’i lluniwyd yn wreiddiol yn ail hanner y 13g. Ar frig y rhestr enwir y Grog, a dyma’r crair pwysicaf o bell ffordd: *In primis ymago domini nostri Jhesu Christi Crucifixi que bis verba sonasse legitur*, gw. R. Ó Floinn, ‘The late-medieval relics of Holy Trinity Church Dublin’ yn *Dublin in the Medieval World*, ed. J. Bradley *et al.* (Dublin, 2009), 369–89. Yr oedd hon felly yn grog fyw, fel crogau yng Nghymru, gw. GDG 86.24n; GLIBH 4.17n ar *llathrddelw fyw* (am y Grog yng Nghaerfyrddin).

Cyfeiriodd Lewys Morgannwg yn y 16g. at y Grog yn Nulyn wrth gyfarch un o’i noddwyr yntau a oedd yn Iwerddon ar y pryd, gw. GLMorg 17.1–2n. Beirdd eraill a gyfeiriodd ati oedd Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 41.9–10, 151.29–32, a Rhys Nanmor wrth gyfarch Syr Rhys ap Tomas, gw. Llawdden, &c.: Gw 67.101–3 *A saint nef einioes hwn danfonwch, / A’r holl Iwerddon i’r iarll rhoddwch, / Y gŵr o Ddulyn, gwryy addolwg*.

63 **dain** Cynigir yn betrus yr ystyr ‘buan, cyflym’ yn GPC 880, ond gw. hefyd GIG X.7n. Stowe 959 yn unig a ddiogelodd y darlleniad hwn. Yn nifer o’r llsgrau. ailadroddir un o ffurfiau’r f. *gweddio* a’r enw *gweddi*, ond newidiwyd y naill neu’r llall ar fwy nag un achlysur hefyd; *gwedd fain* sydd yn Llst 53 a *gwaedd vain* yn LIGC 16964A. Dengys darlleniadau megis *gwedd dda fain*, *gweddi dda fain* a *gwedd addfain* sut y llygrwyd y gair anghyfarwydd *dain*.

83

Y mae peth ansicrwydd ynghylch y sawl a gyferchir yn y cywydd hwn ond cwbl gamarweiniol yw’r pennawd a ychwanegwyd yn Pen 152: *Cywydd moliant i Sion ap Sion o Lann Hafren o waith Gutto r Glyn*. Ar sail llinellau 7–8: *Enw y taid ni ad d’oedi, / Os enw y tad, Siôn, wyt ti*, gellid tybio mai Siôn yw gwrthrych y gerdd, ac mai’r un enw a oedd i’w dad a’i daid. Yr oedd hynny’n sicr yn wir yn achos Siôn Pilstwn, cwnstabl Caernarfon, a folwyd gan Lewys Daron a Mathau Brwmffild. Pwysleisia’r ddau fardd mai ef oedd y trydydd i ddwyn yr un enw, gw. GLD 12.9–10 *Tri henw yn troi ohonun: / Tad a thaid, tydithau un*; GMBr 6.27–8 *Eich tad â gair eich taid gynt, / Dwys iawn wedd, dau Siôn oeddynt*. Yn negawdau cynnar yr unfed ganrif ar bymtheg yr oedd y ddau fardd hyn yn eu blodau, ac nid y Siôn hwn a gyfarchwyd gan Hywel Dafi. Ni chafwyd yn yr achau yr un Siôn Pilstwn a oedd yn fab ac yn wŷr i ddau a oedd yn arddel yr un enw ag ef, gw. WG1 741; WG2 1454. Ond yr oedd gan Siôn ap Madog ap Robert ap Rhisiart fab o’r enw Siôn, sef Siôn Pilstwn Hen, ac ar sail llinell 8 gellir bod yn bur sicr mai cywydd iddo ef yw hwn. Llinellau 27–32, a llinell 31 yn benodol, *Dy ddwy nain yw’r rhain yrhawg, yw’r dystiolaeth allweddol, am mai Angharad* (ll. 29) oedd enw nain Siôn Pilstwn Hen o du ei dad, ac *Alswn* (ll. 27) oedd ei nain o du ei fam. Cymerodd y Siôn Pilstwn hwn ran ym mrwydr Bosworth ac yr oedd yn dal yn fyw yn 1519, gw. ByCyAt 149.

Enwir Siôn Pilstwn Hen yn y marwnadau a ganwyd i’w dad gan Hywel Cilan a Gutun Owain, gw. GHC cerdd XXII; GO cerdd LI. Crybwyllir ef, ond heb ei enwi, yn y farwnad a ganodd Guto’r Glyn i’w dad hefyd, gw. GG.net 72.53–68. Awgryma llinellau 49–50 ym marwnad Hywel Dafi mai yn fuan wedi marw ei dad y cyfarchodd y bardd Siôn Pilstwn Hen. Awgryma ymhellach ei fod wedi ymweld â’r cartref yn Hafod-y-wern ger Wrecsam pan oedd yn iau—*Lle bu ym foethau yn ieuanc*—ond ni ddiogelwyd unrhyw ganu arall o’r eiddo i’r Pilstyniaid. Yn wir, un gerdd arall yn unig a ddiogelwyd i noddwr oogledd Cymru.

Cofnodwyd y cywydd yn Pen 67 yn llaw Hywel Dafi ei hun ac mewn deg ffynhonnell arall, a phob un o’r rheini yn priodoli’r cywydd i Guto’r Glyn, gw. ‘Cerddi Ansicr’ td. 49. Mae perthynas glòs rhwng y naw testun sydd wrth enw Guto, a cheir yma sawl darlleniad cyffredin sydd yn wahanol i

ddarlleniadau Pen 67. Er bod y rhain i gyd yn perthyn i'r canolbarth ac i'r gogledd, cynnwys pob un y darlleniad *trwy lun* yn hytrach na *trwy Lŷn* yn llinell 40.

- 5 **elain** ‘Carw ifanc, weithiau’n ffig. am wŷr ifanc neu wraig ifanc’, gw. GPC 1204. Ceir yr un trosiad, a’r un trawiad, yn y cywydd marwnad a ganodd Guto’r Glyn i dad Siôn Pilstwn ond gan gyfeirio yn benodol at wrthrych y cywydd hwn, gw. GG.net 72.57 *Y mae elain ym Maelawr*. Troes *elain* yn *eilon* yn y testunau sydd wrth enw Guto’r Glyn, ond ni newidiwyd yr ystyr, gw. GPC 1192 d.g. *eilon, eilion* ‘carw, hydd’.
- 7–8 **taid ... / ... tad** Gwelir mai Siôn yw enw tad gwrthrych y moliant, a gall ll. 7 awgrymu mai Siôn oedd enw ei daid hefyd, ond nid rhaid dehongli’r ll. fel yna. Ceir peth anwadalu ymhlith y testunau sydd yn rhoi’r cywydd i Guto’r Glyn. Ailadroddir *taid* yn nwy fraich y cwpled yn Brog I.2 a J 101. Y mae’n sicr mai camddarllen y gynsail sydd yn esbonio *dwv y taid* yn ll. 7.
- 10 *n* wreiddgoll neu gynghanedd groes o gyswllt ac *n* yn ateb *m*. Gw. ‘Cynghanedd’ tt. 41–2, 44.
- 13–15 **Môn / ... Ierwerth ... / ... Gronwy** Mam Siôn Pilstwn Hen oedd Alswn, merch Hywel ab Ieuan ap Gruffudd o Fers ym Maelor Gymraeg, gw. WG1 908. Gwraig Hywel ab Ieuan oedd Alswn (un o’r neiniau, gw. y nodyn brig), merch Hywel ap Goronwy ab Ieuan ... ap Hwfa (ll. 21) ab Iorwerth (ll. 14), gw. WG1 916. Gwraig Goronwy ab Ieuan oedd Alswn (eto), merch Cynfrig ap Maredudd Ddu o Borth-aml yng nghwmwd Menai ym Môn, gw. WG1 593.
- 15 **o’r rhain** Newidiwyd *yw rrain* yn *or rrain* yn Pen 67.
- 16 **Owain** Yr oedd Lowri, chwaer Owain Glyndŵr, yn briod â Robert ap Rhisiart Pilstwn, gw. WG1 32. Y mae’r cyfeiriadau at Owain yn lluosog yn y canu i’r Pilstyniaid, gw. G.A. Williams, ‘The later Welsh poetry referencing Owain’ yn *Owain Glyndŵr: A Casebook*, ed. M. Livingston and J.K. Bollard (Liverpool, 2013), 541–2. Am gyfeiriad tebyg gan Hywel Dafï, gw. 61.21n.
- 17 **Powls** Eglwys St. Paul yn Llundain. Am enghrau. eraill o gynganeddu *Powls a Pilstwn*, gw. GO LII.4 *Powls dan Siôn Pilstwn ysydd*; GLM At.2.26 *Powls dan wybr Pilstwn obry*.
- 18 **Powys** Y mae’r gynghanedd sain yn galw am sillaf leddf. Ond talgrwn ydyw yn 47.35 *Boni wŷs drwy Bowys bant*.
- 19 **awrlladen** Nodir bod *arllad* yn ffurf amr. ar *afrllad* yn GPC² 106–7 ond ni restrir enghrau. o *awrllad*. Gair sydd yn perthyn i fyd yr Eglwys yw hwn, sef ‘wafferi (? waffer) o fara croyw a gysegrir yn yr Ewcharist’. Fe’i defnyddir yn ffig. ac yn dros. gan y Cywyddwyr.

- 20 **tair llys ... tri iarll** Nid oedd tri iarll ymhlith hynafiaid Siôn Pilstwn a diau mai cyfeiriad trosiadol yw hwn, fel y cyfeiriad at Siôn ei hun yn ll. 19. Dyfelir bod Hywel Dafi yn galw sylw at Hafod-y-wern, cartref mam Siôn, ac at y Plas-ym-Mers, cartref ei dad. Y trydydd llys fyddai naill ai Sycharth, cartref Owain Glyndŵr a enwir yn ll. 16, neu gartref Hwfa, pennaeth un o bymtheg llwyth Gwynedd, neu Emral, cartref y Pilstyniaid yn Emral, gw. ByCyAt 148–50.
- 21 **Hwfa** Gw. llau. 13–15n.
- 23 **Ieuan** Enwir dau Ieuan yn llinach mam Siôn Pilstwn Hen, gw. llau. 13–15n.
- 25 Cf. 80.20 *Ar wraidd arglwyddiaidd yw.*
- 27 **Alswn** Enw mam a nain Siôn Pilstwn Hen, gw. llau. 13–15n a'r nodyn brig.
- 28 **ywen** Y mae'n amlwg na theimlai John Davies, Mallwyd, fod y trosiad yn un priodol ac addasodd y ll. yn *wen maelor o win melys*. O ddiwygio gellid *awen* 'tueddfryd, tuedd, awydd, ewyllys', gw. GPC² 541–2, ond ni thynnwyd yr un engh. o ganu'r Cywyddwyr.
- 29 **Angharad** Gwraig Madog ap Robert, a nain Siôn Pilstwn Hen o du ei dad, oedd Angharad, merch Dafydd ap Goronwy ab Iorwerth ap Dafydd, gw. WG1 824.
- 33 **doud** Bernir mai ffurf 2 un.amhff.myn. y f. *dod* yn hytrach na'r 3 un.grch. *doed* sydd yn rhoi'r ystyr orau.
- 36–7 **Gwregsam ... / ... Sain Silin** Geilw Guto'r Glyn ardal Wrecsam yn *fro Sain Silin*, gw. GG.net 111.26n.
- 38 **ederyn cloch a dwrn** Uchafbwynt y moliant yw galw Siôn Pilstwn yn [*g*]osawg Gwynedd (ll. 54). Y mae *cloch* yn y ll. hon yn cysylltu â hela, gw. GLMorg 5.9n, a *dwrn*; gwisgid maneg arbennig er mwyn dal yr aderyn a'i gynnal.
- 41–2 **A fu bont ... / Yn ben** Amrywiad ar y ddihareb *A uo penn bit pont* a welir yn yr ail restr yn Llyfr Coch Hergest, gw. DLICH testun B, rhif 31 (a'r enghrau. a ddyfynnir yn y nodyn); cf. 85.7–8 *Pont pob tenont dy hunan, / A fo yn bont ef â'n ben.*
- 46 **Cai a'r holl windai ar lled** Efallai fod y bardd yn dwyn i gof swyddogaeth Cai yn borthor yn llys Arthur, gw. TYP³ 308–11.
ar lled Ar y calediad cyffredin hwn, gw. 14.20n.
- 47 Ceir yma groestynnu rhwng y gynghanedd a'r synnwyr. Disgwylid i *ywn* fod yn safle'r orffwysfa yn hytrach na *iawn*. Ceir *n* berfeddgoll o dderbyn mai *ywn* sydd yn safle'r orffwysfa.
- 49 **ni'm dawr** Camosodwyd y ddwy gytsain *n* ac *m* gan y copiwr yn Pen 67 pan gfnodwyd *min dawr*.

Awdl foliant i Wiliam Fychan o'r Penrhyn, mab Gwilym ap Gruffudd ap Gwilym, yw hon, gw. WG1 672–3. Ceir arolwg o'r canu i dad Wiliam Fychan yn ysgrif D.J. Bowen, 'Y canu i Gwilym ap Gruffudd (m. 1431) o'r Penrhyn a'i fab Gwilym Fychan (m. 1483)', *Dwned*, 8 (2002), 59–78. Cyfeirir yn gynnil at y canu i Wiliam Fychan ei hun yn rhan olaf yr ysgrif, a dywedir i'r beirdd hyn ei gyfarch: Rhys Goch Eryri, Lewys Glyn Cothi, Cynfrig ap Dafydd Goch, Dafydd ab Edmwnd, Dafydd Llwyd o Fathafarn, Guto'r Glyn, Gutun Owain, Robin Ddu, a Thudur Penllyn. Bellach gellir ychwanegu un enw arall at y rhestr hirfaith o'r beirdd a ymwelodd â'r Penrhyn pan oedd yn benteulu.

Ganed Wiliam Fychan tua 1420 a bu farw yn 1483. Priododd ei wraig gyntaf, Alis, merch Syr Rhisiart Dalton, cyn 1447, gw. ByCyAt 95–7; hefyd E.I. Rowlands, 'Tri Wiliam Gruffudd', *LICy* 2 (1952–3), 256–7. Nid enwir Alis yn yr awdl, na Gwenllian, merch Iorwerth ap Dafydd, ei ail wraig. Bu Wiliam yn ddirprwy siambrlen Gwynedd yn 1459, a geilw Guto'r Glyn ef yn siambrlen, fel y gwna Lewys Glyn Cothi, Robin Ddu a Thudur Penllyn, gw. GG.net 56.12n. Ni chrybwyllir y swydd yn awdl Hywel Dafï.

Y mesurau

- 1–20 Pum englyn unodl union.
 21–86 Un pennill ar ddeg ar fesur y gwawdodyn hir ac ar yr odl *-an*. Digwydd yr enw Wiliam Fychan, sef gwrthrych yr awdl, ar ddiwedd saith o'r penillion.

4 *n* wreiddgoll.

6 **Ednyfed Fychan** Fe'i henwir drachefn yn ll. 31. Ei ddisgynyddion ef oedd teulu'r Penrhyn, gw. AWH 179–214, 240–74.

9 **llonydd** Gall fod yn e. yn ogystal ag yn a., a chyflea ystyron megis 'esmwythder, gorffwys, cysur, bodlonrwydd', gw. GPC 2208. Diwygiwyd yn Pen 99 yn *trwy'r winllan a r llan yn llonydd y dof*. Rhestrir y berfenw *irllonyddu* 'llidio' a'r enw *irllonedd* 'dicter' yn GPC 2030, ond nid yw'r ystyron hyn yn addas yn y cyd-destun.

10 Y mae'r ll. yn rhy hir fel y cofnodwyd hi yn Pen 67.

11 **tri hafn** Cyfeiria at y tri bwlch sydd yn arwain i gyfeiriad Bangor neu Gaernarfon wrth deithio i gyfeiriad y Penrhyn o'r de, sef i. bwlch Nant Ffrancon; ii. bwlch Llanberis; iii. y ffordd sydd yn arwain o Feddgelert heibio Llyn Cwellyn. Dewis arall fyddai uniaethu'r *tri hafn* â'r tair siefron ar arfbais Ednyfed Fychan, gw. DWH ii, 129–30.

18 **gwyndodig** Y ddwy ystyr a roddir i'r gair yn GPC 1772 yw i. 'bendithiol, llesol'; ii. 'yn perthyn i Wynedd'. Dyfynnir y cwpled o dan yr ystyr

gyntaf, ac y mae hynny'n gwbl ddealladwy am mai bardd o'r de oedd Hywel Dafî, a phrin y gellid honni ei fod yn llunio ei gerddi yn iaith Gwynedd. Ond nid annichon ei fod yn elwa ar amwysedd y gair, cyn mynd yn ei flaen i feirniadu'r beirdd nad oeddynt yn falch o'i weld yn canu ar eu tomen hwy. Ceir nodyn ysgafn drachefn yn y cwpled sydd yn cloi'r awdl lle y mynega'r bardd y dymuniad y bydd einioes ei noddwr cyhyd â'r cyfnod o nawdd y carai ei fwynhau yng Ngwynedd.

- 21 **rhwyfan'** Dyfynnir y cwpled yn GPC 3115 d.g. *rhwyfo*² 'arglwyddiaethu dros, llywodraethu, rheoli, arwain; rhodresu, byw mewn ysblander'. Yng ngoleuni llau. 19–20 lle yr awgrymir bod beirdd eraill yn eiddigeddu wrth Hywel Dafî, gellid yr ystyr 'cythryblu, aflonyddu', gw. *ib.* 3114–15 d.g. *rhwyfo*¹.
- 28 **Syr Roser** Syr Rhoser Fychan, Tretŵr, a ddiennyddiwyd yn 1471, gw. cerddi 46–7. Dywed y bardd ei fod wedi colli nawdd a diogelwch un o'i brif noddwyr, a gobeithia y gall Wiliam bellach gymryd ei le: *Ni chredir ... / Falched wyf wyched Wiliam Fychan*, gw. llau. 31–2.
- syrhaesan'** Ni ellir bod yn gwbl sicr ynghylch y gair y bwriadau'r bardd ei gofnodi ar sail yr orgraff *ym sorayssan*. Gellid *y'm sorasan'* (< *sorri*), ond dilynwyd diwygiad Pen 99, sef *y'm syrhaesan'*, sef 3 ll.grff. *sarhau*.
- 39 **can heidion** Nid ffurf l. *haid* (*heidiau* yw'r unig ffurf a gydnabyddir yn GPC 1813) ond y ffurf unigol *eidion*, gw. GPC 1186 lle y dyfynnir y ll. hon. Gw. ymhellach 8.61n.
- 42 **canllad** Gellid *cant* + *llad* 'cant o roddion', ond tebyg fod yr ail elfen yn cyfateb i'r S.C. *lad* 'load', sef 'mesur grawn', gw. GPC 2076–7.
- 45 **ffiolau drychau** 'Ffiolau [sydd yn ddisglair megis] drychau' neu 'ffiolau [sydd yn] batrwm neu esiampl', gw. GPC 1091.
- 49 **cimychan** Ffurf fach. *cimwch* 'morgranc mawr', ond nis nodir yn GPC 482.
- 59 **pob ddwywlad** Nid yw'r treigladd hwn yn un rheolaidd, a thystia'r ymadroddion *pob tir* (ll. 57), *pob gwlad* (ll. 59), *pob tref* (ll. 60), *pob gwas* (ll. 61) yn y pennill hwn mai cadw'r gysefin oedd yr arfer. Gw. ymhellach 28.27n.
- 60 **cân' llef** Treiglo'r gwrth. yn dilyn bf. 3 ll. yw'r arfer, cf. 7.50 *A neiaint hwn a wnânt dâl*, ond rhestrwyd ambell engh. o gadw'r gysefin yn Treigladau 205–6.
- canllyfan** Nodir y ffurfiau *cynllyfan*, *cynllafan* a *canllafan* yn GPC 794.
- 62 **bachell** Rhestrir y cwpled yn GPC 247 er mwyn enghreifftio'r ystyr 'congl, cornel, cilfach', ond er bod yr enghrau. o'r gair sydd yn cyfleu'r ail ystyr 'magl; crafanc, gafael' yn ddiweddarach, ac yn perthyn i'r 16g., dyma'r ystyr orau yn y pennill hwn sydd yn disgrifio'r modd y mae Wiliam Fychan yn erlid drwgweithredwyr. Arswyd y gwylliaid rhag

crafanc Wiliam Fychan a fynegir, nid awydd am ei gwmni a'i groeso.

- 64 **Idwal** Disgynnai Llywelyn Fawr o Iorwerth Drwyndwn (ll. 68) ab Owain Gwynedd (ll. 66) ap Gruffudd (ll. 67, ond gw. ll. 67n) ap Cynan (ll. 66) ab Iago ab Idwal, gw. J. Davies: HC 80–1.
- 67 **Gruffudd** Y mae dechrau'r ll. yn aneglur iawn. Dewiswyd *Gruffudd* yn Peniarth MS. 67 ar sail y dybiaeth mai talfyriad o'r enw hwnnw a gofnodwyd, sef *grd*, ond mae'r llythyren gyntaf yn debycach i *n* neu *m* a dyna esbonio'r enw *Maredudd* yn nhestun Pen 99. Serch hynny, glynwyd wrth *Gruffudd* am fod nifer o hynafiaid Llywelyn Fawr yn cael eu henwi yn y pennill, gw. ll. 64n. Ond efallai y dylid cyplysu *Gruffudd* a *Dafydd*, enwau dau o feibion Llywelyn Fawr. Cynhelir y cymeriad llythrennol mewn sawl pennill yn yr awdl, ond cymeriad llafarog sydd yn y pennill hwn, ac ni all yr addurn dorri'r ddadl wrth geisio dewis yr enw y bwriadai'r bardd ei gofnodi.
- Dafydd** Naill ai mab Llywelyn Fawr, neu ei nai, Dafydd ap Gruffudd ap Llywelyn Fawr, gw. J. Davies: HC 80–1.
- 69 **Llywelyn Felyn** Ni ddigwydd yr enw hwn ym mynegeion WG1 a WG2. Cymeriadau hanesyddol yn hytrach na chwedlonol a enwir yn y rhan hon o'r awdl. Mewn cyfres o bedwar englyn dienw a gofnodwyd yn Llyfr Coch Hergest, dychenir gŵr o'r enw Llywelyn a oedd yn fardd ac yn gysylltiedig, o bosibl, ag ardal Llandeilo, gw. GPB cerdd 11. Fe'i cyferchir yn y ll. gyntaf: *Llywelyn, felyn filwr*. Gellid atalnodi'r ll. yn wahanol: *Llywelyn Felyn, filwr*, ond ni fyddai gan Hywel Dafi achos i gyfeirio at y cymeriad hwn. Ond efallai ei bod yn arwyddocaol fod y Llywelyn a ddychenir yn yr englynion dienw yn hanu *O briflwyth Merfyn Frych* (*ib.* 11.14), brenin Gwynedd a thad Rhodri Mawr, gw. y tabl achau yn J. Davies: HC 80–1.
- 72 **Ilu garw o Wladus** Yn GPC 1383–4 rhoddir i *garw* yr ystyrion i. 'heb fod yn llyfn'; ii. 'stormus'; iii. 'anfoesgar; creulon, llym'. Yr ystyr fwyaf addas yma fyddai 'helaeth, lluosog', ond ni chyfleir yr ystyr honno gan yr un o'r enghrau. ar slipiau GPC. Testun balchder yw'r cyswllt rhwng Edward IV a thywysogion Gwynedd trwy Wladus, merch Llywelyn ab Iorwerth, gw. 19.8n a cf. 71.5–6 *Porth Iesu i'r tarw du, a'i daid—o dylwyth / Cadwaladr Fendigaid*.
- 73 **y teirsir** Tair sir y dywysogaeth yng Ngwynedd, sef Môn, Arfon a Meirionnydd, cf. GLMorg 92.6 *Syr Gei wyn teirsir Gwynedd*. Sonnir am y *Gŵr yn y teirsir* mewn cywydd marwnad a ganodd Rhys Goch Eryri i Wilym ap Gruffudd, tad Wiliam Fychan, gw. GRhGE 3.18 ac *ib.*n lle yr esbonnir bod gan Wilym diroedd yn y siroedd hynny. Ar y llaw arall dadleuir mai sir Fôn a chantrefi Arfon ac Arllechwedd sydd dan sylw yng nghywydd Guto'r Glyn i Wiliam Fychan, gw. GG.net 56.26 *Piau'r tair sir? Preutur Siôn*.

- 74 **dyunan** Darlleniad Pen 67 yw yn *dy hynan*. Ni nodir *dihunan* yn amr. ar *dihuno* yn GPC 1010 ond dyma'r gair sy'n rhoi'r gynghanedd fwyaf boddhaol. Ni nodir bod *dyunan* yn ffurf amr. ar *dyuno*, *duuno* ychwaith yn *ib*. 1150 ond addas iawn yw'r ystyron i. 'cytuno; uno, ymuno'; ii. 'ymgynnull, crynhoi'.
- 76 **dadannudd** Term cyfreithiol sydd yn gyfystyr ag 'adfeddiant neu adferiad meddiant o dreftadaeth', ond gall hefyd gyfleu'r ystyr 'hawlwr treftadaeth, adferwr', gw. GPC 868. Y mae'r enwau a gysylltir â'r brudiau yn y ddau gwpled nesaf yn awgrymu bod Wiliam Fychan yn cael ei weld megis mab darogan.
- 78–9 **o Fanaw ... / ... o Lydaw** Enwir y ddau le hyn yn y cywyddau brud: GDLI 11.45–6 *O Fanaw y dyfynnir / Y gŵr marw a'r tarw i'r tir*; GDGor 4.57–8 *A'i phlaid a ffy i Lydaw / O Loegr drom i ôl gwŷr draw*. Atgyfnerthir naws frudiol y pennill gan y cyfeiriadau at y *bleiddiau* (ll. 77), y *baedd* (ll. 79) a'r *ceiliog* (ll. 80). Yn y cywyddau brud a luniwyd yn ystod y misoedd cyn brwydr Bosworth yn 1485, cyfeiria'r baedd at Risiart III, gw. GDLI 8.25n. Er bod Hywel Dafï ar dir y byw yn 1485, y mae'n annhebygol fod yr awdl wedi ei llunio yn ystod blynyddoedd olaf Rhyfeloedd y Rhos, gw. ll. 28n. Yr oedd proffwydoliaeth Myrddin ym Mrut Sieffre o Fynwy yn ffynhonnell ar gyfer llawer o'r ymadroddion a arferid yn y canu brud, gw. BD 103–16.
- 80 **Iorwerth** Nid Iorwerth Drwyndwn (ll. 68) ond un o hynafiaid Wiliam Fychan, sef Iorwerth ap Gwgon, taid Ednyfed Fychan.
- 82 **Duran** Ffurf ar *Duram* sydd yn digwydd yn safle'r odl yn un o gywyddau Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 150.23–4.
- 83 **Syr Wiliam** Syr Wiliam Stanlai. Ei ferch, Sioned, oedd ail wraig Gwilym ap Gruffudd, a hi oedd mam Wiliam Fychan.
cydgaman' Rhoddir i'r f. *cytgam* yr ystyron 'cynnig, ceisio; anturio, mentro, beiddio' yn GPC 822. Dyma'r ystyron gorau yma, ond daw'r engh. gynharaf o waith y Ficer Prichard. Diau mai e.c. sydd yn Atod.V.49n *Caru cytgam a thramwy*.
- 84 **nai Syr Hywel** Nid oedd cyswllt gwaed rhwng teulu'r Penrhyn â Syr Hywel y Fwyall, ac ar ei ach gw. WG1 431, ond y mae'r sylw hwn yn yr un cywair â'r disgrifiad gwenieithus yn llau. 63–74.

Er bod y gyfeiriadaeth achyddol yn llawn ac yn fanwl yn yr awdl—yn llawnach nag yn y rhan fwyaf o gerddi Hywel Dafï—methwyd ag adnabod gwrthrych y moliant. O'r herwydd nid oes modd esbonio'r enwau. Tomas yw enw'r gwrthrych, Tomas Gwyn yn ôl llinell 37, ac yr oedd yn fab i Siancyn (ll. 2 *mal Siancyn*, ll. 76 *mab Siancyn*). Yr unig le a enwir yw

Caerfyrddin, ac er y gall hynny, ynghyd â'r cyfeiriadau at dylwyth Tewdwr (ll. 25) ac at Rys Gryg, mab yr Arglwydd Rhys (ll. 24), awgrymu cyswllt â theyrnas Deheubarth, ni ddylid rhoi gormod o bwyslais ar y posibilrwydd hwnnw.

Cyfarchodd Hywel Dafï fwy nag un Tomas ap Siancyn a chanodd i deulu y perthynai gŵr o'r enw Tomas ap Siancyn iddo. Fodd bynnag, nid yw ach yr un o'r rhain yn cyfateb i ach gwrthrych yr awdl er bod rhai enwau yn gyffredin.

- i. Canodd Hywel Dafï i Lywelyn Goch, Rhydlafar, gw. cerddi 74, 81. Wŷr ei frawd, Tomas, oedd Tomas ap Siancyn ap Tomas, gw. WG1 556, ond nid enwir Tomas yno er bod ei enw yn digwydd yn LPMG 119.
- ii. Tomas ap Siancyn ap Madog o'r Slwch, gw. cerddi 38–41. Anodd credu y byddai Hywel Dafï wedi colli'r cyfle i enwi Syr Watgyn Llwyd a grybwyllwyd mewn sawl cerdd.
- iii. Tomas ap Siancyn Fychan ap Siancyn o Aberysgir, gw. cerdd 13. Yr oedd yn briod ag un o ddisgynyddion Rhys Llwyd ab Adam, sef tylwyth Hywel Dafï ei hun.

Y mesurau

- 1–28 Cyfres o saith englyn, sef pedwar englyn unodl union (llau. 1–4, 9–16, 25–8), dau englyn proest cyfnewidiog (llau. 5–8, 21–4), ac un englyn proest cadwynog (llau. 17–20). Cysylltir pob pennill â chyrch-gymeriad, ond rhaid cyfrif llinellau 17–24 yn un uned er bod yma ddau fesur annibynnol.
- 29–68 Deg pennill gwawdodyn byr ar yr odl *-er*.
- 69–74 Chwe llinell seithsill sydd yn proestio.
- 75–8 Englyn unodl union.
- 79–82 Englyn proest cyfnewidiog. Cysylltir pob uned yn rhan olaf yr awdl â chyrch-gymeriad drachefn.

4 Diwygiwyd *fe elwir* y llsgrau. er mwyn osgoi'r *r* berfeddgoll. Ni ddisgwyliid ffurf amhrs. yn dilyn ll. 3 *A'th alwo*.

8 **A fo yn ... ben** Manteisiodd Hywel Dafï ar y ddihareb hon mewn cerdd arall, gw. 83.41–2n.

10 **sisio** Gallai fod yn amr. ar *seis(i)o*, benthyciad o bosibl o'r S. 'to seize', gw. GPC 3214–15, ond tebycach ei fod yn f. wedi ei llunio o *sis*, benthyciad o'r S. *siege*, gw. EEW 226. Digwydd y gair hwnnw yn 17.15 *Daly sis wrth Baris y bu*, 61.43 *Mae'r sis ar wŷr y Mars hwn*, 69.45 *Neud rheiol sis, nid rhyhir*. Gw. GPC 3277 d.g. *sij* a *sijo* 'peri cynnwrf neu gyffro, poeni, aflonyddu (ar)'.

18 **addfedodd ddau Fadog** *Dau Fadog* yw goddr. y f. *addfedu* ond ni

- ddisgwylid treigladd yn dilyn bf. 3 un.grff. Y mae'r treigladd yma felly yn afreolaidd, ond digwydd treigladd i'r goddr. yn dilyn bf. 3 un.amhff., gw. Treigladau 214, 218–19, a gellid diwygio yn *a addfedai*. Ar gadw cysefin y gwrth. yn dilyn y terfyniad *-odd*, gw. 20.6n.
- 23 **mael** Diwygiwyd *mil* y llsgrau. er mwyn gwella'r ystyr, ond digwydd *mil* ar ddechrau'r ll. nesaf. Gallai'r gair hwnnw fod wedi ei ailadrodd ar gam.
- 24 **rhoes gradd** Ar gadw'r gysefin (a threiglo yn achlysurol) yn dilyn y ffurf ferfol hon, gw. 5.55n.
- Rhys Gryg** Un o feibion yr Arglwydd Rhys, gw. CLC² 652 a'r tabl achau yn J. Davies: HC 80–1.
- 27 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 42.
- 31 **ar lled** Gw. 14.20n.
- 33 **wythnyn** Ar y treigladd trwynol yn dilyn y rhifol, gw. 31.55n.
- 43–4 Ceir yr un odl ar achlysur arall, cf. 46.15–16 *Mwya' dwylo'n ffrwyno Ffranc*, / *Mwya' baeard mab ieuanc*.
- 46 **pennant** Rhestrir *pennant* 'ucheldir' < *pen* + *nant* yn GPC 2754 ond nid yw'r gair hwn yn taro. Efallai y dylid ei gyfrif yn ffurf ar *penwn*, *penon* 'baner ... hirgul ar lun triongl neu gynffon gwennol ac arni arfbais weithiau', gw. *ib.* 2764; OED² xi, 481. Nodir yn *ib.* 479 fod y S. *pennant* yn ffurf amr. ar *pennon*, ond i'r 19g. y perthyn yr engh. gynharaf.
- 50 **trabluddier** Rhestrir y ffurfiau berfenwol *trabludd*, *trabluddo* a *trabluddio* yn GPC 3539.
- 61 Camosodiad *n.r* = *r.n*.
- 69–74 Ar y mesur, gw. 28.17–22n.
- 71 Cynghanedd groes o gyswllt neu *r* wreiddgoll.

Yn y cywydd marwnad hwn i Ieuan ap Hywel Swrdwal, awgryma Hywel Dafi fod perthynas arbennig wedi bod rhwng y ddau ohonynt a defnyddia ddelwedd gyfarwydd o fyd aredig wrth ei gyffelybu ef a Ieuan i ddau ych yn tynnu'r iau: *Dau flaenor, bu rychor ym, / Dwyddol y Deau oeddym ... Fal unych pan foliannwyf / Wrth iau yn Neheubarth wyf* (llau. 21–2, 25–6). Er nad oes yr un cyfeiriad arall yng nghanu Hywel Dafi at Ieuan, canodd y ddau i Rys ap Siancyn o Aberpergwm. Awgrymwyd yn P. Lynch, 'Aberpergwm a'r traddodiad nawdd' yn *Nedd a Dulais*, gol. H.T. Edwards (Llandysul, 1994), 14, fod y ddau gywydd wedi eu canu ar yr un achlysur am fod defnydd nodedig o ddelwedd estynedig yn y naill a'r llall, gw. cerdd 75. Ni wyddys pa bryd y bu Ieuan farw. Yr unig beth y gellir bod yn sicr yn

ei gylch, yn ôl D.F. Evans yn GHS 13–14, yw ei fod wedi dechrau canu oddeutu 1440.

Parodd marwnad Hywel Dafï beth anesmwythyd i ddau fardd o Dir Iarll, sef Llywelyn Goch y Dant a Gruffudd Dafydd Fychan. Awgrymasai Hywel Dafï y byddai'n rhaid iddo bellach chwilio yng Ngwynedd am ych arall i gyd-dynnu o dan yr iau, ac nid oedd y syniad hwn wrth fodd y ddau fardd o'r de. Yn ei ateb ef rhestru Llywelyn Goch nifer o feirdd o'r de a fyddai'n ddigon cymwys ac yn ddigon parod i ymgymryd â'r baich, gw. TLIM 35–6; Glam Bards cerddi XCII, XCIV, Atodiad XI; D.J. Bowen ac E.I. Rowlands, 'Ymryson rhwng Hywel Dafï a beirdd Tir Iarll', LICy 3 (1954–5), 107–14 lle y ceir golygiad o'r tri chywydd. Ceir y tri chywydd gyda'i gilydd yn yr un llawysgrifau, ac awgryma hyn fod y tri wedi eu diogelu ar y cyd. Pe bai Hywel Dafï wedi ateb y ddau fardd o Dir Iarll gellid tybio y byddai'r cywydd hwnnw hefyd wedi ei ddiogelu.

Yr un yw trefn y llinellau yn yr holl gopiâu ac eithrio un adran rhwng llinellau 27–32. Ceir cytundeb cyffredinol rhwng yr holl gopiâu er bod ambell air unigol yn dangos olion llygru: *alman / almaen* (ll. 10), *aren / Urien* (ll. 37). Parodd yr enw lle *Cedewain* (ll. 6) beth trafferth i Lywelyn Siôn. Gwyddys bod un copi fan lleiaf o'r cywydd wedi ei gollï. Ysgrifennodd copiwr LIGC 13064D ar ymyl y ddalen wrth linellau 65–70: *yr oedd y cppy n an nirnadwy jawn yma*. Ni ellir dweud hyn am un o'r llawysgrifau hysbys a rhaid bod y deunydd a gopiwyd wedi diflannu bellach. Collwyd y ddalen a oedd yn cynnwys dechrau'r cywydd yn LIGC 13064D a chollwyd rhannau o'r testun yn LIGC 970E rhwng llinellau 37–46 oherwydd traul. Cofnodwyd ambell air ynghyd â llinellau 53–5 yn eu crynswth gan Siôn Dafydd Rhys yn Llst 55. Argraffwyd detholiad o 26 llinell yn *Cywyddau Cymru*, gol. A. Hughes (Bangor, 1926), cerdd CXV.

Tomas Glyn Cothi, un o gydnabod Iolo Morganwg, yn ôl pob tebyg a ychwanegodd ar ôl enw'r bardd ar ddiwedd y cywydd yn LIGC 5474A: *Yr Howel hwn oedd Fardd o Gadair Morganwg*. Ychwanegodd hefyd ar ôl y pennawd *Cywydd Marwnad Jeuan ab Hywel Swardwal* y geiriau yr *Hwn oedd Fardd o Gadair Morganwg*. Yn un o'i lawysgrifau cofnododd Iolo Morganwg *Achau Beirdd Morganwg o Ddafydd ab Gwilym*. Nododd fod Hywel Dafï yn un o ddisgyblion Ieuan ap Hywel Swardwal, a bod Iorwerth Fynglwyd ac Ieuan Deulwyn yn ddisgyblion iddo yntau, gw. LIGC 13116B, 373–4.

- 1 **gair** Mewn un llsgr. yn unig, sef Pen 114, cofnodwyd *gawr* 'bloedd, gwaedd, dolef', gw. GPC 1385–6, a gweddaï'r gair hwnnw.
- 4 **a wyl** Gellid naill ai 3 un.pres.myn. *wylo* neu *a wyl*, sef 3 un.pres.myn. *gweld*.
- 5 **dyrnaid saethydd** Yn hytrach nag ailadrodd *dyrnod* ... *dyrmaid*, gellid *dirnaid saethydd* 'anffortun enbyd o waith saethydd'.

- 6 **Cedewain** Cwmwd ym Mhowys, er nad oedd Llywelyn Siôn yn gyfarwydd â'r enw, a barnu wrth ei ymdrechion i gofnodi'r gair. Ymddengys mai yno yr oedd Ieuan pan fu farw, ac oddi yno y daeth y newyddion i glyw Hywel Dafî. Gwyddys bod Ieuan yn clera yn y canolbarth; canodd gywydd moliant i Hywel ap Dafydd ap Bedo o Dregynon yng Nghedewain, gw. GHS cerdd 30, ac efallai mai yno yr oedd pan fu farw.
- 7–9 **Ieuan ... / ... / ... Swardwal** Gw. ByCy 383–4; CLC² 359. Golygwyd deg o'i gerddi yn GHS cerddi 24–33.
- 10 **alman** Y ffurfiau *almon*, *almond*, *almwn* a restrir yn GPC² 180, ond *alman* a gofnodwyd yn y llsgrau. Y mae'r a. *cron* a'r enw *craig*, y ddau yn disgrifio calon y bardd hiraethus, o blaid y darlleniad hwn er mai *Almaen* sydd yn digwydd yn Stowe 959 ac yn nhestunau Llywelyn Siôn. Yr olaf a fabwysiadwyd yn D.J. Bowen ac E.I. Rowlands, 'Ymryson rhwng Hywel Dafî a beirdd Tir Iarll', LICy 3 (1954–5), 107.
- 12 **awenydd** Y mae peth amrywio yn y llsgrau. gyda golwg ar y gair sydd yn safle'r brifodl. Yn ogystal ag *awenydd* ceir *ymennydd* (*ymenydd* Llst 133) a *henydd* 'hynafgwr, ? gŵr profiadol', gw. GPC 1854.
- 15 **brawdriaeth** 'Swydd barnwr, awdurdod barnwr; barn, dedfryd, gw. GPC² 741. Ailadroddir yr un syniad yn y cwpled nesaf.
- gwnaethom** Digwydd *gwnaetham* ar ddau achlysur yn y canu, gw. 49.53n, 108.55n.
- 17 **brawdwr Caer** Dilynwyd D.J. Bowen ac E.I. Rowlands, *art.cit.* 107, trwy drin *Caer* yn e. lle yn hytrach nag yn e.c. Rhoddir i *brawdwr* yr ystyron 'barnwr, ustus, ynad; un sy'n barnu, beirniad' yn GPC² 740–1. Y mae hwn yn gyfeiriad gogleisiol ac anodd gwybod sut yn union i'w ddehongli. Gallai *Caer* gyfeirio at (sir) Gaerfyrddin neu at Gaerlleon Gawr. Awgryma hynny yn ei dro fod Hywel Dafî ac Ieuan ynghyd â'r deg bardd arall (nas henwir, ysywaeth) wedi bod yn barnu, o bosibl mewn cynulliad barddol neu eisteddfod. Yn llaw John Jones, Gellilyfdy, y diogelwyd yr hanes llawnaf am eisteddfod Gaerfyrddin, gw. G.J. Williams, 'Eisteddfod Gaerfyrddin', *Llenor*, v (1926), 94–102: *Pann oedd Gruffydd ap Nicolas yn wrowdwr ar y prydyddion y Nghaerfyrddin dros dalaith Dinefwr iw graddu hwynt yr oedd lawer o brydyddion gorchestol y Neheubarth yn yr oes honno*. Gwelir mai Gruffudd ap Nicolas yw'r unig farnwr a enwir. Hysbysa John Jones mai cynulliad ar gyfer beirdd talaith Deheubarth ydoedd hwn er mai beirdd a cherdd-orion o'r gogledd-ddwyrain a gipiodd y prif wobrau. A gynhaliwyd achlysur arall lle y graddiwyd beirdd, a hynny yn nhalaith Mathrafal, ac yn nes at Gaerlleon Gawr, neu hyd yn oed yng Ngwynedd, yng nghyffiniau Caernarfon? Trafodir y cyfeiriadau yn y canu at ennill cadair ac at ennill gradd yn y 'Rhagymadrodd' tt. 16–18.

- 17–24 Dyfynnir y llau. hyn yn LIGC 13108B, 67, sef un o Isgrau. Iolo Morganwg. Dilynir y dyfyniad gan enw deuddeg bardd a oedd *yn yr amser hynny ... yn Nhir Iarll* (am ryw reswm ni nodwyd enw'r trydydd bardd ac felly un bardd ar ddeg a enwir mewn gwirionedd).
- 19–20 **deuddeg / O feirdd** Cf. y modd y galwodd y bardd Gruffudd Llwyd am wasanaeth deuddeg bardd i brofi'r achos yn erbyn Morgan ap Dafydd o Rydodyn, gw. GGLI cerdd 10; hefyd 43.21n, 57.20.
- 22–6 **y Deau ... / ... / ... yn Neheubarth** Cyfeiria'r Deheubarth yn fanwl at Frycheiniog, Ceredigion, Dyfed ac Ystrad Tywi, gw. WATU 56. Y mae'n bosibl fod *Deau* yma yn cyfeirio at Went a Morgannwg, neu at y ddau ranbarth hynny ynghyd â'r rhanbarthau sydd yn ffurfio'r Deheubarth. Y tair talaith farddol oedd Aberffro, Mathrafal a Dinefwr, gw. D.J. Bowen, 'Taleithiau'r gwŷr wrth gerdd', LICy17 (1992–3), 139–43.
- 27 *n* berfeddgoll neu *m.n = n.m.*
- 27–32 Dyma'r unig ran o'r cywydd lle y ceir amrywio o ran trefn y llau. Dilynwyd trefn Stowe 959.
- 31–2 Nid yw'r cwpled hwn yn Pen 100. Fe'i hychwanegwyd ar ochr y ddalen yn Stowe 959 ac yn Llst 133.
- 32 **ei fab** Yr oedd gan Ieuan frawd o'r enw Dafydd a diogelwyd un gerdd o'i waith ef, gw. GHS cerdd 34. Dafydd hefyd oedd enw mab Ieuan, gw. *ib.* 7, ond nid oes yr un o'i gerddi ef ar glawr.
- 33 **cymharwyd** 'Ieuo ynghyd, cydgyssylltu, cyplysu', gw. GPC 762. Ar ôl defnyddio trosiad yr ych dan y wedd wrth gyfleu'r berthynas rhyngddo ac Ieuan, ailadroddir y syniad wrth gyfeirio at ddau fardd arall, sef Llawdden a Guto'r Glyn. Yr oedd y pedwar ohonynt megis pedwar ych dan yr iau.
- 35 **penceirddiaeth** 'Swydd, gradd, neu (ardal) awdurdod pencerdd', gw. GPC 2734, lle y nodir ef yn eb. yn unig; fe'i trinnir fel pe bai'n eg. yn Stowe 959 a Pen 114. Eb. ydyw yn 3.22 *Y cerddwyr â'r benceirddiaeth.*
- 37 **Llawdden** Gw. 63.36n. Yr oedd wedi marw erbyn i Siôn ap Ffelpod ganu ei gywydd i ddychanu Hywel Dafi. Ychwanegwyd ar ochr y ddalen yn LIGC 13064D: *E fu canu ymryson rhwng yr Awdwr a G r Glyn a thebig fod llawdden yn pleidio ir Gutt a Ieuan iddo ynteu.*
- aren** 'Doeth, synhwyrol, call', gw. GPC² 438, ond *vrien* a gofnodwyd mewn sawl ffynhonnell gan gynnwys Pen 100 a Stowe 959.
- 38 **Gutun y Glyn** Ar y ffurf, gw. GG.net 101a.1n. Egyr Syr Rhys ei gywydd i'r bardd â'r ll. *Gutun y Glyn, a fu glaf.*
- 39 **sen** Ystyron negyddol sydd i'r gair hwn fel arfer, sef 'sarhad, difenwad', gw. GPC 3222. Tybed a oes awgrym i Hywel ac Ieuan gymryd rhan mewn ymryson? Ond efallai fod i *sen*, fel *gwawd*, ystyr gadarnhaol

hefyd.

40 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 50.

41 **Glan Hafren** Dilynir GG.net 37.71 *Ein Hefrog yng Nglan Hafren*, a'i drin yn e. lle, er na ellir bod yn sicr ai ardal ynteu dŷ sydd dan sylw yng nghywydd Guto. Tebycach mai enw ardal sydd yma.

47 **cuddiwyd** Yn Stowe 959 yn unig y digwydd y gair hwn; *caewyd* sydd ym mhob testun arall, ond digwydd y gair hwnnw ar ddechrau ail fraich y cwpled.

49 Cf. 59.5–6 *Gorau man ffordd y cân cog*, / *Wybr a chan, yw Brycheiniog*.

53 *dig wyf dewi ag ofeg* a gofnodwyd yn Llst 55.

54 **Rhydychen** Gall y ll. hon awgrymu mai yn Rhydychen yr oedd Ieuan pan fu farw, gthg. ll. 6n, er y gellid aralleirio: 'Dig wyf am dewi gofeg [yr un oedd] yn ben yn Rhydychen deg', cf. TA XXX.55–6 *Er y doech o Rydychen*, / *A chyfri pawb, chwi fu'r pen*. Nid oes tystiolaeth fod Ieuan wedi astudio yn Rhydychen ond priodolir iddo awdl mewn S.C. i'r Forwyn Fair—awdl a gyfansoddwyd gan fyfyrwr o Gymro. Priodolir yr awdl i Ieuan ap Rhydderch hefyd ond awgryma D.F. Evans fod y dystiolaeth o blaid Ieuan ap Hywel Swrdwal yn gryfach, ac fe'i cynhwyswyd ymhlith ei weithiau yn GHS cerdd 33. Yn y cyswllt hwn efallai fod tystiolaeth llau. 63–4 yn y cywydd marwnad hwn yn arwyddocaol: *Cyw ehedydd mewn cadair*, / *Cân o'i fin acen i Fair*.

55–6 **efengyl ... / ... Ieuan** Cyffelybir awen ac awdurdod Ieuan i lyfrau'r pedwar apostol. Yr oedd sancteiddrwydd Llyfr Ieuan yn ddiahebol. Yn dilyn y cyfeiriad at *efengyl* yn ll. 55, byddai'r enw *Ieuan* (Swrdwal) yn ll. 56 ar yr un pryd yn dwyn i gof enw'r Apostol Ieuan.

58 **Gwion** Disgrifir ei helyntion yn 'Hanes Taliesin' a'r modd yr ailaned ef a'i enwi yn Daliesin gan y tywysog Elffin, gw. WCD 327–8.

60 **ŵyr Adda Moel** Gorwyr Adda oedd Ieuan, gw. GHS 6–7.

arwydd Mai Gthg. D.J. Bowen ac E.I. Rowlands, *art.cit.* 108 *ar wŷdd Mai*. Ni nodir unrhyw amrywiadau ar gyfer y ll. hon, ond yn LIGC 5474A yn unig y digwydd *ar wydd*; *arwydd* sydd yn y lleill.

63 **cadair** Y mae'n gyfystyr â 'gorsedd, gorseddfainc', sef gorsedd Duw yn y nefoedd yn y cyswllt hwn. Cyflea hefyd statws digymar Ieuan ap Hywel Swrdwal am ei fod yn eistedd mewn *cadair* 'eisteddle i'r pencerdd yn neuadd y brenin neu'r tywysog, yn ddiweddarach yng nghyfundrefn y beirdd y tlws arian ar lun cadair a wisgid ... yn arwydd fod bardd naill ai'n bencerdd neu'n athro cerdd dafod neu gerdd dant', gw. GPC 375.

69 **crefydd** Cynigir yn GPC 587 yr ystyron 'ystad bywyd person sy'n aelod o urdd grefyddol neu fynachaid fel mynach neu leian; urdd,

gradd neu safle (am angylion, &c.)’.

87

Ar sail y cyfeiriad at *Nedd* yn llinell 17, gellir dyfalu mai rhan o gywydd moliant naill ai i Rys ap Siancyn ap Rhys neu i un o’i feibion yw hwn. Ar y canu i’r teulu, gw. cerddi 75–6. Yn llinellau olaf y cywydd (17–26) ymddengys fod y bardd yn rhag-weld ei henaint a’i farwolaeth ei hun. Y mae’n ffyddiog y caiff ei ymgeleddu yn ei henaint ac y cynhelir angladd teilwng iddo.

Mewn un ffynhonnell, sef Pen 114, y diogelwyd y dryll hwn. Digwydd y llinellau ar y ddalen gyntaf yn y llawysgrif, gw. RWM i, 689. Casgliad o gywyddau i Lewys Gwyn, Trefesgob (*fl.* canol yr 16g.) sy’n dilyn, un o noddwyr pwysicaf ei gyfnod; ar y canu iddo, gw. NBSD 254–62. Disgynnai, fel Hywel Dafï ei hun, o Rys Llwyd ab Adam, gw. WG2 227. Tybed a oedd casgliad o gywyddau’r bardd ar ddechrau’r llawysgrif yn wreiddiol? Yn rhan olaf y llawysgrif cofnodwyd y tri chywydd a oedd yn gysylltiedig â marwolaeth Ieuan ap Hywel Swrðwal, gw. nodyn brig cerdd 86, ynghyd ag un cywydd arall a ganwyd, fel y bernir, i ddau frawd, hwythau yn ddisgynyddion i Rys Llwyd ab Adam, gw. cerdd 34. Rhesymol tybio y byddai’r bardd yn y llinellau coll wedi enwi gwrthrych y cywydd ac wedi crybwyll ei ach. Ail wraig Gwilym o Borthgogof, hen daid Lewys Gwyn, oedd Siwan Ddu, merch Rhys ap Siancyn ap Rhys o Lyn-nedd, gw. WG1 311; WG2 607. Y mae’r cywydd hwn yn awgrymu ymwybod â llinach gyffredin sydd yn dwyn ynghyd y bardd, Lewys Gwyn a’i deulu, a theulu Glyn-nedd.

- 3 **trasau** Ar y cyswllt gwaed rhwng Hywel Dafï a theulu Aberpergwm, gw. 76.57n.
- 4 Diwygiwyd *gwr* y llsgr. yn *gŵn* er mwyn y gynghanedd.
- 6 Camosodiad cymhleth *r.n.f = n.f.r* a chyfatebiaeth $n = m$ neu n wreiddgoll ac m ganolgoll. Gw. ymhellach 3.27n a ‘Cynghanedd’ tt. 41–2, 44.
- 10 **fal pei byw’r gŵr** Gall hyn awgrymu bod y penteulu wedi marw beth amser ynghynt, ond bod yr arfer o groesawu bardd ar yr aelwyd wedi parhau.
r berfeddgoll.
- 11 Cynghanedd groes o gyswllt neu n wreiddgoll.
- 13 Diwygiwyd er mwyn gwella’r ystyr ac er mwyn sicrhau bod hyd y ll. yn rheolaidd.
- 19 Y mae’n ddoniol ar un ystyr mai diwygio *yfferen* yn *yfferen* sydd yn sicrhau bod yr hyd yn rheolaidd a bod y ll. yn ystyrllon.

20 **crwys** E.un. yma, gw. GPC 604, 618 d.g. *croes, crwys*.

megis Y mae *fegis*, darlleniad y llsgr., yn ffurf amr. ar *megis*, gw. GPC 2405, ond *megis* yw'r ffurf yn Pen 67 yn llaw'r bardd ei hun.

Croes Naid Tlws a oedd yn eiddo i dywysogion Gwynedd ac a feddianwyd gan frenin Lloegr yn dilyn marwolaeth Llywelyn ein Llyw Olaf, gw. GPC 604; T.H. Parry-Williams, 'Croes Naid', *Casgliad o Ysgrifau T.H. Parry-Williams* (Llandysul, 1984), 367–401.

23 **cwynan'** Y mae'r gynghanedd yn galw am *cwyn* yn safle'r goben. Ymddengys fod y bardd yn rhag-weld ei farwolaeth ac yn disgrifio'r paratoadau ar gyfer ei angladd, a phriodol felly yw'r f. *cwyno*. Nid yw *amcwy*, *amcwyo* yn ffurfiau hysbys, ac o'r herwydd rhaid gwrthod darlleniad y llsgr., sef *amkwyan*. Y mae *amcwyn* yn ffurf amr. ar *ancwyn* 'gwledd; danteithfwyd', gw. GPC² 265. Bernir felly mai 'arlwyo gwledd' fyddai ystyr y f. *amcwyno*, ond diau mai glynu wrth y dehongliad cyntaf sydd orau.

26 Cynghanedd groes o gyswllt sydd yn cynnwys bai caled a meddal *-d* = *-d h-*. Nodir yn GPC 1163 bod *ed* (ond nid *yd*) yn ffurf amr. ar *hyd*. Gwelwyd deg o linellau croes o gyswllt ewinog rheolaidd yn y canu, gw. 'Cynghanedd' tt. 41–2.

88

Rhan olaf yr awdl hon i ŵr o'r enw Tomas sydd bellach ar glawr. Diogelwyd darn arall ar yr un mesur i Domas ap Siancyn ap Madog o'r Slwch yn Pen 67, ac efallai mai ef a gyferchir yn y gerdd hon drachefn, gw. cerdd 41. Torrwyd nifer o ddalennau yn dilyn td. 174 a diau eu bod yn cynnwys dechrau'r awdl, gw. Peniarth MS. 67, v. Erys rhimyn cul ar dt. 174a, 174b, sydd yn cynnwys 30 llinell ond llythrennau cyntaf 174a a llythrennau olaf 174b yn unig sydd yn ddarllenadwy bellach. Nid oes digon yma i allu dyfalu pa fesur neu fesurau a ddefnyddiwyd. Y mae'r wyth llinell gyfan sydd yn cloi'r awdl ar d. 175. Ni chofnodwyd enw'r bardd ar ddiwedd y gerdd ond cynigir mai Hywel Daf i a'i lluniodd, gw. 'Cerddi Ansic' td. 49. Anwybyddodd John Davies, Mallwyd, y darn hwn pan oedd yn cofnodi gwaith y bardd yn Pen 99 (fel y gwnaeth gyda'r darnau eraill, gw. cerddi 90–1) am ei fod yn ddiennw. O'r herwydd nis ceir yn Pen 101 nac yn CM 12 ychwaith.

Pedwar cwpled ar fesur cyhydedd hir sydd yma. Trafodir y defnydd a wna Hywel Daf i o'r mesur yn nodyn brig cerdd 41. Os defnyddiwyd yr un mesur yn y rhan a gollwyd, y mae'r geiriau unigol ar ddiwedd y llinellau yn dangos nad oedd y cwpledi yn odli.

3 **adail** Ffurf ferfenwol ac amr. ar *adeilio*, gw. 1.61–2n.

5 **delw** Rhaid cyfrif hwn yn air deusill.

6 **maenorydd** Yr ystyron a roddir i *maenor* yn GPC 2310 yw ‘uned diriogaethol a gweinyddol yng Nghymru gynt a gynhwysai nifer amrywiol o drefi ... yn dros. ardal (gynhyrchiol), bro, gwlad; dyffryn, dôl; maenoriaeth, arglwyddiaeth, tiriogaeth, ystad diriog, treftadaeth, etifeddiaeth, fferm, darn o dir; maenordy, plas, plasty, tŷ mawr yn y wlad, gwlaty, ffermdy’.

89

Ymddengys fod y cywydd yn anghyflawn. Ysgrifennodd y bardd ei enw ar y diwedd a theg tybio mai rhan olaf y cywydd a ddiogelwyd a bod rhyw ugain llinell yn eisiau. Er bod sawl dalen wedi eu colli o'r llawysgrif ni chollwyd dalen yn y rhan hon, gw. Peniarth MS. 67, v. Nid enwir y gŵr ond enwir Mallt, ei wraig ond odid, yn llinell 24. Awgryma'r bardd yn llinell 31 ei fod wedi canu clodydd hynafiaid y ddau ohonynt. Am fod cyn lleied o wybodaeth am y teulu yn y cywydd ni ellir bod yn sicr o gwbl ynghylch y sawl a gyferchir, ond y mae'n bosibl fod Hywel Dafi yn cyfarch Mallt, merch Maredudd ap Morgan ap Dafydd Gam, gw. WG1 104; WG2 214. Ail wraig Maredudd ap Morgan oedd Margred, mam Mallt, ac yr oedd hi yn ferch i Domas ap Gwilym ap Ffyllib ap Tomas, gw. WG1 424; WG2 776. Gwraig Tomas ap Gwilym oedd Tudful, merch Gwilym Fychan ap Seisyllt Fychan o Gwernvale yng Nghrucywel (Tir Gronw Foel yw'r ffurf Gym. yn ôl Theophilus Jones yn HCBrec ii, 459; hefyd SBPN 88). Crybwyllir Crucywel yn y cywydd ynghyd â (*g*)*wern Mallt* (llau. 23, 24). Ymddengys fod Gwernvale wedi dod i feddiant merched Tomas ap Gwilym, sef Margred a'i chwaer, ond nid oes tystiolaeth fod Mallt, merch Maredudd a Margred, wedi bod yn gysylltiedig â'r cartref. Gŵr Mallt oedd Watgyn ap Tomas ap Siôn ap Watgyn, gw. WG1 933; WG2 1760.

3–4 Perthyn blas brudiol i'r ll. *E fydd byd newydd yn nes*, ond ceir sawl cyfeiriad yn y canu at fewnforio gwin, gw. 31.49–50 *Rhaid iddi 'mhob rhyw dyddyn / Ugain llong i gywain llyn*, 45.29–30 *Yfais lyn, dywyn diwall, / O'r tair llong o'r tŷ i'r llall*.

5 **beiddi** Ffurf l. *baedd* ‘twrch, yn ffig. am ymladdwr dewr’ sydd yn cynnig yr ystyr orau, gw. GPC² 559. Gellid 2 un.pres.myn. naill ai *baeddu* neu *beiddio*, ond wedyn disgwyliid treigladau i wrth. y f., gw. Treigladau 203.

6 **naid** Dilynwyd y diwygiad a gynigiwyd yn Pen 99; *nid* a gofnodwyd yn Pen 67.

ôl ‘Ôl-fyddin’, gw. GPC 2640–1. Dim ond herio prif gorff byddin y gelyn a wna'r gwrol hwn.

8 *n wreiddgoll* (ond gw. ll. 14n).

9 **dechrau'r gwarau** Y mae Pen 67 o blaid odl lafar *gad y ddechre r gware yr gwyr*, ond dilynwyd Pen 99. Y mae'r gynghanedd sain yn galw am y ffurf *gwarae* yn 34.3 *Y mae yn gwarae â'r gwyr*, 37.33 *Cael y mae'r gwarae gyda'r goron*.

14 Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll.

90

Cofnodwyd y pedwar cwpled yn Pen 67 yn y bwllch ar y ddalen ar ddiwedd cerdd 14. Nid yw enw Siancyn ap Siancyn ap Tomas (ll. 3) i'w weld ym mynegeion WG1/WG2. Canodd Hywel Dafî gywydd moliant i Domas ap Siancyn Fychan o Aberysgir, gw. cerdd 13. Yr oedd Siancyn Fychan yn fab i Siancyn ond nid oedd yn wŷr i Domas, gw. WG1 88. Perthyn Siancyn Fychan i genhedlaeth 12, sef y rhai a aned oddeutu 1400. Dewisodd John Davies, Mallwyd, beidio â chopio'r darn hwn ond bernir mai eiddo Hywel Dafî ydyw, gw. 'Cerddi Ansicr' td. 51.

Pedwar cwpled ar fesur cyhydedd hir sydd yma, ac ar y defnydd a wna'r bardd o'r mesur, gw. nodyn brig cerdd 41. Unwaith eto ceir 5:5:5:5 sillaf ym mhob cwpled, a bodlonir ar gyfatebiaeth o dan yr acen yn ail fraich pob cwpled (er bod ll. 8 yn ffurfio cynghanedd gyflawn y tro hwn).

1 **carw** Rhaid ei gyfrif yn air deusill.

Oswallt Brenin Cristnogol Northumbria a laddwyd ger Croesoswallt yn ôl traddodiad yn 642 mewn brwydr yn erbyn y pagan Penda, gw. WCD 514; ODS 304–5. Tebyg mai hwylustod cynganeddol sydd yn esbonio amllder y cyfeiriadau yn y farddoniaeth gaeth at ei wallt, a gw. ymhellach GHD 23.9n *Neu bryd Oswallt manwallt mwyn*.

2 **Ulltud** Adroddir llawer o'r traddodiadau a gysylltir â'r sant hwn yn y cywydd a ganodd Lewys Morgannwg iddo, gw. GLMorg cerdd 100 a'r cyfeiriadau yno. Morgannwg oedd canolbwynt ei weithgarwch ac yn y sir honno y mae'r rhan fwyaf o'r eglwysi a gysegrwyd iddo. *Ulltud*, nid *Illtud*, yw'r ffurf a arferir gan Hywel Dafî, Lewys Glyn Cothi a Lewys Morgannwg. Felly hefyd gan Huw Cae Llwyd, gw. HCLI XLV.27 *Teilo, Illtud, Seint Elen*, ond *vlldut* yw darlleniad Pen 54, sef yr unig ffynhonnell a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r golygiad.

6 **gweywyr** Y mae *gweywyr* a *gweywyr* yn ffurfiau ll. *gwayw*, gw. GPC 1606.

7 **achen** 'Llinach, hil, tylwyth', gw. GPC² 18. Dyma'r unig engh. yng nghanu'r bardd.

91

Dau gwpled ar fesur cyhydedd hir sydd yma ac fe'u cofnodwyd yn y bwllch ar ddiwedd cerdd 43. Ar nodweddion y mesur yn y darn hwn ac mewn darnau eraill a ddiogelwyd yn llaw'r bardd yn Pen 67, gw. nodyn brig cerdd 41. Ymddengys mai gŵr o'r enw Dafydd Llwyd a gyferchir ond nid ydyw ymhlith noddwyr hysbys Hywel Dafï. Y mae'r darn yn ddienw yn Pen 67 ac nis copiwyd yn Pen 99, ond bernir mai gwaith Hywel Dafï ydyw, gw. 'Cerddi Ansicr' td. 49.

4 Naw sillaf sydd yn y ll.

92

Dau gwpled ar fesur cywydd sydd yma ond wrth enw *Huw Davi*. Dewisodd John Davies gopïo'r darn hwn.

3 **Cystennin** Cystennin Fawr, ymerawdwr Rhufain a fu farw yn y flwyddyn 337, a mab y Santes Helena, gw. Atod.VI.6n; ODCC³ 405–6.

93

Seiliwyd y cywydd ar hanesion a oedd yn hysbys i'r bardd am Enlli a'r saint a oedd yn gysylltiedig â'r ynys. Dechreuâ'r bardd trwy fynegi ei gred fod claddedigaeth yn Enlli yn fodd o sicrhau *enaid glân* (ll. 3) neu *enaid rhydd* (ll. 40). Yna â rhagddo i sôn am ddau sant a aeth i Ynys Enlli, ond nid enwir hwy. Sonnir am ddau sant anhysbys a aeth i Enlli yn y testun 'Buchedd Llawddog', gw. LBS iv, 426–8 *Ynys y sydd yny mor a elwir Enlli ac iddi y doeth dau vanach or Dehau y henwau Duw ai gwyr*. Efallai mai Hywyn a'i gymar, Lleudad, yw'r ddau dan sylw, neu Hywyn a'i dad, er mai Hywyn yn unig a enwir. Yn yr adran nesaf adroddir am rai o'r gwyrthiau y dywedir i Leudad eu cyflawni yn Enlli. Ymddengys na chafodd lawer o groeso gan y mynachod eraill, ond newidiodd hynny wedi iddo gyflawni dwy wyrth. Yn gyntaf llwyddodd i wahanu'r llaeth a oedd wedi ei gymysgu â dŵr mewn ffynnon (llau. 15–20), er nad yw'r disgrifiad o'r digwyddiad hwn yn un clir iawn yn y cywydd. Yn ail, llwyddodd i rannu baglau'r canonwyr a oedd wedi eu hasio'n un (llau. 23–36). Awgrymir yn llinellau 21–2 fod Lleudad wedi darparu digonedd o fwyd ar gyfer duwiolion yr ynys. Breiniau'r ynys yw pwnc yr adran nesaf. Dywedir bod pardwn rhag anghysur y purdan wedi ei warantu gan gyfres o babau i'r sawl a deithiai i'r ynys, ynghyd ag addewid o enaid rhydd (llau. 37–40). Cyfeirir hefyd at un o dri deisyfiad Lleudad cyn iddo farw (ond heb ei enwi), sef na fydd enaid y sawl a gleddir ar dir a daear Enlli yn mynd i uffern (llau. 41–4). Cyfeirir at yr amllder o

esgryn sydd i'w gweld, prawf gweledol o sancteiddrwydd yr ynys, cyn canu clodydd yr abad Ieuan. Cyffelybir Ieuan i nifer o saint, ond nid pob un a oedd yn gysylltiedig ag Enlli.

Diogelwyd un testun yn llaw Thomas Wiliems yn Pen 225, llawysgrif sydd yn cynnwys casgliad o ddarnau rhyddiaith yn bennaf, a llawer ohonynt yn ymwneud â'r saint brodorol. Rhagflaenir cywydd Hywel Dafî (a dau gywydd arall sydd yn ymwneud ag Enlli, gan Domas Celli a Hywel Rheinallt) gan ddarn yn Lladin, Cymraeg a Saesneg, *Medhianae neu'r pardynae ynys Enllif*, gw. RWM i, 1051. Y mae J 140 yn cyfateb yn glòs i destun Thomas Wiliems. Y mae sawl darlleniad llwgr yn y pum copi sydd yn llaw Llywelyn Siôn, er enghraifft troes *godro* yn *ordro* yn Ll1st 47 a Ll1st 134 (ll. 17), ac yn rhyfedd iawn parodd y gair *pererinion* gryn ddryswch iddo yn llinell 52. Collwyd y ddalen a oedd yn cynnwys dechrau'r cywydd yn LIGC 21290E. Ceir copi o'r cywydd hwn (yn seiliedig ar destun Card 5.44) yn LBS iv, 436–7, ac fe'i dilynir yno gan gywydd o waith Tomas Celli i'r ugain mil o saint yn Enlli.

Ceir golygiad o'r cywydd yn M. ap Huw, 'A critical examination of Welsh poetry relating to the native saints of North Wales (c. 1350–1670)' (D.Phil., Oxford, 2001), cerdd XIII. Argraffwyd y cywydd yn *Llen Cymru*, gol. T.G. Jones (Caernarfon, 1922), 41–3. Paratowyd golygiad o'r cywydd hefyd gan E.S. Roberts, yn rhan o gyfrol arfaethedig o ganu beirdd y bymthegfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg. Gwelir y golygiad hwn ar ffurf proflen yn LIGC 12261C, rhif 25.

Trafodir canu'r beirdd i'r ynys a'r cyfeiriadau at Enlli ym mucheddau'r saint yn TWS 296–300 a chan B.F. Roberts, 'Enlli'r Oesoedd Canol' yn *Enlli*, gol. R.G. Jones a C.J. Arnold (Caerdydd, 1996), 21–48. Adwaenid Enlli wrth yr enw *Insula Sanctorum*, a chredid bod tri ymweliad â'r ynys yn gyfwerth ag un i Rufain.

1–2 Dywed y bardd yn y cwpled cyntaf mai ei fwriad yw ymweld ag Ynys Enlli ac yn y gerdd nesaf disgrifia ei ymweliad â Santiago. Ar enbydrwydd y fordaith y mae'r pwyslais yn y gerdd honno. Ni sonnir am beryglon y daith i Enlli. Yr arfer oedd hwylio o Borth Mair yng nghesail Uwchmynydd, ac er mai rhyw filltir sydd yn gwahanu Enlli oddi wrth y tir mawr yr oedd croesi'r Swnt mewn cychod bregus yn gryn antur i'r pererinion, gw. B.F. Roberts, 'Enlli'r Oesoedd Canol' yn *Enlli*, gol. R.G. Jones a C.J. Arnold (Caerdydd, 1996), 36–8.

2 **i ar** *oddi ar* sydd yn yr holl lsgrau., ond digwydd *i ar* mewn cerddi eraill a ddiogelwyd yn Pen 67, a mabwysiadwyd y ffurf honno, gw. 1.23n.

4 **tir Ieuan** Gall gyfeirio at Ieuan, y Preutur Siôn neu at Ieuan, abad Enlli, a enwir yn ail ran y cywydd, gw. 59.30n a ll. 65n.

6 **Hywyn** Ffurfiau eraill ar ei enw yw Hefin, Honwyn, Hewyn a Howyn, gw. LBS iii, 263–5 a'r 'Amrywiadau'. Yn Enlli, yn ôl traddodiad, y

claddwyd ei dad, Gwyndaf Hen, ac y mae yn *lle ei dad* (ll. 5) yn ateg i hyn, gw. LBS iii, 228–9. Ymddengys mai yn ei gwmmi ef yr aeth Lleudad i Enlli.

7 **dau** Diau mai Hywyn a'i dad oedd y ddau hyn yn hytrach na Hywyn a Lleudad. Yr oedd y ddau hyn yn rhagori ar bob sant arall a fudodd i Enlli. Am ddehongliad arall, gw. y nodyn brig.

cofiaeth ‘Cof, cofnod; cofiant, hanes’, gw. GPC 537. Y cwpled hwn yw'r engh. gynharaf a ddyfynnir. Llst 47 yn unig o blith llsgrau. Llywelyn Siôn sydd yn rhoi *kyfiaith* i. ‘o'r un iaith, yn siarad yr un iaith’; ii. ‘pobl o'r un iaith, cydgenedl’, gw. GPC 693.

cwfaint Ffurf amr. ar y gair hwn yw *kovaint* sydd yn digwydd yn llsgrau. Llywelyn Siôn.

9–10 Cofnododd Peter Bailey Williams y cwpled hwn, a llau. 45–8, yn ei lyfr nodiadau yn Gwyn 12, 102. Dilynir darlleniadau llsgrau. Llywelyn Siôn. Fe'u gwelir hefyd yn llaw Dafydd Ddu Eryri yn LIGC 325E, 88. Anfonodd Peter Bailey Williams destun o'r cywydd yn ei grynswth at Iolo Morganwg gan esbonio ei fod yn casglu deunyddiau a fyddai'n sail ar gyfer astudiaeth ar Enlli, a chan ofyn i Iolo gyfieithu'r cywydd i'r S., gw. CIM llythyr 361. Nid oes tystiolaeth i Iolo ymateb i'r cais. Addasodd Peter Williams ryw gymaint ar ei destun ond ymddengys mai CM 12 oedd ei gynsail.

11 **gyrru hawl** ‘Dod â chwyn neu achos cyfreithiol yn erbyn rhywun’ yw ystyr *gyrru hawl*, gw. GPC 1797–8 lle y cyfeirir at y cwpled hwn, ond efallai mai ‘anfon cais; gosod prawf’ yw'r ystyr orau yma fel yn ll. 17, gw. *ib.* 1828 d.g. *hawl*. Y mae'n amlwg na chroesawyd dyfodiad y ddau sant gan y saint a oedd eisoes wedi ymsefydlu yn Enlli.

12 **Lleudad** Y mae'r gynghanedd yn tystio i ddilysrwydd y ffurf hon yma ac yn ll. 33, ond *Llawddog* yw'r ffurf yng nghywydd Lewys Glyn Cothi i'r sant, gw. GLGC 9.44 *ar Lawddog wrol addwyn*. Trafodir ei yrfa yn LBS iii, 369–74 lle y'i gelwir yn Lleuddad, a cheir ei fuchedd yn yr atodiad yn LBS iv, 426–8. Gw. hefyd TWS 168–73. Pwysleisir ei gyswllt ag Enlli yn y cywydd gofyn a ganodd Hywel Rheinallt, gw. ll. 65n; CTC 120.11–12 *Enwog wyf yn eu gofyn, / Abad tir Lleuddad yn Llŷn*.

13–14 **pob un ... / Oedd fud** Nid yw'r manylyn hwn yn ‘Buchedd Llawddog’.

15–16 Cynigir yng ngolygiad E.S. Roberts, LIGC 12261C, rhif 25, y darlleniad *Gweddiasan*, *gwiw ddeusaint, / I'w lles ar y llu o saint*. Y mae hwn yn ddarlleniad ystyrion sydd yn dilyn llsgrau. Llywelyn Siôn, ond bernir bod *gwahodd ... i'w llŷs* yn cydio yn well wrth y cwpled sydd yn dilyn.

17–18 **godro ... / Buwch** *Oddyno y doeth lle yr oedd phynnon ac y*

- Llymerodd* [cywirer: *cymerodd*] *phioled o laeth ac y bwriodd ir phynnon ac yno y dosbarthodd cewddoc* [cywirer: *Llewddoc*] *y llaeth o ddi wrth ydwfyr yn rhydd ac y phaelodd ar y lleill y ddosbarth*, gw. LBS iv, 427. Adroddir am y digwyddiad hwn yn y cywydd a ganodd Lewys Glyn Cothi i'r sant, gw. GLGC 9.19–24.
- 20 Gwahanu'r llaeth a'r dŵr yw pwnc y cwpled, gw. llau. 17–18n. O ddilyn llsgrau. Llywelyn Siôn ceid *Yn llaeth yr aeth ar ei llo* ac er bod yma gynghanedd draws gywir efallai mai cynghanedd sain a fwriadwyd. Diau mai eb. yw *gro*, gw. GPC 1533.
- 21–2 **Bwyd ... / ... Galelia** Nid adroddir yr hanes hwn yn 'Buchedd Llawddog'. Marc a Mathew sydd yn cyfeirio at fwydo torf o bedair mil, a hynny mewn lleoliad amhenodol (gw. Marc 8.1–9; Mathew 15.32–9), tra cyfeiria'r pedwar efenglydd at wyrth 'Bwydo'r pum mil', a hynny mewn *lle anghyfannedd*. Crybwyllir yr olaf yn 79.49–50n. Lleolir y digwyddiad ger Bethsaida yn Luc 9.10, treflan a oedd o bosibl ar lan Llyn Galilea, ac nid nepell o'r safle lle yr ymuna afon Iorddonen â'r llyn, gw. GB 236. Adroddir am Grist yn cyflawni gwyrrh arall trwy droi'r dŵr yn win mewn priodas yng Nghana yng Ngililea, gw. Ioan 2.1–11. Ar Lyn Gennesaret, sef Llyn Galilea, y cafwyd helpa dda o bysgod ar achlysur arall, gw. Luc 5.1–11.
- 23–36 *Yno y kenfigennodd Escobiaid Cymry wrtho ef. Am hynny yr iassoedd y bagleü yn vn fagyl yn y lle a elwir yr awr honn brynn y bagleü. Yno y doeth Llewddoc ai ganonwyr ai gloch yny law ac y croesses hwynt ac yno yr aethant yn rhydd*, gw. LBS iv, 427. Gwyddai Lewys Glyn Cothi, yntau, am y digwyddiad hwn, gw. GLGC 9.13–18.
- 25 **twf Foesen** Y wialen ryfeddol a feddai Moses. Hon a'i galluogodd i hollti'r Môr Coch fel y gallai ef a'i bobl ddianc rhag gwŷr yr Aifft: Ecs 14.16 *A chyfod dithau dy wialen, ac estyn dy law ar y môr, a hollta ef; a meibion Israel a ânt trwy ganol y môr ar dir sych*. Cysyllta gwialen Moses hefyd â'r hanes am y tri hedyn a roes Seth o dan dafod ei dad, Adda: *Ar gwyal hynny a drigassant o eneu adaf hyd at Noe. Ac o Noe hyd at vream, ac o vream hyd at voessen*, gw. HMSS 245 ac ymhellach 99.1–2n.
- 26 **prudd** 'Doeth; meddylgar; difrifol, sobr, dwys', gw. GPC 2912–13. Diwygiwyd *pridd* sydd yn digwydd yn yr holl llsgrau. Tebyg i'r gair *prudd* gael ei gamdeall ar lafar yng nghyd-destun y cwpled sydd yn sôn am dwf pren Moses.
- 32 **treth** 'Tâl' ond yma yn drosiadol am ddisgwyliadau afresymol y saint a drigai yn Enlli wedi i Leudad ddod atynt.
- cyrff hynt draw** Nid yw'r ymadrodd yn gwbl ystyrion, ond digwydd yn yr holl llsgrau. ac y mae'r gynghanedd yn gywir.
- 37–44 Gwnaeth Lleudad dri dymuniad, sef i. y byddai i'r brodyr farw yn ôl

trefn eu hoedran; ii. na châi enaid y sawl a gladdwyd yn Enlli fynd i uffern; iii. na châi enaid y sawl a gadwai freiniau Enlli fynd i uffern. Yr ail ddymuniad a ddisgrifir yn yr adran hon, ac awgrymir bod y drefn wedi derbyn sêl a bendith cyfres o babau. Mydryddir y tri deisyfiad yng nghywydd Lewys Glyn Cothi i'r sant, gw. GLGC 9.37–50.

41 **medrod** Dosbarthwyd yn yr Eirfa d.g. *medrod*, a cf. *medrodau* ll. 60; ond y mae *medrod* a *bedrod* yn ffurfiau cysefin, gw. GPC 2398, GPC² 611.

47–8 Bernir mai'r frawddeg yw 'Cyfeilles yw cafell saint i faddeuaint'.

48 *n* wreiddgoll.

49 **trofad** Anodd esbonio *trafad* y llsgrau. Diwygiwyd yn betrus yn *trofad* 'troad, trawsnewidiad; tramwy', gw. GPC 3614, er mai i ail hanner yr 16g. y perthyn yr engh. gynharaf.

50 **Brytaen erw Brytanorwm** Yn betrus iawn y mabwysiadwyd y darlleniad hwn. Yn Pen 225 y diogelwyd *Brytanorwm* (*brytaen wrwm* sydd gan Lywelyn Siôn); cf. y modd y rhoddir arlliw Lladinaidd ar yr e. lle *Brechonia* yn y cywydd i Gynog yn 95.2n *Cynog o wlad Frecania*. Diau fod Pen 225 wedi diogelu'r darlleniad cywir yn y fan hon. Dilynwyd Llywelyn Siôn trwy fabwysiadu *Brytaen erw* yn rhan gyntaf y ll. Anodd credu na fyddai Thomas Wiliems wedi adnabod *Brytaen* ac y mae *bryd tan eirw* Pen 225 yn awgrymu nad yr e. lle sydd ei angen. Ategir y darlleniad hwn gan Llŷst 47. Mater arall yw dehongli'r geiriau. Gellid *bryd* 'anwlyd', gw. GPC 338. Nid yw *geirw* 'crych ar ddŵr, tonnau; ffrwd', gw. GPC 1388, yn taro. Mwy ystyrllon fyddai ffurf l. *erw*, ond *erwau*, *erwi*, *erwydd* yw'r ffurfiau a restrir yn *ib*. 1238–9. O dan yr amgylchiadau bodlonwyd ar fabwysiadu'r ddau e. lle.

53 **esgyrn ... gwisgwn** Ensynnir bod y pererinion yn rhoi asgwrn ar eu gwisgoedd yn union fel y byddai'r pererinion a âi i Santiago yn gwisgo cragen. Cf. ymhellach 102.37–8n.

56 **tawlbwrdd** Math o chwarae ar fwrdd, gw. GPC 3458 a 65.19n d.g. *tabler*. Ceir yma ddarlun byw o'r creiriau a'r delwau yn eglwys yr abaty megis y darnau a ddefnyddid wrth chwarae tawlbwrdd. Neu efallai fod yr ynys gyfan, am ei bod mor wastad, yn cael ei chyffelybu i fwrdd chwarae.

tâl byrddau Rhannwyd y ddwy elfen; os gair cyfansawdd disgwylid *talfyrddau*, gw. GPC 3430 d.g. *talfwrdd* 'bwrdd uchel (mewn neuadd)'. Nid yw'r gynghanedd yn caniatáu'r ffurf hon.

60 **modrydaf** 'Brenhines haid o wenyn; yr haid wenyn a berthynai i'r cwch yn wreiddiol; yn ffig. pennaeth, arweinydd', gw. GPC 2472 lle y dyfynnir y cwpled hwn. Y mae'n bosibl nad oedd Llywelyn Siôn yn gyfarwydd â'r gair am ei fod yn arfer y ffurfiau *mydrodaf*, *medrydaf* a

myddrodaf. Os oedd y gair yn un cyfarwydd iddo, y mae'n bosibl iddo fabwysiadu *mêl* (am *fal*) am fod hwnnw yn perthyn i fyd y gwenyn. Cyffelybir amllder y beddrodau yn Enlli i wenyn yn gwau o gylch brenhines yr haid.

- 65 **Ieuan** Diogelwyd tair cerdd i abadau Enlli: i. cywydd dychan (?anghyflawn) gan Lywelyn ap Gutun, gw. GLIGt cerdd 16; ii. awdl ddychan gan Ddeio ab Ieuan Du, gw. GDID cerdd 16; iii. cywydd gofyn bwâu gan yr abad a ganodd Hywel Rheinallt dros ddau ŵr o Faelor, gw. CTC cerdd 120. Prin yw'r wybodaeth am abadau Enlli yn y 15g., ond gwyddys bod Dafydd ap Maredudd yn abad yn 1448 a bod rhyw 'Robertus', Robert ap Maredudd o bosibl, yn gwasanaethu erbyn 1465, gw. CTC 523; *The Heads of Religious Houses England and Wales III 1377–1540*, ed. D.M. Smith (Cambridge, 2008), 369.
- dwywol** Diwygiwyd *dwyfol* y llsgrau. yn *dwywol* er mwyn osgoi'r *f* led-lafarog o dan yr acen yn y brifodl. Digwydd *dwywol* yn 6.55 *Yng nghôr Duw mae 'ngharw dwywol*.
- 66 **canon ŵr** 'Canon, aelod o gabidwl eglwys gadeiriol; un o nifer o glerigwyr sydd yn cyd-fyw ac yn trefnu eu bywyd yn unol â rheolau neu ganonau eu cymdeithas' yw *canonwr*, gw. GPC 417.
- 67 **priodorion** Ymddengys nad oedd y copiŵyr yn gwbl sicr ynghylch y gair hwn. Diwygiwyd *pridorion* Pen 225 a mabwysiadu ffurf l. *priodor* 'iawn berchennog, meistir tir' ond hefyd 'brodor, preswilydd', gw. GPC 2898. Gellid i. *brodor*, ll. *brodorion*, 'un genedigol o ryw wlad', gw. *ib.* 331 (ond i ddiwedd yr 16g. y perthyn yr engh. gynharaf a ddyfynnir); ii. *prior*, ll. *prioriaid*, *priorau*, 'uchel swyddog mewn tŷ crefydd neu urdd', gw. *ib.* 2898–9; iii. *pridiwr*, ll. *pridwyr*, 'un sy'n trosglwyddo tir trwy brid', gw. *ib.* 2883. Fodd bynnag, yr Abad Ieuan a gyferchir yn yr adran hon a byddai e.un. yn fwy addas, er y golygai hynny newid y ll. yn sylweddol. Rhaid cyfrif *priodorion* yn air tair sillaf.
- 69 **Dewi** Nid oes cyswllt amlwg rhyngddo ac Enlli, ond sylwer bod Tomas Celli yn ei gywydd ef i Enlli yn enwi pedwar sant, yn cynnwys Dewi, gw. LBS iv, 437–8 *pedwar di alar dolef / patrwn yw heb poetri nef / llewdad daunawlad jn oedd / a Phadarn gwr hoff ydoedd / Dewi ennill dewiniaith / Dyrdan ny rann yn benn raith*.
- 70 **Durdan** Awgrymir yn LBS ii, 344–5 ei fod yn un o gymdeithion Cadfan a'i fod wedi ymsefydlu yn Enlli. Ni ddiogelwyd tystiolaeth sydd yn ategu'r traddodiad hwnnw, ond y mae'r cywydd hwn yn awgrymu bod cof am gyswllt y sant ag Enlli, a cf. ll. 69n.
- bwriad dewrder** Gellid naill ai i. 'amcan' neu ii. 'cwmp'. Os y cyntaf, bwriad gwreiddiol y sant oedd dilyn gyrfa fel milwr, fel Derfel a enwir yn ll. 74. Os yr ail, byddai Durdan yn peri cwmp neu fethiant i wŷr arfog glew.

- 71 **Daniel** Ffurf ar *Deiniol*, gw. 71.72n.
- 72 **Mordëyrn** Mewn cywydd gan Ddafydd ap Llywelyn ap Madog, sonnir am y modd y teithiodd Mordeyrn i Enlli ar ei farch dros y tonnau, gw. DLIM cerdd 3; LBS iii, 502–4; TWS 193–5. Nid oedd Llywelyn Siôn yn gyfarwydd â'i enw.
- 73 **Beuno** Fe'i gelwir gan Rys Goch Eryri yn *Beuno Geimiad*, gw. GRhGE 14.103, a chan fod Hywel Dafï yn crybwyll ei *benwn*, sef 'baner, ystondard', efallai fod cof amdano yntau yn dilyn gyrfa filwrol yn ystod ei ieuenctid. Yng Nghlynnog y claddwyd ef ac y mae ei ffynnon o fewn tafliad carreg i'r eglwys, gw. LBS i, 208–21 ond gthg. WCCR² 496–7; gw. hefyd Gwyn 12, 101–2 lle y rhestrir enwau'r rhai a gladdwyd yn Enlli, a Beuno yn eu plith. Yr oedd yn un o'r 'saith gefnder sant' y dywedir iddynt fynd i Rufain i weddio am law, gw. LBS iv, 383–4. Enwir tri o'r saith yn y cywydd hwn, sef Dewi, Beuno a Deiniol.
- 74 **Derfel ap Hywel** Derfel Gadarn, mab Hywel ab Emyr Llydaw, gw. LBS ii, 333–6; TWS 206–9; hefyd W.G. Evans, 'Derfel Gadarn—a celebrated victim of the Reformation', *Cylchg CHSFeir xi* (1990–3), 137–51. Nodir yn LBS iddo deithio gyda Chadfan i Enlli, ond ar sail deunydd a gynullwyd gan Iolo Morganwg yr honnir hynny.
- heb** 'Ochr yn ochr â', gw. GPC 1830.
- 75 **gwirion** Yn Llst 47 y digwydd y gair hwn, ac fe'i hychwanegwyd ar ochr y ddalen yn LIGC 21290E. Diau mai ffrwyth camgopïo yw *gwerin* y llsgrau. eraill am fod y gair hwnnw yn digwydd yn ail fraich y cwpled.
- 76 **gwerin** Dyfynnir un engh. yn GPC 1643 d.g. *gwerin* lle y cyfleir yr ystyr 'clas (mynachlog)'. Yn ddadlennol daw'r engh. honno o 'Buchedd Llawddog' a chyfeiria at wŷr crefyddol Ynys Enlli.
- 78 **gweithred drwg** Gall *gweithred* fod yn eg. yn ogystal ag yn eb., gw. GPC 1624–5.

Perthyn y cywydd hwn i'r dosbarth o gerddi pererindod a drafodwyd yn T. Roberts, 'Cywyddau pererindod', *Traethodydd*, 1944, 28–39. Yr oedd cryn dynfa i Santiago neu Sain Siâm yng ngogledd-orllewin Sbaen. Un arwydd o boblogrwydd y sant a'i gwlt oedd fod rhagor na phedwar cant o eglwysi wedi eu cysegru iddo yn Lloegr, ac yr oedd cyfran dda ohonynt yn gysylltiedig â'r bererindod i Sbaen, gw. E. Mullins, *The Pilgrimage to Santiago* (Newton Abbot, 1975), 59. Ar sail y manylion sydd yn y cywydd hwn, gellir dweud i'r pererinion hwylio o Ddinbych-y-pysgod yn sir Benfro er mwyn ymweld â beddrod Iago a derbyn enaid rhydd. Ar y teithiau i Santiago a'r dewisiadau wrth deithio dros fôr a thir, gw. G.H. Jones, 'Celtic

Britain and the Pilgrim Movement', Cy xxiii (1912), 244–74. Ymddengys mai i'r Grwyn (ll. 37), sef La Coruña yng ngogledd-orllewin Sbaen, yn hytrach nag i Bordeaux yn Ffrainc, yr hwyliodd y pererinion ar yr achlysur hwn. Golygai hynny siwrnai gymharol fer o ryw hanner can milltir dros dir i Santiago, ond wrth reswm byddai'r fordaith yn hwy. Cymerodd y fordaith gyntaf fis, yn ôl tystiolaeth y bardd, ac felly hefyd y fordaith tuag adref ond bod honno yn ymddangos yn hwy o lawer. Tuag adeg y Pasg yr ymgwymerwyd â'r bererindod. Yr oedd y bardd ei hun ymhlith y teithwyr a hyd y daith tuag adref sydd yn ei boeni fwyaf. Geilw ar Gynog, Brynach, Meugan ac Ilid i hwyluso taith y llong sydd, fe ymddengys, yn barotach i ogwyddo i gyfeiriad Ffrainc nag i gyfeiriad Lloegr. A barnu wrth dystiolaeth llinellau 27–36 (ond ni ddiogelwyd y cwpledi hyn ym mhob copi), yr oedd ymhlith y pererinion wŷr a gwragedd o arglwyddiaethau Morgannwg a Gŵyr, o Wynedd, o Frycheiniog, o Geredigion ac o sir Gaerfyrddin.

Gellir cymharu'r cywydd hwn â'r ddau gywydd a ganodd y bardd Gruffydd Gryg pan deithiodd yntau i Santiago, gw. GGGr cerddi 6–7. Ymddengys fod y bardd ar ei ffordd i Sbaen yn 'Y Lleuad' (cerdd 6), a gresyna fod y lleuad yn dwyn i'w chanlyn wynt a glaw sydd yn peri bod y llong yn gwyro oddi ar ei chwrs. *Dwg unllong i deg iawnllwybr* (ib. ll. 65) yw ei ddymuniaid wrth ddeisyf tywydd gwell.

Y mae gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y fersiwn o'r cywydd a gofnodwyd yn Stowe 959 ar y naill law a'r pedwar copi yn llaw Llywelyn Siôn ar y llaw arall. Dilyn fersiwn Llywelyn Siôn a wnaed yn LIGC 13062B (sydd yn gopi o LIGC 970E) a LIGC 2010B. Yr un yw'r drefn yn y ddau fersiwn ond bod Stowe 959 yn fyrrach; 58 llinell sydd yma ond mae 72 llinell yn nhestun Llywelyn Siôn. Er bod cwpledi yn eisiau ym mhob adran yn Stowe 959 y mae rhediad y cywydd a'r ystyr yn glir drwyddo draw. Un adran a gollwyd yn ei chrynswth; ar ôl cyfeirio at bresenoldeb gwŷr o Forgannwg a Gŵyr ar y fordaith sonnir yn y fersiwn hwy am y rhai o ranbarthau eraill Cymru a oedd yn gyd-deithwyr (llau. 29–34). Ceir peth amrywio o ran trefn y cwpledi yn yr adran olaf lle y dyfelir y llong (ond sylwer bod dau gwpled, llinellau 59–62, yn cynnal yr un cymeriad llythrennol). Dilynwyd trefn Stowe 959 yn y fan hon. Gwelir gwahaniaethau hefyd o ran geiriad y llinellau unigol. At ei gilydd Stowe 959 sydd yn rhagori, yn enwedig yn llinellau 9, 19, 21, 25, 27–8. Collwyd rhannau o destun LIGC 21290E ac ni chofnodwyd yr amrywiadau.

- 1 **lleuad ... gwisg lleian** Cyffelybir hwyliau'r llong o ran eu lliw i fantell lleian ac o ran eu siâp i leuad newydd. Cf. y modd y disgrifiodd Iolo Goch y llong yn *Lled noe, llun lleuad newydd*, gw. GIG XXXIII.25.
- 2 **ar lwff** 'Ochr y gwynt (i long)', gw. GPC 2072 a cf. GLGC 231.12 *mae ar lwff yn camu i'r lan*.

- 3 **Dinbych** Ymddengys mai o Ddinbych-y-pysgod yr hwyliodd y teithwyr i Santiago. O Benfro y teithiodd Elliw, merch Henri ap Hywel, a gwraig Owain ab Ieuan ap Ffyllib o Ddyffryn Aeron, i Sbaen, a barnu wrth dystiolaeth Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 82.61–4 *Heddiw'dd aeth Elliw ddiwallwlad—Iago, / heno i Benfro â'i llong a'i bad, / yfory i'r môr trwy fwriad—Iago / ar awr dda hwylio i'r ddeheuwlad*. Taith o Aberdaugleddau a ddisgrifir yng nghywydd Rhys Nanmor, gw. G.H. Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', Cy xxiii (1912), 258.
- 4 **i'r borthfa** Anodd dewis rhwng yr ardd. *o* yn Stowe 959 ac *i* yn llsgrau. Llywelyn Siôn. Ymddengys mai yn ystod y daith yn ôl o Sbaen y lluniwyd y cywydd, gw. ll. 26 *Pan gerddych edrych adref*, er y gall llau. 6 ac 8 awgrymu'r gwrthwyneb. Barnwyd bod cyfeiriad yma at y porthladd yng Nghymru yr hwyliwyd ohono ar ddechrau'r bererindod.
- 5 **Sain Margred** Trwyddedwyd llong o'r enw 'Mary of Pembroke' i gludo pererinion i Santiago yn 1451, gw. G.H. Jones, *art.cit.* 254. Ar y llong 'Mair o Frysto' y teithiodd Ieuan ap Gruffudd Goch ar ei bererindod ef i Santiago, gw. Peniarth MS. 57, 35.
- 9 **gwyn fyd llongaid** Cyferbynnir rhwng cyflwr ysbrydol y teithwyr a oedd wedi ennill *enaïd rhydd* (ll. 7) a'u hanghysur corfforol. Achosodd y ll. hon beth trafferth i Lywelyn Siôn, a chofnododd hi mewn tair ffordd wahanol. Stowe 959 a ddiogelodd y darlleniad *gwyn fyd*. Y gysefin sydd yn dilyn yn unol â'r disgwyl, ac ar y gystrawen gw. Treigladau 283–4. Gelwir sylw hefyd at y modd y bydd *gwyn fyd* yn cyfleu dymuniad da ac yn wrthwyneb i *gwae*, ac yn y gystrawen honno bydd yr enw sydd yn dilyn yn treiglo. Gwelir, serch hynny, fod *gwyn fyd* a *gwae* yn cael eu cyfodod yn y cwpled hwn.
Wyth sillaf yn y ll.
- 14 *r wreiddgoll*.
- 16 **Pasg** Dyma'r adeg yr hwyliodd Gruffudd Gryg yntau i Santiago, gw. GGr 6.57.
- 17 **neithr** 'Oddieithr, ar wahân i', sydd yn cynnig darlleniad mwy ystyrion nag *yn eitha'r eigion* a gynnigir gan y llsgrau., ond rhaid ei drin yn air deusill. Gellid *neithr yr eigion*. Perthyn yr engh. gynharaf yn GPC 2568 i'r 16g.
- 19 **manol** 'Diwyd; union', gw. GPC 2343–4. Dilynywyd Stowe 959. Ni ddyfynnir enghrau. o'r 15g. o *blaenol* 'rhagflaenol', sef darlleniad llsgrau. Llywelyn Siôn, yn GPC² 656.
- 21 Dilynywyd Stowe 959 a mabwysiadu *gloywgainc* yn hytrach na *gloywgainc*. O'r herwydd bu'n rhaid hepgor yr ardd. *i* sydd yn rhagflaenu *Lloegr* yn yr holl llsgrau., ond cyffredin oedd hepgor yr ardd. a threiglo'r cyrchfan, gw. 7.37n. Ceir engh. arall isod, ll. 55 *Dwg ni*

Frystai, difai dâl.

- 24 Nid yw'r ergyd yn glir yn y ll. hon ac y mae'n bosibl ei bod yn llwgr. Er bod *trenigi* Stowe 959 yn rhoi cynganedd gywir ac yn cynnal y cymeriad sydd yn amlwg iawn yn y cywydd, nid yw'r ystyr 'marw, darfod, diweddu' yn taro. Byddai *trenigi 'dd wyf* yn fwy ystyrllon o ystyried cwynion y bardd a'i anghysur, ond nid yw'r gynganedd o blaid y diwygiad. Ceir cyfatebiaeth $n = ng$ o fabwysiadu *rhannu* sydd yn llsgrau. Llywelyn Siôn. Cadwyd y gair hwnnw a diwygio *rhwng* yn (*g*)*rwn* 'cefn neu drum o dir mewn cae', gw. GPC 1538. Cynigir mai delwedd o'r llong yn holhti ehangder y môr sydd fel llain o dir rhwng Lloegr a Ffrainc sydd yma, a cheir yr un ddelwedd yng nghywydd 'Pererindod Gruffudd ap Rhys' Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 231.39–40, 51 *Aredig môr, digam oedd, / y mae aradr y moroedd ... / crud hir yn careiaw ton*. Cf. hefyd y disgrifiad sydd gan Iolo Goch yn 'Cywydd y Llong', gw. GIG XXXIII.48 *Llamai'r gŵys, llom oer gaseg*.
- 25 y **naill** Y mae darlleniad Stowe 959 yn rhagori. Yn y ddau gwpled blaenorol disgrifir cwrs y llong sydd fel pe bai'n tueddu tua Ffrainc ar dro ac yna i gyfeiriad Lloegr dro arall. Yma anogir y llong i gefnu ar y naill (sef Ffrainc) ac i anelu at y llall (Lloegr).
- 27–8 Y mae'r cwpled yn debyg iawn yn Stowe 959 ac yn llsgrau. Llywelyn Siôn er bod y brifodl yn wahanol. Bernir mai'r blaenaf sydd yn cynnig y darlleniad gorau. Rhaid derbyn *Caerdydd* yn hytrach na *Caerdyf*, a *Gwhyr* (yn ddeusill) yn hytrach na *Gŵyr*. Digwydd *Caerdydd* a *Caerdyf* yng nghanu Lewys Glyn Cothi, ac y mae'r odl yn tystio i ddiylsrywydd y ffurf ar bedwar achlysur (*Caerdydd* unwaith, *Caerdyf* dair gwaith), gw. GLGC.
- 32 **dynion G'redigion** Ar dreiglo'r e.p. yn dilyn e.ll. mewn ymadrodd genidol, gw. 2.1n.
- 39 *n wreiddgoll*, a thrachefn yn ll. 40.
- 43 **Brynach** Arno, gw. 81.1n. Y mae Stowe 959 o blaid *Brychan* a enwir yn ll. 31, tra awgryma rhai o llsgrau. Llywelyn Siôn fod peth ansicrwydd ynghylch yr enw. Nid oes cynganedd yn y ll. o gynnwys *Brychan* ond ceir cynganedd lusz reolaidd o ddiwygio a mabwysiadu'r e.p. *Brynach*. Enwir y ddau gymeriad yng nghanu'r bardd. Cysylltir Brynach â Llanfymach yng nghantref Cemais, gw. LBS i, 322, cantref yr oedd gan Feugan, a enwir yn ail fraich y cwpled, gyswllt clòs ag ef.
- 44 **Meugan** Tystia Pistyll Meugan, Cwm Meugan a Dyffryn Meugan fod i'r sant hwn gyswllt clòs â chantref Cemais yn Nyfed, ond cysegrwyd eglwysi iddo hefyd yn siroedd Môn, Dinbych, Brycheiniog a Mynwy, gw. LBS iii, 478–81; WCD 476–7.
- caban** 'Bwth, lluest; ystafell ar long', gw. GPC 371–2, ond i'r 16g. y

perthyn yr engh. gynharaf a ddyfynnir.

- 45 **Ilid** Awgryma'r ffurfiau *ayled*, *aeled*, *aled* nad oedd y copi-wyr yn gyfarwydd â'r santes hon. Yr oedd Ilid yn un o ferched Brychan ond cafodd ei disodli gan y santes Julitta o Darsus, mam Cyriacus [= Curig], gw. LBS iii, 300–1, 335–6; WCD 385. Awgryma'r disgrifiad *o wlad arab* mai santes o wlad estron oedd hon yng ngolwg y bardd. Coffeir ei henw yn eglwys Llanilid yn arglwyddiaeth Rhuthun yng nghantref Penychen, ond yr oedd eglwys Llanilid yng Nghrai ym mhlwyf Defynnog hefyd, gw. WATU 49, 56.
- 46 **Ieuan** Yr Apostol Ieuan neu Ieuan Fedyddiwr.
- 47 **ceiniog** Gw. 82.61n. Ychwanegodd Iolo Morganwg ar ochr y ddalen yn LIGC 13062B *Ceiniog i ymgroesi [.] Nid oes gennyf gymmaint a cheiniog i ymgroesi diareb*. Y mae sawl llsg. o blaid *ceinog*, gw. ymhellach 63.40n d.g. *ceinhegwerth*.
- 49 Bai trwm ac ysgafn.
- 50 **cydiwr du** 'Un sy'n cysylltu ynghyd', gw. GPC 664, ond o bosibl yn ddychanol ac yn gyfystyr â 'cnuchiwr'. I'r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf a ddyfynnir. Nid yw'r ddelwedd yn gwbl addas, ond nid yw darlenniad Stowe 959, *yr edn dy*, yn rhagori. Deellir *du* yn a. 'tywyl; trist; chwerw', gw. GPC 1097, yn hytrach nag yn ffurf dreigledig *tu* i. 'ochr, ymyl'; ii. 'ardal, bro', gw. *ib.* 3648.
- 51 **dŵr gwyr** Ffurf amr. ar *gwyr*, gw. GPC 1787. Un o ystyron y gair yw 'dihalenn, croyw (am ddŵr)', ac yn y cwpled hwn cyfosodir dŵr hallt yr heli a dŵr croyw'r afon. Cf. S.J. Williams, *Ffordd y Brawd Odrig* (Caerdydd, 1929), 29, *Ac odynd y kymerant ef, ac y golchiant mywn dwfyr hallt, ac odynd yn y dwfyr gwyr*.
- 55 **dwg ni Frystai** Gw. ll. 21n, ond efallai mai cywasgiad sydd yma, *Dwg ni i Frystai*. Gwelir bod dau destun diweddar yn cynnwys yr ardd.
- Brystai** Hwyliai'r rhan fwyaf o'r pererinion i Sbaen o borthladdoedd de-orllewin Lloegr, ac yr oedd Bryste yn un o'r porthladdoedd pwysicaf. Yn 1428 hwyliodd 280 o bererinion o Lundain, 200 o Fryste, 122 o Weymouth a 90 o Dartmouth, gw. E. Mullins, *The Pilgrimage to Santiago* (Newton Abbot, 1975), 59, 63. *Brysto* yw'r ffurf gan Lewys Glyn Cothi a Guto'r Glyn—digwydd y ll. *o Frusto i Benfro bant* yn GLGC 16.73 a GG.net 114.24, ond y mae'r odl yn tystio i ddilysrwydd y ffurf *Brystai* yng nghywydd Hywel Dafi.
- 56 **Cernyw ... Cornwall** Cofnodir y ffurf Gym. *Cernyw* a'r ffurf a ddaw o'r S. *Cornwall* gan Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 113.5–6 *Iarll yw fo gerllaw y Fâl, / yng Nghernyw dug, yng Nghornwal*. Cf. y modd yr arferir y ffurfiau Cym. a S. gan Dudur Aled, gw. TA V.87 *Cernyw, Dyfnaint, cywir, nid ofnoch, XXV.2–3 I Gornwal ag o iarnadd; / Dwyn*

Defnsir i ympiriaw.

- 57 **grudd enfys** Darlunnir y gwynt yn yr hwyliau a'r rheini yn bochio ar ffurf enfys.
- gorwydd** Efallai nad yw delwedd o fyd marchogaeth yn addas wrth ddisgrifio'r hwyliau a'r mastiau, ond priodol fyddai 'ael, ymyl neu ochr coed; coed, fforest' < *gor* + *gwýdd*, gw. GPC 1507.
- 58 **gorweddus** Dyma ddarlleniad llsgrau. Llywelyn Siôn ac eithrio Llst 134 (ni ddiogelwyd y cwpled yn Stowe 959), ond gallai *gorwyddes* fod yn ffrwyth camgopiö yn Llst 134 am fod *gorwydd* yn digwydd yn y ll. flaenorol. Ni chofnodir *gorweddus* yn GPC. Gweddai'r ystyr 'llonydd' am fod y llong yn aros yn ei hunfan.
- 61 **rhaffau hirion** Dilynwyd Stowe 959. Ailadroddir y disgrifiad yn un o gywyddau pererindod Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 231.34 *a'i rhaffau oll fal rhyw ffyn*.
- 66 Rhaid cyfrif *cadw* yn air deusill. Nid oes darlleniad amgen ar gyfer y ll. hon.
- 69 **dygy wernen** Ni ddiogelwyd y cwpled hwn yn Stowe 959. Ffurf 3 un. pres.myn. y f. *dygaf* (neu 2 un.grch.) a'i dilyn gan y fannod sydd yn llsgrau. Llywelyn Siôn, ond efallai fod yr ymadrodd yn ganlyniad camddeall ffurf 2 un.pres.myn. y f., sef *dygy*.
- 72 **gwarded** Gall fod yn e.c. 'ymwarded, achubiaeth; gollyngdod' neu yn ffurf 2 un.grch. y f. *gwarded* 'rhyddhau (o berygl, &c.)'. Dewiswyd y cyntaf; o fabwysiadu'r ail rhaid fyddai addasu'r ll. yn *Dyred a gwarded ein gwýr*.

Mab hynaf Brychan oedd Cynog. Yn sir Frycheiniog y mae'r rhan fwyaf o'r eglwysi sydd yn ei goffáu, ac ym Merthyr Cynog yn ôl traddodiad y claddwyd ef, gw. LBS ii, 264–71; TWS 178–84; WCD 182–3; SBPN 117. Er bod Hywel Dafí yn cael achlysur i enwi nifer o saint sydd yn gysylltiedig â'r rhan hon o Gymru, y mae ganddo fwy o gyfeiriadau at Gynog nag at yr un sant arall. At hyn, Cynog yw'r unig sant sydd yn destun cywydd cyfan. Yr unig fardd arall y gwyddys iddo ganu i'r sant yw Dafydd Epynt, gw. GDEp cerdd 3. Adroddir rhai o'r hanesion a oedd yn gysylltiedig â Chynog yng nghywyddau'r ddau fardd, ond y mae'r cyfeiriadau yn gliriach o lawer yng nghywydd Hywel Dafí. Y themâu pwysicaf yma yw i. y modd yr ymwrthododd Cynog â'i deyrnas yn Iwerddon gan ddewis gwasanaethu Duw; ii. y modd y gorchfygodd y cawr neu'r gormes a oedd yn difetha tir a phobl ardal Caerwedros; iii. rhyfeddod y dorch a feddai; iv. hanes y wyrth a gyflawnodd Cynog pan dorwyd ei ben. Y mae ambell beth yng nghywydd Dafydd Epynt nad yw Hywel Dafí yn eu crybwyll. Sonia Dafydd Epynt, er enghraifft, am y gred mai Cynog a rannodd y ddwy afon sydd rhwng

Merthyr Cynog, sef Ysgir Fawr ac Ysgir Fechan. Pwysleisia hefyd ddoniau iachael Cynog a'i eglwys.

Un arwydd o bwysigrwydd Cynog yw'r cyfeiriad gan Gerallt Gymro at ei dorch, gw. llinell 39n. Arwydd arall yw'r deunydd cyfreithiol yn 'Llyfr Cynog', deunydd nas diogelwyd yn annibynnol ond y cyfeirir ato ac y dyfynnir ohono yn sawl un o'r llyfrau cyfraith. Y mae'n bosibl mai ym Mrycheiniog y cynullwyd y deunydd yn y lle cyntaf, efallai yn eglwys Merthyr Cynog ei hun, gw. G.A. Elias, '*Llyfr Cynog of Cyfraith Hywel and St Cynog of Brycheiniog*', Cylchg HC 23 (2006–7), 27–47. Gw. <www.cpat.org.uk/ycom/breck/merthycynog.pdf> am ddisgrifiad o eglwys Merthyr Cynog. Yr oedd Merthyr Cynog yn un o fam eglwysi Cymru a thystia'r fynwent gron fod yma safle cysegredig o gyfnod cynnar, gw. HAW plât 27; A. Llywelyn-Williams, *Crwydro Brycheiniog* (Llandybïe, 1964), 151.

Diogelwyd y cywydd mewn pum copi sydd yn llaw Llywelyn Siôn, ac er nad yw'r testunau yn cyfateb yn union (fel yn achos pob cywydd arall a gopiwyd ganddo), ceir cytundeb cyffredinol rhyngddynt, a hefyd rhyngddynt hwy a'r testunau sydd yn LIGC 13071B a LIGC 2010B. Y mae lle i gredu bod rhai llinellau yn llwgr, a gw. y nodiadau ar linellau 5, 42, 43, 46, 65. Cofnodwyd ambell ymadrodd ac ambell linell gan Siôn Dafydd Rhys yn Llst 55, 95. Argraffwyd y cywydd yn Iolo MSS 302–4 ac yn *Llen Cymru*, gol. T.G. Jones (Caernarfon, 1922), 44–6.

- 2 **Brecania** Ffurf a luniwyd ar ddelw'r Llad. *Brechonia*, gw. SBPN 43.
- 4 Y mae'r llsgrau. oll o blaid *Perchen a mab Brychan wyd*, ll. sy'n cynnwys *m* berfeddgoll yn union o flaen yr orffwysfa. Diwygiwyd y ll. er mwyn cryfhau'r gynghanedd, ond rhaid derbyn bod creostynnu rhwng yr acen a'r synnwyr.
- 5 **bydd** Disgwyliid *bydd* a ailadroddir yn ll. 7, a dyma ddarlleniad Llst 134 a Llst 55, ond ymddengys fod y gynghanedd lusg yn mynnu *bodd* sydd yn llai addas. Mabwysiadwyd *bydd* a cheir cynghanedd draws o dreiglo *goddeg*, ffurf amr. ar *gofeg* 'meddwl, bryd; bwriad, amcan', gw. GPC 1429. Nid yw'r treigladd yn dilyn *pob* yn rheolaidd, ond digwydd yng nghanu'r bardd, gw. 28.27n.
- 6 **dof** Darlleniad yr holl lsgrau. ac eithrio LIGC 2010B yw *Dolff*. Diwygiwyd yn betrus yn *dof* 'gwâr, tyner, mwyn', gw. GPC 1071. Ni welwyd e.prs. nac e. lle a fyddai'n esbonio *Dolff* y llsgrau.
- 8 **plwyfogion** Ffurf l. *plwyfog* 'plwyfolyn'. Y cwpled hwn yw'r engh. gynharaf a ddyfynnir yn GPC 2831.
- 9–10 Cf. GDEp 3.27–30 *Brenin ar bawb i rannu, / Iwerddon fawr, iddun fu; / Newidio hon â Duw hael / Am nef, mwyaf fu'i afael*.
- 11 **gedir** Gall fod yn ffurf ar *gadu*, *gadael*, *gadel*, *gado* neu ar *gadaw*, *gado*, gw. GPC 1367 a 1.19n. Yr ystyr 'caniatáu (gwirionedd), bwrw,

- rhagdybio; ystyried, barnu, cyfrif' sydd yn taro yma; o waith Tudur Aled y daw'r engh. gynharaf d.g. *gadu* ac i'r 17g. y perthyn yr engh. gynharaf d.g. *gadaw*.
- 13 **ffraeth** Yr ystyron 'aeddffed, toreithiog' sydd yn gweddu orau yma, gw. GPC 1309.
- 14 **meudwyaeth** 'Buchedd meudwy', gw. GPC 2449. Dyma'r engh. gynharaf a ddyfynnir.
- 18 **aflwyddiant** Cynigir yn betrus yn GPC² 101–2 yr ystyr 'gweithred aflesol neu waradwyddus'. Ni ddyfynnir y cwpled hwn, ond y mae'r ystyr honno yn taro i'r dim.
- 19 **blaidd** Yr un trosiad sydd gan Ddafydd Epynt wrth ddisgrifio'r cawr, gw. GDEp 3.57–8 *Arf, a laddodd ryw flwyddyn / Flaidd, a gaf o law Dduw gwyn*.
- diawlaidd** 'Dieflig, cythreulig', gw. GPC 953, ond i ganol yr 16g. y perthyn yr engh. gynharaf.
- 19–26 Cf. GDEp 3.39–42 *Athrywyn am ei ginio, / Y mab a'i fam, y bu fo; / Rhoes dan yr ais o'i donnen / Fwyd i'r pryf, do, ar y pren*.
- 27 **goryw** Dewiswyd y darlleniad 'anodd' *goryw*, ffurf 3 un.pres.myn. (ac iddi ystyr prff.) *gorfod* 'gorchfygu, trechu', gw. GPC 1481–2; G 564–6 a cf. ll. 38 *Arf i ti i orfod diawl*. Yn LIGC 970E yn unig o blith llsgrau. Llywelyn Siôn y diogelwyd y darlleniad hwn, ond fe'i hategir gan LIGC 13061B. Awgryma'r darlleniadau *a garai llid a gorywch i llid* fod cryn ansicrwydd ynghylch y ll. Y mae sawl llsgr. o blaid *eu llid*, ond cyfeirir at y cawr yn yr adran hon yn yr unigol a doethach, felly, yw cadw'r fannod.
- 39 **torch** Crybwyllir torch Cynog yng nghywydd Huw Cae Llwyd 'I'r Iesu a'r Seintiau', gw. HCL1 XLIII.45–6 *Torch Gynog, trycha gynnen, / Tor y sis ar bob trais hen*. Ond yr oedd wedi ennill enwogrwydd cyn y 15g. am fod Gerallt Gymro yn cyfeirio ati wrth adrodd hanes ei daith trwy Gymru yn y 12g., gw. T. Jones, *Gerallt Gymro: Hanes y Daith trwy Gymru; Disgrifiad o Gymru* (Caerdydd, 1938), 24.
- 39–44 Collwyd sawl ll. yn BL Add 31070 am fod *gwnaeth* yn safle'r odl yn llau. 39 a 44, a neidiodd llygad y copïwr o'r naill le i'r llall.
- 40 **bilaen** Y mae *bilaen* a *bilain* 'dihyrn' yn ffurfiau cyfochrog, gw. GPC 277–8. Defnyddiodd Llywelyn Siôn y ddwy ffurf yn ei destunau ef, gw. 'Amrywiadau'.
- 42 **naddiad neddair** Y mae'r llsgrau. i gyd o blaid '*nafiad*, ffurf dalfyredig *anafiad* 'anaf, niwed, clwyf'. Yng ngeiriadur William Salesbury (1547) y ceir yr engh. gynharaf a restrir yn GPC² 256. Ni ddylid gwrthod y gair ar y tir hwnnw, ond mentrwyd diwygio yn *naddiad neddair* er mwyn gwella'r ystyr. Ar *neddair* 'llaw, dwylo', gw.

GPC 2561. Nid llaw dyn a greodd y dorch hynod hon, ac ymhellach ll. 44 *nid eurych a'i gwnaeth*. Cf. DG.net 38.39 *Tyfiad heb naddiad neddyf*.

- 43 **pendigaeth** Dyma ddarlleniad yr holl lsgrau. Ni restrir *pendigaeth* yn ffurf dalfyredig *pendefigaeth* 'brenhiniaeth; goruchafiaeth, grym' yn GPC 2737. Gellid diwygio yn *Dygaist o bendefigaeth*, ond byddai'r gyfatebiaeth gynganeddol yn llai boddhaol. Dewis arall fyddai diwygio yn *Dygaist o enedigaeth / Dorch...*, ond awgryma llau. 37–40 mai arf a roddwyd i Gynog trwy ymyrraeth ddwyfol pan oedd yn wynebu'r cawr bygythiol oedd y dorch hynod.
- 43–54 Crybwyllir torch Cynog mewn cywydd gan Ddafydd Epynt i Siôn Morgan, esgob Tyddewi, gw. GDEp 18.29–36. Diweddur y cywydd hwnnw â'r dymuniad *Gad i'r dorch gadw'r dywarchen* (*ib.* ll. 52).
- 46 **cyngbron ... cyngran** Yn y llsgrau. oll cynganeddir y ddau air *cyngron* a *cangren* sydd yn debyg iawn o ran eu sain (ond ni cheir cysondeb o ran eu lleoliad yn y ll.). Ffurf fenywaidd *cynghrwn* yw *cyngbron* 'crwn, cryno, llawn, tew, llyfndew, cefngrwm', ffurf a nodir ond heb roi enghrau. yn GPC 739. Fodd bynnag, disgwyliid treigladd yn dilyn yr eb. *torch*, ac nid yw y *dyn* yn cydio wrth weddill y ll. Anos esbonio *cangren*. Diwygiwyd yn betrus yn *cyngran* 'tywysog, arweinydd', gw. GPC 741, gair sydd yn addas yn y cyd-destun, ond o ganu Beirdd y Tywysogion y daw'r enghrau. a ddyfynnir. Gellid diwygio *cyngron / Cangren* yn *cangen / cyngan* ond ni fyddai gwneud hyn yn datrys y ddau anhawster uchod.
- 48 *n wreiddgoll*.
- 49 **y gof yn Efenna** Diogelwyd traddodiadau am Gynog gan Hugh Thomas tua 1702, gw. LBS ii, 266–8. Clywsai rhyw of am y modd y lladdodd Cynog y cawr â'i dorch a gwrthodai gredu'r hanes. Trawodd y dorch â'i fwrthwl, ac fe'i lladdwyd yn y fan a'r lle gan ddarn a wreichionodd o'r dorch. Ond ymddengys mai hanesyn gwahanol a adroddir yn y llau. hyn, gw. isod. Gwyddai'r beirdd am Tubal, *gweithydd pob cywreinwaith pres a haearn*, gw. Gen 4.22, a chyfeirir ato mewn cywyddau a ganwyd i ofyn am fwcled, e.e. GHD 25.28 *Tybio ôl llaw Tubal llwyd*; TA CXVII.46 *Tabl o waith Tubal of oedd*. Ni chysylltir ef â lle o'r enw Efenna.
- 51 **tair darn** Yn ôl Gerallt Gymro, *cysylltwyd hi ynghyd yn gywrain o bedwar darn*. A barnu wrth dystiolaeth llau. 49–54, llwyddodd rhyw of i dorri'r dorch yn dair ac ni lwyddodd neb i asio'r darnau ynghyd drachefn. Yn y diwedd gwnaed hynny â chymorth dwyfol ac o'r adeg honno yr oedd Cynog yn anorchfygadwy a'r crair yn ei feddiant a honno'n gyfan.
- Am engh. arall o drin *darn* yn eb., gw. 36.5n.

52 **asiai** O waith Tudur Aled y daw'r engh. gynharaf o'r f. *asio* 'uno, cysylltu' yn GPC² 503.

n berfeddgoll neu grych a llyfn.

53 **gofeilwaith** *Gofal* 'pryder, blinder, tristwch, gofid' + *gwaith*. Nodir y ffurfiau ll. *gofeilion* a *gofeiliau* yn GPC 1428. Ymddengys fod Ll1st 134 yn ceisio cyfleu'r cyfuniad *gefail* + *gwaith*, a hynny, fe ddichon, dan ddylanwad y cyfeiriad at y gof yn ll. 49.

54 Ychwanegwyd y ll. hon gan law arall yn LIGC 13071B.

55–6 Cf. GDEp 3.3–4 *Ei ben a'i gorff, bu un gynt / Gyda'i wddwg, dau oeddynt*.

56 **gwnaeth gwrth** Cyffredin oedd cadw cysefin gwrth. *gwnaeth*, gw. Treigladau 186.

gwyniaith 'Gallu neu rinwedd gwrthiol, grym dwyfol, gwrth', gw. GPC 1776, a'r ffurf l. *gwynieithoedd* yn 57.5–6 *Coffa 'mhob gorseddfa sant / O wynieithoedd a wnaethant*. Gall fod yn eg. neu yn eb. ond tystia cysefin yr a. mai'r blaenaf sydd yma. Cofnodwyd a *gweniaith* 'gair teg' yn LIGC 13071B, a *gwrthau* mewn pedair llsg.

61 **daliad** Am mai cynghanedd sain ewinog sydd yma, gellid i. ffurf gysefin *daliad*; ii. ffurf gysefin *taliad*; iii. ffurf dreigledig y gair hwnnw. Awgryma darlleniad y llsgrau. nad oedd Llywelyn Siôn yn gwbl sicr ynghylch yr ystyr. Dewiswyd *daliad* 'y weithred o ddal' ond y mae *taliad* 'tâl' yn ystyrllon hefyd.

62 **o i dan** Rhestrir y cyfuniadau *o i ar ac o i wrth* yn GPC 2611 ond ni restrir *o i dan*. Gw. ymhellach 1.23n a J.E.C. Williams, '*DE yn y Gymraeg', B xiii (1948–50), 5–10 lle y rhoddir enghrau. *o i dan*.

63–4 'Penrhaith annwyl ydych yn awr ym Mrycheiniog rhag poenau.' Ond gellid addasu'r ll. hefyd yn *Penrhaith rhag poenau yrhawg / I'ch annwyl ym Mrycheiniawg* neu yn *Penrhaith rhag poenau yrhawg / Uwch anhwyll ym Mrycheiniawg*.

65 **a'i phennaeth** Ni sonnir yn y cywydd am ymadawiad neu enciliad Cynog. Yn hytrach apêl am gymorth a bendith sydd yma, peth cyffredin wrth i'r bardd gyrraedd diweddglo ac uchafbwynt ei gyfansoddiad. Anodd, felly, yw gwneud na phen na chynffon o ystyr *a phan aeth* a gofnodwyd yn yr holl llsgrau. Diwygiwyd yn *a'i phennaeth*, gair sydd yn atgyfnerthu *penrhaith* (ll. 63) a *pen* ac *amddiffynnwr* yn ail fraich y cwpled.

dofraeth 'Llety; cynhaliaeth', gw. GPC 1072. Ceir peth anwladu yn y llsgrau. lle y cofnodwyd y ffurfiau *dofriaeth* a *dofriaith*.

66 **pen** Nid yn LIGC 970E o blith copïau Llywelyn Siôn y ceir y darlleniadau gorau fel arfer, ond mabwysiadwyd *pen* sydd yn rhagori ar *poen* y

llsgrau. eraill. Os cywir *pennaeth* yn ll. 65, gellid ystyried diwygio ffurf dreigledig *pen* yma yn *ffun* ‘anadl; ysbryd, bywyd, enaid’, gw. GPC 1324, neu hyd yn oed yn *ffin* ‘dirwy’, gw. *ib.* 1289.

70 Naill ai *n* berfeddgoll neu gyfatebiaeth *-n m-* = *m* neu gamosodiad *b.r.n* = *n.b.r.*

96

Perthyn dau hynodrwydd i'r cywydd hwn i Fair Forwyn. Yn y lle cyntaf disgrifir harddwch ac apêl corfforol Mair yn union fel pe bai'n wrthrych cywydd serch, a gwneir hynny trwy ddisgrifio pob rhan o'i chorff yn drefnus. Dilynir y drefn rethregol gydnabyddedig trwy ddechrau â'r pen a symud wedyn tua'r traed gan ganolbwyntio ar bob rhan a phob aelod yn ei dro fel y gwnaeth Iolo Goch yn yr unig gywydd serch o'i waith sydd ar glawr, cywydd yr awgrymodd Gilbert Ruddock y gall fod wedi ei lunio i leian, gw. GIG cerdd XXIV; G. Ruddock, 'Cywydd i grefyddes?', LICy 12 (1972-3), 117-20; A. Matonis, 'Nodiadau ar rethreg y Cywyddwyr', *Traethodydd*, 1978, 155-67. Neilltuwyd 36 llinell, bron i hanner y cywydd, ar gyfer y disgrifiad hwn (llau. 9-44). Ar y pen y mae'r pwyslais (llau. 11-35), ac ar y gwallt llaes ac euraid yn benodol. Nid rhyfedd i gopiwr J 101 roi *Co Merch* uwchben y cywydd, fel y gwnaeth copiwr J 139 a ysgrifennodd *kowudd merch* cyn dileu *merch* ac ychwanegu *i fair*. Awgryma'r cyflwyniad yn Llst 167—collwyd y diwedd, ysywaeth—fod y rhan fwyaf a glywodd ddatgan y cywydd wedi eu camarwain yn yr un modd:

kowid i fair mam grist a elwir kowid / yr offram yr achos yw i gelwir
fo felly / y pryddvd addoeth i eglwysse yn sir gar / narddfon lle ir
oedd wylfa fawr fal yr oedd / yr arfer yn ramser hwnv ag yno ir oed[]
/ lawer o ferched ai mane ag ynte a gane / y kowid yma ag yn kerdded
ar gamholia[] / merch y naill ferch yn tybied mai iddi h[] / ar llall yn
tybied mai iddi hythe ag wr[] / lickio or kamhollieth oedd ar i kowid
ir / ferch llawer or merched yn pvio arian / lle i degvde ir kowid i
dalv amdano / ag velly pen doeth at y fan yw henwi a / ffen glowson
mai i fair ir oedd y kowid / fo doeth y merched ag eraill yrhai oedd yn
/ gwybod nad i ddvnt hwy i gwneith ...

Pwysleisiodd E.I. Rowlands, 'Canu serch 1450-1525', B xxxi (1984), 31-47, fod yr hyn a wnaeth y bardd yn bur anghyffredin (a galwodd sylw hefyd at yr ensyniad pur gabledus ei gywair mewn cywydd serch yn 106.37-8); *id.*, 'Religious poetry in late medieval Wales', B xxx (1982-3), 8. Ategwyd y sylw yn J. Cartwright: ForF 50-1, lle y cyfeirir at y cywydd hwn o waith Hywel Dafï gan ddilyn sylw a wnaed gan D.S. Evans yn *Medieval Religious Literature* (Cardiff, 1986), 39 (ond ni chyfeiriodd at y cywydd hwn yn

benodol). Bardd arall a gyflwynodd ei foliant i Fair yn iaith y canu serch oedd Llawdden, gw. GLI cerdd 2; E.I Rowlands, *art.cit.* 7.

Ail hynodrwydd y cywydd yw'r defnydd a wneir o'r ffigur 'Pe bai'r ddaear yn bapur'. A. Breeze, 'Nodiadau amrywiol', B xxx (1982-3), 274-7, oedd y cyntaf i gyfeirio at gywydd Hywel Dafī a dangos fod y syniad sydd yn llinellau 45-58 yn tarddu yn wreiddiol o'r dwyrain pell a'i fod wedi cyrraedd Ewrop erbyn yr 11g. Nododd hefyd fod yr enghreifftiau cynharaf ym Mhrydain, yn Lloegr, Cymru a'r Alban, yn perthyn yn fras i'r un cyfnod, sef canol y bymthegfed ganrif. Ar y defnydd o'r ffigur mewn emynau y canolbwyntiodd E.W. James mewn cyfres o ysgrifau yn *Canu Gwerin*, 25 (2002), 48-58, 26 (2003), 46-57, 27 (2004), 34-47, ond ymdriniodd hefyd â'r modd y'i defnyddiwyd mewn testunau crefyddol, rhamant, serch, a hyd yn oed mewn gweithiau yn ymosod ar ferched. Dyfais i gyfleu rhagoriaeth yw'r ffigur, ac awgrymir pe bai'r ddaear yn bapur (neu'r ffurfafen yn femrwn), y gwellt a'r gwŷdd yn binnau ysgrifennu, y môr a'r dyfroedd yn inc, a phob copa walltog yn ysgrifwyr, na ellid wedyn gyfleu hynodrwydd y gwrthrych dan sylw.

Dyfynnwyd yr adran yn ei chrynswth (llau. 45-58) yn A. Breeze, *art.cit.*, ac felly y'i cofnodwyd yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau. Mewn dyrnaid o ffynonellau, fodd bynnag, y mae'r adran yn fwy cynnil. Ni welir llinellau 47-8 yn Pen 112, J 139 a Card 5.167 / LIGC 21700D, ac at hyn collwyd llinellau 49-50 yn Pen 112 a J 139, a llinellau 51-2 yn Card 5.167 / LIGC 21700D. Gall hyn awgrymu bod ambell gwpled wedi ei ychwanegu at yr adran hon yn gynnar yn hanes trosglwyddo'r cywydd.

Yr oedd cwlt Mair yn bur boblogaidd yn yr Oesoedd Canol ac nid anodd felly esbonio cymhellion Hywel Dafī wrth lunio'r cywydd hwn a'r cywydd nesaf, cerdd 97 (a gw. hefyd y cywydd ansicr ei awduraeth, Atodiad IV). Cofnododd y bardd yn Pen 67 *weddiav Ieu ap rrydderch*, gw. Peniarth MS. 67, 138-48, ond eiriolaeth ar Fair yw'r rhain yn eu hanfod. O ystyried cyswllt y bardd â thref Aberhonddu, priodol cofio mai i Fair y cysegrwyd eglwys y fwrdeistref. Eglwys Ioan neu eglwys y Grog oedd fwyaf adnabyddus, ond ar lan orllewinol y dref y safai hi. Codwyd yr eglwys a gysegrwyd i Fair yn y fwrdeistref a ddatblygodd ar lan ddwyreiniol yr afon. Sefydlwyd yr eglwys hon yn y 12g. ond tua 1510-20 yr adeiladwyd y tŵr sydd yn codi'n uchel uwchben y dref, a hynny ar gost Edward Stafford, dug Buckingham, gw. *Boroughs of Medieval Wales*, ed. R.A. Griffiths (Cardiff, 1978), 61; BWPowys 296-7. Fel hyn y'i disgrifiwyd gan John Leland ar ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg, gw. *The Itinerary in Wales of John Leland in or about the years 1536-1539*, ed. L.T. Smith (London, 1906), 105: *In the towne is a mighti great chapel (S. Mariae), with a large tour for belles of harde ston costely squared with the expences of a thousand poundes.*

Bu'r cywydd yn bur boblogaidd ac fe'i diogelwyd mewn rhagor nag ugain ffynhonnell. Cynnwys Pen 78 a Llst 178 ddeunydd Reciwsantaidd, a byddai

cywydd Hywel Dafï yn sicr wedi apelio. Y teitl a roddwyd i'r cywydd yn Pen 198 yw *Cowydd y vendigedig fair wryf*. Y mae trefn a hyd y cywydd yn weddol sefydlog yn yr holl gopiâu. Dilynwyd y llawysgrif hynaf, Pen 54 (llawiau B ac I, gw. RepMW), ond gan gynnwys yn y golygiad un cwpled (llau. 53–4) a ddiogelwyd yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau ond a gollwyd yn Pen 54. Yr un yw'r drefn yng nghopiâu Llywelyn Siôn ond bod y rhain yn cynnwys un cwpled pellach (a ddiogelwyd hefyd yn Pen 112) nas cynhwyswyd yn y testun golygedig. Ceir peth amrywio yn llawysgrifau Wmffre Dafis (ac yn y grŵp o lawysgrifau sydd yn rhannu'r un drefn ac yn rhannu darlleniadau cyffredin) yn yr adran sydd yn disgrifio ymddangosiad corfforol Mair. Cyfeirir at y mwnwgl (llau. 35–6) ac at y droed a'r esgair (llau. 41–2) cyn rhestru'r rhannau sydd yn perthyn i'r wyneb, a diau mai Pen 54 lle y ceir disgrifiad trefnus sydd yn tystio i'r drefn gywir. Collwyd rhai cwpledi yn Pen 112, LIGC 17114B, Card 5.167, LIGC 212700D, Llst 167 a J 139, ond parchwyd trefn sylfaenol Pen 54. Mae perthynas glòs rhwng LIGC 17114B, Card 5.167 a LIGC 212700D. Er bod Pen 78 yn destun gweddol gynnar cynnwys sawl darlleniad llwgr. Diogelwyd dau gwpled sydd ar ddiwedd y cywydd (llau. 75–6, 81–2) yn LIGC 3046D, 207. Ni chofnodwyd darlleniadau LIGC 21290E am fod y testun wedi pylu yn ddifrifol. Y mae BL Add 31070 a J.R. Hughes 5 yn dilyn trefn Llywelyn Siôn.

- 1–6 Egyr Llawdden ei gywydd i Fair Forwyn trwy dystio i'w serch ati, gw. GLI 2.5–8 *Ni charaf, newidiaf nod, / Ni soniaf am fursennod; / Yng nghôr Duw mae 'nghariad i, / Mwy a' budd, a mab iddi*.
- 2 Bai crych a llyfn; gw. ymhellach 1.16n a 'Cynghanedd' td. 42.
- 5 **nid cyhafal** 'Nid tebyg, nid cyffelyb', gw. GPC 742. Darlleniad J 139 yw *eigr gyhafal*, ymadrodd sydd yn digwydd yn un o gywyddau Dafydd ap Gwilym, gw. DG.net 72.21 *A hefyd, Eigr gyhafal*.
- 8 Nid oes cynghanedd yn y ll. hon oni bai fod yma gynghanedd sain sydd yn cynnwys odl gudd *honno / po*.
- 10 Disgwyliid i *-d h-* yn *pryd honno* galedu, ond gw. 'Cynghanedd' tt. 41–2 am enghrau. pellach o ddiffyg caledu.
- 11 **pwn felynwallt** Eg. yn unig yn ôl GPC 2941–2, ond rhaid treiglo'r a. sydd yn dilyn er mwyn ateb gofynion y gynghanedd.
- 14 **rhuddlaes** Cofnodwyd y gair mewn pedair ffordd wahanol mewn pedwar copi yn llaw Llywelyn Siôn, sef *rudd laes* (Card 5.44), *Rydd las* (Llst 47), *Rudd las* (Llst 134), *rydd laes* (LIGC 970E).
- tapareiddliw** Yr a. *tap(a)raidd* a luniwyd o'r eg. *tapr* 'cannwyll gŵyr fain' yw elfen gyntaf y cyfansoddair, ond nis rhestrir yn GPC.
- 26 **maen caerbwnclys** 'Maen gwerthfawr o liw coch disglair', gw. GPC

- 423, lle y nodir y ffurfiau *caerbonclus*, *caerbwncl*, *carbwncl*.
- 30 **noblod** *Noblau* yw'r unig ffurf l. a restrir yn GPC 2587 d.g. *nobl*, a cf. 23.25 *Fy noblau, chweugeinau gynt*. Y mae'r gynghanedd yn mynnu *noblod* yma.
- 34 **Dwywes aur, dwy weus eirian** Achosodd y geiriau hyn beth trafferth i'r copïwyr. Ffurf ar *duwies* yw *dwywes*, gw. GPC 1102, a ffurf amr. ar *gwefus*, *gwëus* yw'r ffurf unsill *gweus* y mae ei hangen er mwyn sicrhau ll. seithsill, gw. *ib.* 1616. Dan ddylanwad y gair *aur* y cafwyd *arian* (am *eirian*) mewn rhai copïau.
- 36 **alarchaidd** 'Yn perthyn i alarch, tebyg i alarch', gw. GPC² 174. Daw'r engh. gynharaf o ddechrau'r 17g.
- 37–8 Nid yw'r cwpled hwn yn Card 5.167 a LIGC 21700D, dwy lsg. y mae perthynas glòs rhyngddynt. Gan mai disgrifio'r bronnau a wneir nid annichon i'r cwpled gael ei hepgor yn fwriadol ar dir gweddustra am na chredid bod cyfeirio at y rhan hon o'r corff yn beth priodol i'w wneud yn achos y Forwyn Fair. Ond efallai i'r cwpled gael ei hepgor am fod y gynsail yn wallus. Braich gyntaf y cwpled yn unig a gofnodwyd yn LIGC 17114B sydd yn perthyn yn agos i'r ddwy uchod.
- 38 **trafn** Yr ystyr fwyaf cyffredin yw 'arweinydd, tywysog', ond cynigir yn betrus yr ystyron 'ffynhonnell, cartref, trigfa' ynghyd â 'cwrs, ffordd' yn GPC 3547. Ystyrlon yw 'cwrs neu lwybr pur' oblegid defnyddiwyd delwedd yr haul a'i belydrau (*modd hirllafn haul*) i gyfleu'r modd y beichiogodd Mair, gw. Atod.IV.30n.
- 39 **deufraich grynion** Cyffredin oedd treiglo'r a. yn dilyn y rhifol *dau* a *dwy*, a phan oedd y rhifol yn ddealedig, gw. Treigladau 61–3, a cf. 109.31 *Deuddrem fawrlem fwyarliw, ib.* ll. 51 *Dail ffion grynion eu gwraidd*. Dilynwyd Pen 54 *deufraich* am fod y bardd yn trin y gair yn eg. ar achlysuron eraill, gw. 70.36n.
- 41 **gogyfoed** Cyfleu'r syniad o amser ac oedran a wna'r cyfystyron yn GPC 1441 'o'r un oedran, cyfoed, gogyhyd ei oes neu ei einioes (â), cyfoes; person cyfoed neu o'r un oedran, cymar o'r un oedran'. Yr ystyr a awgrymir yma yw 'cyfartal, o'r un hyd'.
- 46 **pob llen** Y mae nifer o'r llsgrau. o blaid naill ai *pren* (Pen 54 a Llywelyn Siôn) neu *pen* (Wmffre Dafis ac eraill), ond *llen* sydd yn cynnig yr ystyr orau, a dyma'r ffurf yn Pen 78 a Pen 114. Er bod olion llygru yn achos y cywyddau o waith Hywel Dafî a ddiogelwyd yn yr olaf, ceir yma hefyd rai darlleniadau da a dibynadwy.
- 48 **A'r gwellt yn llunio, a'r gwÿdd** Gthg. A. Breeze, 'Nodiadau amrywiol', B xxx (1982–3), 274 *A'r gwellt yn binnau a'r gwÿdd*, a cf. ei olygiad o lau. 52–3 *Ban osgl yn binnau esgyll / ... a phob pin yn llaw*. Yn Pen 54 yn unig y cofnodwyd yn *binav*, ond fe'i gwrthodwyd am fod

- y gair *pîn* yn digwydd yn ll. 53. Bernir na fyddai'r bardd wedi ailadrodd y gair yn llau. 48, 52 a 53.
- 49 **morach** Cynigir yn betrus yr ystyron 'llawenydd, llawen, llon' yn GPC 2486. Gweddai 'llawenydd' yma, ac yn ll. 69.
- 50 **aïnc** 'Inc' yn unig sy'n ystyrlon ond nid oes awgrym yn GPC² 173 y gall *aïnc* fod yn ffurf amr. Nid addas *aïnc* 'trachwant, blys'.
- 52 **esgyll** Ffurf l. *asgell*, gw. GPC² 499–500. 'Cwilsyn' yw'r ystyr yn y ll., ond i'r 16g. y perthyn y dyfyniad cyntaf sydd yn enghreifftio 'pluen'; diweddarach fyth yw'r enghrau. sydd yn cyfleu'r syniad o ddyfais ysgrifennu.
- 54 **endeitiaw** O'r S. *endite*, ffurf sydd yn llai eang ei chylchrediad nag *indite*, 'to put into words, compose (a poem, tale, speech, etc.); to give a literary or rhetorical form to (words, an address); to express or describe in a literary composition', gw. OED² vii, 878. Yr unig ystyr a roddir i *endeitio* yn GPC 1213 yw 'cyhuddo'.
- 57 *n wreiddgoll*.
- 62 **ennill** Gall y ferf gyfleu'r ystyron 'cael neu genhedlu (plant); ymddwyn', gw. GPC 1216.
- 70 **Siohasym** Yr enw a roddwyd ar ŵr cyntaf Anna, a thad y Forwyn Fair, gw. ODCC³ 877–8.
- Sioseb** Gŵr Mair Forwyn, gw. ODCC³ 901.
- 71 **dwydref** Llu nef a llu daear.
- 75 **gwyech eneth** Pen 54 yn unig sydd yn rhoi *gwychr eneth*, 'chwyrn, milain, ffyrnig, gwyllt', gw. GPC 1749, a. sydd yn fwy addas wrth ddisgrifio uchelwr rhyfelgar neu filwr.
- 78 **semlogen** 'Putain', gw. GPC 3387, ond perthyn yr engh. gynharaf i'r 17g. Ychwanegwyd ar ymyl y ddalen yn Pen 198 *merch i gerlyn cywaethog*. Dyfynnir y ll. *Amlygach na symlogen* yng ngeiriadur John Davies a nodir ei bod yn dod o gywydd Harri Hir i Fair. Os priodolwyd y cywydd hwn i Harri Hir ni ddiogelwyd yr un copi. Gw. ymhellach 'Cerddi Ansic' td. 48.
- 79 **mawrhad** 'Mawrygiad, gogoneddiad, dyrchafiad, anrhydedd', gw. GPC 2384. I'r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf.

Dyma ail gywydd i Fair Forwyn a all fod yn waith Hywel Dafi. Awgryma llinellau 7–8 fod y cywydd wedi ei ganu yn ystod mordaith, a rhaid cofio bod y bardd yn disgrifio siwrnai o Santiago yng ngherdd 94. Priodol fyddai eiriol ar Fair yn ystod mordaith helbulus am ei bod yn cael ei hadnabod wrth

yr enw *stella maris* ‘seren y môr’, gw. GIRh 9.72n *Stella maris, talm o eiriau*; GHS 21.29–30 *Yn Ebryw gloywder seren / Yn y môr yw enw Mair wen*; J. Cartwright: ForF 165. Trafodir yr ansicrwydd ynghylch yr awduraeth yn yr adran ‘Cerddi Ansicr’ tt. 46–7.

Er bod y copïau yn lluosog, ac er bod ansicrwydd ynghylch y priodoli, y mae cysondeb anghyffredin o ran y darlenniadau ac o ran trefn y llinellau, ac eithrio LIGC 3056D (Wmffre Dafis) sydd yn arddangos newidiadau niferus nas ategir gan yr un ffynhonnell arall. O ran y drefn, yr unig eithriadau yw Llst 167 lle y collwyd un cwpled yng nghanol y cywydd a Llst 134 lle y collwyd y cwpled olaf (ond fe’i ceir yn y pedwar copi arall yn llaw Llywelyn Siôn). Yng nghopïau Llywelyn Siôn ac yn LIGC 13061B, fodd bynnag, collwyd yr 20 llinell gyntaf. Gall mai symlder yr iaith a’r datblygiad llyfn o’r naill gwpled i’r llall sydd yn esbonio’r cysondeb hwn.

Y mae rhai darlenniadau unigryw—ond manion ydynt—yn llawysgrifau Llywelyn Siôn, a digwydd rhai darlenniadau unigryw hefyd yn LIGC 19904B. Ailadroddir y rhain yn BL Add 31058, LIGC 2692B, BL Add 14970 a BL Add 15016.

1–2 Cofnodwyd y cwpled cyntaf yn Pen 221, 162, sef llyfr mynegai John Jones, Gellilyfdy, ond nid oes copi o’r cywydd ar glawr yn ei law: *Archwn i Vair a bair y byd / evrvcheŷ y gwir iechyd*.

2 **euryches** Ar *eurych* ‘gof aur neu arian’, gw. GPC 1261. Y mae’r trosiad yn un annisgwyl, ond y mae bron pob llsg. o’i blaid. LIGC 643B yn unig sydd yn cynnig *gwâr loches*; ar *lloches* ‘noddfa, noddod’, gw. GPC 2197.

3 **brenhines** Cf. GHS 21.33–4 *Brenhines o lwyth Siesu / Yn un fraint yn y nef fry*; GDEp 2.47–8 *Brenhines, ’mynwes mynydd / Barn dy fab ar enaid fydd*.

4 **clwy llef** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n. **gan ei lles** ‘Oblegid ei daioni’.

5–6 Cf. GMRh 18.37–40n *Brenhines Nef wyd hefyd / Sy ben Arglwyddes y byd, / Ymerodres, a phresen, / A ffrwyno holl uffern hen*.

8 **Môr Rudd** Gellid naill ai i. y Môr Coch neu ii. Môr y Gogledd neu’r gainc o fôr rhwng Lloegr a Ffrainc, gw. GPC 2485–6. d.g. *Môr Udd / Môr Rudd*. Er bod y beirdd yn gyfarwydd â’r hanes am Foses yn arwain ei bobl o’r Aifft trwy’r Môr Coch, ni ddisgwylid iddynt gyfeirio at y digwyddiad mewn dull trosiadol. Rhaid dehongli’r cyfeiriad yn llythrennol, a theg casglu bod y bardd ar lestr ar y môr pan ganodd y cywydd. Cf. ymhellach ll. 53 *Awn i’n tuedd â’n gweddi* lle yr ategir yr awgrym ei fod yn teithio tuag adref.

10 Rhaid trin *enw* yn air deusill.

- 13 **Afi** Cyfarchiad yr archangel Gabriel i Fair, gw. GPC² 96; ODCC³ 729–30 d.g. *Hail Mary*. Dilynwyd y ffurf a gofnodwyd yn y rhan fwyaf o'r llsgrau. er mai *Afe* sydd fwyaf cyffredin. Ond digwydd *Afi* yn safle'r odl mewn cywydd i Dduw o waith Dafydd ab Edmwnd, gw. DE LX.3–4 *yth ovin i dauth avi / yn gennad duw tad i ti*. Ar y cyferbyniad rhwng Efa ac Afe, a'r gred fod Mair trwy ei mab wedi gwneud iawn am bechod Efa, gw. J. Cartwright: ForF 29–37, a cf. GGMD ii, 10.43–4 *Efa wŷr, i Afe wyd / Regina a'n rhoes enaid*.
- 15–16 'Llesol oeddem yn sgil beichiogi ei chroth hi o air ei thad'. Y mae'r gystrawen braidd yn afrosgo fel y sylwyd yn IG 572, ond dyma ddarlleniad y rhan fwyaf o'r llsgrau., gan gynnwys y rhai cynharaf. Rhaid cyfrif *beichiogi* yma yn f. anghyflawn.
- 18 Nid yw'r -d- yn caledu, gw. 'Cynghanedd' tt. 41–2.
- 19–20 **Dwyn ei mab ... / A dwyn ei thad** Cf. Atod.IV.11–14. Digwydd y paradocs hwn, yn ogystal â'r paradocs fod Mair yn chwaer i'w thad, yn y canu iddi, gw. GGMD ii, 10.41–2n; J. Cartwright: ForF 48–9. Dyfynnir llau. 19–22 yn ymdriniaeth A. Breeze, 'The Virgin Mary, daughter of her son', *Études* xxvii (1990), 267–83, a maentumir, *ib.* 277, '[they] show signs of ecclesiastical learning unusual for a Welsh bard.' Mewn gwirionedd, y mae'r cyfeiriadau at y syniad yn bur niferus.
- 21 **haul** Testun yn llaw Iolo Morganwg sydd yn LIGC 13130A, a rhoddwyd iddo'r pennawd *Cywydd hynod i Fair a Sioseb ei gwr*. Dilynir y cywydd gan nodyn hir am syniadau'r Cymry am yr haul: *Sylwer y pethau hynodion a welir yn y Cywydd uchod—yn y man cyntaf y farn ag oedd gyffredrin [sic] yr oes ai canwyd sef mai anneddfan neu drigrfan Duw yw'r Haul, neu mewn geiriau eraill mae'r Nef oedd yr haul ...*
- 25 **huw** 'Hwiangerdd', gw. GPC 1927–8 a cf. DG.net 124.4 *Pe canai Dduw huw ei hun*. Yn IGE lxii–lxiii, galwodd H. Lewis sylw at y tebygrwydd rhwng y cwpled hwn a'r cwpled yn y cywydd 'Y fun deg a fendigwyd', gw. HS 4 *keisiodd iddaw cyn goddef / lwl a wnaeth lili o nef*.
- 27 **y broffwydoliaeth** Nid yw'r llsgrau. yn gytûn yma, a gellid *ei phroffwydoliaeth* (am Fair) neu *ei broffwydoliaeth* (am Dduw).
- 28 **yr Aifft** Yr oedd dianc i'r Aifft yn un o saith bryder Mair, gw. ODCC³ 1490.
- 29–30 **llewod ... / ... seirff** Yn y testun 'Buchedd Mair Wryr' disgrifir y daith i'r Aifft a'r modd y disgynnodd Mair oddi ar ei hasyn wrth ogof: *Nachaf yn deisyuyt llawer o seirff yn dyuot or ogof. ac afynhau awnaeth meir pan y gwelsant ... A phan welas meir hynny, ac amraualyon genedyloed bwystuileit yn eu herbryn. y delis ofyn. O lawen olwc y mab a edrychod arnei. ac y dywot. Vy mam i nac ofynhaa. nyt yr sarhaet ytt y deuant. namyn yr dy wassanaethu y dybryssyant*, gw. HMSS 225–6.

30 *r wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 44.*

39 **aeron** Mydryddir yn llau. 31–46 draddodiad am ddigwyddiad pan oedd Joseff a Mair a'r baban Iesu yn ffoi i'r Aifft, gw. G.C.G. Thomas, 'Mair a'r afallen', B xxiv (1970–2), 459–61; HMSS 226–7. Ceir yr hanes mewn tri fersiwn rhyddiaith ac yn y tri afalau yw'r ffrwyth a welir ac a ddeisyfir. Ar y llaw arall, am geirios y sonnir mewn dwy gerdd S. a ddyfynnir.

43–4 *Yna y dywot y mab. ac yn eisted ar arffet y vam. ac edrych ar y prenn. Gostwg prenn dy vric val y gallom cael peth oth ffrwyth. Ac yna y prenn a ostygawd y vric hyd y llawr ger ymyl traet yr arglwydes veir, gw. HMSS 227.*

47 *n wreiddgoll.*

98

Cyflwynir sawl thema gyfarwydd yn y cywydd hwn ac yng ngherddi 99–101. Yma crybwyllir parodrwydd dyn i bechu a phwysleisir mai Crist yn unig a all gynnig achubiaeth a iachâd. Arwain y sylwadau rhagarweiniol hyn at y Saith Bechod Marwol er mai pump a enwir yn benodol. Yn yr adran nesaf dangosir mai dros dro y bydd pawb ar y ddaciar a bod angau yn beth na ellir dianc rhagddo. Sylwebir ar dynged y da a'r drwg yn dilyn y Farn a rhybuddir y bydd pob gweithred yn cael ei gwobrwyo yn ôl ei haeddiant.

Y mae'r rhan fwyaf o'r copïau yn gyfamserol ac yn perthyn i ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg a dechrau'r ail ganrif ar bymtheg. Diogelwyd pedwar copi yn llaw Llywelyn Siôn. Y mae olion llygru mewn tri thestun sydd yn rhannu darlleniadau cyffredin, sef LIGC 13079B, LIGC 13081B a LIGC 15543B (llsgrau. EFH). Ar un ystyr y testun sydd yn Gwyn 2 yw'r un pwysicaf. Y mae hwn yn ategu'r rhan fwyaf o ddarlleniadau Llywelyn Siôn, ond ceir yma ambell ddarlleniad gwahanol a ategir gan EFH. Collwyd un cwpled, llinellau 45–6, yn nhestunau Llywelyn Siôn ond digwydd yn Gwyn 2 ac yn EFH. Ceir cytundeb rhwng Llywelyn Siôn a Gwyn 2 yn llinellau 14, 19 a 24, er enghraifft, ond cytundeb rhwng Gwyn 2 a EFH yn llinellau 35–6 (gw. y sylwadau ar y llau. hyn isod). Y mae'r olion llygru, trwy drosglwyddiad llafar yn ôl pob tebyg, yn amlwg ar ddau destun sydd yn llaw Margaret Davies, sef BL Add 14996 a Card 4.156, ac ni restrwyd amrywiadau'r ddau destun hyn. Y cywydd hwn sydd yn agor y casgliad mawr o gywyddau ac awdlau sydd yn Llŷst 133 yn llaw Moses Williams ac Iaco ap Dewi. Cofnodwyd y llinell gyntaf, a gadawyd bwllch ar gyfer yr adran nesaf sydd yn awgrymu bod dalen neu ran o ddalen yn eisiau yn y gysail.

Ar awduraeth y cywydd, gw. 'Cerddi Ansic' td. 48.

6 **ba ddawr** Gwelir graddfa'r llygru a fu wrth geisio dirnad yr ymadrodd

- hwn yn llsgrau. EFH. Troes y ll. yn *byddar yw fo boddwr fydd* yn Card 4.156.
- 9 **dybryd** A. ac iddo'r ystyron 'erchyll; dychrynlyd; cywilyddus; trallodus', gw. GPC 1114, ond yma fe'i harferir â grym enwol.
- 11 Y mae gair gwan, sef yr ardd. *heb*, yn cynnal ail odl y gynghanedd sain, ond ailadroddir yr un cyfuniad yn union yn ll. 46. Gw. ymhellach 1.23n a 'Cynghanedd' tt. 42–3.
- 18 **dianafo** 'Glanhau, puro'. Ni restrir y f. *dianafu* yn GPC. Ar *dianaf* 'heb anaf neu nam arno', gw. GPC 949.
- 19 **cun** 'Arglwydd, llywiawdr', gw. GPC 629. Yn Gwyn 2 yn unig y digwydd y gair hwn ond y mae'n sicr mai ffurf lygredig sydd yn llsgrau. Llywelyn Siôn lle y troes y ffurf dreigledig yn ffurf gysefin *gen*; *gwyn* yn LIGC 13081B. Erbyn i Margaret Davies gofnodi'r cywydd troes *gwyn* yn *gwin*. Ceir twyll gynghanedd *d* o fabwysiadu *Duw*, ond digwydd y gair hwnnw yn y ll. flaenorol.
- ganto** Gw. 19.60n.
- 22 **saith anaf** Y Saith Bechod Marwol, ond pump a restrir mewn gwirionedd am fod tri ohonynt yn cael eu disgrifio mewn dwy ffordd, sef i. llid / bâr; ii. llesgedd / diogedd; iii. godineb; iv. glythineb; v. cenfigen / cynghorfynt. Y ddau fwch amlwg yw cybydd-dod a balchder er bod y bardd yn galw sylw at y cybydd yn ll. 62. Ar y Saith Bechod, gw. ODCC³ 1489; GIBH 5.15n; IGE² cerdd LXXXIV. Crybwyllir y Saith Bechod mewn cywydd arall, ond dau a enwir y tro hwn, sef llid / bâr a llesgedd, gw. 100.39n.
- 24 **diogedd** Ni restrir y ffurf yn GPC. Digwydd *balchedd* yn EFH, a byddai'r adran hon o'r cywydd yn cynnwys chwe phechod o fabwysiadu'r gair hwnnw, ond dyma'r tair ffynhonnell fwyaf llwgr. Y mae llsgrau. Llywelyn Siôn a Gwyn 2 o blaid *diogedd* ynghyd ag un o'r ddau destun sydd yn llaw Margaret Davies, sef BL Add 14996; *eddigedd* sydd yn Card 4.156.
- 26 **golwyth** 'Tanllwyth, coelcerth', gw. GPC 1454.
- 30 **geiriau deddf** Y Deg Gorchymyn.
- 33 **ar fy ngherdd** 'O ganlyniad i'm cerdd, ar gyfrif fy ngherdd', gw. GPC² 405 d.g. *ar*⁶.
- 35 **ac ir fi** Dilynwyd llsgrau. EFH. Collwyd dechrau'r ll. yn Gwyn 2, ond cyfetyb Gwyn 2 i EFH yn hytrach nag i llsgrau. Llywelyn Siôn yn ail fraich y cwpled. Haws tybio bod *ac ir fi* wedi ei newid yn *a gyr fi*, sef darlleniad llsgrau. Llywelyn Siôn. Ategir y cyfeiriad yn y cwpled hwn at *iro ac iraid* gan y cyfeiriad pellach at *eli a meddyges* yn y cwpled nesaf.
- 36 **iraid** 'Saim, gwêr', gw. GPC 2026. Dilynwyd Gwyn 2 yn hytrach nag

iriad EH ‘y weithred o iro’, gw. *ib.* 2029.

- 39–40 Dyfynnir y cwpled yn W. Hay, *Diarhebbion Cymru* (Lerpwl, [1955]), 180.
- 39–42 Ceir y ddau gwpled yn J. Davies: Flores 35.
- 45–6 Ailadroddwyd y cwpled hwn mewn cywydd arall i’r byd a all fod yn waith Hywel Dafi, cf. 101.23–4.
- 50 **y gwirion** Yn Llst 133 yn unig y digwydd *gwirion*, ond dyma’r darlleniad gorau, ac fe’i hategir gan Card 4.156.
- 51 Cyfatebiaeth $n = m$ neu n wreiddgoll ac m ganolgoll. Gw. ymhellach 3.27n a ‘Cynghanedd’ tt. 41–2, 44.
- 52 **anfwyniog** Rhaid dewis rhwng *anfwyniog* a *cyfoethog*. Ni restrir *anfwyniog* yn GPC², ond dyma’r gair sydd yn taro orau ac y mae’n gyfystyr â ‘gresynus, ysgeler’ (hefyd â grym enwol). Bydd y sawl sydd yn euog o gelwydd yn fawr eu trueni a’u hanghysur maes o law. Gellid *Anghenog cyfoethog fydd* ‘bydd y rhai anghenus [yn y byd hwn] yn gyfoethog [yn y byd a ddaw]’ ond anodd fyddai esbonio braich gyntaf y cwpled yn foddhaol.
- 60 **di-sicr** ‘Sicr iawn’. Y rhagddodiad cadarnhaol *di-*, gw. GPC 943 d.g. *di*-³, sydd yma.
- 61 **diserth** ‘Anial’, gw. GPC 1043. Yng ngeiriadur Thomas Wiliems ar ddechrau’r 17g. y cofnodwyd yr engh. gynharaf.

99

Y mae’r cywydd duwiol hwn yn cynnwys elfennau confensiynol megis annerch y Grog a rhyfeddu at ei grym i beri iachâd, a deisyf gras a bendith. Rhyfeddir at faint aberth a dioddefaint Crist a phwysleisir na fydd yr un bod daearol, pa mor rymus bynnag y bo, yn dylanwadu ar Grist pan ddaw’r Farn. Yr un pryd, cynnwys y cywydd flas amgylchiadau cyfoes a phenodol, yn gymaint â bod y bardd yn cyfeirio at wrthdaro rhwng pobl a’i gilydd a rhwng y Cymry a’r Saeson. Ymddengys fod anffawd wedi dod i ran un gŵr yn benodol, *Êl, fal dur ... i’r rhwyd* (ll. 44), a bod y bardd yn mynegi ei anniddigrwydd o’r herwydd. Deisyfir gweld *baich Hywel* (ll. 52) yn cael ei ddiddymu, ac enwir *Hywel* drachefn yn llinell 44. Cynigir mai cyfeirio ato ei hun yn y trydydd person y mae’r bardd ar y ddau achlysur hyn.

Cofnodwyd ambell ddryll yn Llst 55, 26.

- 1–2 **croes wen / ... dŷ Foesen** O’r tri hedyn a blannodd Seth dan dafod ei dad, Adda, y tyfodd y tair gwialen y gwnaed y Groes ohonynt maes o law, gw. HMSS 250 *ac yno y bu y prenn hwnnw yn gorwed hyt yr amsser y dioddefawd Crist arnaw*; cf. GDEp 2.27–8 *Gwŷdd i’r grog*,

agwedd o'r gro, / O fedd Addaf oedd iddo. Crybwyllir naw pren Addaf mewn dau gywydd o waith Hywel Dafï, gw. 3.61n, 5.39n, a cf. 102.7 Rhod ar groes o wýdd Moesen. Gw. ymhellach 100.16n.

- 2 **tyfiasai** Dilynwyd darlenniad Pen 67.
- 3 **Diwlais** Y mae hwn yn enw cyffredin ar afonydd sydd yn cynnwys yr elfen *du* mewn rhyw ffurf neu'i gilydd, gw. EANC 139. Ceir rhai yn y de yn siroedd Morgannwg, Caerfyrddin, Mynwy a Brycheiniog. Ymuna afon Dulas ag afon Llynfi nid nepell o Dalgarth, gw. SBPN 73. Y mae eglwys hynafol Llanfilo ar godiad tir ar lan ddeheuol afon Dulas. Y mae yno sgrin o'r 16g. a grisiau a oedd yn arwain at lofft y Grog, gw. BWPowys 340–1. Ai yno yr oedd y Grog a gyfarchodd Hywel Dafï?
- 5 **anaf O** Ar arwyddocâd yr ymadrodd, gw. 102.17n.
- 6 **pall** Gellid 'mantell' fel yn 40.45n, a thâl cofio nad peth anghyffredin fyddai rhoi gwisgoedd ysblennydd am grogau ar achlysuron arbennig. Cyfeirir at yr arfer mewn dau gywydd o waith Llywelyn ap Morgan, gw. M.P. Bryant-Quinn, '“Aur yw pris y wisg”': Llywelyn ap Morgan a'r Grog yn Aberhonddu', *Dwned*, 16 (2010), 51–91. O'r Llad. *palla* 'mantell' y tardda'r gair hwn, gw. GPC 2676. Bôn y f. *pallu* yw'r enw *pall* 'methiant, eisiau, nychdod', gw. *ib.* 2675–6. Ystyrion fyddai'r gair hwn hefyd am fod dioddefaint gweledol Crist ar y Groes yn cael ei ddisgrifio yn llau. agoriadol y cywydd.
- 7 **ni buoch** Rhannwyd y geiriau yn wahanol yn Pen 99: *ni bu och*. *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 31, 37, 38, 40, 42, 51 (ond gw. hefyd ll. 48n).
- 16 **awr ba hawr** 'Fesul awr'. Rhestrir yr ymadrodd *awr pe awr, awr by awr* yn GPC² 546; gw. hefyd GMW 97. Y mae'r gynghanedd yn galw am yr anadliad caled yma.
- 19 **tri dial** Rhestrir wyth dial yn un o gywyddau Siôn Cent, gw. IGE² cerdd XCV, a chyfeirir yn y canu crefyddol a dysgeidiol at dri gelyn, sef y cnawd, y cythraul a'r byd, gw. GSDT 15.1–8 (a hefyd GMRh 20.1–8) *Gwn nad da, gwaie enaid dyn / Draw goelio i dri gelyn: / Ei gnawd, un gan udone, / Ni ad un enaid i ne'; / A'r cythrel yw'r ail gelyn / (Bwriad tost) a wna brad dyn; / Hudol yw'r byd hefyd hwn / Yma i'w ddal, o meddylw'n*. Yma ymddengys mai *rhyfel* a *marwolaeth* (ll. 21) a *newyn* (ll. 22) yw'r tri dial.
- 21 **yn ôl** 'Rhyfel yn dilyn marwolaeth'. Ond ystyrion fyddai *yn nôl* 'Rhyfel yn peri marwolaeth'. Ar y f. *nôl* 'ymofyn, cyrchu, dwyn, dod â', gw. GPC 2595, ond i'r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf.
- 30 **dros dynion** Ar y calediad cyffredin hwn, gw. 7.40n.
- 36 **dyn o goed** 'Un sy'n byw yn y coed'. Gellid gwella'r ystyr trwy ddiwygio yn *dyn y god* 'gŵr ariannog', gw. GPC 1694 a cf. TA

CXXII.9–10 *Gŵr y gôd, â chyffoden, / Amod a wnaeth â'm dyn wen.*

- 41 **cwyn y Forwyn** Yr oedd gweld tynnu Crist oddi ar y Groes a'i gladdu yn ddau o'r pryderon a ddaeth i ran Mair, gw. ODC³ 1490.
- 43–4 **cwyn a gynllwynwyd** Gallai fod yn gyfystyr ag 'achos cyfreithiol a ddilynwyd mewn ffordd ddichellgar', ond digwydd *cwyn* yn ll. 41 ac 'achwyniad' sydd yn rhoi'r ystyr orau. Felly 'achwyniad y sawl a faglywyd', gw. GPC 653 d.g. *cwyn* ac *ib.* 793 d.g. *cynllwynaf*. Ymddengys fod y bardd yn cyfeirio at ryw anffawd neu galedi a ddaeth i'w ran.
- 44 **rhwyd** Trosiad am gaethiwed neu anghaffael o ryw fath, cf. 5.36n.
- 46 **eisio** Dilynwyd Pen 67; diwygiwyd yn *eisiau* yn Pen 99.
- 48 Cynghanedd groes o gyswllt neu *n wreiddgoll*.
- 53–4 Dyfynnir y cwpled yn *Cywyddau Cymru*, gol. A. Hughes (Bangor, 1926), 94.

100

Diogelwyd dau fersiwn pur wahanol o'r cywydd hwn. Ym Morgannwg y diogelwyd y naill. Copïodd Llywelyn Siôn y cywydd ar bum achlysur, ac y mae'r testunau sydd yn LIGC 13071B a LIGC 13061B yn rhannu'r un nodweddion o ran darlenniadau a threfn, fel y mae'r ddau destun diweddarach yn Bodley Welsh f 4 a J.R. Hughes 5, er nad ymddengys fod yr un o'r rhain yn tarddu yn uniongyrchol o un o lawysgrifau Llywelyn Siôn (ond mewn dwy ffynhonnell yn unig y rhoddir pennawd i'r cywydd, sef Llst 134 *llyma gywydd y nychdod* a LIGC 13061B *kywydd y nychdod*). I Huw Dafy y priodolir y cywydd yn yr holl destunau hyn, a chan fod y bardd yn arddel yr enw hwnnw yn Pen 67 nid oes achos i amau'r priodoli. Ond y mae awgrym o ansicrwydd yn LIGC 13061B lle y priodolir y cywydd i *Huw Davi o wynedd*. Ychwanegodd Iolo Morganwg ar ymyl y ddalen *Y mae Huw Dafydd arall o Gelli Gaer neu feallai mai r un oeddynt ac mai gwr o Wynedd o enedigaeth oedd Huw Davi o Wynedd*. Y mae'r cyfeiriad at Gynog yn llinell 11, ynghyd â'r cyfeiriadau pellach at ddau sant o'r Cantref Mawr a'r Cantref Bychan, yn dadl o blaid Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys.

Yn BL Add 14876 y diogelwyd yr ail fersiwn y rhoddir iddo'r pennawd *Cywydd i gwyno Clefyd a Heneiddra a mawl i'r Grog Ynghaerlleon Gawr*. Y mae'r fersiwn hwn, a gopiwyd yn y ddeunawfed ganrif, yn fyrrach o lawer. Collwyd sawl cwpled, enillwyd dau gwpled arall ac y mae un cwpled sydd yn digwydd yn y naill fersiwn a'r llall yn bur wahanol (llau. 55–6). Gwahanol hefyd yw trefn y llinellau. I Ieuan Brydydd Hir y priodolir y cywydd y tro hwn, a chyhoeddwyd y cywydd yn y golygiad diweddaraf o'i waith, gw. GIBH cerdd 11. Yr un llawysgrif oedd ffynhonnell Tudur Penllyn, &c.: Gw 107, a G.H. Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', Cy xxiii (1912), 297–9. Sylweddolodd golygydd GIBH fod y fersiwn

hwn yn anghyflawn a barnai fod dau gywydd gwahanol wedi eu cymysgu, un gan fardd o'r de a oedd yn cynnwys cyfeiriadau at y saint deheuol, a'r llall gan Ieuan Brydydd Hir yn cyfarch y Grog yng Nghaer, testun cywydd arall gan yr un bardd, gw. *ib.* cerdd 10. Ni chynhwysodd M.P. Bryant-Quinn y ddau gwpled a oedd yn enwi Cynfab a Chathen yn ei olygiad am ei fod o'r farn fod y rhain yn perthyn i gywydd gan fardd arall. Ni ddiogelwyd yn y fersiwn hwn y cwpled a oedd yn enwi Cynog.

Y mae'r cywydd yn ymrannu'n ddwy adran annibynnol. Nychdod y bardd yw pwnc y rhan gyntaf (llau. 1–30). Cyfeiria at afiechyd a ddaeth i'w ran; yr oedd holl gymalau ei gorff yn boenus (*Ni welid ym aelod iach*) ac effeithiwyd ar ei olwg yn ogystal (*Ni welwn onid niwlach*). Dywed iddo fod yn gaeth dros gyfnod o chwe mis, a hynny yn ystod misoedd yr haf. Cyfeiria ei weddiâu at dri sant, Cynog, Cynfab a Chathen, ac yna try ei sylw at y ddelw o'r Grog (ond gw. isod). Ymddengys ei fod yn gyfarwydd â hi; disgrifia ei phrif nodweddion a chyfeiria at ei dyfodiad i Gaer, er mai yn gynnil y gwneir hyn. Dilynir trywydd pur wahanol yn yr adran nesaf (llau. 31–70), a gosodir y cywair yn y llinell agoriadol *Twyll yw'r byd ynfyd anfaith*. Byrdrâ bywyd ac oferedd casglu meddiannau sydd yn ennyn sylw'r bardd yn awr, themâu sydd i'w canfod yng nghywyddau pregethwrol Siôn Cent. Ni sonnir rhagor am afiechyd y bardd, a deisyfiad am gymorth a gras Mair Forwyn yn nydd angau yn hytrach na chais am ymadferiad sydd yn cloi'r cywydd.

Y mae'n anodd gwrthod awgrym M.P. Bryant-Quinn fod dau gywydd wedi eu cymysgu. Ond lle yr awgrymodd ef fod y llinellau sydd yn cyfeirio at y saint o'r de ar y naill law a'r llinellau sydd yn cyfeirio at y Grog o Gaer ar y llaw arall yn perthyn i ddau gywydd gwahanol, ar sail y 70 llinell a ddiogelwyd gan Lywelyn Siôn, haws dadlau bod y rhan gyntaf (llau. 1–30) yn ffurfio uned ystyrion a bod yr ail ran (llau. 31–70) yn dod o gywydd arall.

O dderbyn bod y cywydd wedi ei ddiogelu yn ei gryswth, er ei fod yn cynnwys dwy adran weddol ddigyswllt, y ddadl gryfaf o blaid ei briodoli i Ieuan Brydydd Hir yw'r cynnwys. Gwyddys i'r bardd hwn gyfarch y Grog o Gaer ar achlysur arall; canodd hefyd i'r Grog enwog yn eglwys Aberhonddu ac i ffynnon y santes Gwenfrewy, gw. GIBH cerddi 9, 10, 12. Ei gyfansoddiad enwocaf oedd ei gywydd i henaint a ddiogelwyd mewn cynifer â 75 llawysgrif. Y mae rhan agoriadol y cywydd dan sylw yn debyg am ei fod yn cyfeirio at salwch a nychdod y bardd. Ar y llaw arall, y mae'r cyfeiriadau at y saint o'r de, ac at Gynog yn benodol, yn awgrym cryf mai i Hywel Dafi y dylid ei briodoli. Enwir Cynog mewn pedwar cywydd y gellir bod yn weddol sicr mai Hywel Dafi a'u lluniodd, ac at hyn canodd gywydd cyfan i'r sant, gw. cerdd 95.

Collwyd y ddalen a oedd yn cynnwys 11 llinell gyntaf y cywydd yn LIGC 21290E. Y mae gweddill y testun wedi llwydo ac ni chofnodwyd yr amrywiadau.

- 1 **gorweddiog** I ddiwedd yr 16g. y perthyn yr engh. gynharaf yn GPC 1506. Dyfynnir enghrau. cynharach o *gorweiddiog*.
- gorweddai** Disgwyliid berf 1 un. ond y mae'r llsgrau. oll o blaid *gorweddai*.
- 4 **chwimiais** Y mae'r cwpled ychydig yn wahanol yn BL Add 14876, ond bernir bod *chwimiais* yn rhagori ar *cemais* < *camu*, er nad yw'r ystyr yn wahanol iawn. Ar *chwimio* 'symud, syflyd', gw. GPC 856.
n wreiddgoll, ac felly hefyd yn llau. 8, 25, 36, 49.
- 7 Digwydd yr un ll. yn un o gywyddau Deio ab Ieuan Du, gw. GDID 4.73.
- 12 Y mae'r ll. yn rhy hir ond anodd ei diwygio yn foddhaol heb fennu ar y gynghanedd. Y mae'n bosibl mai ymgais i gyfleu ffurf 3 un.amhff. y f. (*gwanhâi*) yn hytrach na berfenw (*gwanhau*) sydd yn nifer o'r llsgrau.
n berfeddgoll.
- 13 **Cynfab** Ychydig sydd yn hysbys amdano ond y mae Capel Cynfab yn Llanfair-ar-y-bryn yn y Cantref Bychan, gw. LBS ii, 241; WCD 174; WATU 30.
- 15 **Cathen** Y sant a goffeir yn Llangathen yng nghwmwd Catheiniog yn y Cantref Mawr, gw. LBS ii, 91–2; WCD 110–11. Perthyn y ddau sant hyn, felly, i'r un rhanbarth. Hyd y gwyddys, Dafydd Epynt yn unig a ganodd gywydd iddo, gw. GDEp cerdd 4.
- 16 **Seth** Dengys y ddwy ffynhonnell fod ansicrwydd ynghylch y gair yn safle'r orffwysfa. Awgrymodd golygydd GIBH y gellid mabwysiadu *swyn*. Dewis arall, sydd yn cadw'n nes at ddarlleniad llsgrau. Llywelyn Siôn, fyddai'r e.p. *Seth*. Pan oedd Addaf yn ddeg ar hugain a chant, anfonodd ei fab Seth i baradwys i gyrchu olew trugaredd. Adroddir y digwyddiad yn 'Efengyl Nicodemus' yn HMSS 243–50. Rhoddodd yr angel dri hedyn i Seth a rhoes yntau'r tri o dan dafod ei dad wedi ei farw. Ceir sawl cyfeiriad at y rhan honno o'r hanes yng nghanu Lewys Môn, gw. GLM XXIII.35–50, XXVII.31–6, LIII.69–70, a gw. ymhellach J. Jenkins, 'Mediaeval Welsh scriptures, religious legends, and midrash', THSC, 1919–20, 129–31. Cyffelybir yr ennaint a gafodd y bardd gan Gathen i'r olew trugaredd a ddygodd Seth o baradwys. Am gyfeiriadau eraill at y digwyddiad, gw. 23.56n (henaint Adda), 66.62n, 99.1–2n.
- ugeinmil o saint** Y saint y dywed traddodiad iddynt gael eu claddu yn Ynys Enlli. Canodd Hywel Dafî gywydd iddynt ac i abad Enlli, a cf.

93.7–8 *Dau nid aeth, cofiaeth cwfaint, / O'u sêl i'r ugeinmil saint.*

17 **y ddelw** Mabwysiadwyd y fannod gan ddilyn BL Add 14876. Awgryma'r rhagenw sydd yn y llsgrau. eraill mai delw Cathen oedd testun myfyrdod y bardd, ond gwelir bod gwrthrych a lleoliad gwahanol dan sylw yn yr adran nesaf (llau. 17–30).

meddyliaf Ni ddywed y bardd iddo ymweld â'r eglwys yng Nghaer er ei fod yn ymwybodol o rai o'r traddodiadau am y Grog yn yr eglwys.

18 **gweryd clefyd** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n.

20 **Caerlleon** Denai creiriau'r santes Werburga ymwelwyr a phererinion i Gaer, ond yr hyn a greodd argraff ar y beirdd Cymraeg oedd y Grog yn eglwys Ioan y tu allan i furiau'r dref ganoloesol. Yn y farddoniaeth Gym. yn hytrach nag mewn testunau S. y diogelwyd gwybodaeth am y Grog ac awgrym o'i phwysigrwydd. Rhestrir y cerddi a ganwyd iddi gan B.J. Lewis, *Welsh Poetry and English Pilgrimage: Gruffudd ap Maredudd and the Rood of Chester* (Aberystwyth, 2005), 14–15. Cynigir testun o'r cywydd hwn ynghyd â cherddi Llawdden a Maredudd ap Rhys yn G.H. Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', *Cy xxiii* (1912), 293–9. Ceir detholiad o gerddi i Gaer ac i'r Grog, a throsiad i'r S., yn 'Medieval Chester' <www.medievalchester.ac.uk>. Ar y llaw arall, efallai mai addunedu i roi kannwyll sydd cyhyd ag ef ei hun, a chyhyd â'r canhwylau sydd i'w gweld yn eglwys Caer, i eglwys arall lle yr oedd delw o'r Grog a wna'r bardd. Awgryma'r cyfeiriad at ddyfodiad y ddelw *o'r dŵr* (ll. 25n) mai'r Grog yn eglwys Caer yw pwnc y rhan hon o'r cywydd.

21 **teiroel** Portreedir Crist wedi ei groeshoelio a'i draed ynghyd ac wedi eu trywanu ag un hoelen, ond ar adegau eraill darlunnir y traed ar wahân, megis yn Llangynwyd, a barnu wrth dystiolaeth cywydd Lewys Morgannwg, gw. GLMorg 101.47–8. Ar y ddau arfer, gw. G.H. Jones, *art.cit.* 298n2; GIBH 10.18n. *Teirhoel* yw'r ffurf yn un o gywyddau Huw Cae Llwyd, gw. HCLl LI.37 *Teirhoel, a wnaeth gynt hiraeth.*

22 Bai crych a llyfn, a gw. ymhellach 1.16n a 'Cynghanedd' td. 42. Cynigir darlleniad amgen yn BL Add 14876 *Dwy o ddur drwy ei ddwy law*, ond nid oes cynghanedd o gwbl yn y ll. hon.

25 **o'r dŵr** Yn BL Add 14876 yn unig y digwydd yr ardd. *o; ir dwr* sydd yn y testunau eraill. Disgrifia Maredudd ap Rhys y modd y cludwyd y Grog gan y tonnau i Gaer, gw. GMRh 2.29–30 *Llyna'r ddelw fyw a elwir, / Llanw a'i dug dduw Llun i dir.* Trafodir yr awgrym mai o Iwerddon y daeth y Grog yn A.C. Lake, 'Y Grog yn Nulyn', *Dwned*, 20 (2014), 79–85.

28 Y mae darlleniad BL Add 14876 yn ategu darlleniad Llst 47, ond diau mai *ymlâdd* yn hytrach nag *ymladd* sydd yn taro orau yma. Ar *ymlâdd*

- ‘mynd yn lluddedig iawn, blino’n lân, diffygio’, gw. GPC 3789. Darlleniad y tri thestun arall sydd yn llaw Llywelyn Siôn yw *yn roddi ni nawradd nef*. Y mae’r ll. hon eto yn ystyrllon, a cf. GLMorg 103.29–30 (mewn cywydd i Fair o Ben-rhys) *Arweddodd wr i ddioddef / I roddi i ni nawradd nef*.
- 37 **nid mawr** Llst 47 yn unig sydd yn rhoi *nym dawr*, ac ar yr ymadrodd gw. 25.22n. Gellid diwygio yn *ni ddawr gan ddyn ... fâr Duw*.
- 39 **saith bechod** Dau o’r pechodau a restrir sef diogi (*llesgedd* ll. 43) a *llid / bâr* (ll. 44). Enwir pump o’r pechodau mewn cywydd arall, gw. 98.22n. Diwygiwyd *saith pechod* y llsgrau. am mai cyffredin oedd treiglo’r enw yn dilyn y rhifolion *saith, wyth*, gw. Treigladau 134–5. Cf. 85.36 *wyth win*, 101.37n *saith elyn* (ond *saith gelyn* a ysgrifennwyd yn y rhan fwyaf o’r ffynonellau), ond 49.6 *wyth brenhinllwyth*.
- 44 Wyth sillaf yn y ll.
- 45 **murno** Y mae’n gyfystyr â ‘llofruddio, niweidio’, ond ‘cuddio, celu’ yw’r ystyron gorau yma, gw. GPC 2504.
- 47 **pan fai fyd** ‘Pan yw yn fyw’ h.y. yn ystod ei oes. Gwrthodir *mud* Llst 134 a BL Add 14876 er bod y rhybudd yn un cymwys ddigon: bydd yn rhy hwyr i edifarhau pan ddaw marwolaeth a phan fydd y corff yn fud yn y bedd.
- 48 **gwyliwr** Dilynwyd awgrym golygydd GIBH, a diwygiwyd *gwyliwr* y llsgrau. yn *gwyliwr* sydd yn gyson â ffurf un. y rhagenw yn llau. 50, 53, 55.
- 55–6 Er bod y brifodl yn wahanol yn BL Add 14876 ymddengys mai’r un neges a gyflwynir yn y naill gwpled a’r llall.
- 58 **y rhwyd** Ar ddefnydd y bardd o’r ddelwedd, gw. 5.36n.
- 63 **bradwyr** Efelychwyr Suddas a werthodd Grist am 30 darn o arian. Digyswllt braidd yw’r ll. hon.

101

Rhoddwyd y pennawd *Kywydd ir byd i ddangos faint i Siomedigaeth* yn LIGC 643B, a *Cowydd yn dangos y gedewir y byd ag na chalyn y da a fedhom ir bywyd yr enidie ni pan elom o ddyma* yn BL Add 14984.

Y mae’r cywydd wedi ei briodoli i bum bardd yn y llawysgrifau, gw. ‘Cerddi Ansic’ tt. 50–1. Y mae sawl cyfatebiaeth rhwng y cywydd hwn a chywydd arall i’r byd a briodolir i Hywel Dafî, gw. cerdd 98, ac ar sail y rhain gellir cynnig bod achos cryf dros briodoli’r cywydd hwn hefyd i’r un bardd. Y cyfatebiaethau amlycaf yw i. y cwpled a ailadroddir yn y ddau gywydd, gw. llau. 23–4n; ii. arfer y gair gwan *heb* yn safle’r odl yn y gynghanedd sain yn ll. 24; iii. y trosiad *meddyges* wrth gyfeirio at Fair, gw.

ll. 50n; iv. y cyfeiriadau at Saith Weithred y Drugaredd a'r defnydd o'r un trawiad cynganeddol wrth gyfeirio atynt, gw. ll. 35n. Nid yw dosbarthiad y cynganeddion yn y ddau gywydd yn rhy annhebyg, er bod y groes yn amlycach yn 'Y byd rhwng ei bedwar ban' (101) a'r sain yn amlycach yn 'Dall yw'r byd o deellir' (98):

'Dall yw'r byd o deellir' croes-45%, traws-17%, sain-27%, llusg-11%

'Y byd rhwng ei bedwar ban' croes-57%, traws-15%, sain-22%, llusg-6%

Seiliwyd y golygiad ar y testunau sydd yn priodoli'r cywydd i Hywel Dafi. Y mae trefn y cwpledi yn y testunau sydd yn enwi'r beirdd eraill yn wahanol, ond pennaf hynodrwydd y rhain yw'r llinellau ychwanegol a ddiogelwyd. Y mae saith cwpled i gyd i'w gweld yn y rhain, ond nid yr un cwpled sydd yn digwydd ym mhob testun, a hyd yn oed os bydd y cwpledi yn gyffredin, nid yw eu trefn yn cyfateb bob tro. Collwyd tri chwpled yn CM 3, a chollwyd chwe chwpled yn BL Add 14971. Er mai Hywel Swrdwal a enwir yn LIGC 3049D a Bodewryd 1, y mae'r drefn yn wahanol yn y naill a'r llall. Ac eithrio un cwpled coll, y mae'r cywydd yn gyfan yn LIGC 3049D ond collwyd pum cwpled yn Bodewryd 1.

Ni chofnodwyd amrywiadau pedair llawysgrif ddiweddar. Y mae J.R. Hughes 6 a Card 4.156 yn dilyn trefn y testunau sydd yn enwi Hywel Dafi, a Llst 133 a LIGC 1979B yn dilyn CM 3. Collwyd darn helaeth yn J.R. Hughes 6 yn dilyn llinell 30, a nodwyd, 'Here follows twenty four lines illegible in MS the two last of which finish this cywydd.' Diflannodd y llawysgrif honno erbyn hyn.

6 **brawdwr ... brwydwr** Cynganeddir y geiriau *brawdwr*, *bradwr* a *brwydr* yn y rhan fwyaf o'r llsgrau., ond bod y drefn, a'r union gyfuniad, yn amrywio. Addas yw *brawdwr* 'barnwr' a gallai *bradwr* fod yn ystyrion o roi iddo'r ystyr 'twyllwr'. Y gair mwyaf anaddas yw *brwydr*, ond bernir mai ymgais i gyfleu *brwydwr* 'brodiwr' sydd yma, er mai i'r 18g. y perthyn yr engh. gynharaf a restrir yn GPC 336. Un ffynhonnell, sef LIGC 834B, sydd yn cynnig y darlleniad hwn. Ar y syniad o nyddu, a thorri edau einioes, cf. 5.24n. Dewiswyd y cyfuniad *brawdwr* a *brwydwr*, ond rhaid cywasgu'r naill neu'r llall yn unsill er mwyn sicrhau saith sillaf.

9 **argyhoedd** 'Yn haeddu ei gondemnio, euog', gw. GPC² 458. Perthyn yr engh. gynharaf a ddaw o waith William Salesbury i ganol yr 16g.

13 **trycha** Gradd eith. yr a. *trwch* 'anffodus, trist, truenus, gwael', gw. GPC 3625-6 d.g. *trwch*².

14 **treulio** Digwydd *treulio* a *treuler* yn 23.41-2n.

15-16 Dewiswyd y darlleniad *Cadarn gwan truan y try* ('Bydd y gŵr nerthol yn mynd yn wan a thruenus') yn hytrach na *Cadarn o druan a dry* ('Bydd y gŵr truenus yn mynd yn nerthol') yn ll. 15, ond er mwyn

- cwblhau'r cylch rhaid addasu'r darlleniad yn ll. 16, *Ac o gadarn gwan gwedy* sydd yn ailadrodd neges braich gyntaf y cwpled yn *A go gadarn gwan gwedy*.
- 15–18 Cyffredin yn yr Oesoedd Canol oedd y syniad o rod ffortun; darlunnid unigolion o'i chylch a hynny dan amgylchiadau gwahanol. Llai cyffredin oedd darlunio cyflyrau penodol, ond digwydd hyn yn un o gywyddau mwyaf adnabyddus Tudur Aled, fel y sylwodd G.A. Williams, ‘“Tudur Aled ai cant yn dda om barn i”’: cywydd cymod Wmffre ap Hywel ap Siancyn o Ynysymaengwyn a'i geraint’, *LlCy* 30 (2007), 57–99, ac yn benodol llau. 95–106 yn y cywydd *Heddwch ... / Cyfoeth a faca hefyd. / Cyfoeth ... / ... a fag rhyfel. / Rhyfel a fag ... / Tlodi*. Cyfleir yr un syniad yn y llau. hyn. Gelwir sylw at engh. gyffelyb yn A.C. Lake, ‘Rhod ffawd’, *LlCy* 37 (2014/15), 87–9.
- 16 *n* berfeddgoll.
- 19 Gellid cynganedd draws neu sain, ond gwelir bod cyfatebiaeth *'dd = /f* o dan yr acen.
- 22 **bywyd angau** ‘Bywyd a reolir gan angau’.
- 23–4 Digwydd yr un cwpled mewn cywydd arall gan Hywel Daf i'r byd, gw. 98.45–6. Cyfeirir yn 98.11n at l. arall sydd yn cynnwys y gair gwan *heb* mewn cynganedd sain yn safle'r odl. Adffurfiwyd y cwpled yn CM 3 gyda phrifodl wahanol. Nid atebir y ddwy gytsain *rh.g* ar ddechrau'r ll., cf. ll. 27n, ond *O angau ni ddihengir* sydd yn 98.45, a dyna ddarlleniad sawl llawysgrif ar gyfer y ll. hon. Dyna'r darlleniad yn J. Davies: Flores 24 hefyd lle y dyfynnir y cwpled. Fe'i dyfynnir hefyd yn *Cywyddau Cymru*, gol. A. Hughes (Bangor, 1926), cerdd CXVII.
- 24 Y mae'r gynganedd yn gryfach o ddilyn Card 2.114 a BL Add 14971 lle y ceir cynganedd groes yn hytrach na chynghanedd sain a'r odl ar air gwan: *Duw ni ad un dyn yn wir*. Am ddarlleniad arall unigryw yn y llsgrau. hyn, gw. ll. 41n. Ond y mae'r rhan fwyaf o'r llsgrau. o blaid *Ac nid â heb neb yn wir*, a dyma'r darlleniad mewn cywydd arall gan y bardd, gw. 98.45–6.
- 25–6 Cf. IGE² LXXXV.23–4 *Yr enaid ni wŷr yna, / O Dduw! i ba ffordd ydd â*.
- 27 Nid atebir y ddwy gytsain sydd ar ddechrau'r ll., sef *m, l*.
- 31 **trosedd** Cynigir *trawsedd* mewn sawl ffynhonnell, darlleniad sydd ar yr olwg gyntaf yn rhagori ar *trosedd*, a cf. IGE² XCIII.23–4 *Heb gledd i'w ganlyn, heb glod, / Heb arfau dur, heb orfod*. Ond y mae *trosedd* yn gyfystyr â ‘rhinwedd, rhagoriaeth, goruchafiaeth’, a gweddai'r ystyr honno yma. Cf. 75.29n *Pwy ond Rhys, pen y trosedd?*
- 35 y **saith weithred** Saith Weithred y Drugaredd, sef bwydo'r newynog, rhoi diod i'r sychedig, dilladu'r noeth, rhoi llety i'r teithiwr, gofalu am y claf, ymweld â'r carcharor a chladdu'r marw. Rhestrir y saith yn gryno

mewn englyn a briodolir i Raff ap Robert, gw. GRR cerdd 17, ac ymhellach GIBH 5.43–4n; GMRh 20.45n. Byddai'r saith hyn yn feddyginiaeth yn erbyn drwgeffeithiau'r Saith Bechod Marwol, gw. ll. 37n. Am gyfeiriad arall at y pechodau yng nghanu Hywel Dafï, gw. 98.23–8.

Ailadroddir y cyfuniad *eithr / weithred* mewn cynghanedd lusk yn y cywydd hwnnw drachefn, cf. 98.65 *Ni chaff neb eithr ei weithred*.

37 **saith elyn** Y Saith Bechod Marwol. Nid enwir hwy y tro hwn, ond enwir pump yn 98.22n a dau yn 100.39n. Ar y treigladd yn dilyn y rhifol *saith*, gw. 100.39n, ond y gysefin a gofnodwyd yn y rhan fwyaf o'r llsgrau.

40 **dieflaid** Gw. 63.4n.

41 **cwlm** 'Cyswllt, uniad, undeb', gw. GPC 640. Cf. DG.net 73.71 *Cael i minnau, cwlm anun*. Nid yw *claim* 'hawl, yr hyn sydd yn ddyladwy, braint', gw. GPC 489, darlleniad Card 2.114 a BL Add 14971, yn gyson â chywair ymostyngol ac edifeiriol y cywydd.

49 **cwm** Yn drosiadol am uffern.

50 **Meddyges y camddegwm** Mair yw'r un sydd naill ai yn gwella neu yn eiriol ar ran y rhai na fu iddynt dalu degwm i'r eglwys. Un o rinweddau'r llafurwr yng nghywydd Iolo Goch oedd iddo roi *Offrwm a'i ddegwm i Dduw*, gw. GIG XXVIII.10. O atalnodi yn wahanol gallai *camddegwm* oleddfu *cwm* yn ll. 49, cyrchfan y rhai na fu iddynt dalu eu degwm.

53 **golef** Ffurf amr. ar *golau*, gw. GPC 1445–6. Anodd pennu darlleniad boddhaol ar gyfer y ll. hon. Cynghanedd sain sydd ynddi ond ceir *nef, hedd* a *gwledd* yn safle'r odl gyntaf er bod y rhan fwyaf o'r llsgrau. o blaid *nef*. Collwyd y cwpled yn CM 3. Dilynwyd darlleniad unigryw Pen 84 *brau olef*. Mentrus fyddai addasu darlleniad LIGC 13079B a diwygio yn *breuoledd brig* (a mabwysiadu naill ai *hedd* neu *gwledd* er mwyn sicrhau odl), ond ystyrion fyddai'r cyferbyniad rhwng marwoldeb y corff a bywyd tragwyddol yr enaid. Ar *breuoledd* 'breuder, eiddilwch, marwoldeb', gw. GPC 322–3, ac ar *brig* 'copa, pen, ac yn ffig', gw. *ib*. 324.

54 Cf. GHS 22.66 *I'n eneidiau'n enwedig*.

Cywydd i'r Grog yn eglwys Ioan yn Aberhonddu yw hwn. Y mae'r copïau niferus yn arwydd o enwogrwydd y Grog honno a gyfarchwyd mewn cywydd a briodolwyd i Huw Cae Llwyd ac i Ieuan Brydydd Hir, gw. GIBH cerdd 12. Bardd arall a ganodd i'r Grog flynyddoedd yn ddiweddarach oedd

Siôn Ceri, gw. GSC cerdd 54. Crybwyllir y Grog, ond heb ei disgrifio, ynghyd â lleoliad yr eglwys *lle beirw Hodni*, mewn cywydd i Grist o waith Dafydd Epynt hefyd, gw. GDEp cerdd 1 (ll. 32). Y Grog a oedd yn nhŷ'r Dominicaniaid yn Llan-faes ar gyrion tref Aberhonddu a gyfarchwyd gan Lewys Morgannwg ar y llaw arall, gw. GLMorg cerdd 104. Ymddengys fod Ieuan ap Huw Cae Llwyd wedi ymweld â Llan-faes i ddeisyf bendith y Grog cyn ymgymryd â'i bererindod i Rufain, gw. HCLl cerdd LI. O blith y beirdd a ganodd i'r Grog yn eglwys Ioan, Hywel Dafu yn unig sydd yn cyfeirio at y ddau leidr o boptu Crist. A barnu wrth dystiolaeth ei gywydd, yr oedd delwau o'r pedwar efenglydd, sef Marc, Luc, Mathew a Ieuan, ar bedwar pen y groes hefyd. Geilw'r bardd am ras Crist ar ôl disgrifio ei ddiodefaint ar y groes, ond try yn adran nesaf y cywydd at y saith archangel gan ddeisyf eu cymorth hwythau yn yr un modd. Yn rhan olaf y cywydd mydryddir rhai o'r enwau a arferid wrth gyfeirio at Grist, a chredid bod ynganu'r enwau hyn yn weithred a fyddai'n sicrhau bendith. Cydnabyddir cymorth parod M.P. Bryant-Quinn wrth ddehongli'r cywydd ac wrth lunio'r nodiadau hyn.

Diogelwyd dau destun yn llaw Hywel Dafu, y naill yn Pen 54 a'r llall yn Pen 67. Y mae pedwar cwpled olaf y cywydd wedi eu gwahanu yn Pen 54 ac fe'u ceir ar ddalen arall, ond yn yr un llaw. Ar frig tudalen 2 y mae'r cywydd yn dechrau yn Pen 67 yn hytrach nag ar ddiwedd tudalen 1, gthg. Peniarth MS. 67. Collwyd dechrau llinellau 1–20 yn y llawysgrif hon oherwydd traul. Nodwyd yr amrywiadau os oedd lle i gredu bod y darlleniadau yn wahanol i ddarlleniadau Pen 54. Y mae cyfatebiaeth glòs iawn rhwng y ddau destun gyda golwg ar y darlleniadau a'r orgraff, a seiliwyd y testun ar y ddwy ffynhonnell hyn. Ond ceir yn y ddwy ambell enghraifft o gamgopïo.

Y mae'r cywydd yn gyfan yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau eraill a dilynir yr un drefn (ac felly yn BL Add 10314 a LIGC 670D er na nodwyd darlleniadau amrywiol y ddwy hyn). Collwyd un cwpled yn Llst 6, ac felly hefyd yn Bodewryd 1 er mai i Siôn Ceri y rhoddir y cywydd yno. Collwyd dechrau'r cywydd yn LIGC 13079B ac yn Card 2.201 am fod dalen yn eisiau yn y llawysgrif. Newidiwyd safle bloc o ddau gwpled yn adran agoriadol y cywydd yn y copïau sydd yn llaw Llywelyn Siôn. Y mae trefn unigryw yn BL Add 14866 ac yn Pen 112, y ddwy ffynhonnell sydd yn priodoli'r cywydd i Ieuan ap Rhydderch. Y mae rhyw gymaint o debygrwydd rhwng y drefn hon a threfn Card 2.201 er mai wrth enw Hywel Dafu y mae'r cywydd yn yr olaf. Y mae'r drefn yn wahanol eto yn BL Add 31056 (ac yn BL Add 31070 sydd yn gopi). Trafodir awduraeth y cywydd yn 'Cerddi Ansic' td. 52.

Argraffwyd y cywydd yn *Gwaith Sion Cent*, gol. T. Matthews (Llanuwchllyn, 1914), cerdd XVIII, ac yn IGE cerdd LXXXII gyda gwaith Ieuan ap Rhydderch. Honnir yno fod y golygiad wedi ei seilio ar BL Add 14866, Pen 112, Llst 6 a Pen 58 ond mewn gwirionedd nid yw'r cywydd i'w weld yn Pen 58. Ni ddefnyddiwyd Pen 67 er bod y golygydd, T. Roberts, yn galw sylw at y ffynhonnell honno. Trafodir y canu i'r Grog yn eglwys Ioan gan

B. Parri, 'Crog Aberhodni', *Brycheiniog*, xxxv (2003), 19–36, a cheir testun o gywydd Hywel Dafï ynghyd â chyfieithiad ar dt. 26–7.

1 **aurdroedog** Yr oedd y ddelw wedi ei lliwio â lliw disglair, a cf. GSC 54.17–18, 35 *Un oed yna 'n y dinas, / Eurwaith lun, â'r awr y'th las / ... / Dy iad euraid i dariaw.*

trydoll Ffurf b. *trydwl* 'llawn tyllau', gw. GPC 3638.

2 **arfau** Gellid yr ystyr gyffredinol 'offeryn, teclyn' ond y mae'r gair yn fwy penodol yma. Dyma'r *Arma Christi*, y gwrthrychau a oedd yn gysylltiedig â dioddefaint Crist, megis y groes, y goron ddrain, y waywffon a'i trywanodd a'r piler lle y'i fflangellwyd, gw. E. Duffy, *The Stripping of the Altars* (Yale, 2005), 246 a delwedd 99. Yn y cywydd i'r Grog a roddir i Ieuan Brydydd Hir yn GIBH cerdd 12, crybwyllir y tair hoel, y goron ddrain a'r waywffon. Perthynai gwedd filwrol i'r arfau hefyd, a dynodent yn symbolaidd y modd y gorchfygodd Crist Satan. Yma cyffelybir y ddelw sydd wedi ei pheintio yn lliwgar i filwr arfog, ac ailadroddir y syniad yn llau. 11–12 *Yn erbyn ... / ... 'n ei fetel*, a thrahefn yn llau. 57–8 *Arfer o grwys, arfau'r Grog, / A orfydd ar bob arfog.*

croes deau Disgwyliid i'r a. dreiglo, ond cf. y modd y cedwir y gysefin yn dilyn y *Grog* yn GLMorg 1.93n *Trwy'r Grog gwyarog a'i goron—a'i Groes* a hynny, o bosibl, am fod y beirdd yn synio am y Grog megis delw ar y naill law ac megis ail berson y Drindod ar y llaw arall, gw. M.P. Bryant-Quinn, 'Addoli'r Grog', LICy 35 (2012), 171–7. Y mae hefyd yn bosibl fod yma engh. o'r calediad *-s d-* sydd yn digwydd mewn ymadroddion megis *tros daear, dros dynion*, gw. 7.40n.

3 **yr Ystrywaid** Y rhan o dref Aberhonddu lle y saif eglwys Ioan. Dangosodd M.P. Bryant-Quinn fod y fannod yn digwydd o flaen yr enw erbyn yr 16g., gw. GIBH 12.8n, ond fe'i ceir hefyd yn y ddau destun sydd yn llaw Hywel Dafï. Dilynwyd y ddau ddarlleniad hynny. Darlleniad y rhan fwyaf o'r llsgrau. yw *yn ystrywaid* a allai fod yn ymgais i gyfleu *yn y Strywaid*.

7 **gwŷdd Moesen** Gw. 99.1–2n.

8 **Dismas a Sesmas** Yn Efengyl Luc yn unig y crybwyllir y ddau leidr a groeshoeliwyd gyda Christ, ond heb eu henwi, gw. Luc 24.39–43. Daethpwyd i'w hadnabod wrth yr enwau Dismas (y lleidr da) a Gesmas (y lleidr drwg), gw. ODCC³ 489. *Rhwng Dismas a Sesmas hen* sydd yn rhoi'r gynghanedd gryfaf. Yn Pen 54 ceir *dismas a desmas* a dichon mai'r un darlleniad a oedd yn Pen 67 (ond collwyd dechrau'r ll. oherwydd traul). Ar un ystyr y mae'n rhyfedd i'r bardd ailadrodd y gwall ar ddau achlysur, ond awgryma'r darlleniadau tra gwahanol yn yr amryfal lsgrau. nad oedd yr enwau yn gyfarwydd.

9 **deufraich** Ar genedl *braich*, gw. 70.36n.

- 12 **metel** Gw. ll. 2n. Ymddengys fod y ddelw wedi ei heuro a'i bod yn disgleirio fel metel. Nid 'anian, dewrder' fel yn 42.53, 48.33, 72.37.
- 13 **barwn** Dyma ddarlleniad Pen 54 a Pen 67. Anarferol yw gweld y gair hwn yn cael ei ddefnyddio wrth gyfeirio at Grist, a mabwysiadwyd *brenin* mewn sawl ffynhonnell ddiweddarach. Ond cf. ASCent 8.5–6 *Brenin gwyllt, bara a gwin, gwâr, / Barwn Duw, brenin daear.*
- 17 **deugeincant weli** Ar arfer y ffurf *cant* yn hytrach na *can* yn y safle hwn, gw. 8.59n. Disgwyliid cysefin yr enw ond cf. ll. 20 *A thrigain weli drain draw.*

gweli Myfyrdod y santes Ffraid ar y clwyfau ac ar ddiodeffaint Crist yw'r pymtheg 'O' neu 'O Iesu', cyfres o weddïau a phob un yn agor â'r ebychiad 'O!'. Yr oedd y rhain ymhlith gweddïau mwyaf poblogaidd yr Oesoedd Canol yn Lloegr, gw. E. Duffy, *op.cit.* 248–56; ODCC³ 237. Gw. hefyd 99.5 *anaf O*. Tebyg fod y gweddïau yn hysbys yng Nghymru yn eu ffurf Lad. ond fe'u cyfieithwyd i'r Gym. a diogelwyd chwe chopi, un yn llaw Thomas Wiliems yn BL Add 31055, gw. B.F. Roberts, 'Pymtheg gweddi San Ffraid a'r pardwn', B xvi (1954–6), 254–68. Ymddengys fod y bardd yn cofnodi traddodiad a gysylltir â'r santes Birgitta o Sweden. Mynnai wybod sawl gwaith y clwyfwyd Crist yn ystod ei ddiodeffaint, a hysbyswyd hi mewn gweledigaeth pe bai yn adrodd y 'Pater Noster' a'r 'Ave Maria' yn feunyddiol am flwyddyn gyfan, byddai'n llwyddo i addoli pob un o'r clwyfau hynny. Cysylltir y weledigaeth â'r santesau Mechtild a Gertrude hefyd, gw. A. Breeze, 'The number of Christ's wounds', B xxxii (1985), 84–91. Gelwir sylw at dair cerdd Gym. sydd yn crybwyll y clwyfau, sef cywydd Hywel Dafi, englyn a roddir i Iolo Goch a chywydd gan Syr Gruffudd Fain. Canodd Iorwerth Fynglwyd gywydd i'r santes Ffraid (o Iwerddon) ond cymysgodd rhyngddi a'r santes Birgitta trwy honni yn GIF 43.37–8 *Gwyddud y pymtheg gweddi, / gwedd deg y gweddï di.*

Y cyfanswm o luosogi 15 gweddi a 356 diwrnod y flwyddyn yw 5475, ond yng nghywydd Gruffudd Fain yn unig y mydryddir y rhif hwnnw. Y cyfanswm a fydryddir yn y cywydd hwn yn llau. 17–20 yw 4975, sef *deugaincant ... a naw* (49 x 100) ... *a thri phump ... a thrigain* (75). Gellir addasu'r rhif trwy atalnodi yn wahanol neu trwy fabwysiadu *nawdd* yn hytrach na *naw* yn ll. 18, fel y gwnaeth A. Breeze, ond ni cheir y cyfanswm o 5475.

- 25–6 **salma ... palma ... / Cedrus, cypresus** Dywed yr angel wrth Seth y bydd tair gwialen yn tyfu o'r tri hedyn a roddwyd iddo ym mharadwys: *Vn onadunt a vyd o ryw cedrus. Yr eil a vyd o ryw cypressus. Ar trydyd a uyd o ryw y pinus*, gw. HMSS 245; 99.1–2n. Enwir y tri yn yr awdl a ganodd Gruffudd ap Maredudd i'r Grog o Gaer, gw. GGMD ii, 1.165–6 *Rhywogaeth cedrus, rhwydd swydd cypressus, / O geingiau pinus a*

rygyngain. Ar y llaw arall, enwir pedwar deunydd mewn cywydd a ganodd Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 2.3–6 *Pedwarryw cyn pedeiroes / o wŷdd i Grist oedd ei Groes: / olifa, palma 'mhob ban, / siprisus, sidrus oedran*. Am gyfeiriadau at y prennau unigol, gw. yr awdl a briodolwyd i Ddafydd ap Gwilym, lle y dywedir i Grist *brynu penyd ar bren pinus*, gw. DG.net 152.26, a'r awdl a ganodd Syr Phylib Emlyn lle yr enwir y gypreswydden a'r balmwydden, gw. GPhE 5.33–4, 49–50 (a 5.48n) *Ac yno rhodded ein gwiwNen—o nef, / Iesu, i oddef ar seipryswydden. / ... / Iesu a godes i nerthu'r bresen, / Ar y trydydd dydd, â'i balmidydden*.

Fel Lewys Glyn Cothi, crybwylla Hywel Dafï y gedrwydden, y gypreswydden, a'r balmwydden. Ni ddigwydd *olifa*, sef yr olewydden, yn yr un ffynhonnell; *salma* ac *alma* yw'r darlenniadau mwyaf cyffredin ond anodd gweld bod modd uniaethu un o'r geiriau hyn ag enw ar bren. Cadwyd *salma*, darlenniad Pen 54 a Pen 67; tybed ai cyfleu'r ffurf *balsa* oedd bwriad y bardd, sef 'balm; coeden neu lwyn sy'n cynhyrchu balsam', gw. GPC² 568 a cf. GHS 21.61–2 *Sawr a roes ar yr Iesu, / Sawr sinam neu falfsam fu*.

- 25 **salma, W** Rhestrir *balsamjm* yn GPC² 568. Ni ellir mabwysiadu'r gair hwn er bod nifer o'r llsgrau. o blaid *salma w* neu *salma yw*, sef i. 3 un.pres.myn. *bod*; ii. *yw*, un. *ywen*. Dewiswyd *W* 'Omega' er bod y gair hwn yn digwydd yn ll. 66n.

palma 'Palmwydden', a benthyciad dysgedig o'r Llad. *palma*, gw. GPC 2674.

- 26 **cedrus, cypresus** Cofnodwyd y ddau air mewn ffyrdd gwahanol iawn i'w gilydd yn y llsgrau. Ni restrir *cedrus* yn GPC, ond ffurf Gym. ar y Llad. *cedrus* yw *cedr*, gw. GPC 446. Daw *cypresus* o'r Llad.Diw. *cypressus*, gw. *ib*. 805. Anodd yw esbonio *nitrys* Pen 54 a Pen 67, ond efallai mai Llst 6 a ddiogelodd y ffurf y bwriadwyd ei chyfleu yno sef *vitys*, Llad. *vitis* 'gwinwydden' a arferir yn drosiadol am Grist, gw. Ioan 15.1 *Myfi yw'r wir winwydden*, a cf. GPhE 5.23–4 *Iesu a aned rhwng ych ac asen / O gnawd Mair Forwyn, addwyn winwydden*.

- 27 **pumoes** Rhennid y cyfnod cyn Crist yn bum oes, gw. 1.37n.

apêl 'Cwyn, achwyniad, cyhuddiad' yw'r unig gyfystyron cyfoes yn ôl GPC² 399. I'r 18g. y perthyn yr enghrau. sydd yn cyfleu'r ystyr 'galwad am gymorth', ond hwn sydd fwyaf addas yn y cyd-destun.

- 28 **dringodd** Darlenniad Pen 54 yn llaw Hywel Dafï yw *dringoedd*. Ar y terfyniad, gw. 66.32n.

pedwar angel Y pedwar efengelydd. Uniaethir pob un ag arwydd traddodiadol, sef llew (Marc), ych (Luc), dyn (Mathew) ac eryr (Ieuan), a cf. GGMD ii, cerdd 14 a'r nodiadau yno ar y pedwar symbol.

- 29 *r* berfeddgoll a rhaid cyfrif *cofl* 'baich, llwyth', gw. GPC 537, yn air

deusill. Y darlleniad mwyaf cyffredin a gynigir ar gyfer ail ran y ll. yw *mawr yw cur lliid*.

- 30 **Lucas** Un o ddisgyblion Crist ac un o'r pedwar efengylydd, gw. ODCC³ 1005–6.
- 34 **r'euraw** Y geiryn berfol *rhy*, gw. GPC 3122–3 d.g. *rhy*² + *euraw*; cf. DG.net 86.51 *Gwaed yr edn gwedy r'odi*.
- 37–8 **Dodaf amdanaf ... / Dy arwydd** Cf. llau. 55–6 *Gwisgaf i'm cylch rhag asgen / Croes Duw a Mair*; hefyd 93.53n.
- 42 **saith archangel** Yn yr adran 'Nawradd yr Angylion' yn 'Ymborth yr Enaid', esbonnir mai *archegylyon, tywyssogyon yr egylyon ynt, kannys y petheu mwyhaf a vanagant. A rei ohonunt a gawssant enwev vrth y gwassanaethev, megys y tri hynn: Michael, Gabriel, Raphael*, gw. YE 27. Yr oedd lle y tri hyn ynghyd ag Uriel yn sicr ymhlith y saith archangel, tra amrywiai enwau'r tri arall. Enwir pump o'r archangylion yn yr awdl a ganodd Dafydd Nanmor i Harri Tudur, gw. DN XVII.35–6 *Mair, Gabriel, Sariel, Tomas, Uriel, / Mihangel, Rhiniel, a fo rhannog*. Enwir y saith mewn cywydd a briodolir i Fathau ap Llywelyn Goch ac i Lywelyn Guto Bannwr (er mai wrth enw'r olaf y mae'r testun llawnaf). 'Cywydd i'r Archangylion' yw hwn yn ôl Pen 198, 161, ond Mihangel sydd yn hawlio'r sylw pennaf: *a saith twysog enwog ynt / Mihangel Gabriel ywr gwyr / Vriel a Raffael eryr / Ragwel a Sariel wyr syw / penn dasron paen dewisryw* (Llst 47, 308). Enwir Mihangel, Gabriel, Raffael ac Uriel yn y cywydd hwn ac yng nghywydd Hywel Dafi. Am y tri sydd yn weddill enwir Sariel, Aruniel a Phenaeliel gan Hywel Dafi tra enwir Sariel, Ragwel a Phendasron yn y cywydd arall.
- 43 **gŵyr breiniau** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n, 45.45n.
- 44 **Gabriel** Ef yw'r negesydd a gludodd y newyddion i Fair am ei beichiogi ac am waredigaeth y ddynoliaeth, gw. ODCC³ 648; J. Cresswell, *The Watkins Dictionary of Angels* (London, 2006), 84–5. 'Priodolir iddo awdurdod ar dân a tharanau, a dysgir mai ef a bair i ffrwyth y ddaear aeddfedu', gw. GB 562, ond gw. yr hyn a ddywedir am Uriel (ll. 49n) a Phenaeliel (llau. 53–4).
- 45 **Mihangel** Er mai ef a ystyrir yn bennaf o'r archangylion, i Gabriel y rhoddir y flaenoriaeth yn y cywydd hwn. Darlunnid Mihangel yn fynych fel rhyfelwr am mai ef a arweiniodd y cyrch yn erbyn Liwsiffer, gw. Dat 12.7 *A bu rhyfel yn y nef: Mihangel a'i angylion a ryfelasant yn erbyn y ddraig, a'r ddraig a ymladdodd a'i hangylion hithau*. Yr hanes hwnnw yw sail y gadwyn o bum englyn o waith Madog ap Gwallter, gw. GBF cerdd 34 ac yn arbennig lau. 17–20: *A'th big fawr yn awr yn y rhyfel—taer / Torr ddanhedd rhwyf Babel / Ni bu awr, rhag twyll cawr cel, / Fwy ei hangen, Fihangel*. Gw. hefyd y cywydd 'Da air o fewn daear fu':

Mihangel arch angel chwyrn / mae yn kadw mannav kedyrn (Llst 47, 135). Priodolir y cywydd hwnnw i Lewys Glyn Cothi ac i Wiliam Dyfi, ond fe'i gwrthodir i Lewys yn GLGC xxxv. Trafodir y cyfeiriadau at swyddogaeth Mihangel yn pwysu'r encidiau gan A. Breeze yn 'The Virgin's rosary and St Michael's scales', SC xxiv/xxv (1989–90), 91–8. Ymhellach, gw. V. Rees, *A Cultural History of Angels* (London, 2013), 142–6; ODCC³ 1082–3; GB 978; J. Cresswell, *op.cit.* 133–4; D.G. Jones, 'Buchedd Mihangel a'r Legenda Aurea', B v (1929–31), 8–14.

tywydd Dyma ddarlleniad yr holl lsgrau. Cynigir ei fod yn ffurf ar *töydd* 'gwarchodwr', gw. GPC 3538.

47 **Raffel** *Myfi yw Raffael ... sy'n dwyn i fyny weddïau y rhai sanctaidd, ac sydd yn tramwy gerbron gogoniant yr hwn sydd sanctaidd*, gw. GB 1189–90; ODCC³ 1365; J. Cresswell, *op.cit.* 161–3.

49 **Uriel ... tân** Tân neu oleuni Duw yw ystyr yr enw *Uriel*. Yn ôl Llyfr Enoch yn yr Apocryffa, ef a reolai'r sêr a'r planedau, gw. ODCC³ 1670; J. Cresswell *op.cit.* 196–7; <jewishencyclopedia.com/articles/14606-Uriel>.

50 **Sariel** Ffurf Gym. yr enw *Saraqael, Saraquel, Senakiel*. Mae'n rhaid gwahaniaethu rhyngddo a'r angel *Sariel*, un o'r ddau angel a hebryngodd Enoch i'r nefoedd, gw. J. Cresswell *op.cit.* 175.

51 **Aruniel** Yr enw Cym. sydd yn cyfateb i *Eremiel* neu *Jeremiel*, gw. J. Cresswell *op.cit.* 38–9, 165. Cys. (*a Rhuniel*) sydd yn rhagflaenu'r enw yn y rhan fwyaf o'r llsgrau., a cf. y ffurf *Rhiniel* yn awdl Dafydd Nanmor.

53 **Penaetsiel** Yr oedd *Ragwel* yn un o'r saith archangel, gw. J. Cresswell *op.cit.* 159–60, ond nid oes modd ei gysylltu ef â'r ffurf *Penaetsiel*. Ysgrifennwyd y gair hwn mewn sawl ffordd yn y copïau sydd ar glawr, ond y mae'r elfen gyntaf *pen* yn gyffredin ynddynt oll. Cf. y darlleniad *penagiell* yn llsgrau. Llywelyn Siôn a *Banasiel* yn GLGC 135.39 *Nawdd Andras ar hwn, nawdd Banasiel* (rhestrir yr enw d.g. *Banasiel* ond efallai mai ffurf dreigledig *Panasiel* sydd yma).

57 **arfau'r Grog** Gw. ll. 2n.

57–8 Dyfynnir y cwpled yn *Cywyddau Cymru*, gol. A. Hughes (Bangor, 1926), 95.

59–60 **Sioseff ... / ... Barmatheia** Joseff o Arimathea. Nid oedd yn un o'r disgyblion ond ef a aeth at Beilat wedi'r croeshoelio i geisio corff Crist ac i sicrhau claddedigaeth deilwng iddo, gw. ODCC³ 901 a cf. ID LI.43–4 *Siosseb a erchis Iessu / yw roi n y vedd ai ran vu*. Mabwysiadwyd yr e. lle sydd yn digwydd yn Pen 54 a Pen 67 er mai *Arimathea* yw'r ffurf gyfarwydd.

61 **geiriau a garwn** Yn Llst 27 'Llyfr Coch Talgarth', 152^f–153^f, ceir

rhestr o enwau sydd yn gwarantu sicrwydd ac amddiffyniad: *Pwy bynnac a dywetto yr enweu hynn. neu ae hedrycho. nyt reit idaw ovyn y elyn y dyd hwnnw. nac ouyn arueu na gwenwyn. na than na dwfyr*, ac y mae'r rhestr yn cynnwys yr enwau *Deus a dominus* ynghyd ag *adonay*, *agynos*, *yskiros*, *alpha*, *omega*, *agla*, *tetragramaton* a fydryddir yn y llau. nesaf. Gw. hefyd yr adran 'Pa ffurf y daw'r gweledigaethau' yn YE 25 lle y rhestrir *Tetragramaton*, *Adonay*, *Alpha*, *O[mega]*, *Agynos*.

64 **Adonai** Enw ar Dduw a fenthyciwyd o'r Hebraeg, gw. GPC² 58 a cf. HG Cref II.7–8 *Hanpich guell Cristi, Pater & fili / & Spiritu Domni On Adonay*; hefyd DN XXXV.15–16 *Iddew ni wŷr i addef, / Adonay oedd Duw o nef*. Ymddengys mai'r un yw'r ergyd yn y cwpled hwn o waith Hywel Dafî, ac mai'r Iddewon oedd y rhai nad adwaenent Grist. Pedair sill sydd i'r gair yn y dyfyniad cyntaf ond tair gan Ddafydd Nanmor a Hywel Dafî. O'r holl enwau, hwn oedd yr un a barodd y drafferth fwyaf, a llurguniwyd y ll. mewn sawl ffynhonnell.

65 **Agios Ysgyros** Dau air Groeg sydd yn gyfystyr â 'sanctaidd' (gw. GPC 47 d.g. *Agioes*, a cf. HG Cref IX.23 *Pan dhel y pvmoes gerbron Agioes*; GIG XXVII.90 *Yn ymddangos, aedsios yw*) a 'nerthol'. Digwydd y ddau yn y rhestr yn Llst 27, gw. ll. 61n. Cyplysid y ddau air yn yr 'Improperia', cyfres o antiffonau ac atebion a ddatgenid yn Llad. a Groeg am yn ail ar Wener y Groglith wrth goffâu'r Dioddefaint, gw. NCE 7, 407; ODCC³ 1385 d.g. 'Reproaches'. Ymatebid yn Llad. â'r geiriau *Sanctus Fortis*.

66 **Alffa** 'Llythyren gyntaf yr wyddor Roeg; ac fel enw ar Dduw', gw. GPC² 178.

Agla Enw ar Dduw a fenthyciwyd o'r Groeg *aglaos* 'disglair', gw. GPC² 114.

W Llythyren olaf yr wyddor Roeg sydd yn cynrychioli *Omega*, gw. GPC 2646.

67–8 **Emas ... / Eleison** *Elimas* a ddewiswyd yn IGE yn ll. 67, a chynigiwyd mai Elimas y swynwr a enwir yn Act 13.8 sydd dan sylw, ond nid yw hynny'n debygol iawn o ystyried y modd y disgrifir ef yn *gyflawn o bob twyll a phob ysgelerder, tydi mab diafol, a gelyn pob cyfiawnder*, gw. *ib.* 13.10. Ni ddigwydd yr enw hwn yn y rhestr yn Llst 27, gw. ll. 61n uchod, a gwelir bod cryn amrywio yn y llsgrau.; *enimas* yw'r ffurf yn Pen 54 a Pen 67. Gellid *Animas*, sef y gair Llad. sydd yn gyfystyr ag 'ysbryd', a dyma'r ffurf a gofnodwyd yn LIGC 13079B a BL Add 14891, ynghyd ag *Eleison* 'enw ar Dduw', gw. GPC 1204, yn ll. 68 er mai *aleission* sydd yn Pen 54 a Pen 67. Cynigir, fodd bynnag, mai cyplysu'r ddau air, a'u deall yn ymgais i gyfleu'r Groeg *eleeson emas* 'Trugarha wrthym', geiriau y byddid wedi eu hadrodd cyn yr offeren fel rhan o'r gyffesweddi, y 'Confiteor', sydd yn rhoi'r ystyr orau.

69 **diafrwydd** Rhoddir i *afrwydd* yr ystyron i. ‘anodd (ei ddeall)’; ii. ‘anffodus, aflwyddiannus’, gw. GPC² 107. Gweddai’r ystyron i. ‘clir, amlwg’; ii. ‘buddiol, llesol’ i *diafrwydd*.

to difreg *Ty* yw’r gair cyntaf yn y ll. yn Pen 54 a Pen 67, a bernir bod hwn yn cynrychioli elfen gyntaf y gair *Tetragrama-ton*. O ganlyniad rhaid cyplysu *to* a *difreg*. Y mae *to* yn ffigurol yma am amddiffyniad. Efallai fod lle i geisio adlunio’r ll. a lleoli elfen gyntaf *Tetragrama-ton* yn yr ail ran yn dilyn yr orffwysfa *Ti, diafrwydd, Te- difreg ...*

69–70 **Te- ... / Tragrama-ton** ‘Enw Hebraeg ar Dduw a ysgrifennir â phedair llythyren; fe’i trawslythrennir fel Jehofah’, gw. GPC 3489 a cf. DN XXXV.7–8 *Tetra, nid amyna neb, / Gramaton, grym i atdeb*. Trychwyd yr enw ond ymddengys fod *ty* ym mraich gyntaf y cwpled yn cael ei gyplysu wrth yr elfen nesaf mewn sawl testun gan awgrymu’r darlleniad *Tydi afrwydd to difreg*.

71 **seithrif** Gall ail elfen y cyfansoddair fod yn gyfystyr naill ai â ‘swm’ neu ‘parch, anrhydedd’, gw. GPC 3069–70. Y saith enw a restrwyd yw *Adonai* (ll. 64), *Agios Ysgyros* (ll. 65), *Alffa* (ll. 66), *Agla* (ll. 66), *Omega* (ll. 66), *Emas Eleison* (llau. 67–8), a *Tetragramaton* (llau. 69–70). Ar gynnwys geiriau Llad. ac enwau ar Grist mewn swynweddïau poblogaidd, gw. B.F. Roberts, ‘Rhai swynion Cymraeg’, B xxi (1964–6), 197–213.

75 **Irwn ... ei draed** Diau fod yma atgof o weithred Mair Magdalen yn golchi traed Crist ag ennaint, gw. Luc 7.36–8.

76 **gwerinwerth** ‘Tâl neu iawndal [am achub] dynoliaeth’.

103

Egyr y bardd y cywydd serch hwn trwy gyfeirio at yr ymwneud dirgel, a hynny mewn gair a gweithred, rhyngddo a’i gariadferch. Disgrifia ei feiddgarwch wrth ei chanlyn ac fe’i cyffelyba ei hun i ŵr yn dringo i frig yr hwylybren. Myn bwysleisio ei ymroddiad wrth ei cheisio yn ogystal, a thry at yr hanesion am yr ych bannog wrth gyfleu’r wedd hon ar y berthynas. Adduneda y bydd yn dal i ganu ei chlodydd, ond gŵyr mai angau fydd ei dynged oni chaiff ei ymdrechion eu cydnabod. Ceir yma sawl thema sydd yn dwyn i gof rai o gywyddau Dafydd ap Gwilym.

Diogelwyd y cywydd mewn pum ffynhonnell. BL Add 14967 a gopiwyd yn ail chwarter yr unfed ganrif ar bymtheg yw’r gynharaf. Y mae’r pedair yn cyfateb yn agos o ran darlleniadau. At hyn diogelwyd dau destun wrth enw Bedo Brwynllys a chynnwys y rhain wyth cwpled nas ceir yn y testunau eraill, gw. ‘Cerddi Ansic’ tt. 54–5. Cyhoeddwyd golygiad a wnaed ar sail y ddau destun hyn yn CSTB cerdd XXI, ond ni ddilynwyd darlleniadau’r llsgrau. yn gyson.

- 1 **dirymais** Dilynwyd Pen 312 a CM 23 sydd yn rhoi'r cywydd i Fedo Brwynllys. Bernir bod *dirymu* 'dinerthu, gwanhau', gw. GPC 1040, yn air mwy lliwgar na *trymheais* y llsgrau. eraill.
- 3 **weithian** Bernir bod *weithian* yn rhagori ar *weithiau* y llsgrau., ond o ddiwygio rhaid ceseilio'r llinell.
- 10 **dwylan Gwy** Cymru a Lloegr o bosibl am fod yr afon yn cynrychioli'r ffin rhwng y ddwy wlad. Gallai'r sôn am afon Gwy awgrymu mai Bedo Brwynllys yn hytrach na Hywel Dafu a ganodd y cywydd (er bod yr afon yn cael ei henwi yn fynych yng ngherddi'r olaf). Cysylltir y Bedo â Bronllys sydd nid nepell o Dalgarth ac ar lannau deheuol afon Gwy; afon Wysg sydd yn llifo trwy Aberhonddu lle bu Hywel Dafu yn byw ar un adeg o leiaf yn ei fywyd. Ond efallai mai ym Mronllys ym Maelienydd yr oedd cynefin y Bedo. Unwaith eto, priodol fyddai i fardd o'r rhan hon o Gymru gyfeirio at afon Gwy. Gw. ymhellach A.C. Lake, 'Bedo Brwynllys, ei noddwyr a'i gynefin', *Dwned*, 20 (2014), 51–63.
- 11 Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 34 (a gw. ymhellach ll. 13n).
- 11–12 Ar sawl achlysur fe'i disgrifia Dafydd ap Gwilym ei hun yn cefnu ar y ffyrdd a'r llwybrau cydnabyddedig ac yn dewis yn hytrach deithio trwy fannau anghysbell wrth iddo fynd i gwrdd â'i gariadferch, e.e. DG.net 56.25–6 *Gadewais, a hyntiais hwnt, / Priffordd y bobl a'u pryffwnt*.
- 13 **lleidr** Dilynwyd darlleniad BL Add 14967 a Pen 112. Rhaid cyfrif *lleidr* yn air deusill, ond ymddengys mai ffrwyth ymyrraeth ddiweddarach sydd yn LIGC 5269B a Pen 101 sydd yn cynnwys gair unsill ychwanegol, sef *draw*. Cyffelybir y bardd i leidr yng nghywydd Dafydd ap Gwilym 'Serch dirgel': *Myfi y sydd, deunydd dig, / Leidr serch dirgeledig*, gw. DG.net 78.1–2.
n wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 29, 32, 33.
- 13–14 Y serch tanbaid ond dirgel rhwng y cariadon yw pwnc llau. 5–16, ond nid yw'r cwpled hwn yn asio yn naturiol ac y mae'n bosibl ei fod wedi ei gamleoli.
- 14 y **drem** Darlleniad y ddau destun sydd yn rhoi'r cywydd i'r Bedo yw *ei draed*, ond digwydd y gair hwn yn y cwpled nesaf.
gwnêl drwg Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.dib., gw. 47.42n.
- 15–16 Ceir syniad tebyg yng nghywydd Dafydd ap Gwilym 'Taith i garu', lle yr awgrymir bod y tir yn llwm oherwydd y mynych droedio a fu arno gan y cariadon, gw. DG.net 96.47–50.
- 16 **lle bu gariad rhôm** *lle bu gariad trom* sydd yn y llsgrau. oll, sydd yn tystio i'r ymgais a wnaed yn y lle cyntaf i gofnodi'r hyn a glywyd ar lafar.

- 17–20 Darlunnir menter y llongwyr sydd yn hwylio ymhell o’u cynefin mewn llestr bregus yn un o gywyddau Dafydd ap Gwilym i Ddyddgu, gw. DG.net 87.27–34. Yn yr un cywydd disgrifia’r bardd ei gamp wrth ddringo i frig uchaf coeden, gw. *ib.* llau. 11–18. Y gamp o ddringo i ben hwyllbren, a’r perygl pe syrthid, a gyflwynir yma.
- 19–20 Yn y ddau destun sydd yn enwi Bedo Brwynllys y ceir y darlenniad mwyaf ystyrion yng ngoleuni’r fenter sydd yn cael ei disgrifio, gw. uchod. Darlenniad CSTB yw *Fo â’n un o fewn unawr / Ai’n gamp ei moes, ai’n gwmp mawr*. O ddilyn y llsgrau. eraill ceir cwpled mwy niwlog: *Mae yn un ym min Ionawr / A’i gamp i’m oes a’i gwmp mawr*.
- 23 **dau o eidionnau** Y mae a wnelo tri o’r anoethau yn chwedl ‘Culhwch ac Olwen’ â ieuo ynghyd ddau ych, sef i. *Deu ychen Gwlwlyd Wineu*; ii. *Y Melyn Gwanhwyn a’r Ych Brych*; iii. *Dau ychen bannawc, y lleill yssyd o’r parth hwnt y’r Mynydd Bannawc a’r llall o’r parth hwnn*, gw. CO 22. Ceir sawl cyfeiriad atynt yng nghanu’r beirdd, e.e. GLM XLII.75–6 *Chwi yw’r Ých—ni’ch eiriachwn—/ Bannawg i’w roi ar ben grwn*; GLMorg 33.45–6 *Harri ywch a fu rychor, / Ych bannog gwych i ben côr*. Ni sonnir yn y chwedl am dynnu llwyth o eitha’r llyn. Ond yr oedd chwedl gynt am yr afanc yn llyn Syfaddon a’r ychen bannog yn ceisio ei dynnu o’r llyn, gw. GLGC 53.25–8 *Yr afanc er ei ofyn / wyf yn llech ar fin y llyn; / o don Llyn Syfaddon fo / ni thynnwyd ban aeth yno*. Gw. ymhellach *ib.* 77.52n, 212.23–4; WCD 6 (d.g. *afanc*), 323–4 (d.g. *Gwestin Gwestiniog*). Ymddengys fod y bardd yn dwyn i gof y chwedl yn y cwpled hwn.
- 27–8 Ni ddigwydd y cwpled hwn yn y ddwy ffynhonnell sydd yn enwi Bedo Brwynllys.
- 28 **cannwr** Ceir sawl engh. yn y canu o arfer y ffurf l. *gwŷr* yn dilyn un o’r rhifolion, gw. 2.17n.
- 30 **gallel** Ffurf amr. ar *gallu*, gw. GPC 1377, ond un a gysylltir yn benodol â’r de-orllewin, gw. P.W. Thomas, ‘Cysylltiadau daearyddol Chwedlau Odo’, YB XIX (1993), 67. Nid yw’r gynghanedd yn gwirio’r gair yn y ll. hon.
- 37 Rhaid cyfrif *marw* yn air deusill.
r wreiddgoll.
- 38 **ni’m tawr** Ar yr ymadrodd gw. 25.22n. *Dawr* yw’r ffurf gysefin ond ceir enghrau. o galedu hefyd, gw. GPC 1076–7. Fodd bynnag *ni’m dawr* yw’r ffurf yn 25.22 *Ni’m dawr o’m hól dorri ’mhen*, 31.38 *Dy weywyr onn, ni’m dawr i*, 83.49 *Trig yn bendefig—ni’m dawr*, 94.52 *Dŵr hallt ni’m dawr i o hwn*.
m berfeddgoll.

104

Yn llaw Llywelyn Siôn yn unig y diogelwyd y cywydd hwn. Copïodd y cywydd ar bum achlysur. Rhoes *kywydd yr olwg* yn bennawd mewn pedwar llyfr (llsgrau. ABDE) a *llyma gywydd i vaio ar y llygaid* yn C (Llst 134). Cofnodwyd dyrmaid o linellau gan Siôn Dafydd Rhys yn Llst 55.

Y mae trefn y cwpledi yn wahanol yn Llst 134. Y mae dau gwpled yn debyg iawn i'w gilydd: *Un olwg wyf...* yw geiriau cychwynnol llinellau 19 a 25. Neidiodd llygad y copïwr a dechreuodd gopïo llinell 25 cyn iddo gopïo llinell 19. Collwyd rhannau helaeth o ddechrau testun LIGC 21290E oherwydd traul, ac ni chofnodwyd amrywiadau llinellau 1–14 o'r herwydd.

8 **midiau** Darlleniad Card 5.44, Llst 134 a LIGC 970E yw *i vidiaiv* tra ceir *i vaidiaiv* yn Llst 47. Nid yw *bidiau*, ffurf l. *bid* 'gwrych, perth', gw. GPC² 639, yn ymddangos yn addas. Mwy ystyrion fyddai ffurf l. *mid* 'brwydr' er na restrir ffurf l. yn GPC 2453, ac er na ddaw yr un engh. o ganu'r Cywyddwyr. I'r 20g. y perthyn *bidiau* 'enw ar gyfres o benillion ym marddoniaeth y Llyfr Coch sy'n dechrau â'r gair "*bid*"', gw. *ib. d.g. bidiau*².

anfodus 'Ysgeler, enbyd', gw. GPC² 273. I'r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf a ddyfynnir.

Wyth sillaf yn y ll.

9 **arweddiad** 'Ymddygiad, ymarweddiad; osgo, ystum', gw. GPC² 485. Mabwysiadwyd y gair hwn sydd yn digwydd mewn tri thestun yn hytrach nag *arwyddiad* 'arwydd, dangosiad', sydd yn digwydd yn Card 5.44, gw. GPC² 491. I'r 16g./17g. y perthyn yr engh. gynharaf o'r gair hwnnw.

12 **mes** Fe'i deallir yn drosiad am lygaid y ferch.

15 **y gyfriw drem** Cadw cysefin *cyfryw* yw'r arfer hyd yn oed pan ddaw eb. ar ei ôl, gw. Treigladau 86–8, ond ceir enghrau. o dreiglo hefyd: GIG IV.4 *Pa beth yw y gyfryw gorn*; DG.net 31.24 *Cyfrif ef bob cyfryw fai*. Cyfrifir *trem* a *drem* yn ffurfiau cysefin, gw. 36.4n.

gafar drud Diwygiwyd *a gafr* y llsgrau. yn *gafar* 'tristwch', ffurf amr. ar *afar*, gw. GPC² 96. Gan mai eg. yn unig yw hwn rhaid wrth y gysefin *drud* sydd yn cynganeddu â *drem* yn rhan gyntaf y ll.

19 **un olwg wyf** Y mae *Un olwg wyf ... / Â llongwr* yn llau. 25–6 yn gwbl ystyrion ond y mae llau. 19–20 yn fwy tywyll. Y mae'r cwpled yn arwain at y nesaf. Y mae'r ferch 'Yn ei thalcen [megis] y Sain Greal yn ôl yr hyn a gredir', a'r bardd, o'i ran ef, megis y sawl a welodd y Greal.

21 **teulu o grynford** Ymddengys na ddeallodd Llywelyn Siôn ystyr y ll. Bernir bod yma gyfeiriad at y modd yr ymddangosodd y Greal

Sanctaidd yn llys Arthur yn 'Chwedl y Greal', gw. YSG 9. O blith marchogion y Ford Gron, Galâth, Peredur a Bwrdd yn unig a gafodd weld y Greal, gw. *ib.* 155. Cf. 66.23–4 *Bord Gron Gaerllion a'i llu*, / *Ni'th dalai hon a'th deulu*.

23 **Gwenhwyfar** Merch Gogfran Gawr a gwraig y Brenin Arthur, gw. TYP³ 376–80. Yr oedd ei harddwch yn ddiahebol. Yr oedd un traddodiad yn cysylltu ei thad ag Aberysgir.

28 Wyth sillaf yn y ll.

36 **gwna drwg** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n.

42 *n* berfeddgoll.

105

Llywelyn Siôn a gopiodd y pum testun cynharaf sydd yn cynnwys y cywydd hwn i wraig briod. Ni chofnodwyd amrywiadau LIGC 21290E am fod yr inc wedi pylu, yn enwedig o linell 19 ymlaen. At hyn collwyd diwedd y cywydd. Ymddengys fod dalen yn eisiau yn LIGC 970E, a chollwyd dechrau'r cywydd.

8 **dan llaw** Diwygiwyd *dan law* y llsgrau. am fod caledu mewn ymadroddion sydd yn cynnwys y cyfuniad *-n ll-* yn gyffredin, gw. 6.34n.

14 *f*led-lafarog yn hytrach na chyfatebiaeth *f = ff* sydd yma.

15 Nid yw'r ll. fel y'i cofnodwyd yn y llsgrau. yn gwbl eglur. Ceir *n* berfeddgoll yn dilyn y diwygiad a wnaed.

18 **deled** Bernir mai ymgais i gyfleu ffurf 3 un.grch. y f. *dyfod* sydd yn y llsgrau., ond gthg. *dyled* LIGC 21290E.

20 **maddau** Yn Llst 134 yn unig y digwydd y ffurf *maeddu*, ond y mae *maddau* yn taro i'r dim; ar yr ystyron 'gollwng, bwrw ymaith, ymwrthod â', gw. GPC 2303.

23 **seithran** Ar yr arfer o dreiglo yn dilyn y rhifol *saith*, gw. 100.39n.

23–4 Atalnodwyd y cwpled gan ddeall bod dau ddatganiad annibynnol yn y naill fraich a'r llall, ond gellid *saith ran ... drugaredd* a fyddai'n ategu'r cyfeiriad at *gadw enaid* yn y cwpled blaenorol *Saith ran, yfed, meddwed medd*, / *A gair dan fedw drugaredd*. Os felly, y mae'r bardd yn cyffelybu ffafrau bendithiol ei gariadferch i saith weithred y drugaredd, ac arnynt, gw. 101.35n.

29 **anwadal** 'Ansefydlog, cyfnewidiol, oriog, ansicr', gw. GPC 379. Nid dyma'r gair a ddisgwyliid, ond anodd yw cynnig darlenniad amgen.

30 **gŵn dail** Yr arfer o wisgo gwisg o ddail wrth ddatllu dyfodiad Mai, gw. 'Mentyll Mai', B xxv (1972–4), 20–1 a 42.33–4n.

- 31 **calonnog** ‘Ewyllysgar, brwd; diffuant’ yw’r ystyrion sydd yn gweddu orau, ond i ddechrau’r 16g. y perthyn yr enghrau. a gofnodir yn GPC 395.
- 34 **toi d’wyl** Y mae’r gynghanedd yn gywir ac y mae’r f. *toi* yn cynnal y cymeriad llythrennol, ond nid yw’r ystyr yn eglur. Y mae’n bosibl fod y darlenniad yn llwgr. Ceir dilyniant o ferfau grch. yn yr adran hon, llau. 31–44.
- 35 **cydoedran** ‘Cyfoed’. Ni chofnodir y ffurf yn GPC.
- 36 *r* wreiddgoll.
- 39 **golochwydwr** ‘Dyn duwiol, gŵr crefyddol neu ddefosiynol’, gw. GPC 1454. Diwygiwyd *golchwydwr* y llsgrau. a hepgorwyd y fannod sydd yn ei ragflaenu er mwyn sicrhau bod hyd y ll. yn rheolaidd.
- 40 **ail dydd** Ar y gystrawen a’r arferion treiglo, gw. 4.5n.
- 41 **newid** ‘Trosiad o’r hen i’r newydd (am y lleuad)’, a cf. 105.20 *Meddynt, loer, maddau un tlawd*.
- 49 Ystyrion yw darlenniad Ll134 *Mwyn yw d’wyneb*, ond diau i’r copiwr ailadrodd yr enw *wyneb* sydd yn digwydd yn y cwpled blaenorol trwy amryfusedd.
- 54 **tirion** Ceir bai crych a llyfn o ddilyn darlenniad y llsgrau. *dirion*, ond digwydd y goddefiad hwnnw mewn sawl cywydd, gw. 1.16n a ‘Cynghanedd’ td. 42. Gellid hollti’r gair a mabwysiadu *Dir, Iôn yw ...*. Y mae *dir* ‘trais; caledi, gorthrwm’, gw. GPC 1030, yn ategu’r disgrifiad o gyni’r bardd yn y cywydd.

106

Ar ôl iddo weld merch yn darllen salmau, ac ar ôl i’r bardd ddisgrifio ei phryd a’i gwedd a’i dillad drudfawr, dychmyga’r ddau ohonynt yn caru ac yn ennill nef trwy wneud hynny. Ceir golygiad o’r cywydd yn CMOC cerdd 10 a rhoddwyd iddo’r pennawd ‘Ffantasi’. Cynigir mai ‘Achlysur y ffantasi yw’r cipolwg a gaiff y bardd ar ferch yn adrodd salmau gerbron delw o’r Forwyn Fair. Try ei ddychymyg at gonfensiwn llenyddol y deildy yn y goedwig lle y caiff ryddid i’w charu, a daw’r elfen erotig yn y darlun cableddus o’r bardd yn addoli i Fair rhwng coesau’r ferch’.

Yn llawysgrifau Llywelyn Siôn y diogelwyd y cywydd hwn. Y mae rhannau o LIGC 970E wedi pylu (llau. 6–14) a chollwyd rhannau o ddeg llinell agoriadol y cywydd yn LIGC 21290E oherwydd traul. Diogelwyd dyrnaid o linellau yn Ll134 yn llaw Siôn Dafydd Rhys.

- 2 Cf. y cywydd a ganodd Hywel Dafu i’w lygaid a oedd yn achosi poen wrth iddo syllu ar wrthrych ei serch, gw. cerdd 104.

- 3 **dros ben aflwy** Mabwysiadwyd *allwy* < *allwedd* yn CMOC, gan ddilyn darlleniad Ll134, ond nid yn y llsgr. hon y ceir testunau mwyaf dibynadwy Llywelyn Siôn. Dilynwyd darlleniad yr holl lsgrau. eraill, a bernir mai talfyriad o *aflwydd yw aflwy*. Gall *dros ben* gyfleu'r ystyron 'heibio, y tu hwnt i', gw. GPC 3616.
- 7 **gair bron Mair** Er mwyn parchu aceniad y gynghanedd sain, rhaid ystyried *gair* yn e.c., ond y mae'r synnwyr o blaid dehongli *gair bron* yn ardd. Gwelir bod elfen gyntaf yr ardd. yn cynnwys odl gyntaf y gynghanedd sain (*gair / Mair*). Y mae sawl achos o oddef *gair gwan* yn safle'r acen, gw. 1.23n a 'Cynghanedd' td. 42–3.
- 8 **talau'i deulin** Gw. yr ymadrodd *tâl glin* yn GPC 3425, a cf. GIG XXVII.111–12 *Yno bydd Mair, air eirian, / Ar dalau ei gliniau glân*.
- 9 **Gasgwin hed** Swyddogaeth *Gasgwin* yn yr ymadrodd hwn yw pwysleisio pa mor hynod a chwaethus yw'r het. Hyd y gwyddys, ni chynhyrchid het unigryw yn y rhan hon o Ffrainc. Fodd bynnag, mewn cyfnod diweddarach cysylltid math arbennig o lodrau â Gasgwin, gw. OED² vi, 387 *gaskin* 'A kind of breech or hose ... seems possible that such hose were actually worn in Gascony' (engh. gynharaf o ddiwedd yr 16g.); *ib.* 331–2 *galligaskin* 'A kind of hose or breeches worn in the 16th and 17th c.'.
- 10 Dyfynnir ll. o waith Gwilym Tew yn GPC 3832–3 d.g. *ysgarlad: Yn gwisgo eurliw nac ysgarled*.
- 11 **templys** Nis rhestrir yn EEW nac yn GPC. Ymddengys mai benthyciad o'r S. *temple* 'arlais' ydyw; 'the flattened region on each side of the (human) forehead', gw. OED² xvii, 754–5. Rhan fynychaf defnyddir ffurf l. y *gair* yn S., fel y gwneir yma. Cyfeiria'r cwpled blaenorol at wisgoedd, a gellid hefyd 'ornaments of jewellery or needlework formerly worn by ladies on the sides of the forehead', gw. *ib.*, ond i'r flwyddyn 1430 y perthyn yr engh. gynharaf. Dangosodd A.M. Edwards, '“Pen un wisg â'r paun o'r ne!”: penwisgoedd merched yn y canu serch', *Dwned*, 19 (2013), 48–9, fod gwisgo addurniadau o boptu'r talcen a thros y clustiau wedi dod yn boblogaidd erbyn y 15g., a chynigiodd fod Hywel Dafi yn eu disgrifio yn y cwpled hwn. Arferid y geiriau S. *temples* neu *templette* wrth ddisgrifio'r addurniadau hyn.
- 16 **Gwdris** O'r S. *Goodrich*, gw. EEW 245. Saif y castell ar lan orllewinol afon Gwy, i'r de o Rosan-ar-Wy.
- 17 **dala** Rhaid wrth air deusill, ond y ffurf unsill *daly* sydd yn digwydd yn y canu. Diau fod *gair* wedi ei golli yn y ll.
- 18 **Euron** Diwygiwyd *auron / aeron* y llsgrau. Digwydd y trosiad *aeron* yn y cwpled nesaf (ll. 20), ac felly mentrwyd mabwysiadu'r e.p. *Euron*. Dyma enw cariadferch y bardd Llywelyn ab y Moel, gw. GSCyf 8.42n,

- ac efallai i'w henw ddod yn adnabyddus fel enw Lleucu Llwyd, cariad-ferch Llywelyn Goch, gw. GLIG 94–6. Ar y llaw arall, barnai E.I. Rowlands mai'r cymeriad chwedlonol, Euron neu Euronwy, merch Clydno Eiddyn, a enwir mewn cywyddau o waith Guto'r Glyn, Gutun Owain, Tudur Aled a Lewys Môn, gw. GLM XXIV.43n; G 499–50 d.g. *Euron, Euronwy*. Derbyniwyd y darlleniad *euron* 'tresi aur' yn CMOC, ond yn yr 16g. y cyflwynwyd y goeden hon i Brydain, gw. L.J.F. Brimble, *Trees in Britain* (London, 1946), 186–8; OED² viii, 563–4 (perthyn yr engh. gynharaf i 1578).
- 21 **y wen** Mabwysiadwyd y *wên* yn CMOC, ond tystia pedair o'r llsgrau. mai *gwen* yn hytrach na *gwên* a fwriadwyd.
n wreiddgoll.
- 23 **a'r ddwyfraich** Ar genedl *braich*, gw. 70.36n. Trinnir y gair yn eb. yma (ac yn ll. 32), ond yn eg. yn 102.9 sydd yn debyg iawn i'r ll. hon: *A'i ddeufraich o'i ddiolfryd*.
r wreiddgoll.
- 24 Y mae'r gyfatebiaeth *addfain ... addfwyn* yn debyg iawn, ond nid oes diwygiad amlwg yn ymgynnig.
- 28 **haul belydr haf** Ar y modd y ceisiwyd delweddu'r beichiogi gwrthiol trwy drosiad pelydrau'r haul, gw. 96.38n.
- 31 **bwrw** Rhaid cyfrif y gair hwn yn ddeusill, ond unsill yw *delw* yn ll. 38.
- 32 **ar lled** Ar y calediad, gw. 14.20n.
- 33 **effros** 'Llyisiau a gyfrifid gynt yn werthfawr at wella anhwylderau'r llygaid, torfagl, llygaid Crist, gloywlys', gw. GPC 1174.
- 36 **rhyddi** Ffurf 3 un.b. yr ardd. *rhwn*g, gw. GMW 59.
- 38 **addoli ... i'r ddelw** Dilynid y f. *addoli* gan yr ardd. *i* ar dro, gw. GPC² 76. Awgrymodd E.I. Rowlands fod y cyfeiriad cableddus yn y cwpled yn arwydd o feddwl annibynnol y bardd, gw. nodyn brig cerdd 96.
- 41 **pw y fai hwyaf** Fe'i cyfieithwyd yn CMOC yn 'who was tallest' ond nid yw'r ergyd yn glir. Y syniad o gydorwedd a gyfleir yma, cf. DG.net 151.13–14 *Forwyn, foneddigfwyn fu, / Hoywdwfwyn ymgwyhydu*.
- 41–2 Dilynir y cwpled hwn gan un cwpled nas cynhwyswyd yn y testun golygedig, ond sydd yn digwydd yn yr holl lsgrau. Gellir dadlau mai cwpled strae ydyw. Y mae'n rhan o'r cywydd 'Y ferch a wnaeth gwayw dan f'ais' a briodolir i Ddafydd ap Gwilym ond hefyd i Robin Ddu mewn un ffynhonnell gynnar. Argraffwyd y cywydd yn DGG² cerdd XXI; BU cerdd 35; DGA cerdd 23. 'Mae'r arddull yn nodweddiadol o ganu serch disgrifiadol y 15g' yn ôl DG.net. Bu'r cywydd yn dra phoblogaidd a diogelwyd 45 copi ohono, gw. MFGLI 284, ond nis ceir yn llsgrau. Llywelyn Siôn. Y mae'n debyg ar un ystyr i'r cywydd hwn.

Disgrifir y ferch yng nghywydd Hywel Dafï yn *adrodd ... salmau ar dalau'i deulin*, ac yn y cywydd 'Y ferch a wnaeth gwayw dan f'ais' adduneda'r bardd *Minnau a wnaef, o'm annerch, / Salmau o gusanau serch* (dyfynnir o BU). Y mae'r cwpled yn dilyn y llau. *Bid ein gwely fry 'n y fron / Bedeiros mewn bedw irion*. Hawdd deall, felly, sut y gallai'r cwpled fod wedi cyrraedd cywydd Hywel Dafï.

- 46 **cydlais** 'Cynghanedd, cytgerdd', gw. GPC 664. Perthyn yr engh. gynharaf a ddyfynnir i ganol yr 16g.
- 50 Y mae'r ll. yn rhy hir o ddilyn darlleniad y llsgrau. sydd yn weddol gytûn. Gall *cethlydd* 'cantor, canwr', a *cathl* 'cân, caniad', gw. GPC 471, 441, fod yn eg. ac yn eb. Diwygiwyd yn *Cathl digrif cathle' digreg* yn CMOG.
- 55 **union waneg** Trinnir yr ymadrodd yn sangiad, a diau mai 'ffurf, dull, pryd, gwedd' sydd yn trosi orau ystyr *gwaneg*, gw. GPC 1574.
- 56 **Gwenonwy** Dyma'r unig e.prs. sydd yn digwydd yn y cywydd. Gall mai dyma enw'r ferch a gyferchir ond efallai mai arfer yr enw yn drosiadol a wna'r bardd. Ailadroddir yr enw yn y cywydd a briodolwyd i Ddafydd ap Gwilym ac i Hywel Dafï, cywydd a ganwyd, o bosibl, i leian, gw. 109.4n. Barnai C. Davies wrth drafod y cywydd hwnnw yn CTC 272, 'Annhebyg iawn felly fai awgrymu mai enw'r lleian ei hun sydd yma oherwydd byddai pennu enw personol fel hyn yn difetha rhin a naws ledrithiol gyfareddol y cywydd.' Prin fod modd cymhwyso'r disgrifiad 'rhin a naws ledrithiol gyfareddol' at y cywydd dan sylw, fodd bynnag.

Nid oedd Gwenonwy yn enw priod cyffredin ac nis ceir ym mynegeion WG1. Croesgyfeirio at Ddafydd ap Gwilym a wneir yn y cofnod ar yr enw yn *Celtic Remains by Lewis Morris*, ed. D.S. Evans (London, 1878), 221. Yr oedd Gwenonwy yn ferch i Feurig ap Tewdrig, brenin Morgannwg, a hi oedd gwraig Gwyndaf Hen, gw. LBS iii, 198–9. Am enghrau. o'r enw gw. G 663. Digwydd yn y farwnad a ganodd Lewys Môn i Gatrïn ferch Morgan o Radur, gw. GLM XXXIX.77–8 *ac ni enir, Gwenonwy, / math mam Dafydd Mathau mwy*. Cf. hefyd DE XXXIX.17–18 *airiad mal am dad o dwy yn gorwedd / o garyad gwenonwy*. Mynegi ei alar am fod ei gariadferch wedi priodi y mae Dafydd ab Edmwnd yn ei awdl, a hyd yn oed os na ddefnyddir yr enw Gwenonwy yn drosiadol y mae'n amlwg nad lleian ydoedd. Y mae'n ymddangos fod y ferch a elwir yn Gwenonwy mewn cerdd arall wrth enw Dafydd ab Edmwnd yn BL Add 14999, 104^{r-v}, cywydd y tro hwn, hithau yn briod, er gwaethaf y pwyslais ar ei dillad duon: *dv yw dy wisg dod i wann / dwg loywyrdd digwyl Ifann / a dwg avr o dai garv / ac na ddwg y gown o ddv*.

107

Diogelwyd y cywydd hwn sydd yn mawrygu merch lygadlas, ac yn mynnu ei bod yn rhagori ar ferch â llygaid duon, mewn ffynonellau sydd yn perthyn i'r de, yn LIGC 16964A ar y naill law ac mewn pum copi yn llaw Llywelyn Siôn ar y llaw arall. Priodolir y cywydd i Hywel Dafi ym mhob un. Y mae'r ddwy ffynhonnell yn dra llwgr a lluniwyd y golygiad drwy gyfuno darlleniadau'r ddwy a thrwy eu diwygio hefyd er mwyn creu testun ystyrlon. Rhaid cyfrif geiriau megis *pabl* ac *Eigr* yn ddeusill mewn sawl llinell, ac er bod y llinellau hynny'n gywir, y mae'n sicr fod gair neu eiriau wedi eu colli yma. Ymgorfforwyd yn y testun un cwpled a ddiogelwyd yn LIGC 16964A yn unig, ynghyd â dilyniant o dri chwpled sydd yng nghopiâu Llywelyn Siôn ond yn eisiau yn LIGC 16964A. Cofnodwyd rhai ymadroddion unigol ynghyd â'r ddau gwpled olaf yn eu crynswth gan Siôn Dafydd Rhys yn Llst 55, 97–8. Nid yw'r ddau hyn yn cyfateb yn union i'r hyn sydd yn y llawysgrifau eraill.

3 **pabl** Awgrymir yn GPC 2663 mai ffrwyth camddehongli'r a. *pabl* 'bywiog; ffraeth, huawdl', yw'r eb.g. *pabl* 'barn; medr'. Eto, yr ail sydd fwyaf addas yn y cyd-destun.

Rhaid cyfrif y gair hwn yn ddeusill, felly hefyd *bwrw* (ll. 6), *Eigr* (ll. 19), *sodr* (ll. 41) *eirw* (ll. 45), *siecr* (ll. 50), ac o bosibl *dadl* (ll. 29). Ar y llaw arall unsill yw *llwybr* (ll. 17), *dwfr* (ll. 37), *awdl* (ll. 58).

dewis bobun Ni ddisgwylid i oddr. bf. 3 un.pres.myn. dreiglo, gw. Treigladau 190.

13 **Ofydd** Nid yw'n annisgwyl fod yr unig gyfeiriad yn y canu at Ofydd, sef y bardd Publius Ovidius Naso (m. 17 O.C.) a oedd yn enwog am ei ganu serch, gw. OCD³ 1084–7, yn digwydd yn un o'r cywyddau a ganodd Hywel Dafi i ferched.

17–20 Y brif frawddeg yw 'Ni chyffelybwn [ferch] lygeitu a'i gwedd i hon'.

19 **Eigr** Merch Amlawdd Wledig a mam y Brenin Arthur, gw. TYP³ 364; WCD 228–9. Ystyrid hi yn safon prydferthwch a boneddigeiddrwydd.

20 **gwatwar** 'Dirmygus'. Grym a. sydd iddo yma ond ni nodir y posibilrwydd hwnnw yn GPC 1601.

23 **lleihäu** Dilynwyd Llywelyn Siôn sydd yn rhoi ffurf dair sillaf er na nodir yr amrywiad hwnnw yn GPC 2147.

25 **cyd-ddwyn** 'Goddef', gw. GPC 660. Daw'r engh. gynharaf o'r 16g. Cyfatebiaeth caled a meddal *g = c*.

25–6 Y mae ffurf y cwpled a'r brifodl yn wahanol yn LIGC 16964A.

26 Darlleniad Llst 55 yw *olyglas ag ael eglur*.

27 Gellid *Gorau lliw mal gorllewin*.

31 **neddair** ‘Llaw’, gw. GPC 2561, ond gthg. *vwyneddair* LIGC 16964A ac *aneddair* Llywelyn Siôn.

31–4 Priodolwyd y pedair ll. hyn i Lewys Morgannwg, ond y mae’r testun yn llwgr a’r ffynhonnell yn un ddiweddar, gw. GLMorg At. iv.x.

33 **glas oedd fernagl Iesu** Du oedd y lliw yn ôl Guto’r Glyn, gw. GG.net 94.66 *Du’r Fernagl, da ar farnau*, ac yn ôl Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 49.36 *du yw’r fernagl drwy farnwyr*. Ar y llaw arall, gwyn oedd y lliw yn ôl Robert Leiaf mewn cywydd i’r fernagl, gw. IGL 13.27–8 *Peris ar liain purwyn / Y f’ronig lwyd fernagl ynn*. Gwyn yw’r lliain mewn peintiad gan Hans Memling o’r 15g., gw. y llun yn NCE 14, 625.

fernagl Gw. Atod.III.10n. Digwydd *vernegl* yn LIGC 16964A ac mewn tri chopi yn llaw Llywelyn Siôn, ond gthg. *oleugain jesv* yn y ddau arall.

39 **lleddf** ‘Tyner, ufudd, gostyngedig’, ond yng ngoleuni’r sylw am dwyll y ferch yn ll. 38 gellid ‘annidwyll, gwyrngam’ hefyd, gw. GPC 2139.

40 **eisin dâl** Diwygiwyd *esni dal* a gofnodwyd yng nghopiâu Llywelyn Siôn.

41 **sodr** Darlleniadau Llywelyn Siôn yw *isedr, isodr*; y mae’r rhan hon o’r cywydd yn eisiau yn LIGC 16964A. Diau mai’r gair sydd ei angen yw *sodr* amr. *sodor, sodur* ‘aloi toddadwy a ddefnyddir i asio dau arwyneb metel trwy ymffurfio’n haen denau rhyngddynt’, gw. GPC 3315. I’r 17g. y perthyn yr engh. gynharaf ond daw’r enghrau. cynharaf o’r f. *sawdurio, sawdr(i)o, sodurio* o’r 14g., gw. *ib.* 3185.

43 **goleuynt** Cynigir bod *goleuynt* (< *golau* + *hynt*) yn rhagori ar *goleuwynt* (< *golau* + *gwynt*) Llywelyn Siôn.

45 **chwerfannau** Un o ffurfiau ll. *chwerfan* ‘olwyn fechan neu chwylyolwyn wedi ei sicrhau wrth werthyd troell nyddu i reoli’r cyflymder’, gw. GPC 849. Y ffurf l. *chwerfain* sydd yn llsgrau. Llywelyn Siôn, ond geilw’r gynghanedd am *chwerfannau*. Ymddengys mai dyma’r ffurf a gynrychiolir gan *hervane* LIGC 16964A.

eirw A barnu wrth rai o’r enghrau. yn GPC 1388 d.g. *geirw*, ymddengys fod modd cyfrif *eirw* yn ffurf amr.

mwynfant Y mae’r llsgrau. oll o blaid [*m*]wynant a allai fod yn ffurf amr. ar [*m*]wyniant, gw. GPC 2522. Ond llawer mwy addas fyddai [*m*]wynfant < *mwyn* + *mant* ‘genau’, gw. *ib.* 2345. Ond rhaid derbyn bod *f*led-lafarog o dan yr acen.

49 **dau wrym** Ceir *dwy drem* yn LIGC 16964A a *dav rwym* gan Lywelyn Siôn. Bernir mai gwall am *dau wrym* sydd yn yr olaf. Rhoddir i *gwrym* yr ystyron ‘gwnïad, hem, ymyl gwisg’ (ac yma yn drosiadol am yr aeliau) yn GPC 1741. Cf. 109.16 *Dau wrym o lo uwch drem twys*.

50 **siecr** Byddai’r gynghanedd yn gywir pe bai’r gair yn unsill. Ceir bai

crych a llyfn yn y ll. am fod rhaid cyfrif y gair hwn yn ddeusill, gw. 1.16n, 'Cynghanedd' td. 42 a ll. 3n uchod.

52 *d.d = d.*

53 **plymasen** Rhestrir y ffurfiau b. *plwm(s)en*, *plwmw(n)sen*, *plymysen* yn GPC 2830.

54 **pwmpaniaid** Ffurf l. *pwmpa* 'afal, ffrwyth', ond *pwmpâu* yw'r unig ffurf a restrir yn GPC 2941. Nodir gan J. Lloyd-Jones, 'Nodiadau cymysg', B xi (1941–4), 122–3, fod *pwmpa* yn digwydd yn fynych yng ngwaith y beirdd a chyfeirir at rai enghrau.

55 *fled-lafarog* yn union o flaen yr acen.

57 Cynghanedd sain gadwynog neu sain lefn yn cynnwys y gyfatebiaeth *gl.l = gl.*

57–8 Fel hyn y cofnododd Siôn Dafydd Rhys y cwpled yn Llst 55 *gwnaed gywydh gair glwyswydh glas / ag awdl ym dyn lygadlas.*

58 **awdl** I'r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf o'r gair *odl* yn GPC 2617. Dyma ddarlleniad Llywelyn Siôn.

108

Gofyn am wregys a chlo ar aelod dirgel merch a wnaeth Syr Hywel o Fuellt, gw. CMOC cerdd 26, ond dychanu'r clo sydd yn rhwystro'r bardd rhag cael mynediad i gartref Eiddig a'i gymar a wneir yn y cywydd hwn. Cyffelybir y clo i gi, o bosibl o dan ddylanwad cywydd adnabyddus Dafydd ap Gwilym 'Tri Phorthor Eiddig', gw. DG.net cerdd 68. Ond enwir porthorion trosiadol eraill sydd yn perthyn i fyd yr anifeiliaid, sef *cath*, *gwrcath*, *hwrdd* a *marchlyffan*. Fel y clo pan agorir ef, y mae'r rhain oll yn llafar, nod amgen y drws yng nghywydd Dafydd. Cyfoethogir y nodwedd lafar trwy uniaethu'r clo ei hun â chrwth a'r allwedd â chwibanogl (llau. 9, 24), ond datblygir y syniad o wrthrych boliog neu gau hefyd: *crwth* (ll. 7), *croth* (ll. 7), *bors* (ll. 18), *tor* (ll. 21), *costrel* (ll. 22).

Ar awduraeth y cywydd, gw. 'Cerddi Ansic' td. 50.

Seiliwyd y golygiad ar Llst 135 yn bennaf ond yr oedd sawl llinell sillaf yn brin a rhaid oedd diwygio, gw. amrywiadau llinellau 4, 6, 8, 17, 47. Y mae trefn y llinellau yn wahanol yng nghopiâu Llywelyn Siôn ac y mae pedwar cwpled yn eisiau. Collwyd darnau helaeth o'r cywydd yn Bodley Welsh e 2 ond diogelwyd hefyd yn y ffynhonnell hon sawl darlleniad da, gw. llinellau 1n, 17n.

1 **rhoes** Dilynwyd Bodley Welsh f 2 er mwyn sicrhau cymeriad llythrennol, ond dyma ddarlleniad Llst 55 hefyd.

2 **rhwymau gwŷdd** Rhoddwyd *Cowydd y clo pren* yn bennawd yn Llst

135, ond 'rhwyrstr ar bren' sydd yma yn hytrach na 'rhwyrstr wedi ei lunio o bren'. Gwelir mai gof neu eurych yn hytrach na saer a'i lluniodd (llau. 4, 45) ac y mae'r allwedd megis *bys haearn* (ll. 20).

rhôm Y ffurf 1 ll. ar y rhagenw sydd yn rhoi'r gynghanedd fwyaf boddhaol, ond y mae Llst 135 o blaid *rhof*.

4 *n* wreiddgoll.

5 **dyrys** Y mae hwn yn air awgrymog iawn yn y cyd-destun. 'Anodd, astrus; blin' yw'r ystyron amlwg, ond addas hefyd yw ii. 'trofaus, drygionus' neu iii. 'ystrywgar'. Rhwystr ar bren sydd yma (ll. 2 *rhwymau gwŷdd*, ll. 18 *bors wern*) a gellid hefyd y cyfystyron 'tewfrig, tew, clòs' fel yn 3.36 *Caead derw o'r coed dyrys*.

6 Bernir bod *clo a bach* yn rhagori ar *clo bach* y llsgrau.

decly Furf 3 un.pres.myn. *dacloi, daclo* a nodir yn ffurf amr. ar *datgloi, datglo* yn GPC 902, ond i'r 17g. y perthyn yr engh. gynharaf.

7 **annel** 'Magl, trap', ond gellid hefyd 'amcan, bwriad, diben, pwrpas', gw. GPC² 321.

9 **allwydd** Y mae'r brifodl yn galw am y ffurf *allwedd* yn ll. 38. Ar y ddwy ffurf gw. GPC² 188.

15 **marchlyffan** 'Llyffant mawr'. Dyma'r unig engh. a ddyfynnir yn GPC 2355.

15–16 Dyfynnir y cwpled gan Iolo Morganwg yn LIGC 13089E, 294, ond fe'i rhagflaenir gan gwpled nas diogelwyd yn yr un ffynhonnell arall: *Y mae dal am ei delyn / Melin diawl yn malu n dynn*.

17 **gwst** 'Poen, dolur; helbul, trafferth', GPC 1742–3. Bodley Welsh f 2 a ddiogelodd y darlleniad hwn, ond y mae'n amlwg fod yr odl fewnol gudd *gwst / drws draw* wedi camarwain Llst 135 a Llywelyn Siôn, neu gynsail y ddau. Ar yr odl gudd, gw. J. Morris-Jones: CD 168, 252.

18 **bors** 'Tor llengig', gw. GPC 302 a'r cyfeiriadau dychanol eu cywair yn y fan honno.

22 **cestryn** Ffurf fach. *castr* 'cal, gwialen gŵr', gw. GPC 438 d.g. *castr*. Cf. ll. 26 *Y cilia i mewn mal caly march*.

23 **mwygl** Gweddai ystyron megis '[un] llugoer, difater', gw. GPC 2518.

24 **chwidongl** Ni restrir y ffurf yn GPC 851 gyda *chwibanogl, chwibanog* a *chwibonogl*, ond rhaid wrthi er mwyn y gynghanedd.

molchweden Ffurf fach. *malwen, malwoden*. Digwydd yr unig engh. a gofnodwyd yn GPC 2330 mewn testun meddygol yn Card 3.342 [= Haf 16] a luniwyd tua 1400 yn ôl RepWM: *Arall yw: dot wrthaw ar hyt y nos volchweden du ac o'r gwely di y volchweden gwedy tharaw drannoeth pan y hedrychych, y pryfa vu yno*, gw. I.B. Jones, 'Hafod 16 (a mediaeval Welsh medical treatise)', *Études* vii (1955–6), 296.

- 25 Twyll gynghanedd *dd*.
- 31 **llamidyddiaeth** ‘Dawn neu gelfyddyd llamhidydd’, gw. GPC 2093, ond i ddechrau’r 17g. y perthyn yr engh. gynharaf. Y gair a gofnododd Llywelyn Sôn oedd *llan fedyddiaeth*, sef ffurf lafar dafodieithol *llamidyddiaeth*, gw. *ib.* 2092. Ni ddiogelwyd y cwpled hwn yn Llst 135.
- 33 **gwialwr** Efallai fod y bardd yn dwyn i gof y chwedl am y gŵr ar y lleuad. Yn ôl traddodiad cludai hwnnw faich o ddrain neu o wiail, a chredid mai cosb am bechod oedd hynny, gw. E.I. Rowlands, ‘Y baich drain’, *LlCy* 4 (1956–7), 172–6. Yr ystyr a roddir i *gwialwr* yn GPC 1654 yw ‘un sy’n byw yn y gwial’.
- Y gair gwan *fal* sydd yn cynnal odl gyntaf y gynghanedd lusk, gw. 1.23n a ‘Cynghanedd’ tt. 42–3.
- 39 **blwng** Y mae dwy ystyr *blwng* yn addas, sef i. ‘llidiog, dicllon’; ii. ‘trist, truenus’, gw. GPC 290.
- Y gair gwan *rhwng* sydd yn cynnal ail odl y gynghanedd sain. Am enghrau. eraill, gw. 1.23n a ‘Cynghanedd’ tt. 42–3.
- 41 **geirchwerw** Am fod *oer* yn elfen gyntaf yn y cyfansoddair ar ddechrau’r ll., diau na ddylid ailadrodd yr un elfen ar ddiwedd y ll. Nid yw *eurchwedl* Llst 135 yn taro, ond tebyg mai ymgais sydd yma i gyfleu *geirchwerw* ‘llidiog ei ymadroddi’.
- 44 Rhaid cyfrif *gweddw* yn air deusill.
- 45 **gwaetherodd** ‘Gresyn’, gw. GPC 1552 lle y rhestrir y ddwy ffurf *gwaethiroedd* a *gwaetheroedd*. Achosodd y gair hwn drafferthion i’r copïwyr.
- 47 Y mae’r ll. sillaf yn fyr, felly newidiwyd *rhôm* yn *yrhôm*, gw. GMW 59.
- 49 **cludfawr** Yn Llst 135 yn unig y diogelwyd y cwpled. Mabwysiadwyd y ddeusain *aw* yn hytrach nag *o* yn safle’r odl er mwyn gwella’r ystyr.
- 54 **munudyn** Ffurf fach. *munud* ‘ystum, amnaid; golwg, ymddygiad’, gw. GPC 2539. Achosodd y gair hwn eto drafferthion i’r copïwyr.
- 55 **gwnaetham** Diwygiwyd *gwnaethom* Llst 135 yn *gwnaetham* er mwyn cryfhau odl y gynghanedd lusk. Gellid yr odl yma / amod, ond rhagorach fyddai *gwnaetham* / amod. Digwydd yr un ffurf yn safle’r odl, mewn cynghanedd sain y tro hwn, yn 49.53n *Troi ’ngham a wnaetham i’n iaith*.
- 56 Nid yw’r *-d d-* yn caledu, gw. ‘Cynghanedd’ tt. 41–2.

dilys Hywel Dafï, gw. ‘Cerddi Ansic’ td. 48. Golygwyd y cywydd yn *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym o Grynhoad Owen Jones a William Owen* (Llundain, 1789), cerdd VIII; *Detholion o Gywyddau Dafydd ap Gwilym*, gol. I. Williams (Bangor, 1927), cerdd XXV; DGG² cerdd XXV; BU cerdd 36; OBWV cerdd 58; CTC cerdd 6; DGA cerdd 18. Trafodir y cywydd gan A. Breeze, ‘Hywel ap Dafydd o Raglan ac *OBWV*, rhif 59’, *LlCy* 17 (1992–3), 137–9; A.C. Lake, ‘Cywydd Gwenonwy’, *Dwned*, 19 (2013), 59–79. Ymdrinnir â’r cerddi i leianod gan H. Fulton, ‘Medieval Welsh poems to nuns’, *CMCS* 21 (Summer 1991), 87–112 ac yn J. Cartwright: ForF 148–58. Bernir mai cywydd i leian yw hwn, a hynny ar sail y ddau gwpled *Daroedd, ni bu wisgoedd waeth, / I daeliwr o hudoliaeth, / Deuliw Nyf, peth nis dlâi neb, / Duaw hon ond ei hwyneb* (BU 36.9–12).

Rhodddwyd y pennawd *kowydd moliant i wyneb merch* yn Card 2.114 ac i *ganmol pryd a gwedd merch* yn Card 4.330. Yn BL Add 14866, sydd yn llaw Dafydd Johns, y ceir y pennawd mwyaf manwl, ac ailadroddwyd hwn mewn sawl ffynhonnell ddiweddarach:

dafydd ap gwilim a wnaeth y cowydd hwn i fanaches ni welsai ef ond i hwyneb gan i chrefyddwysc ac i hon i gwnaeth ef gowydd yw diheuro a merch i Ifor hael oedd hi.

Nid yw’r ddau gwpled a ddyfynnwyd uchod yn y testunau sydd wrth enw Hywel Dafï, ac nid oes dim sydd yn awgrymu mai lleian ydyw. Fodd bynnag, enwir Gwenonwy mewn cywydd arall (gw. isod) ac awgrymir ei bod o anian grefyddol. Disgrifio’r wyneb a wneir yn y cywydd, sef yr unig ran o wyneb lleian a fyddai yn y golwg. Yn llinellau 9–28 disgrifir yr aelïau tywyll a’u cyferbynnu â gwynder y cnawd. Ar rannau eraill yr wyneb y mae’r pwyslais yn llinellau 29–62, sef y llygaid, yr amrannau a’r gruddïau.

Y mae pedwar cwpled (gan gynnwys y ddau a ddyfynnwyd) yn y testunau sydd wrth enw Dafydd nas ceir yn y fersiynau sydd yn enwi Hywel Dafï. Ar y llaw arall, ceir pum cwpled yn y fersiynau sydd wrth enw Hywel Dafï nas ceir yn y ffynonellau sydd yn enwi Dafydd. Seiliwyd y golygiad newydd ar y fersiynau sydd wrth enw Hywel Dafï. Y mae’r drefn yn wahanol yma hefyd, ond mewn gwirionedd ni cheir cysondeb yn y llawysgrifau sydd yn enwi Dafydd ychwaith, a cheir gwahaniaethau rhwng Card 4.330 ar y naill law a BL Add 14999 a’r dosbarthïadau a gynrychiolir gan BL Add 14866, CM 3, a Brog I.2 ar y llaw arall. At hyn, gwelir bod cwpledi coll ym mhob un o’r fersiynau. Am mai cywydd disgrifiadol yw hwn sydd yn symud fesul cwpled, y mae’n anorfod fod rhai cwpledi wedi eu trawsosod. Digwydd y trawsosod, fodd bynnag, oddi mewn i’r ddwy brif adran ddisgrifiadol.

Seiliwyd y rhan fwyaf o’r golygiadau blaenorol ar BL Add 14866. Ar Card 4.330, y ffynhonnell gynharaf sydd yn enwi Dafydd, y seiliodd H. Fulton ei golygiad hi. Ceir yma drefn unigryw, fel y nodwyd, ond ceir yma hefyd sawl darlleniad gwahanol. Ad-drefnodd T. Parry y cwpledi yn llwyr ar

gyfer ei olygiad ef, ac nid yw'r drefn ym Mlodeugerdd Rhydychen (OBWV cerdd 58) yn cyfateb i'r hyn sydd yn yr un ffynhonnell lawysgrifol.

Ni chofnodwyd amrywiadau wyth ffynhonnell ddiweddar. Ceir testun dibynadwy ym mhob un o'r rhain ac eithrio Card 4.156 sydd yn cynnwys olion llygru, er enghraifft llinell 22 *dail sibal fal dwy sibli*, llinell 33 *amwynt du ar femrwn deg*. Y mae Bangor 6, BL Add 14870 a Card 5.11 yn tarddu o BL Add 14866, a Card 4.156 a LIGC 5475A yn rhannu nodweddion y dosbarth a gynrychiolir gan CM 5. Cyfetyb Bangor 704 i Brog I.2. Copi o BL Add 14966 yw BL Add 31070 ac y mae Bodley Welsh f 3 yn cyfateb i Card 2.114.

- 4 **Gwenonwy** Nid yw hwn yn enw cyffredin ond digwydd mewn cywydd arall o waith Hywel Dafi, gw. 106.56n. Nid ymddengys fod y ferch a ddisgrifir yn y cywydd hwnnw yn lleian, ond pwysleisir ei bod yn dduwiol a defosiynol. Er gwaethaf ei thueddfryd dymuniad y bardd yw mynd i'r afael â hi yn llannerch yr oed yn y goedwig.
- 5 **erddrym** 'Amlwg, aruchel; teg, hardd, gwych; urddasol', gw. GPC 1231. Am fod *eurddrych* yn digwydd yn rhan gyntaf y ll. y mae *erddrym* yn rhagorach darlleniad nag *eurddrym*, darlleniad y rhan fwyaf o'r llsgrau. sydd yn enwi Dafydd ap Gwilym (ond cynigir yn *ib.* 1258 mai ffurf amr. ar *erddrym* yw *eurddrym*).
- 5–6 Ceir darlleniad unigryw, a phrifodl wahanol, yn nhestun Card 4.330.
- 7 **gorwyf** Ffurf I un.pres.myn. y f. *gorfod* 'peri, gwneud, gweithredu, cyflawni', ond cyflea'r amser perffaith, gw. GPC 1482; GMW 146–7; G 565. Honna'r bardd iddo gyflwyno anrheg i'r ferch, sef ffrwyth ei awen, ond ni dderbyniodd ei serch yn gyfnewid, fel y tystia ll. 19 *bardd didal*. Darlleniad y llsgrau. sydd yn enwi Dafydd ap Gwilym yw *gorfûm ged* 'enillais ffafr', sef y fraint o weld y ferch brydferth.
- 9–10 Gelwir sylw yn DGA 182 at y tebygrwydd rhwng y cwpled hwn a TA CXXIV.35–6 *D'wyneb, pryd nad adwaenwn, / Och Dduw tad na chuddut hwn!*
- 11–12 Y mae CM 467 a Pen 124 yn dilyn trefn a darlleniadau'r testun a gynrychiolir gan CM 5, ond collwyd y cwpled yn y ddwy ffynhonnell hyn.
- 12 **mÿr** Un o ffurfiau ll. *môr*, gw. GPC 2485–6. Un o ystyron *môr* yw 'amlder, helaethrwydd, cyflawnder'. Galwodd A. Breeze sylw at y tebygrwydd rhwng y ll. hon a 96.22 *O fôr eirw neu fererid*, gw. A. Breeze, 'Hywel ap Dafydd o Raglan ac *OBWV*, rhif 59', LICy 17 (1992–3), 137.
- 14 **aerwy** Disgrifio'r aelïau a wneir yma a'r cyfystyron mwyaf addas yw (a) 'torch, cadwyn, coler; cylch, modrwy, dolen', gw. GPC² 90–1 yn hytrach na (d) 'plethiad' (y mae a wnelo'r enghrau. â'r gwallt yn benodol).

- 15 **dwyael geimion** Gw. 96.39n.
- 18 **eneidrwydd** ‘Yr arlais, y naill ochr neu’r llall i’r pen rhwng y glust a’r talcen’, gw. GPC 1214. Ni lwyddwyd i gofnodi’r ffurf gywir yn Card 2.114 *neidrwydd* a LIGC 21248B *niweidrwydd*. Eg. yn unig yw *eneidrwydd* yn ôl GPC; *dwy neidrwydd* a gofnodwyd yn Card 2.114 ond *dav niweidrwydd* yn LIGC 21248D.
- 20 **tylau** Ffurf amr. ar *tyle* ‘llethr’, gw. GPC 3673 lle y dyfynnir enghrau. o ganu Ieuan Gethin a Llywelyn Goch y Dant.
- 22 **Sibli** Y tri a gafodd ddoethineb Addaf oedd Cado Hen, Beda a Sibli, merch Priaf Frenin, gw. TYP³ 135; GPC 3268 d.g. *sibyl*, *sib(i)l* ‘proffwydes (oraclaidd), dewines’. Ceir ei phrophwydoliaeth, yn seiliedig ar destun y Llyfr Coch, yn R.W. Evans, ‘Proffwydoliaeth Sibli Ddoeth’, LICy 14 (1981–4), 216–23. At ddoethineb Sibli y cyfeirir fel arfer ond awgrymir yn DGG² 188 mai’r lliw du a gysylltir â dewines sydd yn esbonio’r cyfeiriad yn y cwpled hwn: ‘Aeth Sybil i olygu swynwraig, ac fel rheol du yw lliw carnwitsiaid!’
- 23 **muchudd** Y mae *mvchwydd* Card 2.114 yn ffurf amr. ar *muchudd*, gw. GPC 2499, ond y mae’r odl yn mynnu’r ail.
- 24 **trwyn** Yn ôl J. Morris-Jones: CD 24 ‘methiant truenus fel barddoniaeth yw pob cyfeiriad at *drwyn* yr anwylyd mewn cân serch.’ Serch hynny, ceir cyfeiriadau gan y Cywyddwyr at y rhan hon o’r corff, e.e., GSH 23.21–2 *Mae trwyn moddus gwedduswyn, / Main, bach, ni bu degach dyn*. Gw. ymhellach G. Ruddock, ‘Prydferthwch merch yng nghwyddau serch y bymthegfed ganrif’, LICy 2 (1970–1), 170–1.
- 25 Darlleniad OBWV yw *Mur aelfain, mwyar elfydd*.
- 27 Cf. ID VI.20 *dwy vwyalch mewn deuvwlech mur*.
- 28 **mentyll** Trosiad am yr aelïau sydd yma. Nid oes cyfeiriad at wisg dywyll a all awgrymu mai lleian yw Gwenonwy yn y testunau sydd yn rhoi’r cywydd i Hywel Dafi. Ar liwiau gwisgoedd y lleianod a berthynai i urddau’r Benedictiaid a’r Sistersiaid, gw. J. Cartwright: ForF 154–5.
- didywyll** Dyma ddarlleniad y rhan fwyaf o’r llsgrau. Nid yw’r mesur yn caniatáu mabwysiadu *didwyll* CM 467. Y rhagddodiad cadarnhaol a chryfhaol sydd yma, gw. GPC 943 d.g. *di*³.
- 29–52 Rhannau eraill yr wyneb a gyflwynir yn y llau. hyn, ond y mae’n bosibl na ddiogelwyd y drefn gywir yn yr un ffynhonnell. Disgrifir y llygaid yn llau. 29–32, wedyn yr amrannau (llau. 33–4) a’r gruddiau (llau. 35–6). Dychwelir at y llygaid yn llau. 37–42 ond gan gyferbynnu rhwng dŵch y llygaid a gwynder y cnawd yn llau. 39–40. Ceir darn estynedig wedyn sydd yn cyflwyno’r gruddiau unwaith eto (llau. 43–52).
- 36 Collwyd y ll. hon yn LIGC 8330B trwy ryw amryfusedd. Gadawyd bwlech yn Llst 167, ond yna ychwanegwyd y ll. lwgr hon gan law

ddiweddarach yn durau yn ei deurudd.

- 37–8 **afal** ... / ... **nobl, nodau** Diau mai trosiadau sydd yn disgrifio'r llygaid yn hytrach na'r gruddiau sydd yma. O gofio'r awgrym fod Dafydd ap Gwilym yn cyffelybu'r wylan i lythyren a addurnwyd yn gain mewn llsgr., *Llythr unwaith lle'th ariannwyd*, gw. DG.net 45.7n, tybed ai gweld y llygaid megis nodau cerddorol y mae'r bardd yma?
- 41 **crechwen** 'Chwerthin uchel neu groch' yn ôl GPC 585, a cf. GL1 6.7 *Hywel groyw, uchel grechwen*, ond efallai mai 'gwên' sydd fwyaf addas yma.
- 41–2 Nid yw'r cwpled hwn i'w weld yn Card 4.330 ond digwydd yn yr holl destunau eraill sydd wrth enw Dafydd ap Gwilym. Nis cynhwyswyd yn nhestun DGA cerdd 18.
- 43 **afan** 'Mafon', gw. GPC² 95. Ni chodwyd yr un engh. o ganu'r Cywyddwyr.
- 44 Y gair gwan, yr ardd. *ar*, sydd yn safle'r orffwysfa. Dyfynnir enghrau. eraill yn 1.23n a gw. 'Cynghanedd' tt. 42–3.
- 46 **syfi** 'Mefus', gw. GPC 3379. Trafodir tarddiad y gair a rhestrir enghrau. geiriadurol yn J.E.C. Williams, 'Syfi', B xvii (1956–8), 264–7.
- 48 **gwaed** ... **eiry** Dygir i gof y disgrifiad enwog yn chwedl 'Peredur', a cf. DG.net 86.33–54.
- 54 Darlleniad OBWV yw *Ei deurudd fal hawl dwyrain*.
- 55 **dwys** 'Difrifol, sobr; taer, angerddol; dygn' yw'r ystyron mwyaf cyffredin, ond cyflea hefyd yr ystyron 'trwm (o ran pwysau); caled; tew, trwchus', gw. GPC 1111. Yr olaf sydd yn gweddu orau yma. Wrth drafod y modd y disgrifir aelodau'r corff yn y cywyddau serch, dangosodd G. Ruddock, *art.cit.* 155–9, mai'r hyn a greodd argraff ar y beirdd oedd melyster y genau, a defnyddiwyd trosiadau megis *gwin, medd, mêl, osai, triagl* a *siwgr* wrth gyfleu'r wedd hon. Gw. ymhellach *id.*, 'Genau serch a chrefydd', YB X (1977), 230–56. Prin iawn yw'r cyfeiriadau at y gwefusau fel y cyfryw.
- gwëus** Rhestrir y ffurfiau *gwefus, gwëus* a *gweus* yn GPC 1616, ond *gweus* yw'r ffurf yn 96.34 *Dwywes aur, dwy weus eirian*.
- 56 **ar enau** Ymddengys fod BL Add 14966 o blaid *arennau* ond nid yw'r gair hwn yn addas yn y cyd-destun.
- 57 **yn gweini** Mabwysiadwyd darlleniad y llsgrau. sydd yn enwi Dafydd ap Gwilym yma; nid yw *yn gwenv yn daer* yn taro cystal.
- 59 **elgeth** 'Gên; boch', gw. GPC 1206. Mabwysiadwyd y ffurf hon am ei bod yn digwydd mewn cywydd arall yn safle'r odl, gw. 96.35 *Mygr elgeth gweddeiddbleth gwyn*, ond y ffurfiau amr. *aelgeth, aelgerth, aelgaeth* a gofnodwyd yn y ffynonellau llawysgrifol.

- 60 **a gyrraidd** Ffur 3 un.pres.myn. *cyrraedd*, gw. GMW 117; G 265. Y mae darlleniad y llsgrau. sydd yn enwi Dafydd yn rhagori yma eto. Y mae'r ll. sillaf yn fyr yn Card 2.114 *a gwraidd hvd i grvdd hi*.
- 65–6 Rhediad y frawddeg yw 'Ni welodd neb iach ei wyneb droedfedd decach'. Deellir *wyneb iach* yn wrth. y f. yn DGA.
- 66 **troedfedd** Trosiad am yr wyneb yw hwn er y gall ymddangos yn chwithig i ni heddiw. Dyfynnir enghrau. yn GPC 3610, a'r cwpled hwn yw'r gyntaf. Gthg. y cyfieithiad yn DGA, 'no one saw a pure face ... fairer by a foot'. Yn ôl un gyfres o'r Gorchestion, *Pa droedfedd dekafa wnaeth Dyw ar y ddayar hon? Wyneb dyn kans be bai dair mil o bobl ynyr yn lle fo ellir addnabod pawb wrth i wyneb*, gw. C.E. Byfield and M. Bayless, '*Y Gorchestion: the Welsh Loca Monachorum* texts, translations and commentary', SC xxx (1996), 211.
- troedfedd degach** Cyffredin oedd treiglo'r a.cmhr. mewn datganiad negyddol, gw. Treigladau 66–7.

Atodiad I

Yn ôl BL Add 14866, cywydd yw hwn *i wallt ag wyneb merch ag yn enwedig yw llygaid*. Cyferbynnir düwch y llygaid â gwynder cnawd y ferch mewn cyfres o ddelweddau megis *eiry, papir, lamp, ôd* ar y naill law ac *airin, sabl, brain, morlo, glo* ar y llall. Diweddir y cywydd trwy gyflwyno brwydr drosiadol rhwng y cariadon wrth i lygaid y naill ergydio saethau at lygaid y llall.

Rhoddir y cywydd i Hywel Dafï ac i Fedo Aeddrem, gw. 'Cerddi Ansic' td. 55. Collwyd y diwedd yn LIGC 834B, ond dilynir trefn a darlleniadau'r llawysgrifau sydd wrth enw Bedo Aeddrem. Y mae gwahaniaethau amlwg rhwng y testunau sydd wrth enw'r naill fardd a'r llall. Y mae'r cywydd sydd wrth enw Bedo Aeddrem yn gymharol fyr ac yn cynnwys 36 llinell. Ychwanegwyd y nodyn hwn ar ddiwedd y cywydd yn BL Add 14866: *duw a wnel i fod yma i gyd ni welais i ond hyn*. Y mae cytundeb cyffredinol rhwng yr holl destunau hyn ond bod lleoliad un cwpled yn wahanol yn BL Add 14866. Hywel Dafï a enwir yn y ffynonellau eraill, ond gellir eu rhannu yn ddau ddsbarth ar sail eu trefn a'u hyd. Cynrychiolir y dosbarth cyntaf gan lawysgrifau Llywelyn Siôn a'r ail gan Wy 2 a'r ddau gopi sydd yn llaw Wmffre Dafis. Y mae un cwpled yn fersiwn Llywelyn Siôn nas ceir yn Wy 2, Brog I.2 a LIGC 3056D, ond y mae pedwar cwpled ychwanegol yn y grŵp olaf. Serch hynny collwyd pedwar cwpled ar ddiwedd y cywydd. Nid ymgorfforwyd y cwpledi ychwanegol hyn yn y testun a olygwyd. Y mae rhyw gymaint o amrywio o ran lleoliad ambell gwpled yn yr adran lle y dyfelir llygaid y ferch.

Ni chofnodwyd amrywiadau naw testun diweddar. Ym mlynnyddoedd olaf y ddeunawfed ganrif y lluniwyd Card 4.9. Priodolir y cywydd i Fedo

Aeddrem, ond yn wahanol i bob copi arall sydd yn enwi'r bardd hwn dilynir y fersiwn llawnach sydd yn Brog I.2 ac sydd wrth enw Hywel Dafî. Yr un drefn sydd yn LIGC 670D. Dilynwyd trefn BL Add 14866 yn BL Add 10313, BL Add 31094, Card 4.156, CM 448 a Pen 245. Trefn CM 5 a ddilynwyd yn LIGC 1246D tra cyfetyb BL 31070 i drefn testunau Llywelyn Siôn. Cofnodwyd y ddau gwpled cyntaf gan Siôn Dafydd Rhys yn Llst 55, 98, o dan enw Hywel Dafî. Ceir testun diplomatig, yn seiliedig ar BL Add 31070, yn Bedo Aerddrem, &c.: Gw 229–230.

Cynghanedd: croes 34 ll. (59%), traws 10 ll. (17%), sain 9 ll. (15%), llusg 5 ll. (9%)

- 1–2 Rhestrwyd y cwpled cyntaf yn Pen 221, sef y mynegai a baratoes John Jones, Gellilyfdy: *y vvn ar lliw ewyn llif / wridowgrvdd eiriav digrif*.
- 2 **gwridawgrudd** Cyffredin yn y cywyddau disgrifiadol oedd cyfeirio at fochau cochion, ond ar y llygaid duon a'r croen gwyn y mae'r pwyslais yn y cywydd hwn. Prawf y ffurf *wridawgrydh eiriav digribh* a gofnodwyd gan Siôn Dafydd Rhys yn Llst 55 nad oedd ei gynsail ef yn cyfateb i gynsail Llywelyn Siôn. Ceir y darlleniad *gwrid awgrym* 'gwrid sydd yn ganlyniad arwydd neu amnaid' o ddilyn llsgrau. Llywelyn Siôn a Llst 54.
- 3 Y gair gwan *fal* sydd yn cynnal odl gyntaf y gynghanedd lusg, a'r un gair sydd yn safle'r orffwysfa yn ll. 8. Gw. ymhellach 1.23n a 'Cynghanedd' tt. 42–3.
- 4 **maen glaw** Maen sydd yn disgyn gyda'r glaw; maen a ddefnyddid i ddenu glaw, gw. GPC 2307, a hefyd *glain cawod yn ib.* 1399 a 9.38n *cyrn glaw*. Cf. GGr 6.46 *Llygad glas, maen cafad glaw*. Cyffelybir lliw croen yr wyneb i'r lili, sef *alaw*, ym mraich gyntaf y ll., a gweddaï'r ystyr 'cenllysg' i *maen glaw* yma wrth ddisgrifio'r mwnwgl.
- 12 **llawnlloer** Ar y calediad, gw. Treigladau 27–8.
- 14 Cynghanedd draws yn hytrach na chynghanedd sain a geir yn Brog I.2, &c., sef yr ail ddosbarth o lsgrau. wrth enw Hywel Dafî, *Hardd oedd hon fal hirddydd haf*.
- 15 Darlleniad Llywelyn Siôn yw *gnawd* 'arferol, hysbys, mynych', gw. GPC 1415, sydd yn rhagori ar *gnad* Brog I.2, &c. Anodd esbonio'r gair hwnnw ond gallai fod yn wall am ffurf dreigledig *cnod*, 'yn ffig. am nod rhagoriaeth', er mai *cnot* yn unig a restrir yn GPC 351–2.
- 16 **wybrennon** Y ffurfiau ll. *wybrennau, wybrennoedd, wybrennydd, wybrenni* a gofnodir yn GPC 3739–40, ond rhaid wrth *wybrennon* i odli â *duon*.
- 19 **glasfylch** *Glas* + ffurf l. *bwlch* 'adwy, hollt, agen', gw. GPC 352–3, yn drosiadol am y llygaid.

flled-lafarog o dan yr acen.

- 19–20 **Aeron ... / Eirin** Y ddau drosiad yn Brog I.2, &c. yw *awyr* ac *aeron*.
- 20 **airin cwsig** Ni nodir y cyfuniad hwn yn GPC 1196–7.
- 21–2 Nid yw'r cwpled hwn yn Llst 54 nac yn y dosbarth o Isgrau. sydd yn rhoi'r cywydd i Fedo Aeddrem, ond sylwer bod *gleiniau* yn cyflwyno'r cwpled hwn a'r cwpled nesaf. Disgrifio'r addurn yng ngwallt y ferch a wneir yn y cwpled lle y mae'r cwpledi eraill yn yr adran hon yn canolbwyntio ar y llygaid a'r croen. Yn betrus felly y cynhwyswyd y cwpled yn y golygiad.
- 22 **gawdus** Llst 47 yn unig sydd yn rhoi *gawdus*, 'clodwiw', a'r cwpled hwn yw'r unig engh. a ddyfynnir yn GPC 1604. Ond *gawdus* sydd yn y pedwar copi arall yn llaw Llywelyn Siôn ac yn Brog I.2, &c., a mabwysiadwyd y darlleniad anos hwnnw yn betrus. Gallai fod yn ffurf ar *gawdi* o'r S. *gaudy* 'melynaidd', gw. GPC 1385 ac OED² vi, 401, ond mwy cyffredin yn S. yw'r cyfuniad *gaudy-green*. O waith y bardd Tomas Prys y daw'r engh. gynharaf yn GPC. Cyffelybir yr addurniadau yng ngwallt y ferch i nwyddau dethol o farchnad Sieb yn Llundain.
- 24 **ysgaw** Blodau gwynion a grawn duon sydd gan yr ysgawen ac y mae'r trosiad yn un addas o'r herwydd wrth gyfleu lliw tywyll llygaid y ferch a lliw gwelw ei chroen.
- 26 **dau lamp** Gall fod yn eg. ac eb., gw. GPC 2051–2.
- 27 **brain Owain** Crybwyllir ymosodiad brain Owain ar filwyr Arthur yn chwedl 'Breuddwyd Rhonabwy'. Yn chwedl 'Peredur' y ceir y disgrifiad enwocaf sydd yn ymwneud â merch brydferth, a manteisiodd Dafydd ap Gwilym arno yn ei gywydd 'Dyddgu', gw. DG.net cerdd 86. Gwallt y ferch a gyffelybir i'r frân yn y chwedl ond y llygaid duon a ddenodd sylw'r bardd y tro hwn. Enwir dau aderyn arall yn y llau. sydd yn dilyn, sef y drudwen (ll. 29) a'r merwys (ll. 31). Enwir y fwyalchen mewn cwpled ychwanegol sydd yn Brog I.2, &c. Cf. 60.16 *Brain Owain ab Urien ynt*.
- 28 Dilynwyd Brog I.2, &c. Y mae'r ll. *Brwydr taer ym mrig caer calch* sydd gan Lywelyn Siôn sillaf yn fyr. Yn ôl GPC 336 eb. yn unig yw *brwydr*.
- 29 **drudwennod** Ffurf l. *drudwen*, sef ffurf fach. b. *drudwy*, gw. GPC 1087. Nid ymddengys fod Llywelyn Siôn yn gyfarwydd â'r ffurf.
- 31 **merwysiaid** Ffurf l. *merwys* 'mwyalchen'. Ni chofnodir ffurf l. yn GPC 2438, ac o eiriadur William Owen-Pughe y daw'r engh. gynharaf. Unwaith eto ymddengys nad oedd y copi-wyr yn gyfarwydd â'r ffurf.
- 32 **bargod** 'Bondo', gw. GPC 259, gan ddilyn Brog I.2 &c., darlleniad sydd yn rhagori ar *bragod* 'math o ddiod frag', gw. GPC 307, yng nghopiâu Llywelyn Siôn.

33 **blaenus** Dilynwyd Llywelyn Siôn, am fod trosiad o fyd amaeth, sef *brasgeirch*, yn dilyn yn ail fraich y cwpled. Ailadroddir *bwliwms* yn nwy ran y ll. yn Brog I.2 &c.

bwliwms ‘Cnapiau addurn o fetel’, gw. GPC 353. *bwliwms hoedl bwlen* *dynt* sydd yn y ffynonellau sydd yn rhoi’r cywydd i Fedo Aeddrem. Gellid *Bwlen* (= porthladd Boulogne yng ngogledd Ffrainc) er mai *Bwlen* yw’r ffurf ar enw’r dref fel arfer. Dewis arall fyddai *balaen*, ffurf amr. ar *malaen*, *melan* [yn ddisglair fel] ‘dur, cleddyf’, o’r e. lle *Milan*, gw. *ib.* 250, ond ni nodir y ffurf l. *balaens*.

35 **llugau** ‘Golau, llewyrch, disgleirdeb’, gw. GPC 2221 d.g. *llug*¹, ond ni nodir ffurfiad ll. yno. Mentrus fyddai diwygio yn [g]*ellyg* ar sail y defnydd a wna Tudur Aled o’r trosiad wrth ddisgrifio llygaid march, gw. TA CVI.45 *Llygaid fal dwy ellygen*.

37–8 Dilynwyd Brog I.2 &c. yn hytrach na Llywelyn Siôn wrth leoli’r cwpled hwn ar ddiwedd yr adran sydd yn dyfalu llygaid a chroen y ferch. Fel y gwelir, y mae’r cwpled yn cyflwyno syniad fod llygaid y ferch fel saethau sydd yn cyfathrebu ac yn clwyfo, a datblygir y syniad hwn yn rhan olaf y cywydd.

41 Cynghanedd luss, ond traws sydd yn Brog I.2 &c. *Didlawd yw ymgystadlu*.

43 **irwe** Ni ddigwydd y darlleniad hwn yn yr un o’r llsgrau., ond bernir bod *Gollwng i wen o’r gelli* yn llwgr.

46 **dau wns ... dduon** Ar arfer ffurf l. yr a. yn dilyn y rhifol *dau*, gw. Treigladau 130 a cf. 96.31 *Dwy dröell, dau wydr ieuainc*. Safle’r rhagenw rhwng yr e.c. a’r a. sy’n achosi treiglad i’r a.

47 **cwarelau** Ffurf l. *cwarel* ‘saeth fer drom’, gw. GPC 633, sydd yn datblygu trosiad y saeth a gyflwynwyd yn y ddau gwpled blaenorol ac yn llau. 37–8. Mabwysiadwyd *bar* yn ail ran y ll. ond gellid *bâr*. Efallai mai dylanwad y gair hwnnw sydd yn esbonio’r darlleniad *cwerylau* yn rhai o’r llsgrau.

51 **cyweithas** Yma yn ansoddeiriol ‘mwyn, tirion, hynaws’, gw. GPC 831.

54 **deil brath** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n.

Atodiad II

Golygwyd y cywydd yn GDID Atodiad A1 ymhlith y cerddi a briodolwyd i Ddeio ab Ieuan Du ac i feirdd eraill yn ogystal. Seiliwyd y golygiad yno ar ddeuddeg ffynhonnell ynghyd â’r dryll yn Llst 9. Cywydd i ofyn am eidion yw hwn yn ôl GDID, ond er bod y gair *eidion* yn digwydd yn llinell 19, y mae’r pwyslais ar allu’r creadur i epilio yn tystio’n glir mai tarw a erchir. *Dyro’r crair ar deirw Cred* (ll. 67) yw uchafbwynt y cais. Y mae’r rhan

fwyaf o'r copiŵyr yn gytûn ar y pen hwn: *i ofyn tarw dy* (BL Add 14866), *llyma gywydd arall i erchi tarw du* (Card 5.44). Brog I.6 yw'r eithriad; *kowydh i ofyn Eidione* yw'r pennawd yno.

Priodolir y cywydd i Huw Cae Llwyd, i Ddeio ab Ieuan Du ac i Hywel Dafï, gw. 'Cerddi Ansic' td. 54. Un o'r anawsterau pennaf wrth geisio torri'r ddadl ynghylch y bardd yw'r wybodaeth dra arwynebol a gynigir ynghylch yr eirchiad a'r rhoddwr. Erchir y rhodd gan Ieuan sydd yn disgyn o linach Trahaearn Llwyd, ac efallai ei fod yn fab i Rys. Ar ran Gwilym Fychan y canwyd y cywydd a dyna'r cyfan sydd yn hysbys amdano. Ni leolir yr eirchiad na'r rhoddwr, ond awgryma'r cyfeiriadau at Garon ac at afon Teifi mai yng Ngheredigion y dylid lleoli'r rhoddwr. Ymhellach awgryma'r llinell *Hwde'r gair hyd ar Garon* (ll. 10) mai gŵr o ardal arall oedd Gwilym Fychan, yr eirchiad. Trigai disgynyddion Trahaearn Llwyd o lwyth Cydifor ap Gwaithfoed yng nghwmwd Pennardd yn Uwch Aeron yn sir enedigol Deio. Byddai gallu lleoli'r rhoddwr yng Ngheredigion yn ddadl gref o'i blaid ef am fod y rhan fwyaf o'i noddwyr yn byw yn y rhan hon o Gymru. 'Yn anad dim, yn ôl y cerddi a gadwyd i ni, bardd Sir Aberteifi a bardd y traddodiad mawl yw Deio ab Ieuan Du, ac yn fwy arbennig, efallai, bardd y Tywyn', gw. GDID xix. Ond yr oedd Trahaearn yn enw digon cyffredin ym Mrycheiniog hefyd.

Y mae canran y cynganeddion fel a ganlyn a gwelir bod y groes yn amlwg iawn: croes 46 ll. (68%), traws 11 ll. (16%), sain 11 ll. (16%).

Ni ellir gwrthod y cywydd i Hywel Dafï ar y tir hwn am fod canran y groes yn bur debyg mewn tri chywydd arall, sef cerddi 47 (67%), 69 (65%), a 75 (75%). Eithriadau yw'r tair cerdd hyn, fodd bynnag. Awgryma dosbarthiad y cynganeddion nad Hywel Dafï a ganodd y cywydd hwn: gw. ymhellach 'Cynghanedd' tt. 39–41. Efallai ei bod yn arwyddocaol nad oes yma yr un gynghanedd lusg. Ond nid yw'r cywydd yn debyg i gywyddau Deio ychwaith o ran eu cyfansoddiad cynganeddol. Nodir isod ganran y cynganeddion yn y cywydd a ganodd Deio ab Ieuan Du i ddiolch am darw (GDID cerdd 15) a nodir hefyd ganran pob cynghanedd, gan ddilyn dosbarthiad A.E. Davies yn GDID xix.

Cynghanedd: croes 58% (GDID 46%), traws 22% (GDID 26%), sain 18% (GDID 23%), llusg 2% (GDID 5%)

Collwyd rhannau o'r testun yn LIGC 642B, LIGC 970E a Llst 118 oherwydd traul. Ni chofnodwyd amrywiadau tri thestun diweddar. Y mae'r cywydd yn gyfan yn BL Add 31070 ac yn dilyn trefn y golygiad tra collwyd llinellau 57–60 yn BL Add 31075 a Card 4.10. Cynhwyswyd un cwpled ychwanegol yn y ddau olaf. Cofnododd Siôn Dafydd Rhys chwech o linellau'r cywydd yn Llst 55, 95, a'u priodoli i Huw Cae Llwyd.

1–2 Cofnododd John Jones, Gellilyfdy, y cwpled cyntaf yn ei lyfr mynegai

yn Pen 221, 70: *Vn ni phlyg er ofn na phlaid / Iefan degan fendigaid.*

- 2–3 **Ieuan ... / ... o Rys** Nid enwir Ieuan ap Rhys yn ymdriniaeth D.H.E. Roberts â noddwyr Ceredigion yn ‘Noddwyr y beirdd yn sir Aberteifi’ (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1969), ac ni chrybwyllir y cywydd hwn ychwaith.
- 3 Dilynwyd fersiwn Llywelyn Siôn er mwyn osgoi ailadrodd *llin* yn y ll. hon ac yn ll. 6 *llin cofiawdr Rys, llin Trahaearn Llwyd.*
- 9 **hirwayw o’r onn** Yn CM 243 yn unig y digwydd y darlleniad hwn. Y mae sillaf yn eisiau yn BL Add 14967 ac mewn sawl ffynhonnell arall, a diau mai darlleniad llwgr yw *Harri o Rôn* a geir yn llsgrau. Llywelyn Siôn er bod hyd y ll. yn rheolaidd. Ymddengys fod y rhan fwyaf o’r llsgrau. yn rhoi *rhôn* ‘gwaywffon, gwayw, picell’, gw. GPC 3094, yn safle’r brifodl, ond cyfystyr yw *onn*, gw. *ib.* 2649, a’r gair hwnnw a fabwysiadwyd. Seiliwyd darlleniad GDID *hir iawn o Rôn* ar Brog I.6, yr unig ffynhonnell sydd yn rhoi’r cywydd i Ddeio ab Ieuan Du, er na ellir bod yn gwbl sicr mai e. lle sydd yn y llsgr. honno.
- 10 **hwde** Sylwer bod Hywel Dafi yn arfer y ffurf *hwde* mewn sawl cerdd, gw. ‘Geirfa’.
- 11 **cwlm** ‘Hual, llyffethair’, gw. GPC 640, ond addas hefyd fyddai darlleniad BL Add 14866 *claim* ‘hawl, braint’, gw. *ib.* 489. Camddarllenwyd y gair yn Gwyneddon 3: *Gwilim ydwyf glann eldol.*
- Eidol** Fe’i deellir yn e.c. yn GDID, ffurf amr. ar *eidol* ‘gwaedd, cri, moliant’, gw. GPC 1187, ond tebycach mai e.p. sydd yma. Yr oedd Eidol, iarll Caerloyw, yn bresennol pan laddwyd ei gymdeithion trwy frad a dichell y Saeson, gw. BD 99; WCD 227. Cf. GLMorg 3.57–8 *Mae arfau, gynnu, gwnnaf—ddur Eidol, / Mae’r gair yd, wrol, mae’r gwŷr dewraf.*
- 11–12 **Gwilym ... / Fychan** Bu Gwilym Fychan, mab Watgyn Fychan o Frodorddyn, yn ddirprwy gwnstabl castell Aberystwyth yn ystod teyrnasiad Edward IV, gw. R.A. Griffiths: PW i, 238–9. Canodd Lewys Glyn Cothi awdl fawl iddo, gw. GLGC cerdd 89. Dyma un gŵr mewn swydd gyhoeddus y gallai’r cywydd fod wedi ei ganu ar ei ran, ond ar ei filwriaeth y mae’r pwyslais yn awdl Lewys yn hytrach nag ar ei ymwneud â byd hwsmonaeth.
- 13 **arferoedd** Un o ffurfiau ll. *arfer* ‘defod; dull’, gw. GPC² 443, ond *arferawdd* a geir mewn pum testun yn llaw Llywelyn Siôn. Arferid y terfyniad *-oedd* wrth gyfleu 3 un.grff. yn weddol gyffredin yn y farddoniaeth ac yn y rhyddiaith a gofnodwyd ym Morgannwg, gw. GLMorg 10.42n. Efallai i’r llsgrau. eraill ddiogelu’r terfyniad berfol yn ddjarwybod. Un engh. yn unig o’r terfyniad berfol *-oedd* sydd yn llaw Hywel Dafi, gw. 102.28n.

- 14 Dilynwyd BL Add 14866 er mwyn osgoi ailadrodd *arfer*, a gthg. GDID *Arfer hael yw arfer hwn*.
- 16 Dilynwyd BL Add 14866 eto am fod dau air tebyg eu hystyr, sef *rhodd* ac *arch*, yn y llsgrau. eraill, a gthg. GDID *Erchi rhodd neu arch er hyn*.
- 17–18 Rhagflaenir y cwpled hwn gan gwpled ychwanegol yn llsgrau. Llywelyn Siôn ac yn Brog I.6, ac ymgorfforwyd hwn yn nhestun GDID.
- 20 **iau fôn** Yno y gosodid y ddau ych cryfaf, gw. GPC 2002 a 38.17–18n.
- 24 **achub** Yr ystyron a roddir yn GPC² 23–4 sydd yn taro orau yma yw i. ‘cipio, gafael yn, meddiannu’; ii. ‘ymosod (ar), rhuthro (ar)’.
- 26 Newidiwyd yr ystyr yn llwyr yn GDID er gwaethaf cytundeb yr holl llsgrau. Swyddogaeth y tarw fydd epilio a sicrhau cenedlaeth newydd a fydd yn tynnu’r iau ac yn esgor ar gnydau maes o law, ond newidiwyd *a bair yd yn a bawr yd*. Y mae darlleniad Llst 118 a CM 243 yn gwbl wahanol: *O’i rydid bai waradwydd*. Tra bo gan yr eglwys reolau caeth ynglŷn â’r sawl a gâi ymuno mewn priodas, a chyfathrachu’n rhywiol yn sgil hynny, câi’r tarw gyplu â phob buwch yn ddiwahân, boed honno yn fam neu yn chwaer iddo. Y mae’r syniad hwn yn peri rhyfeddod a digrifwch yn y cywyddau i erchi teirw, cf. GSC 18.49–50 *O châi rodres a chrwydro, / Â’i chwaer a’i fam chwery fo*; GSH 6.46 *Llwyth buwch, cair llaeth o’i bechawd*. Ceir disgrifiad diflewyn-ar-dafod o gyneddfau corfforol a rhywiol y tarw mewn cerdd o waith y Nant, gw. GyN cerdd 6.
- 27 **tagell** ‘Plyg llac o groen sydd yn hongian o dan wddf tarw’, &c., gw. GPC 3421.
- 29 Diwygiwyd *cau* yn *cae* yn GDID, er nad yw’r brifodl o blaid y ffurf.
- 31 **mynach** Lliw tywyll mantell y mynach sydd yn esbonio’r trosiad hwn, a cf. *casul* (ll. 41), *brawd du* (ll. 52), *palmer* (ll. 55). Ailadroddir y trosiad yn ll. 34 ond ni welir y cwpled hwnnw yn Llst 118 a CM 243. Ffurf amr. ar *mynach* yw *manach* a gofnodwyd mewn sawl ffynhonnell, gw. GPC 2533.
- gwest** ‘Treulio’r nos; aros, lletya’, gw. GPC 1650. Dilynwyd darlleniad unigryw Brog I.6 yn GDID *Gwisg mynach yn gwesg maenawr*. Ni restrir *cwesg* na *gwesg* yn GPC.
- 32 **gefeildy** ‘Gefail’. I ddiwedd yr 16g. y perthyn yr engh. gynharaf yn GPC 1386.
- 35 **tyr** Yr ystyron ‘ymholhti, ymrwygo, ymagor’ sydd fwyaf addas yma, gw. GPC 3531 d.g. *torraf*.
- eurych** ‘Gof aur neu arian’ yn 95.44, 108.45, ond yma ac yn ll. 66 *aur* + *ych*.
- 39 **côr** ‘Cangell, llys; cylch, cwmpas’, gw. GPC 554–5. Dilynwyd GDID

er bod sawl ffynhonnell o blaid sillaf drom. Nid yw *cor* ‘dyn sydd yn llawer llai ei faint na’r cyffredin’, gw. GPC 555, yn gyson â’r pwyslais ar faint y creadur a’i gryfder.

llidiad Gthg. *llidiard* GDID. Y mae’r brifodl yn mynnu *llidiad*, ffurf amr. ar *llidiard*, gw. GPC 2175–6.

39–40 Dyfynnir y cwpled mewn gramadeg barddol yn llaw John Davies, Mallwyd, yn Pen 161, 60 a’i briodoli i Huw Cae Llwyd.

43 **sirig** ‘Sidan, damasg’, gw. GPC 3292. Addas hefyd yw *sabl* ‘du’, gw. *ib.* 3152, darlenniad BL Add 14866. Ond bu’n rhaid addasu’r ll. er mwyn sicrhau cyfatebiaeth gynganeddol, a throes yr ardd. *erof yn hebof*.

47 **biteilwr** ‘Un sy’n cyflenwi neu’r gwerthu ymborth’, gw. GPC² 647 d.g. *bitelwr*. I’r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf. LIGD 3049D, Llst 118 a CM 243 a ddiogelodd y darlenniad hwn sydd yn rhagori ar *bateilwr* ‘rhyfelwr’ y llsgrau. eraill. Y cwpled hwn yw’r unig engh. a restrir d.g. *bateilwr* yn GPC² 600. Ategir y trosiad *biteilwr* gan y trosiad *bwtlwr* yn yr un ll.

48 **beili ’muchod** Dilynwyd darlenniad ystyrion BL Add 14866. Ar *beili* ‘un a chanddo awdurdod gweinyddol cyhoeddus mewn ardal benodol’, gw. GPC² 616. Ceir yn y cwpled driawd o ddelweddau sydd yn gysylltiedig â swyddi. Darlenniad BL Add 14967 yw *bola meichiad* ‘bol ceidwad moch’, gw. GPC 2407. Ai’r awgrym yw bod gan y meichiad gorff blonegog fel y moch dan ei ofal, ac fel y tarw? Gellid hefyd *bwla*, *bwly* ‘tarw’, gw. *ib.* 352, ond digwydd y disgrifiad hwnnw yn ll. 57. Anodd hefyd fyddai esbonio’r cyfuniad *bwla meichiad*.

51 **am ben ceirch** Awgrymir bod ymborth y tarw rhwng ei gyrn, a cf. 12.52n. *Morfeirch a’r ceirch ar eu cyrn*.

56 **bwbachwr** ‘Un sydd yn dychrynu, bwgan’. Y ll. hon yw’r unig engh. a ddyfynnir yn GPC 351.

buches ‘Buarth godro, beudy’, gw. GPC 344. I’r 17g. y perthyn yr engh. gynharaf o’r ystyr ‘gyr, praidd’.

57–60 Nid yw’r cwpledi hyn yn nhestunau Llywelyn Siôn, nac yn Llst 118, CM 243 a Brog I.6. Y cwpled cyntaf yn unig sydd yn eisiau yn LIGC 3049D.

58 **bilain** Gellid naill ai eg. ‘taeog; dyhiryn’ neu a. ‘ysgeler, anfad’, gw. GPC 277–8.

60 Cyfatebiaeth caled a meddal $g = c$.

62 **anhuddo** ‘Rhoddi gorchudd dros, gorchuddio’ yw’r cyfystyron amlwg, gw. GPC² 298. Yma ‘llenwi’ sydd yn cyfleu’r ystyr orau.

63 Cf. 22.19 *Nid â un o’r do anael*.

64, 66 Gwelir mai’r un gyfres o gytseiniaid a atebir yn y ddwy l. hyn. O

ganlyniad ailadroddwyd dau air yn y naill l. a'r llall. Digwydd y trosiad *eurych* a'r f. *eiriach* yn llau. 64 a 66. Dewiswyd darlleniad a oedd yn sicrhau na fyddai'r trosiad na'r f. yn cael eu hailadrodd. Gthg. GDID *I erchi rhyw eurych hael ... I eiriach rhoi'r eurych rhwth.*

65 *n* wreiddgoll.

Atodiad III

Ymweliad y bardd â Rhufain a ddisgrifir yn y cywydd hwn, a hynny rhwng 1455 a 1458 pan oedd Calistus yn bab. Ychwanegodd John Davies, Mallwyd, y pennawd *Cywydd i Rufain ai Rhyfeddodau* yn Pen 100; *kywydd kraigav Ryvain* yw'r pennawd yn LIGC 21290E. Trafodir y pererindodau o Gymru i Rufain yn G. H. Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', Cy xxiii (1912), 149–244 ac yn K.K. Olson, 'Pilgrimage and travel to Rome c. 1200–c. 1530', Cylchg HC 24 (2008), 1–40. Gw. hefyd T. Roberts, 'Cywyddau pererindod', *Traethodydd*, 1944, 32–5, a G. Williams, 'Poets and pilgrims in 15th- and 16th-century Wales', THSC, 1991, 69–98. Ar brofiad y pererinion yn Rhufain, gw. D.J. Birch, *Pilgrimage to Rome in the Middle Ages* (Woodbridge, 2000), penodau 4–5. Canodd sawl bardd i noddwyr a aeth ar bererindod. Hiraethu am Ddafydd ap Siôn a aethai i Rufain a wna Lewys Glyn Cothi mewn awdl (GLGC cerdd 98) ac felly Lewys Trefnant mewn cywydd i Rys ap Dafydd Llwyd, gw. G. H. Jones, *art.cit.* 226–8, ac y mae'r disgrifiad o'r ddinas o'r herwydd yn fwy arwyn-ebol. Yn y cywydd hwn disgrifir y creiriau a welwyd a'r eglwysi yr ymwelwyd â hwy, ac y mae'r cywydd yn debycach i'r cywydd a ganodd Huw Cae Llwyd wedi iddo yntau deithio i Rufain yn y flwyddyn 1475.

Byddai'r pererinion yn awyddus i ymweld â saith o eglwysi pwysicaf y ddinas (a gw. y llun sydd gyferbyn â G.H. Jones, *art.cit.* 187), sef eglwys Pedr, San Giovanni in Laterano, Santa Maria Maggiore, San Paulo fuori le mura, San Lorenzo, San Croce in Gerusalemme a San Sebastiano. Enwir y saith mewn darn sydd yn disgrifio eglwysi Rhufain a'r maddeuant sydd i'w ennill o ymweld â hwy yn Pen 27 ii, 60–5, ond i eglwys Ieuan y rhoddir y flaenoriaeth: *y gynta yw eglwys jenn evengylwr yr hwinn y sydd benn yr holl vyd ac yno y may esdeddva ac eglwys bedr ac eglwys bawl ac eglwys vair ac eglwys lorens allan or gayr ac eglwys y groc ynghayr selem ac eglwys saint a verthyrwyd fabian a sabiastiani ... pe gwypai ddynion y maddevaint y sydd yn eglwys jenn nidentwy i vedd krist nac i sain siam.* Y mae'n amlwg fod Huw Cae Llwyd wedi ymweld â phob un, er mai anhrefnus braidd yw'r cyfeiriadau atynt yn ei gywydd, fel y sylwodd T. Roberts, *art.cit.* 37, gw. HCLl cerdd XXIX a'r nodiadau yn G.H. Jones, *art.cit.* 165–7. Ymddengys fod awdur y cywydd hwn hefyd wedi ymweld â'r un mangreoedd, ond y mae'r cyfeiriadau yn fwy trefnus y tro hwn. Y mae lle i gredu hefyd fod y daith o un eglwys i'r llall wedi bod yn gylch gofalus. Dechreuwyd yn

eglwys Pedr cyn mynd ymlaen i eglwysi Pawl, Sebastian, Ieuan, Elen a Lawrens, a gorffen yn eglwys y Forwyn Fair yn Santa Maria Maggiore. Yn eglwys Pedr y dechreuodd taith Huw Cae Llwyd yntau.

Y mae'r cywydd hwn wrth enw Hywel Dafï a Llywelyn ap Hywel ab Ieuan ap Gronw, ac nid oes modd gwybod i bwy y dylid ei briodoli, a gw. ymhellach 'Cerddi Ansic' td. 53. Yr ystyriaethau allanol o blaid Hywel Dafï yw'r cywydd a ganodd pan aeth ar bererindod i Santiago, gw. cerdd 94, a'r cywydd sydd fel petai'n cofnodi'r bwriad i deithio i Enlli, gw. cerdd 93. Cynullwyd y cywydd gyda gwaith Llywelyn ap Hywel yn Glam Bards cerdd LXXIV a cheir testun yn *Llen Cymru*, gol. T.G. Jones (Caernarfon, 1922), 38–40; G.H. Jones, *art.cit.* 186–8. Fe'i golygwyd yn Ieuan Gethin, &c.: Gw cerdd 12, ond heb nodi y gall mai Hywel Dafï a'i canodd. Y mae ambell ddarlleniad unigryw yn y dosbarth o lawysgrifau sydd yn rhoi'r cywydd i Hywel Dafï. Y peth mwyaf dadlennol yw'r cwpled sydd yn enwi'r pab Calistus. Dywedir iddo fendithio'r pererinion, a'r bardd yn eu plith, a rhaid dyddio'r cywydd felly i'r blynyddoedd 1455–8. Bernir bod y cwpled hwn yn un dilys er nas ceir yn y copïau wrth enw Llywelyn ap Hywel, ac fe'i hymgorfforwyd yn y golygiad. O ran trefn y mae'r copïau wrth enw'r ddau fardd yn cyfateb yn union hyd at yr adran olaf. Ymddengys mai Llŷt 6 a'r llawysgrifau sydd yn enwi Llywelyn ap Hywel a ddiogelodd y drefn orau ac fe'u dilynwyd hwy ond gan ymgorffori'r cwpled ychwanegol sydd yn enwi Calistus. Ni chofnodwyd amrywiadau pum testun diweddar. Y mae BL Add 13014, BL Add 14876 a LIGC 841E yn priodoli'r cywydd i Hywel Dafï ac yn dilyn trefn y testunau sydd wrth ei enw. I Lywelyn ap Hywel y priodolir y cywydd yn J.R. Hughes 5 a LIGC 2010B, a dilynir trefn Llŷt 6 &c.

Cymhellwyd David Ellis i ychwanegu'r nodyn a ganlyn ar ddiwedd y ddau gopi a wnaeth o'r cywydd, y naill yn Abertawe 1 a'r llall yn Pen 197. *Gresyn fod y Bardd celfyddgar hwn yn un o deulu Annwfn, neu Ddisgyblion y Pab, oni bai hynny, ni buasai n addurno cymmaint o Goel-grefydd a Chelwydd a r cyfryw hardd wisg odidog ag ydyw r Cywydd uchod.* Daeth Abertawe 1 i feddiant Iolo Morganwg a ychwanegodd yn ei dro *Clod a moliant i r Bardd am hyn o hanes Rhufain ai chrefftwriaeth offeiriadol yn yr oes honno.*

Cynghanedd: croes 40 ll. (49%), traws 20 ll. (24%), sain 10 ll. (12%), llusg 12 ll. (15%)

1–2 Ni ddiogelwyd y cywydd yn llaw John Jones, Gellilyfdy, ond cofnododd y cwpled cyntaf yn ei fynegai yn Pen 221, 150: *Rrown dref a nef yn vn wedd / Rryfain a phethav rryfedd.*

rhown Dyma'r gair sydd yn sicrhau cymeriad llythrennol a digwydd yn Pen 100 ac yn Llŷt 6, ond *cawn* yw'r gair cyntaf yn y llsgrau. eraill sydd yn rhoi'r cywydd i Lywelyn ap Hywel. O blaid *cawn* sylwer mai'r un f. sy'n cael ei harfer yn y ll. olaf, ond nid yw cyrch-gymeriad rhwng

dechrau cywydd a'i ddiwedd yn addurn cyffredin.

- 4 **y tair ffynnon** Y tri lle yr eid ar bererindod iddynt, sef Caersalem, Santiago a Rhufain, a cf. GLGC 234.23–6 *Tair ffynnon gwynion eu gwedd / draw a geir i'r drugaredd: / y bedd a Sain Siâm drwy'r byd, / a Rhufain a geir hefyd*. Cf. Lewys Trefnant *un o dair ffynnon nef*, gw. G.H. Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', Cy xxiii (1912), 226; GLMorg 22.39 *A phinygl tair ffynnon*.
- 6 **Pedr** Tystir i'r cyswllt rhwng Pedr a Rhufain o gyfnod cynnar er na cheir ateg i hyn yn y Testament Newydd, gw. ODCC³ 1260–1. Bernir iddo gael ei gladdu o dan yr allor yn eglwys Pedr yn Rhufain, gw. *ib.* 1443.
- 7–8 **saith ugain allor / ... ac wyth** Cf. HCLI XXIX.39–40 *Awn o'r cwrt yno i'r côr, / Y cynhullwyd can hallor*.
- 10 **fernagl** 'Llun wyneb Crist (yn ôl y traddodiad) a arhosodd ar y lliain neu'r cadach a roes y Santes Veronica iddo i sychu'r chwys oddi ar ei wyneb ar y ffordd i Galfaria', gw. GPC 1269; ODCC³ 1688–9; NCE 14, 625. Cyfeirir ato mewn cywydd o waith Syr Siôn Leiaf, gw. *Llen Cymru*, gol. T.G. Jones (Caernarfon, 1922), 33–3; GLMorg 9.40n a'r cyfeiriadau eraill yn G.H. Jones, *art.cit.* 183–4. Yn eglwys Pedr y cedwid y crair hwn.
- 11 **lliw 'Nuw** Dyma engh. ddigamsyniol o *Duw* yn gyfystyr â *Crist*. Gw. ymhellach sylwadau M.P. Bryant-Quinn ar y modd y gallai'r gair *Crog* gynrychioli *Crist* yn 'Addoli'r Grog', LICy 35 (2012), 171–7.
- 13 **eglwys Bawl** San Paulo fuori le mura. Adeiladwyd yr eglwys ar y safle lle y merthyrwyd yr Apostol Pawl, gw. ODCC³ 1234–8, 1443.
- 15 **Ffabian** Rhwng 1700–21 pan oedd Clement XI yn bab y symudwyd gweddillion Ffabian i eglwys Sebastian, ond y mae'n amlwg ei fod yn cael ei goffâu yno ynghynt, gw. y nodyn brig, a hynny'n rhannol am y dethlid gŵyl y ddau sant ar 20 Ionawr, gw. RWM i, 1014 a'r rhestr o wyliau'r saint sydd yn Pen 187.
- Sebastianus** Fel cynifer o eglwysi eraill yn Rhufain adeiladwyd eglwys Sebastian ar safle claddgell y merthyr y tu draw i furiau'r ddinas, gw. 71.59n. Claddwyd Pedr a Phawl dros dro ger yr un safle a denid pererinion i'r eglwys o ganlyniad, gw. D.J. Birch, *Pilgrimage to Rome in the Middle Ages* (Woodbridge, 2000), 29, 109. Gall mai cyfeiriad at hynny sydd yn llau. 17–20.
- 21 **ôl yn y maen** Ôl troed Crist mewn maen a ddiogelid yn eglwys Sebastian.
- 24 **eglwys Ieuan** San Giovanni in Laterano. A barnu wrth y sylw a roddir i'r eglwys hon yn y cywydd, dyma uchafbwynt yr ymweliad â Rhufain. Eglwys Ieuan oedd cadeirlan Rhufain, ac yma y cartrefai'r pab. Er bod

cael troedio'r tir a bod yn agos at y fan lle y claddwyd sant neu ferthyr yn bwysig i'r pererinion, chwenychent weld eu creiriau hefyd, a chan fod cynifer yn eglwys Ieuan denid pererinion yno o bell ac agos. Diogelid llawer o'r rhain yng nghapel Lawrens, sef capel preifat y pab. Ni chài'r pererinion weld corff Pedr yn eglwys Pedr, ond caent weld ei ben ef a phen Pawl yn eglwys Ieuan (llau. 25–6). Yma hefyd yr oedd delw o Grist a wnaeth Luc â chymorth angel, dillad Mair Forwyn a Ioan Fedyddiwr, rhan o'r goron ddrain, a ffon Aron (ll. 29). Yma hefyd yr oedd y grisiau sanctaidd a ddaeth o lys Peilad (llau. 35–6). Yn ôl traddodiad y santes Helena a ddaeth â'r rhain i Rufain. Ar bwysigrwydd yr eglwys hon a'r ymgiprys am oruchafiaeth rhyngddi ac eglwys Pedr, gw. D.J. Birch, *op.cit.* 111–15. Rhestrir rhai o'r rhyfeddodau yn Pen 27: *ac yn yr vn eglwys ymay allor jenn yr honna gavas yn yr ynialwch [.] ar honno i kanodd efferen yn wir [.] yno i may ysgrin or hen desment [.] yr vn vort honn y swperodd yn arglwydd ni iesu grist gidai xii nisgibl [.] yn yr vn lle i may gwialen moysen ac aron a hynn oll a ddv[] teitvs vasbysianvs o gayr selem gida ffedwar piler pre[] yrrai y sydd ynghylch yr allor vawr [.] ar yr un allor honno y may penne y saint ebystl pedr a ffawl.*

- 29 **gwialen gall** Cf. HCL1 XXIX.21–2 *Da yw gweled gwialen / A drôï'n had o Aaron hen.*
- 30 **y Porth Aur** Un o'r mynedfeydd i eglwys Pedr yn Rhufain a adwaenid hefyd wrth yr enw Porta Sancta, y Porth Sanctaidd. Cedwid y drws hwn ynghlo ond fe'i hagorid bob chwarter canrif, gw. G.H. Jones, *art.cit.* 224; K.K. Olson, 'Pilgrimage and travel to Rome c. 1200–c. 1530', *Cylchg HC 24* (2008), 31. Ond yr oedd Porth Aur neu Borth Sanctaidd yn y pedair prif eglwys yn Rhufain, sef eglwysi Pedr, Pawl, Mair Forwyn ac Ieuan. Yn un o'i gywyddau serch cyffelyba Ieuan Deulwyn wallt ei gariadferch i'r Porth Euraid, gw. ID VII.13–14 *a gwallt y vun gun a gaid / perth aur val y porth eurraid.*
- 36 **Peilad** Pontius Peilat, y rheolwr ar Jwdea pan groeshoeliwyd Crist, gw. ODCC³ 1287. Adroddir peth ar ei hanes, a hanes ei farwolaeth yn benodol, yn y testun rhyddiaith 'Hanes Pontius Pilatus' a ddiogelwyd mewn tair llsgr. o'r 14g., sef Pen 5, Pen 7 a Llst 27, gw. HMSS 267–71 ac M. Richards, 'Ystoria Bilatus', B ix (1937–9), 42–7 lle y cywirwyd llithriadau HMSS.
- 37 **y ddau biler** Cyfeiria Mathew, Marc ac Ioan at fflangellu Crist cyn ei groeshoelio. Yr oedd y piler hwn y credid ddarfod rhwymo Crist wrtho yn un o'r creiriau a ddygodd y Santes Helena yn ôl i Rufain.
- 41 **cwpla'** Gradd eith. yr a. *cwbl* 'cyflawn, perffaith', gw. GPC 634. Dilynwyd Pen 100; ffurfiau'r f. *cwpláu* sydd yn y llsgrau. sydd yn rhoi'r cywydd i Lywelyn ap Hywel.
- 43 **Eglwys ... y Grog** San Croce in Gerusalemme. Codwyd yr eglwys yn

- wreiddiol i fod yn gartref i'r creiriau a ddiogelodd y Santes Helena, mam yr ymerawdwr Cystennin. Dywedir iddi fynd ar bererindod i'r Tir Sanctaidd lle y darganfu'r Wir Grog, gw. ODCC³ 748. Arwyddocâd yr enw yw mai ar bridd a gludodd Helena o Gaersalem y codwyd yr eglwys. Ei chrair pwysicaf oedd darn o'r groes y croeshoeliwyd Crist arni. Cf. HCLI XXIX.69–70 *Caer y sydd i'm cares wen, / Caerysalem, croes Elen*.
- 45 **capel Elen** Gw. ll. 43n. Fe'i huniaethwyd yn y traddodiad Cymraeg ag Elen Luyddog, ac arni gw. 17.24n, 19.40n, 58.47n. Ond bu cymysgu hefyd rhwng Elen Luyddog ac Elen ferch Coel, gw. Atod.VI.6n.
- 46 **y drain byw** Gwelodd Huw Cae Llwyd yn yr eglwys *Naw draen a fu'n Ei drinoedd, / Ysbiniis a'r ysbwns oedd*, gw. HCLI XXIX.75–6.
- 48–50 **Eglwys ... / ... / ... Saint Lawres** San Lorenzo. Y mae safle'r eglwys hon yn coffâu merthyrdod Lawres yn y flwyddyn 258. Fe'i lladdwyd trwy ei rostio yn ôl traddodiad; ar *Y llech rudd o'r llewych wres* yn ôl y bardd. Yn yr eglwys hon hefyd y claddwyd Steffan, y merthyr cyntaf.
- 49 Y mae'r ll. hon yn eisiau yn BL Add 13014 ac nid oes bwlch yn y llsg.
- 50 Cyfatebiaeth $d = (n)t$. Am enghrau. eraill, gw. 4.55n.
- 53 **y seithfed** Santa Maria Maggiore. Dyma'r eglwys olaf yn y gylchdaith a aeth â'r bardd i saith o brif eglwysi Rhufain, ond gall fod yma gyfeiriad at saith o eglwysi a gysegrwyd i Fair. Cysegrwyd chwe eglwys ar hugain iddi i gyd, ond Santa Maria Maggiore oedd y bwysicaf.
- 55–6 **ei delw ... / A wnaeth Lug** Gthg. Pen 100 y *ddehw*. A barnu wrth y testun hwn darlun o Dduw (sef Crist) ym mreichiau ei fam a welodd y bardd, ond un o'r creiriau pwysicaf yn eglwys Fair oedd y darlun o'r Forwyn yr honnir i'r Apostol Luc ei lunio. Credid bod darlun o Grist a wnaeth Luc â chymorth angel yn eglwys Ieuan hefyd. Ar y traddodiad hwn, gw. C.E. Byfield and M. Bayless, '*Y Gorcheston: the Welsh Loca Monachorum* texts, translations and commentary', SC xxx (1996), 197–222: *Pwy a wnaeth delw gynta erioed? Lywyk, ib.* 216.
- 57 Gadawyd bwlch yn Pen 100—awgrym fod y ffynhonnell yn ddiffygiol. Diau mai David Ellis ei hun a luniodd y ll. sydd yn Abertawe 1 a Pen 197.
- 58 **merthyri** Nid ffurf l. *merthyr* ond eg. 'merthyrdod, dioddefaint', gw. GPC 2436.
- 59–60 Ni cheir y cwpled hwn yn y grŵp o lsgrau. sydd yn rhoi'r cywydd i Lywelyn ap Hywel.
- 59 **y pum harcholl** Yn ôl traddodiad cafodd Grugor Sant weledigaeth o Grist yn arddangos ei glwyfau yn eglwys San Croce, a daeth gweddiâu a oedd yn gysylltiedig â hwy yn hynod o boblogaidd, gw. E. Duffy, *The Stripping of the Altars* (Yale, 1992), 238–48; hefyd 102.2n d.g. *arfau*.

- Ceir trawiad tebyg yn GGLI 18.50 *Amherchi dy bum harcholl*. Ar yr arfer o gyfeirio at bum clwyf yn hytrach na thri chlwyf Crist, gw. GLMorg 103.79n. Ar yr anadliad caled, cf. y ll. uchod o eiddo Gruffudd Llwyd a Treigladau 137. Gw. hefyd R.G. Roberts, 'Rhai o hanfodion gramadeg y rhifolion mewn Cymraeg Canol Cynnar', *Dwned*, 12 (2012), 39.
- 60 Gellid gofyniad 'A oes neb a wŷr ...?' neu ddatganiad 'Y mae pawb sydd yn fyw yn gwybod ...'.
- sercl** 'Cylch, sffêr, ?cromen; cylchdaith', gw. GPC 3227. Gallai gyfeirio at ffurf gromennog adeiladau megis eglwys San Pedr a'r Pantheon (a gysegrwyd i Fair), ond tebyg mai'r gylchdaith a oedd yn cynnwys y saith eglwys sydd dan sylw, a dioddefaint y saint a'r merthyron a goffeid ym mhob lleoliad.
- 61–2 Dyfynnir y cwpld yn *Cywyddau Cymru*, gol. A. Hughes (Bangor, 1926), cerdd CXVII, a'i roi i Hywel Dafydd. Ymddengys mai un o lsgrau. David Ellis oedd ei ffynhonnell.
- 65 **wrth rif** Y mae'n bosibl fod *rif* Pen 100 yn llwgr am fod y gair yn digwydd yn y ll. flaenorol, ond anodd cynnig diwygiad boddhaol. Cynigir bod *rhif* yn gyfystyr â 'parch, bri, anrhydedd, clod' yma. Y mae'n cynganeddu ag *athrywyn* 'cymod, cyfryngiad, heddychiad', gw. GPC² 534, er bod *f* led-lafarog o dan yr acen. Y mae'r gair hwnnw yn ei dro yn rhagori ar *eithr ar hwn* Llst 6 a'r llsgrau. cyfatebol. Trawsnewidiwyd yr odlau acennog a diacen yn y cwpld yn Llst 6. Gellir bod yn bur sicr fod *maddayaint dyw maddaywn* yn ail fraich y cwpld yn llwgr.
- 66 **meddiant** Yr ystyrion 'grym, gallu, awdurdod, braint' sydd yn taro orau yma, gw. GPC 2398.
- maddeuant** Digwydd y ffurf amr. *maddeuaint* yn 93.80, 96.81, yn safle'r brifodl ac yn odli â *saint*.
- 68 **bob ddau** Ar y treigladd wrth gyfleu'r ystyr 'fesul dau', gw. 28.27n.
- 69 **rhus** Grym ansoddeiriol sydd iddo yma, gw. GPC 3105.
- Y gair gwan *rhag* sydd yn safle'r orffwysfa. Gw. ymhellach 1.23n a 'Cynghanedd' tt. 42–3.
- 70 **Calistus** Alfonso de Borja a ddewiswyd yn bab ar 8 Ebrill 1455 ac a wasanaethodd hyd ei farw ar 6 Awst 1458 dan yr enw Calistus III, gw. NCE 2, 1081–2. Ei lafur pwysicaf oedd ceisio perswadio brenhinoedd Ewrop i ymuno â chroesgad yn erbyn y Twrciaid yng Nghaergystennin. Enwir y pab Sixtus yn y cywydd a ganodd Hywel Rheinallt i Siôn Coetmor pan aeth ef i Rufain, gw. T. Roberts, 'Cywyddau pererindod', *Traethodydd*, 1944, 35–6, ac enwir Nicolas bab yng nghywydd Robin Ddu, gw. G.H. Jones, *art.cit.* 225.
- 80 **trafael** Fe'i dosbarthwyd yn yr eirfa o dan *trafael* 'taith' am fod hyd y

siwrnai i Rufain yn cael ei phwysleisio yn y cwpled cynt, ond y mae blas y gair *trafael* 'caledwaith' yma hefyd, fel yn 78.44n.

Atodiad IV

Bu'r cywydd hwn i Fair yn bur boblogaidd ac fe'i diogelwyd mewn 37 ffynhonnell, saith ohonynt wedi eu copïo cyn diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg. Cynnwys nifer o'r llawysgrifau ddeunydd reciwsantaidd. Cymhellwyd rhywun i ychwanegu ar ôl enw'r bardd yn BL Add 14965 *Hen Bappist yttoedd chwi welwch*. Ei bennawd yn BL Add 14984 yw *Cowydd i fair yn dangos y modd i cenhedlwyd Iesu Grist a rhai or gwrthie a wnaeth ef*. Fe'i priodolir i bum bardd er mai Hywel Dafï a Gwilym ab Ieuan Hen yw'r ddau y mae'n rhaid eu hystyried o ddifrif, gw. 'Cerddi Ansic' tt. 55–6. Er bod cytundeb cyffredinol rhwng yr holl destunau y mae gwahaniaethau o ran trefn a darlleniadau, ac y mae'r gwahaniaethau hynny'n gysylltiedig â'r priodoli. Y mae'r cywydd yn gyfan yn y llawysgrifau sydd yn ei roi i Hywel Dafï ac i Ruffudd ab yr Ynad Coch. Y mae tri chwpled yn eisiau yn y testunau sydd wrth enw Gwilym ab Ieuan Hen ar y llaw arall. Mewn un lle y ceir amrywio o ran trefn y cwpledi, sef yr adran lle y disgrifir rhai o wyrthiau Crist. Bernir mai'r testunau wrth enw Gwilym ab Ieuan Hen a ddiogelodd y drefn orau am fod y ddau gwpled sydd yn disgrifio'r wyrth 'Troï'r dŵr yn win' yn cael eu hollti yn y testunau sydd wrth enw Hywel Dafï (llau. 53–6). Dilynir y drefn 'gywir' yn y testunau sydd wrth enw Gruffudd ab yr Ynad Coch hefyd. Y mae Chirk Castle A5, yr unig ffynhonnell sydd yn enwi Lewys ab Ieuan Hen, yn dilyn yr un drefn â'r testunau sydd yn enwi Gwilym ab Ieuan Hen. Gwelir bod rhai darlleniadau unigryw yn y testunau sydd wrth enw Hywel Dafï, Gwilym ab Ieuan Hen a Gruffudd ab yr Ynad Coch.

Er mai Hywel Dafï sydd yn cael ei enwi yn BL Add 14906 dilynir testunau Gwilym ab Ieuan Hen o ran trefn y gwrthiau. At hyn collwyd un cwpled a gollwyd yn nhestunau Gwilym ab Ieuan Hen hefyd. Ar y llaw arall er mai Gwilym ab Ieuan Hen a enwir yn Pen 312 y mae'r cywydd yn gyfan, a dilynir trefn y testunau sydd yn enwi Gruffudd ab yr Ynad Coch.

Diogelwyd dau gopi yn llaw Gwilym Puw, yn LIGC 4710B a LIGC 13167B, ac i Hywel Dafï y rhoddir y cywydd yn y naill a'r llall. Dilynir trefn Llŷt 6 yn LIGC 13167B, ond y mae trefn unigryw yn LIGC 4710B ac efallai fod y sylw ar y diwedd *Fo'i Atgyweiriodd Gwilym Pue* yn cyfrif am hyn. Tebyg mai'r copiwr ei hun a luniodd y cwpled hwn sydd yn dilyn llinell 34 ac nas gwelir yn yr un ffynhonnell arall: *a llawenudd llwyr fudd llonn / hoff gwel ag huffel galon*.

Cyhoeddwyd y cywydd yn GDID At. B3, ar ddiwedd gwaith Gwilym ab Ieuan Hen ond ni nodir i ba feirdd eraill y'i priodolir ac ni thrafodir yr awduraeth. Yn arwyddocaol, seiliwyd y golygiad ar drefn a darlleniadau'r

llawysgrifau sydd yn rhoi'r cywydd i Hywel Dafî. Y mae'r cywydd yn gyflawn yn y rhain, fel y nodwyd uchod (y mae tri chwpled yn eisiau yn y testunau sydd yn enwi Gwilym ab Ieuan Hen) ond y testunau sydd yn enwi Gwilym ab Ieuan Hen a ddiogelodd y drefn gywir yn yr adran 'Gwyrthiau Crist', serch hynny. Awgryma hyn mai'r testunau sydd yn enwi Hywel Dafî yw'r rhai gorau ac ensynnir ymhellach mai iddo ef y dylid priodoli'r cywydd yn hytrach nag i Wilym ab Ieuan Hen.

Anodd yw cynnig ateb pendant. Enwir y ddau fardd mewn testunau a gopiwyd yn gynnar yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Canodd Hywel Dafî sawl cywydd crefyddol, a sawl cywydd i Fair, ond ni ddiogelwyd yr un cywydd crefyddol dilys wrth enw Gwilym ab Ieuan Hen. Nodir isod ddsbarthiad y cynganeddion yng ngwaith Gwilym ab Ieuan Hen ac yn y cywydd dan sylw:

Gwilym ab Ieuan Hen: croes 39%, traws 30%, sain 25%, llusg 6% (gw. GDID xxiv)

Atodiad IV: croes 38 ll. (53%), croes o gyswllt 1 ll. (1%), traws 14 ll. (19%), sain 12 ll. (17%), llusg 7 ll. (10%)

Awgryma'r dosbarthiad cyffredinol nad Gwilym ab Ieuan Hen a ganodd y cywydd hwn. At hyn, gwelir bod yma un gynghanedd groes o gyswllt. Nododd A.E. Davies, 'Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen' (M.A. Cymru [Abertawe], 1979), xxi, mai prin iawn yw'r cynganeddion hyn yng ngwaith y bardd. Ar y llaw arall ni welwyd yng ngwaith Hywel Dafî enghraifft arall o gynghanedd lusg sydd yn ddbynol ar odl lafar, gw. llinell 39 *Amlwg fu wyrthie'r seren*.

1–2 Cofnodwyd y cwpled cyntaf yn Pen 221, 16: *y vorwyn a fv aravl / eglvr haf a golav yr havl*. Yn unol â'r arfer yn y llsgr. ni nodir enw'r bardd.

3 **digardd** Y gair amlwg mewn cywydd i Fair Forwyn yw *gwerydd* 'morwyn, gwry', gw. GPC 1649, a digwydd hwn ynghyd â *gwrydd*, *gwyrff*; esbonia hefyd y ffurfiau llwgr *gwraidd*, *gwyrdd* a *gowyrdd*! Ond y mae'n amlwg fod y gair wedi achosi trafferthion i'r copïwyr; *gwyrdd* sydd gan Lywelyn Siôn, ffurf amr. o bosibl ar *cwyrdd*, gw. *ib.* 1781. Dewiswyd y gair anos *digardd* a gofnodwyd yn BL Add 14965 yn unig. Rhoddir iddo'r ystyron 'di-nam, di-warth', gw. GPC 996, a cf. GC 10.17 *Cain firain forwyn ddibech* ('Englynion i Fair'); GGMD ii, 11.1 *Llariaidd Fair gywair, dygywyd—riain* ('Awdl i Fair'). Darlleniad GDID yw *gwerydd* ond ni nodir y ffurf hon yn amr. ar *gwerydd*, *gwry*, gw. GPC 1649, 1787.

4 **gwydr** 'Person sy'n adlewyrchiad perffaith o ryw rinwedd, patrwm delfrydol', gw. GPC 1751.

5–6 Anodd pennu'r darlleniad gorau ar gyfer y cwpled hwn am fod cryn amrywio rhwng y llsgrau. Ymddengys fod rhaid dewis rhwng *Dy lun*,

diau oleuni, a *Diau lun dy oleuni* yn ll. 5, ond *dilyn* yn hytrach na *dy lun* yw'r gair cyntaf yn Llŷt 6 ac mewn sawl ffynhonnell arall. Y mae'n demtasiwn mabwysiadu darlleniad unigryw Card 2.26 *Dilyniad dy oleuni* ond nid yw hwn yn asio cystal wrth ail fraich y cwpled.

Yn yr ail fraich cynganeddir y geiriau *llyfr* / *lloer* / *llafur* / *llafar*, a digwydd *llyfr* yn y rhan fwyaf o'r llsgrau., naill ai yn rhan gyntaf y ll. neu'r ail. Nid yw'r gair yn ystyrion iawn. Dyfelir mai llygriad o *lleufer* 'golau, goleuni, llewyrch', gw. GPC 2167–8, sydd yma. Ni nodir y ffurf yn yr un llsgr., ond *liver* Pen 181 sydd agosaf ati. Nodir yr amr. hwn ar *lleufer* ond i'r 18g. y perthyn yr engh. gynharaf. Bernir bod y ll. ar ei hyd yn dwyn i gof enw Mair fel *Regina Coeli* 'Arglwyddes y Nefoedd', yr enw ar ddefosiwn i'r Forwyn a ddatgenid rhwng y Pasg a'r Sulgwyn ac a oedd yn dyddio o'r 12g., gw. ODCC³ 1376. Cf. GHS 21.33–4 *Brenhines o lwyth Siesu* / *Yn un fraint yn y nef fry*. Dewiswyd *llafar* i gynganeddu â *lleufer* er bod wyth sillaf yn y ll. o ganlyniad. Byddai *lloer* yn rhoi saith sillaf ond wedyn rhaid fyddai derbyn tri gair tebyg iawn eu hystyr yn y cwpled, sef *goleuni*, *lleufer*, *lloer*. Rhoddir i *llafar* yr ystyron 'lleferydd, parabl; mynegiant (mewn geiriau); ymadrodd', gw. GPC 2084–5, ond yma, diau, yn ffig. am 'clod, moliant'.

8 **tywyllwg** Ffurf amr. ar *tywyllwch*, gw. GPC 3687. Mabwysiadwyd *tywyllwch* yn GDID er mai yn LIGC 10893E yn unig y'i cofnodwyd.

9 **arfall** Dyfynnir y cwpled yn GPC² 447. 'Addewid, cyfamod' yw ystyron arferol *arfall*, ond cynigir yn betrus yr ystyr 'beichiogiad' hefyd. Gwedda'r ddwy ystyr yma.

11–14 Cyffredin oedd cyfeirio at Fair a'i disgrifio yn ferch i'w mab, cf. 97.19–20n a gw. A. Breeze, 'The Virgin Mary, daughter of her son', *Études* xxvii (1990), 267–83. Cf. GPhE 11.17–20 *Dwyn ei mab*, *Dawn y meibion*, / *A dwyn ei Thad a wnaeth hon*; / *Merch orau, mawr ei chariad*, / *Mamaeth oedd, a mam ei Thad*. Holltwyd y ddau gwpled a'u rhoi mewn dau baragraff gwahanol yn GDID.

12 **tadaeth** Ni ddiogelwyd y cwpled hwn yn y llsgrau. sydd yn rhoi'r cywydd i Wilym ab Ieuan Hen, ac eithrio LIGC 435B. Nid oes cysondeb yn ail ran y ll., a cheir y darlleniadau *da iaith*, *da daith*, *da doeth*, *da odiaeth*. Am fod *mamaeth* yn digwydd yn y cwpled nesaf, mentrwyd mabwysiadu *tadaeth* yma. Fodd bynnag, yn ôl GPC 3408, gair a fathwyd gan William Owen-Pughe yw hwn. Gellid *tadmaeth* 'dyn sydd yn meithrin neu'n magu plentyn rhywun arall, ac yn ffig.' gw. *ib.* 3408, ond rhoddai hyn l. ac ynddi *m* berfeddgoll.

16 **chwegair** Cyfarchiad yr Archangel Gabriel, sef *Ave Maria*, *gratia plena*, *Dominus tecum*. Mydryddir y cyfarchiad mewn awdl i Grist a Mair o waith Gruffudd Fychan ap Gruffudd, gw. GSRh 12.25–52, ac mewn cywydd i Fair o waith Llawdden, gw. GLI 2.15–24.

- 19 **addef** Y f. ‘arddel, cyffesu’ sydd yn gweddu orau yma ac yn ll. 35 yn hytrach na’r enw ‘trigfan, annedd’, gw. GPC 206, 609.
- 21 **damunus** O’r cywydd hwn y daw’r unig engh. a ddyfynnir yn GPC 1140, ond y mae cyfran dda o’r llsgrau. o’i blaid, gan gynnwys Llst 6 a Pen 181.
- 22 **teca’ ... tecum** Rhaid wrth y ffurfiau treigledig *Deca’ ... Decum* er mwyn cynnal y cymeriad llythrennol ar ddechrau’r cwpled, ond nid yw’r cymeriad yn amlwg yn y cywydd. Digwydd y ddwy ffurf gysefin mewn rhai testunau a cheir hefyd *Deca’ ... tecum*.
- 23 **husting** ‘Sibrwd, sisial’. Gall fod yn ferfenw neu yn enw, ond fe’i rhestrir dan y blaenaf yn GPC 1927.
- 27 Nid yw’r gynghanedd cyn gryfed o ddilyn darlleniad Llst 6 *Myned fal manau o des*. Digwydd *myned Duw* mewn sawl llsgr., ond er bod y darlleniad yn un atyniadol, gwelir bod *Duw* yn ail fraich y cwpled.
- 29 **yn dri** Tri pherson y Drindod, sef y Tad a’r Mab a’r Ysbryd Glân.
gwisgi lle gwasga Ymddengys fod rhaid ystyried y geiriau hyn yn sangiad er nad yw eu harwyddocâd yn gwbl amlwg. Y mae *gwasga* Card 2.26 yn rhagori ar *gwasgaf* er mai’r olaf sydd yn y rhan fwyaf o’r llsgrau. Tebyg mai cyfleu sydynrwydd treiddiad y goleuni trwy’r gwydr (gw. isod) a wna’r sangiad. Gall *gwasgu* gyfleu’r ystyron ‘ymwasgu o gwmpas, tyrru at, ymdyrru; dynesu at’, gw. GPC 1594.
- 30 **haul belydr ha’** Dyma un o’r delweddau a arferwyd wrth gyfleu’r beichiogi gwyrthiol, gw. J. Cartwright: ForF 59–65, a cf. GIRh 9.33–6 *Hoywfab Duw aeth yn hyfedr / I’th fru, Fair ddawnair ddinidr, / Mal haul wybr, bywlwybr baladr, / Drwy ffenestr weadrestr wydr*. Trafodir tarddiad y syniad gan A. Breeze, ‘The blessed Virgin and the sunbeam through glass’, *Celtica*, XXIII (1999), 19–29. Dyfynnir llau. 27–32 o’r cywydd hwn a chyfeirir at enghrau. pellach yng ngwaith Gruffudd Fychan ap Gruffudd, Iolo Goch, Gruffudd Llwyd, un bardd anh. y cyffelybir ei ganu i ganu Hywel Swardwal, ac Ieuan ap Rhydderch. Rhaid cyfrif naill ai *wydr* yn ddeusill neu *belydr* yn dair.
- 34 **doeth** Gallai gyfeirio at y Doethion, ond enwir hwy yn llau. 43–4.
daeth Nid yw’r llsgrau. yn gytûn ond ceir digon o ateg i’r sangiad *doeth hydr* ar ddechrau’r ll. Mabwysiadwyd y ffurf 3 un.grff. *daeth* yn ail ran y ll. yn hytrach na *doeth* sydd yn nifer o’r llsgrau. er mwyn osgoi adrodd *doeth ... doeth* (er bod y naill yn a. a’r llall yn ffurf ferfol).
- 35 **gwyniaith** ‘Gallu neu rinwedd gwyrthiol, grym dwyfol, gwyrrh, rhyfeddod; daioni, bendith’, gw. GPC 1776. Dilynwyd Llst 6 a Pen 181 ond y mae sawl llsgr. o blaid *gweniaith* ‘gair neu ymadrodd teg, iaith brydferth neu goeth’, gw. *ib.* 1636.
- 35–6 Ymddengys fod rhywbeth yn eisiau yn y cwpled hwn, ond y mae’r

llsgrau. oll yn bur gyfûn. Digwydd y f. *gwnaeth* ar ddechrau'r cwpled yn yr holl ffynonellau. Un dewis fyddai mabwysiadu ffurf dreigledig *cnith* 'trawiad neu gyffyrddiad ysgafn', gw. GPC 520.

37 **ail gwrth** Ar y gysefin yn dilyn y rhifol, gw. 4.5n.

y ceiliawg Diogelwyd sawl fersiwn ar y chwedl hon. Yn y gerdd S. 'The carnal and the crane', adroddir hanes y Doethion o'r dwyrain yn dilyn y seren ac yn dweud wrth Herod am eni Crist, gw. J. Sylvester, *A Garland of Christmas Carols, Ancient and Modern* (London, 1861), 22–8:

“If this be true,” King Herod said,
 “As thou tellest me,
 This roasted cock that lies in the dish
 Shall crow full fences three.”

“The cock soon freshly feathered was,
 By the work of God’s own hand,
 And then three fences crowed he,
 In the dish where he did stand.”

Yn y penillion sydd yn dilyn adroddir hanes y cynhaeaf gwyrthiol, gw. isod llau. 45–50n.

Cysylltir hanes y ceiliog â Steffan yn y gerdd 'Saint Stephen was a clerk' sydd yn perthyn i ddechrau'r 15g., gw. *ib.* 1–4. Steffan y tro hwn sydd yn datgan y newyddion wrth Herod, ac wedi i'r ceiliog ganu caiff ei labuddio:

This is all so sooth, Stephen,
 All so sooth, I wis,
 As this capon crow shall
 That lyeth here in my dish.

That word was not so soon said,
 That word in the hall,
 The capon crew, *Christus natus est*,
 Among the lordes all.

39 **gwyrthie'r seren** Y mae'r gynghanedd lusz yn mynnu'r terfyniad llafar. Ni welwyd engh. arall o hyn yng nghanu Hywel Dafi. Ni sylweddolodd pob copiwr fod rhaid wrth y ffurf lafar a chofnodwyd *gwyrthiau* mewn mwy nag un testun. Gwelwyd dyrnaid o enghrau. yng nghanu Lewys Glyn Cothi o fabwysiadu terfyniad llafar naill ai yn safle'r odl mewn cynghanedd sain neu yn safle'r brifodl, gw. GLGC 135.22 *ef aeth â'r gware, ef bie'r bêl*, 137.38 *ni wŷr chware ond â'i gledde glas*, 1.345 *Pen ieirll, pen dugiaid, pen iarlleth*—yw Duw (yn odli â *Nasreth / difeth / peth*).

42 **cyflwynaw** Y mae'r rhan fwyaf o'r llsgrau. o blaid *cyflwynaw*. Ceir *f*

- led-lafarog yn y ll. ond ni ddylid gwrthod y gair oherwydd hynny. Y mae sawl llsg., gan gynnwys BL Add 14965, o blaid *colwynaw* ‘gwneud gwaith bydwaig, gweini ar wraig wrth esgor’, gw. GPC 546, ond i ddechrau’r 17g. y perthyn yr engh. gynharaf.
- 43 **mwynior** Mabwysiadwyd y gair hwn gan ddilyn Llst 6, ond gellid *f’eurior* er bod y ffurf yn llwgr yn y rhan fwyaf o’r testunau a geisiodd ei gyfleu. Digwydd y trawiad *Melchior / eurior* yn englynion Gruffudd ap Maredudd i’r Tri Gŵr Doeth, gw. GGMD ii, 13.9 *Gwnaeth Melchior eurior, arwydd gofeg—fodd. Siassba Maelssar di far fv* a ysgrifennwyd yn gyntaf yn BL Add 14965.
- 43–4 **Siasbar, Melsior ... / Baldasar** Enwau’r tri brenin a ymwelodd â Christ, gw. ODCC³ 377, 1020. O’r dwyrain y daeth y tri yn ôl Mathew 2.1 ond yr oedd traddodiad yn eu cysylltu â Chwlen yn yr Almaen am fod eu creiriau wedi eu dwyn o Gaergystennin i’r ddinas honno yn y 12g. Adeiladwyd beddrod iddynt yng nghadeirlan y ddinas. Mydryddwyd yr hanes am eu hymweliad â Herod ac yna â’r baban Iesu yn y ddrama foes ‘Y Tri Brenin o Gwlen’ ar fesur triban, gw. CLC² 724. Nodir yn gynnil yn y ddrama mai o’r gorllewin ac o Gwlen y daeth y tri: *Edrychwch bawb ywch benn / chwi gewch weled y seren / yn wyneb y gorllewin / ar tri brenin o gwlen ... A vv yma dri brenin / o dyedd y gorllewin*, gw. G. Jones, *A Study of Three Welsh Religious Plays* (Y Bala, 1939), 128–51 (llau. 5–8, 171–2).
- 45–50 Yn ôl yr hanes, pan oedd Mair a Joseff a’r baban Iesu yn ffoi i’r Aiff, gwelwyd rhywun yn hau had ond erbyn iddynt groesi’r maes yr oedd yr yd wedi tyfu ac wedi aeddfedu. Gallai’r hëwr ddweud yn eirwir wrth weision Herod fod y tri wedi croesi’r maes pan oedd ef yn hau yr had a rhoesant y gorau i’w cyrch. Diogelwyd fersiwn cynnar o’r chwedl yn Llyfr Du Caerfyrddin, gw. HG Cref xii–xiii a cherdd VII; LIDC cerdd 12. Am gyfeiriadau eraill at hanes y cynhaeaf gwyrthiol mewn llên frodorol ac estron, gw. I. Williams, ‘Y cynhaeaf gwyrthiol’, B x (1939–41), 33–6; K. Jackson, ‘A note on the miracle of the instantaneous harvest’, *ib.* 203–7. Difethwyd y dilyniant yn GDID. Rhoddwyd y cwpled cyntaf (llau. 45–6) ar ddiwedd un paragraff a’r cwpledi nesaf yn y paragraff sydd yn dilyn.
- 46 Bai proest i’r odl. Nid oes darlleniad arall yn ymgynnig.
- 47 Y mae sawl testun o blaid *Yr ydoedd yn aredig*, a gellir mabwysiadu hwn yn hyderus er bod rhaid derbyn bod *hëwr* yn oddr. dealledig. Rhannwyd y geiriau mewn testunau eraill, gan awgrymu’r darlleniad *Yr yd oedd ...*, o bosibl o dan ddylanwad *Yn yd addfed ...* yn y cwpled nesaf yn ll. 49. Ceir bf. amhrs. yn nhestunau Llywelyn Siôn: *Yr oeddid ’n ei aredig*, a’r gwrth. *maes* yn ddealledig. Y mae’r llsgrau. oll o blaid *aredig* yn safle’r orffwysfa ond mabwysiadwyd *iredig* ‘wedi ei iro, wedi

ei eneinio', gw. GPC 2027 (engh. gynharaf 16g.), yn GDID.

51 Y mae'r ll. hon yn amrywio'n fawr yn y llsgrau. Dilynwyd Llst 6 a deallir *twm* yn fenthyciad o'r S. *tomb*, gw. GPC 3658. Darlleniad Pen 181 yw *ar doma klawsa*. Anodd deall ergyd y llinell. Pe bai modd diwygio *twm* yn *dôm* (o'r S. *dome*, engh. gynharaf 16g. yn GPC 1075), gallai'r ll. gyfeirio at y modd y temtiwyd Crist gan Satan, gw. Mathew 4.5 *Yna y cymerth diafol ef i'r ddinas sanctaidd, ac a'i gosododd ef ar binacl y deml*.

53–6 Y wyrth gyntaf y dywedir i Grist ei chyflawni, sef troi'r dŵr yn win. Gwahanwyd y ddau gwpled yn y testunau sydd wrth enw Hywel Dafï, a dilynwyd y drefn sydd yn y testunau wrth enw Gwilym ab Ieuan Hen a Gruffudd ab yr Ynad Coch, gw. y nodyn brig. Adroddir yr hanes yn Ioan 2.1–11, a dywedir mai ar gais Mair ei fam (er nad enwir hi) y gweithredodd Crist.

57–8 Gwyrth bwydo'r lluoedd o ddilynwyr â phum torth a dau bysgodyn, gw. ymhellach 79.49–50n, 81.21n. Ceir *gwenith* yn hytrach na *gwyniaith* yn ll. 52, a digwydd y ddau gwpled, llau. 51–2 a 57–8 nesaf at ei gilydd mewn sawl llsgr. er nad yr un yw eu trefn. Gellid cyplysu'r ddau a'u dehongli yng ngoleuni'r hanes am borthi'r dyrfa o ddilynwyr.

59 **egllurder** Gall gyfleu'r ystyron 'disgleirdeb; ysblander; gogoniant; enwogrwydd' yn ogystal ag 'egllurdeb', gw. GPC 1176.

59–60 Adroddir yn yr Efengylau dri hanesyn am atgyfodi'r meirw, sef Lasarus (gw. Ioan 11.1–44), merch Jairus (gw. Marc 5.21–43) a mab y weddw (gw. Luc 7.11–17).

61 **gwiw bwyth** Dilynwyd Llywelyn Siôn a LIGC 13071B sydd yn fwy ystyrion na *gwiw beth / byth* y llsgrau. eraill.

62 Gadawyd bwlch ar gyfer y ll. yn LIGC 17114B gan awgrymu bod y gynsail ysgrifenedig yn aneglur neu'n annarllenadwy.

67 **drygwaith a wneuthum** Nid yw'r odl yn y gynghanedd lusk yn rheolaidd ond ceir gan Ddafydd ap Gwilym sawl cynghanedd lusk sy'n dibynnu ar odl broest, gw. A.C. Lake, 'Rhagor am gynganeddion Dafydd ap Gwilym', LICy 31 (2008), 30–2; hefyd GMBen 2.29 *Gefail o gochl a heulrhod*.

72 **i baradwys** Mabwysiadwyd *o baradwys* yn GDID, sef darlleniad Llst 6, ond y mae'r rhan fwyaf o'r llsgrau., a'r synnwyr, o blaid *i baradwys*. Digwydd yr un ll. yng nghywydd Ieuan Deulwyn 'Ganedigaeth Crist', gw. ID LI.50.

Atodiad V

'Cywydd masweddu sydd yn perthyn i Hywel Dafí' yw hwn yn ôl GGGr 24, ond y mae ansicrwydd ynghylch y priodoli am fod tri bardd arall yn cael eu henwi, gw. 'Cerddi Ansicr' tt. 52–3, ac mewn gwirionedd y mae'r cywydd yn llawer llai masweddu na'r darnau eraill a argraffwyd yn CMOC, gw. cerdd 11. Y pennawd a roddodd Llywelyn Siôn yn Llst 134 oedd *llyma gywydd y noswaith*. Rhoddwyd y pennawd 'Rhwystrdigaeth' i'r gerdd yn CMOC ac awgrymir 'Efallai fod y gerdd hon yn disgrifio'r arfer o garu ar y gwely, lle byddai'r cariadon yn gorwedd gyda'r nos yn sgwrsio.'

Yn rhan gyntaf y cywydd (llau. 1–12) disgrifir gwynfyd y cariadon, a'u gwae pan ddaw toriad gwawr ac awr gwahanu, yn unol â chonfensiwn y wawrgan neu'r *aube*, gw. DG.net cerdd 69 a'r nodiadau yno. Yn rhan nesaf y cywydd (llau. 13–18), mynega'r bardd ei anniddigrwydd am fod rhywbeth wedi newid. Y mae'n dioddef yn null y carwr traddodiadol, a dywed y bydd cynnal oed â'i gariadferch yn ei wella a'i atgyfnerthu. Yn llinellau 19–28 dwg i gof y caru tanbaid a fu yn y gorffennol. Daw'r hyn sydd yn anniddigo'r bardd yn gliriach yn llinellau 29–46. Y mae'n amlwg fod y ferch yn mynnu bod y ddau ohonynt yn 'caru yn y gwely', hynny yw, yn cydorwedd ond yn ymatal rhag cyplu yn gorfforol (ar yr arfer, gw. C. Stevens, *Arferion Caru* (Llandysul, 1977), 47–56). Nid yw hyn wrth fodd calon y bardd. Gorffennir trwy honni bod plentyn yn cael mwy o gyfle i bechu nag ef (ll. 54).

Gellir rhannu'r ffynonellau a ddiogelodd y cywydd hwn yn bum dosbarth: i. LIGC 13072B; ii. pum copi yn llaw Llywelyn Siôn; iii. llawysgrifau I–N; iv. Pen 99 a Pen 101; v. llawysgrifau Q–S. Y mae'r cywydd yn gyfan yn y ddau ddosbarth cyntaf ac fe'i rhoddir i Hywel Dafí, ond gwelir bod rhai darlleniadau yn wahanol yn y naill ddosbarth a'r llall. Yr un yw'r drefn yn llawysgrifau I–N, ond bod dau gwpled yn eisiau (ac felly hefyd yn CM 206 a Card 5.10). I Huw Arwystl y priodolir y cywydd yn y rhain, ac eithrio'r olaf lle y cyplyswyd y cywydd wrth gywydd gwahanol o waith Tudur Aled. Dilynir yr un drefn yn Q–S sydd wrth enw Gruffudd Gryg ond collwyd hanner y llinellau. Copïau diweddar yw'r rhain ac ni chofnodwyd yr amrywiadau. I Hywel Dafí y rhoddir y cywydd yn Pen 99 a Pen 101 ond y mae'r drefn yn wahanol yma. Ceir yma un cwpled ychwanegol nas cynhwyswyd yn y golygiad. Cofnodwyd drylliau o'r cywydd yn Llst 55 yn llaw Siôn Dafydd Rhys ac fe'i priodolir i Hywel Dafí. Nid yw'r cywydd yn CM 12 er bod MCF yn rhestru'r ffynhonnell honno. Cynhwyswyd y cywydd gyda gweithiau Huw Arwystl yn Huw Arwystl: Gw cerdd CXLIV.

Er bod sawl darlleniad i'w gweld mewn mwy nag un dosbarth, nid oes patrwm o gwbl i'r cyfatebiaethau. Ystyrier y trydydd cwpled, er enghraifft, *Y dydd ysbiodd deuddyn / A'm daly wnaeth rhwng dwylaw 'nyn*. Digwydd *ysbiodd* neu ffurf gyfatebol yn LIGC 13072B, yn llawysgrifau Llywelyn Siôn ac yn Pen 99, ond a *bioedd* sydd yn llawysgrifau I–N wrth enw Huw

Arwystl. Yn ail fraich y cwpled ceir yr arddodiad *rhwng* yn LIGC 13072B, yn llawysgrifau Llywelyn Siôn ac yn I–N, ond nis ceir yn Pen 99.

Cynghanedd: croes 25 ll. (46%), traws 16 ll. (30%), sain 11 ll. (20%), llusg 2 l. (4%)

- 3 **uchedydd** Dilynwyd llsgrau. Llywelyn Siôn. Gwelir yn y ffynonellau'r ffurf hon ynghyd ag *ehedydd* ac *echedydd*, gw. GPC 1184–5 d.g. *ehedydd*.
- 5 **ysbïodd deuddyn** Disgwyliid treigladd i wrth. y f. Am engh. arall o gadw cysefin gwrth. bf. yn diweddu yn *-odd*, gw. 20.6n.
- 6 *m wreiddgoll*.
- 9 Y mae'r ll. yn wahanol yn y llsgrau. sydd wrth enw Huw Arwystl: *Ni chawn hon, mau achwyn hy, / Er ynn gael i'r un gwely*. Awgrymir na fu cyfathrach rywiol rhwng y ddau er iddynt dreulio'r nos yn yr un gwely, a cf. yr awgrym yn CMOC 62 mai disgrifio'r arfer o garu yn y gwely a wneir (ond ni fabwysiadwyd y darlleniad hwn a fyddai wedi ategu'r awgrym). Fodd bynnag, gwynfyd y cariadon yw pwnc adran gyntaf y cywydd, ac awgryma'r cwpled fel y saif fod y ferch a'r bardd ar yr un donfedd.
- 10 **cael i'r un gwely** 'Cyrraedd yr un gwely'. Ni nodir yr ymadrodd *cael i* yn GPC 386–7 d.g. *cael*.
